

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

18/03/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau](#)

[1. Questions to the Minister for Education and Skills](#)

[2. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth](#)

[2. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport](#)

[Pwynt o Drefn](#)

[Point of Order](#)

[3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Hapchwarae](#)

[3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Gambling](#)

[4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Mamolaeth a Gwasanaethau Clinigol Eraill i Fenywod yng Ngogledd Cymru](#)

[4. Welsh Conservatives Debate: Maternity and Other Women's Clinical Services in North Wales](#)

[5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Plant, Pobl Ifanc a Thlodi](#)

[5. Welsh Liberal Democrats Debate: Children, Young People and Poverty](#)

[6. Cyfnod Pleidleisio](#)

[6. Voting Time](#)

[7. Dadl Fer: Darparu Difidend Datganoli ar gyfer Cymru Gyfan](#)

[7. Short Debate: Delivering a Devolution Dividend for the Whole of Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31 **1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon is questions to the Minister for Education and Skills, and question 1 is Simon Thomas.

1. Questions to the Minister for Education and Skills

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a daw cwestiwn 1 gan Simon Thomas.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Trefn Llywodraethu Prifysgolion

University Governance Arrangements

13:31 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drefn llywodraethu prifysgolion yng Nghymru? OAQ(4)0550(ESK)

1. Will the Minister make a statement on university governance arrangements in Wales? OAQ(4)050(ESK)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Yes, of course. The governing bodies of successful institutions are characterised by strong, experienced governors, who perform an important public service. Through the Higher Education Funding Council for Wales, we are able to gain assurance on the adequacy of the higher education sector's leadership, governance and management arrangements, whilst maintaining institutional autonomy and the academic freedom of universities.

Gwnaf, wrth gwrs. Nodweddir cyrff llywodraethu sefydliadau llwyddiannus gan lywodraethwyr cryf, profiadol, sy'n cyflawni gwasanaeth cyhoeddus pwysig. Drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), rydym yn gallu cael sicrwydd ar ddigonolrwydd trefniadau arwain, llywodraethu a rheoli'r sector addysg uwch, gan gynnal ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academiaidd prifysgolion.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:31

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that reply. He will know that, this week, we've had independent research undertaken by Brighton Business School, which shows that the real-terms increase in vice-chancellors' salaries has been 59 per cent over the last 10 years, four times that of lecturers and other workers in the sector. And, last night, 'Y Byd ar Bedwar' revealed some eye-watering expense claims by senior staff. Now, it's been 10 years, Minister, since you asked HEFCW, and HEFCW last undertook this governance review, on the principles that you outlined in your reply to me, and, as a result of that, issued guidance to take into account public and stakeholder confidence in these autonomous institutions, which receive significant public funding. Is it not time for you to ask HEFCW to undertake a similar review to that done 10 years ago?

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb. Bydd yn gwybod ein bod wedi cael gwaith ymchwil annibynnol yr wythnos hon, a wnaed gan Ysgol Fusnes Brighton, sy'n dangos bod cyflogau is-gangellorion dros y 10 mlynedd diwethaf wedi cynyddu 59 y cant mewn termau real, bedair gwaith yn fy na chyflogau darlithwyr a gweithwyr eraill yn y sector. A neithiwr, datgelodd 'Y Byd ar Bedwar' rai hawliadau treuliau hynod o uchel gan staff uwch. Nawr, mae 10 mlynedd wedi bod, Weinidog, ers i chi ofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac ers i CCAUC gynnal yr adolygiad llywodraethu hwn ddiwethaf ar yr egwyddorion a amlinellwyd gennyh yn eich ateb i mi, a chyhoeddi canllawiau o ganlyniad i hynny i ystyried hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid yn y sefydliadau ymreolaethol hyn, sy'n derbyn cyllid cyhoeddus sylweddol. Onid yw'n amser i chi ofyn i CCAUC gynnal adolygiad tebyg i'r hyn a wnaed 10 mlynedd yn ôl?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:32

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I thank Simon Thomas for that question. Of course, all UK higher academic institutions are autonomous bodies, and they have responsibility for their own academic and their administrative affairs, including student complaints, and levels of pay for staff. The Welsh Government has no power to intervene with regard to the pay of senior staff in universities. These are questions for them to directly answer, with the public interest in mind. This, after all, is, in large part, public money that they are dealing with.

Wel, diolch i Simon Thomas am y cwestiwn. Wrth gwrs, mae holl sefydliadau academiaidd uwch y DU yn gyrrff ymreolaethol ac maent gyfrifol am eu datblygiad academiaidd a'u materion gweinyddol eu hunain, gan gynnwys cwynion myfyrwyr a lefelau cyflog y staff. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bŵer i ymyrryd o ran cyflogau staff uwch mewn prifysgolion. Mae'r rhain yn gwestiynau iddynt hwy eu hateb yn uniongyrchol, gyda budd y cyhoedd mewn golwg. Wedi'r cyfan, i raddau helaeth, arian cyhoeddus yw'r hyn y maent yn delio ag ef.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, the Welsh Government recently responded to the report of the National Assembly for Wales's Public Accounts Committee report on senior management pay, and, as part of that response, the Welsh Government made a commitment to monitor the senior pay of management in higher education and further education. So, therefore, I have asked HEFCW to monitor senior pay levels and awards in the HE sector, and to submit a report to the Welsh Government, on an annual basis, outlining the position for HE institutions in Wales.

Fodd bynnag, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i'r adroddiad ar adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyflogau uwch reolwyr ac fel rhan o'r ymateb hwnnw, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i fonitro cyflogau uwch-reolwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach. Felly, rwyf wedi gofyn i CCAUC fonitro lefelau a dyfarniadau cyflog uwch yn y sector addysg uwch, ac i gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn flynyddol, yn amlinellu sefyllfa sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

13:33

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you say, governance arrangements are a matter for the universities, and, perhaps, to an extent, HEFCW. However, universities do receive a considerable amount of taxpayers' money and have a statutory responsibility for widening access, to which that taxpayers' money should be applied. Are you satisfied that the spending highlighted by Simon Thomas today has not compromised appropriate spending on achieving that widening access aim?

Weinidog, fel y dywedwch, mae trefniadau llywodraethu yn fater i'r prifysgolion, ac i CCAUC hefyd i raddau, efallai. Fodd bynnag, mae prifysgolion yn cael swm sylweddol o arian trethdalwyr ac mae ganddynt gyfrifoldeb statudol i ehangu mynediad y dylid defnyddio'r arian hwn o boced y trethdalwr ar ei gyfer. A ydych yn fodlon nad yw'r gwariant a amlygodd Simon Thomas heddiw wedi cyfaddawdu gwariant priodol ar gyflawni'r nod i ehangu mynediad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:34

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Suzy Davies is quite right, of course, and we must remind everyone, that this is, in the main, public money that we are dealing with here, and the public have an interest in terms of how that money is distributed, particularly, of course, in times like these, when so many people are facing pay constraint. But I will reiterate that these are questions for these autonomous institutions to justify themselves upon.

Wel, mae Suzy Davies yn llygad ei lle, wrth gwrs, a rhaid i ni atgoffa pawb mai sôn am arian cyhoeddus a wnawn yn y fan hon i raddau helaeth, ac mae gan y cyhoedd ddiddordeb yn y modd y caiff yr arian ei ddsbarthu, yn enwedig, wrth gwrs, ar adegau fel y rhain, pan fo cymaint o bobl yn wynebu cyfyngiadau cyflog. Ond dywedaf eto mai cwestiynau i'r sefydliadau ymreolaethol hyn allu cyfiawnhau eu hunain yn eu cylch yw'r rhain.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Safonau a Chyflawniad Addysgol

Educational Standards and Achievement

13:34 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
2. A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella safonau a chyflawniad addysgol yng Nghymru? OAQ(4)0545(ESK)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

2. Will the Minister outline the Welsh Government's plans to improve educational standards and achievement in Wales? OAQ(4)0545(ESK)

13:34 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am absolutely committed to raising standards in education. I have demonstrated my commitment by putting in place a raft of measures to achieve this, and by commissioning reports that will help us provide a first-class education for all of our learners.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n gwbl ymrwymedig i godi safonau addysg. Rwyf wedi dangos fy ymrwymiad drwy sefydlu cyfres o fesurau i gyflawni hyn, a thrwy gomisiynu adroddiadau a fydd yn ein helpu i ddarparu addysg o'r radd flaenaf ar gyfer ein holl ddysgwyr.

13:34 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I thank the Minister for his answer. Minister, after-school programmes are so important to increasing standards and achievement, but we are falling behind. Children who regularly participate in extracurricular activities, be they cultural or sports based, or simply extra homework and self-supported study, do better than others. What is your policy to begin to expand the after-school activities on offer to our children and young people, so that they can get the broad and varied education, sports and cultural options that they deserve but currently lack?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Weinidog, mae rhaglenni ar ôl ysgol mor bwysig ar gyfer gwella safonau a chyflawniad, ond rydym ar ei hôl hi. Mae plant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn rheolaidd yn gwneud yn well nag eraill, boed yn weithgareddau diwylliannol neu'n seiliedig ar chwaraeon, neu'n syml, yn waith cartref ychwanegol ac astudio hunangynledig. Beth yw eich polisi ar gyfer dechrau ehangu'r gweithgareddau ar ôl ysgol sydd ar gael i'n plant a'n pobl ifanc, fel y gallant gael y dewisiadau eang ac amrywiol mewn addysg, chwaraeon a diwylliant y maent yn eu haeddu ond nad ydynt ar gael iddynt ar hyn o bryd?

13:35 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, of course, Presiding Officer, the plans are very robust, and activities like this are set to expand. In fact, my experience is that they already are. The Member will be aware of my launching the pupil offer just a couple of months ago, which, for the first time, will put support arrangements around many of the initiatives that schools might wish to undertake in terms of arts and creative activities in conjunction with the Arts Council of Wales. As well as that, of course, after-school learning, catch-up classes and revision classes form very much a feature of what many schools are undertaking in terms of their spend for the pupil deprivation grant. There are a great deal of imaginative initiatives out there, and I would encourage every headteacher to take a look at Hwb and Learning Wales to check on whether they actually are providing best practice.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Wel, wrth gwrs, Lywydd, mae'r cynlluniau yn gadarn iawn ac mae gweithgareddau fel hyn yn mynd i ehangu. Yn wir, maent eisoes yn gwneud hynny yn fy mhrofiad i. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r ffaith fy mod, ychydig fisoedd yn ôl yn unig, wedi lansio'r cynnig i ddisgyblion a fydd, am y tro cyntaf, yn rhoi trefniadau cymorth ar waith mewn perthynas â llawer o'r mentrau y gallai ysgolion eu cyflawni ym maes y celfyddydau a gweithgareddau creadigol ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru. Yn ogystal â hynny, wrth gwrs, mae dysgu ar ôl ysgol, dosbarthiadau dal i fyny a dosbarthiadau adolygu, i raddau helaeth iawn, yn nodwedd o'r hyn y mae llawer o ysgolion yn ei wneud o ran gwario'r grant amddifadedd disgyblion. Mae nifer o fentrau dychmygus i'w cael a byddwn yn annog pob pennaeth i edrych ar Hwb a Dysgu Cymru i weld a ydynt yn cyflawni arfer gorau, mewn gwirionedd.

13:36 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, standards are closely linked to the quality of teaching, and I include supply teachers in that, to ensure that pupils receive the highest quality of teaching in the classroom from whomever is standing in front of them. Now, it is important that supply teachers can access continuous professional development and be included in performance management activities. Will the Welsh Government put into place schemes to ensure that supply agencies provide appropriate performance management measures and CPD to supply teachers, particularly in light of the recent announcement of the professional learning passport that you announced this week?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae safonau'n cysylltu'n agos iawn ag ansawdd addysgu, ac rwy'n cynnwys athrawon cyflenwi yn hynny, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael addysg o'r safon uchaf yn yr ystafell ddosbarth gan y sawl sy'n sefyll o'u blaenau. Nawr, mae'n bwysig i athrawon cyflenwi allu cael mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus a'u bod yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau rheoli perfformiad. A wnaiff Llywodraeth Cymru roi cynlluniau ar waith i sicrhau bod asiantaethau cyflenwi yn darparu mesurau rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus priodol ar gyfer athrawon cyflenwi, yn enwedig yn sgil y cyhoeddiad diweddar ar y pasbort dysgu proffesiynol a gyhoeddwyd gennych yr wythnos hon?

13:36

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

David Rees raises an important point. We are somewhat caught between a rock and a hard place here in Wales, given that we do not have devolved control over teachers' pay and conditions. This impacts upon the situation regarding supply. Supply agencies are commercial organisations and, as such, the Welsh Government cannot interfere with matters relating to pay and conditions under Westminster-controlled competition law. However, the national procurement service has recently issued a new tender to the supply market. This has included a specific evaluation question on how the supplier will ensure that training and CPD is provided to their temporary workforce. The tender is currently nearing its conclusion and we will engage with the successful supplier on these issues.

With regard to CPD for supply teachers, with the General Teaching Council for Wales, soon to become the workforce council, we've now been in contact thus far with over 1,400 supply teachers who now receive a range of information regarding Welsh Government policy developments, training and development events and other relevant information for the education workforce. But, of course, a great deal more could be achieved should pay and conditions be devolved.

Mae David Rees yn crybwyll pwynt pwysig. Rydym yn dal i fod mewn sefyllfa braidd yn amhosibl yma yng Nghymru, o gofio nad oes gennym reolaeth ddatganoledig dros gyflogau ac amodau athrawon. Mae hyn yn effeithio ar y sefyllfa o ran cyflenwi. Mae asiantaethau cyflenwi yn sefydliadau masnachol ac fel y cyfryw, ni all Llywodraeth Cymru ymyrryd â materion yn ymwneud â thâl ac amodau o dan gyfraith cystadlu a reolir o San Steffan. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol wedi cyhoeddi tendr newydd i'r farchnad gyflenwi. Mae wedi cynnwys cwestiwn gwerthuso penodol ar sut y bydd y cyflenwr yn sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei ddarparu ar gyfer eu gweithlu dros dro. Ar hyn o bryd mae'r tendr yn agos at ddod i ben a byddwn yn ymgysylltu â'r cyflenwr llwyddiannus ynghylch y materion hyn.

O ran datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon cyflenwi, gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, sydd i ddod yn gyngor ar gyfer y gweithlu cyn bo hir, rydym bellach wedi cysylltu â thros 1,400 o athrawon cyflenwi sydd bellach yn cael ystod o wybodaeth am ddatblygiadau polisi, digwyddiadau hyfforddi a datblygu a gwybodaeth berthnasol arall gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gweithlu addysg. Ond wrth gwrs, gellid cyflawni llawer iawn mwy pe bai cyflog ac amodau yn cael eu datganoli.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, under Labour, Wales has fallen down the international programme for international student assessment rankings and has performed worst in all the UK nations. GCSE grades in Wales lagged behind other parts of the United Kingdom, and applications from Welsh domiciled students to Oxford and Cambridge have halved. What action will the Minister take to reverse the decline in educational standards and to stop Wales falling further behind in the global race?

Weinidog, o dan Lafur, mae safle Cymru yn y rhaglen ryngwladol asesu myfyrwyr wedi disgyn a Chymru sydd wedi perfformio waethaf o holl wledydd y DU. Roedd graddau TGAU yng Nghymru yn llusgo y tu ôl i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac mae ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n hano o Gymru am leoedd yn Rhydychen a Chaergrawnt wedi'u haneru. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu rhoi ar waith i wrthdroi'r dirywiad mewn safonau addysgol ac i atal Cymru rhag disgyn ymhellach ar ei hôl hi yn y ras fyd-eang?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I don't know about other Members, Presiding Officer, but I do get the impression sometimes that the Welsh Conservatives are hiding under a rock when it comes to developments around these issues in Wales. We are currently engaged in the biggest raft of reforms in Welsh education since 1944, and some might argue that it's an even bigger shift than happened then. In terms of GCSEs, we have seen a gap between Wales and England historically, which has closed every year for the last year and now stands at only 1.4 per cent in terms of GCSE overall attainment. I look forward very much to the summer's results; I'm not so sure that my counterpart, Nicky Morgan, in England is also looking forward to the summer's results given that results in England are declining and those in Wales are on the increase. I know on which side of the border I would rather have my children educated.

Nid wyf yn gwybod am yr Aelodau eraill, Lywydd, ond rwy'n cael yr argraff weithiau fod y Ceidwadwyr Cymreig yn cuddio dan garreg pan ddaw at ddatblygiadau mewn perthynas â'r materion hyn yng Nghymru. Ar hyn o bryd, rydym yn ymwneud â'r gyfres fwyaf o ddiwygiadau addysg yng Nghymru ers 1944 ac efallai y byddai rhai'n dadlau ei fod yn newid hyd yn oed yn fwy nag a ddigwyddodd bryd hynny. O ran TGAU, rydym yn hanesyddol wedi gweld bwllch rhwng Cymru a Lloegr sydd wedi bod yn cau bob blwyddyn a bellach, 1.4 y cant yn unig sydd rhyngom o ran cyrhaeddiad cyffredinol TGAU. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ganlyniadau'r haf; nid wyf mor siŵr fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros addysg yn Lloegr, Nicky Morgan, yn edrych ymlaen at ganlyniadau'r haf hefyd o gofio bod canlyniadau Lloegr yn gostwng a rhai Cymru yn gwella. Rwy'n gwybod ar ba ochr i'r ffin y byddai'n well gennyf i'm mhlangt gael eu haddysgu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:39 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, improved education standards are crucial in achieving a work-ready workforce, and that's particularly so at post-16, where we're able to get young people and others ready for work and give them the skills they need for employers to take them on. How then does the Welsh Government's agenda of improving skills and getting that work-ready workforce marry up with the cuts that have been made to further education and the changes that colleges are having to make, which are going to lead to redundancies and courses being cancelled?
- Weinidog, mae safonau addysg gwell yn hanfodol ar gyfer sicrhau gweithlu sy'n barod am waith, ac mae hynny'n arbennig o wir am addysg ôl-16, lle y gallwn baratoi pobl ifanc ac eraill ar gyfer gwaith a rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt er mwyn i gyflogwyr eu cyflogi. Sut felly y mae agenda Llywodraeth Cymru o wella sgiliau a sicrhau gweithlu parod am waith yn cydweddu â'r toriadau a wnaed i addysg bellach a'r newidiadau y mae'n rhaid i golegau eu gwneud, sy'n mynd i arwain at ddiswyddiadau a chanslo cyrsiau?
- 13:40 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You know, Presiding Officer, the combination of brass neck and the attempt to pull the wool over the eyes of the electorate on behalf of the Welsh Liberal Democrats is not going to, I'm afraid, rescue the situation that their party is in or fool the Welsh public. The cuts are there as a direct result of the coalition Government in Westminster, sustained and enabled by the Liberal Democrats. He should address his question to his own leadership in Westminster.
- Lywydd, fe wyddoch nad yw'r cyfuniad o sarhad ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'u hymgais i daflu llwch i lygaid yr etholwyr yn mynd i achub y sefyllfa y mae eu plaid ynndi na thwylo'r cyhoedd yng Nghymru, yn anffodus. Mae'r toriadau yn bodoli o ganlyniad uniongyrchol i'r Llywodraeth glymblaid yn San Steffan, a chânt eu cynnal a'u hwyluso gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Dylai gyfeirio ei gwestiwn at ei arweinwyr ei hun yn San Steffan.
- Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau** **Questions Without Notice from Party Spokespeople**
- 13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople and first this afternoon is the Welsh Conservative spokesperson, Paul Davies.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Paul Davies.
- 13:41 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. I understand that the Welsh Government provides financial incentives for science or maths graduates, but, unfortunately, these incentives don't match those offered in other parts of the United Kingdom. Last week, it was announced in England that a bursary of £15,000 for science undergraduates committing to becoming teachers following their graduation would actually be introduced. How does the Minister intend on providing additional incentives for encouraging science graduates to teach in Welsh schools?
- Diolch, Lywydd. Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn darparu cymhellion ariannol ar gyfer graddedigion gwyddoniaeth neu fathemateg ond yn anffodus, nid yw'r cymhellion hyn yn cyfateb i'r rhai a gynigir mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd yn Lloegr y byddai bwrsariaeth o £15,000 yn cael ei chyflwyno ar gyfer israddedigion gwyddoniaeth sy'n ymrwymo i ddod yn athrawon ar ôl iddynt raddio. Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu darparu cymhellion ychwanegol i annog graddedigion gwyddoniaeth i ddod yn athrawon yn ysgolion Cymru?
- 13:41 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- With the greatest of respect to Paul Davies, you must do the entire mathematical equation before you make such criticism or observation in terms of the incentives that we offer. The situation is not as he portrays it because, of course, Welsh undergraduates, no matter where they study, benefit from the most generous financial support package of any students anywhere in the UK. It is true that the incentives combined with that student support actually put Wales in front in many instances in terms of the incentives we offer for teacher training.
- Gyda'r parch mwyaf i Paul Davies, mae'n rhaid i chi wneud yr hafaliad mathemategol cyfan cyn i chi allu beirniadu neu wneud sylw o'r fath o ran y cymhellion a gynigiwn. Nid yw'r sefyllfa fel y mae yn ei phortredu, wrth gwrs, am fod israddedigion Cymru, lle bynnag y bônt yn astudio, yn elwa ar becyn cymorth ariannol mwy hael nag unrhyw fyfyrwr mewn unrhyw fan yn y DU. Mae'n wir fod y cymhellion wedi'u cyfuno â chymorth o'r fath i fyfyrwyr yn gosod Cymru ar y blaen mewn sawl modd o ran y cymhellion a gynigiwn ar gyfer hyfforddi athrawon.

13:42

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let me try another one then: there's also a disparity between the number of science teachers in English-medium and Welsh-medium schools. Indeed, there are 20 per cent more teachers trained in Chemistry working in Welsh-medium schools than there are in their English-medium counterparts. Will the Minister explain the reason behind this disparity and how does he intend to address it?

Gadewch i mi roi cynnig ar un arall: mae yna wahaniaeth hefyd rhwng nifer yr athrawon gwyddoniaeth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Yn wir, mae 20 y cant yn fwy o athrawon wedi'u hyfforddi mewn cemeg yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg na mewn ysgolion cyfatebol cyfrwng Saesneg. A wnaiff y Gweinidog egluro'r rheswm sy'n sail i'r gwahaniaeth hwn a sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r mater?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Presiding Officer, I'm not going to spend too long trying to explain this. It's an historic problem, it seems, in terms of the subject choices that, first of all, Welsh speakers seem to be making in terms of their university studies, which seem to be more biased towards humanities-type subjects over time. It also may be that those with the facility in Welsh who graduate in science and technical subjects then move in directions other than teaching. The point is not to explain it, I suppose, but to try and rectify it, and he's quite right to point to it as an issue of concern for all of us, including the Government. There are, of course, incentives in place to attract Welsh speakers, particularly, into Welsh-medium education. Professor Donaldson's report combined with Professor Furlong's report now give us all sorts of options for discussion, I think, around how we encourage those with a facility in Welsh to take up the option of teaching, but also to shore up the confidence and competence of those who may not feel that they are sufficiently fluent 'yn Gymraeg' in order to deliver science in the classroom. This has to form a basis of our response to Donaldson and Furlong in particular.

Lywydd, nid wyf am dreulio gormod o amser yn ceisio egluro hyn. Yn gyntaf oll, mae'n ymddangos yn broblem hanesyddol o ran y dewisiadau pwnc y mae siaradwyr Cymraeg i'w gweld yn eu gwneud o ran eu hastudiaethau prifysgol, sydd i'w gweld yn gogwyddo mwy tuag at bynciau dyniaethol dros gyfnod o amser. Gall ddeillio hefyd o'r ffaith fod siaradwyr Cymraeg sy'n graddio mewn pynciau gwyddonol a thechnegol yn symud i gyfeiriadau ar wahân i addysgu. Y pwynt yw peidio â'i egluro, am wn i, ond ceisio unioni hynny, ac mae'n hollol gywir i dynnu sylw ato fel mater o bryder i bob un ohonom, gan gynnwys y Llywodraeth. Wrth gwrs, mae yna gymhellion ar waith i ddenu siaradwyr Cymraeg, yn arbennig, i addysg cyfrwng Cymraeg. Rwy'n credu bod adroddiad yr Athro Donaldson wedi'i gyfuno ag adroddiad yr Athro Furlong bellach yn rhoi pob math o opsiynau inni drafod sut y byddwn yn annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar yr opsiwn i fynd yn athrawon, ond hefyd i gynnal hyder a chymhwysedd y rhai nad ydynt yn teimlo eu bod yn ddigon rhugl yn y Gymraeg i gyflwyno gwyddoniaeth yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n rhaid i hyn ffurfio sail i'n hymateb i Donaldson a Furlong yn arbennig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In a report on science, technology, engineering and mathematics in Wales, the Science Advisory Council for Wales said that continuous professional development providers are more involved with schools in England because they have more resources than their Welsh counterparts. This could mean that Wales is missing out on key opportunities for teachers to expand their teaching skills in science subjects. In light of the new deal announcement made on Monday, will the Minister outline what specific funding arrangements are in place so that the teachers of STEM subjects in all Welsh schools have access to continuous professional development opportunities?

Mewn adroddiad ar wyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg yng Nghymru, dywedodd Cyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru fod darparwyr datblygiad proffesiynol parhaus yn ymwneud mwy ag ysgolion yn Lloegr am fod ganddynt fwy o adnoddau na'u cymheiriaid yng Nghymru. Gallai hyn olygu bod Cymru'n colli cyfleoedd allweddol i athrawon ehangu eu sgiliau addysgu mewn pynciau gwyddonol. Yn sgil cyhoeddi'r fargen newydd a wnaed ddydd Llun, a wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drefniadau ariannu penodol sydd ar waith fel bod athrawon pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg ym mhob ysgol yng Nghymru yn cael mynediad at gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, Presiding Officer, the Welsh Conservatives don't seem to have noticed that the announcements of this week point to a complete overhaul of continual professional development for teachers, both in terms of the support that will be on offer and also in terms of the expectation that we and the public might have of each individual professional and their school. It is a coherent proposal. It is underpinned, of course, with the considerable number of millions that we already spend on CPD, and it will offer a system of professional development that is unrivalled anywhere else in the United Kingdom. You know, on this continual temptation that the Welsh Conservatives have to portray England as some kind of promised land whilst Wales, of course, struggles on the margins of all things—short of ideas, short of cash, short of any kind of initiative—well, I really would say to them that this is hardly the way to, first of all, factually portray Wales, but also it's hardly the way to show yourselves as those who might have Wales's best interests at heart. The best CPD provider in the United Kingdom is not England; it is Scotland by a very long way.

Unwaith eto, Lywydd, nid yw'n ymddangos bod y Ceidwadwyr Cymreig wedi sylwi bod cyhoeddiadau'r wythnos hon yn awgrymu ailwampio datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon yn gyfan gwbl o ran y cymorth a fydd yn cael ei gynnis a hefyd o ran yr hyn y gallwn ni a'r cyhoedd ei ddisgwyl gan bob gweithiwr proffesiynol a'u hysgol. Mae'n gynnis ystyrlon. Wrth gwrs, mae'n seiliedig ar y nifer sylweddol o filiynau rydym eisoes yn ei wario ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, a bydd yn cynnis system o ddatblygiad proffesiynol na welwyd ei thebyg yn unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig. Wyddoch chi, ynglŷn â'r demtasiwn parhaus i'r Ceidwadwyr Cymreig bortreadu Lloegr fel rhyw fath o wlad yr addewid tra bod Cymru, wrth gwrs, yn brwydro ar gyron popeth—yn brin o syniadau, yn brin o arian, yn brin o unrhyw fath o fenter—wel, hoffwn ddweud wrthynt o ddirif nad dyma'r ffordd ffeithiol gywir, yn gyntaf oll, o bortreadu Cymru, ond hefyd prin mai dyna'r ffordd i ddangos eich hunain fel rhai a allai fod â lles Cymru yn agos at eich calonnau. Nid Lloegr yw'r darparwr datblygiad proffesiynol parhaus gorau yn y Deyrnas Unedig, ond yr Alban, a hynny o gryn dipyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Eluned Parrott.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Minister, I was delighted to be able to host the launch of British Science Week Wales here in the Senedd on Monday, and to see children from local schools demonstrating their own love of science. Would you join me in thanking the hundreds of science educators and volunteers across Wales who make science week such a memorable experience for Welsh children every year? Can you tell me just how highly the Welsh Government values the teaching of science in our schools?

Diolch, Lywydd. Weinidog, roeddwn yn falch iawn o allu cynnal lansiad Wythnos Wyddoniaeth Prydain Cymru yma yn y Senedd ddydd Llun, ac i weld plant o ysgolion lleol yn dangos eu hoffter o wyddoniaeth. A wnech chi ymuno â mi i ddiolch i'r cannoedd o addysgwyr a gwirfoddolwyr gwyddoniaeth ledled Cymru sy'n gwneud yr wythnos wyddoniaeth yn brofiad mor gofiadwy i blant Cymru bob blwyddyn? A allwch chi ddweud wrthyf i ba raddau'n union y mae Llywodraeth Cymru yn gosod gwerth ar ddysgu gwyddoniaeth yn ein hysgolion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I thank Eluned Parrott for that. Of course, I would leap at the opportunity to congratulate those involved in science week. Although the participants, of course, by their nature are very young, I am sure that within those hundreds of young people there are a goodly number that will be inspired to look at STEM subject options as something that they might find attractive for further study and that might lead to employment in that sector. Of course, we are seeing increasing numbers of young people turning to science, and that can only be good for the overall pattern of skills shortage in our economy.

Wel, diolch i Eluned Parrott am hynny. Wrth gwrs, byddwn yn neidio ar y cyfle i longyfarch y rheini sy'n ymwneud â'r wythnos wyddoniaeth. Er bod y cyfranogwyr, wrth gwrs, yn ifanc iawn, rwy'n sicr y bydd nifer dda o'r cannoedd o bobl ifanc hynny yn cael eu hysbrydoli i ystyried pynciau ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg neu fathemateg fel rhywbeth a allai eu denu at astudiaethau pellach ac a allai arwain at waith yn y sector. Wrth gwrs, rydym yn gweld niferoedd cynyddol o bobl ifanc yn troi at wyddoniaeth, ac mae hynny'n bendant o wneud lles i batrwm cyffredinol prinder sgiliau yn ein heconomi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Of course, having an appropriate level of equipment in our schools and teachers who are confident in teaching science is absolutely critical, as you've just said, in maintaining that enthusiasm year round and not just in science week. A report published by the CBI last week suggested that one third of primary school teachers in the UK as a whole lack confidence in teaching science. There has been an audit of science equipment levels in schools in England, but not here in Wales. Given the importance of science education and the planned new deal for the educational workforce, I wonder whether you would consider undertaking a study into equipment levels for teaching science, but also the capacity and confidence of the teaching profession in primary schools in teaching science in Wales.

Diolch i chi, Weinidog. Wrth gwrs, mae cael lefel briodol o offer yn ein hysgolion ac athrawon sy'n hyderus i addysgu gwyddoniaeth yn gwbl hanfodol, fel rydych chi newydd ei ddweud, i gynnal y brwdfrydedd drwy gydol y flwyddyn ac nid yn ystod yr wythnos wyddoniaeth yn unig. Awgrymodd adroddiad a gyhoeddwyd gan y CBI yr wythnos diwethaf fod un rhan o dair o athrawon cynradd y DU yn gyfan yn brin o hyder i ddysgu gwyddoniaeth. Cynhaliwyd archwiliad o lefelau offer gwyddoniaeth yn ysgolion Lloegr, ond nid yma yng Nghymru. O ystyried pwysigrwydd addysgu gwyddoniaeth a'r fargen newydd a gynlluniwyd ar gyfer y gweithlu addysgol, tybed a fyddech yn ystyried cynnal astudiaeth o lefelau offer ar gyfer dysgu gwyddoniaeth, ond hefyd o allu a hyder y proffesiwn addysgu mewn ysgolion cynradd i ddysgu gwyddoniaeth yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, yes, of course, this is an issue for all of us to be thinking about, right across the UK. I don't buy the argument that the grass is greener somehow on the other side of Offa's Dyke. What the audit has shown in England is that there is a very real problem. Of course, that announcement around the new deal, which I made earlier this week, will—must—have a heavy emphasis on upskilling primary school teachers in particular in key areas where we have this subject specialism shortage in the primary sector. Maths is a very important area; STEM, in general. Computing would be another. In terms of my priorities, also Welsh and music must be included in that. I know that there is a very great deal we should be able to do in upskilling our primary teaching workforce with a co-operative and collaborative approach towards making the new deal a success.

Wel, ie, wrth gwrs, mae hwn yn fater i bob un ohonom feddwl amdano, ym mhob rhan o'r DU. Nid wyf yn derbyn y ddadl fod y sefyllfa'n well ar yr ochr arall i Glawdd Offa. Yr hyn y mae'r archwiliad wedi'i ddangos yw bod yna broblem real iawn yn Lloegr. Wrth gwrs, bydd y cyhoeddiad ynghylch y fargen newydd, a wneuthum yn gynharach yr wythnos hon, yn rhoi—yn gorfod rhoi—pwyslais trwm ar uwchsgilio athrawon ysgolion cynradd, yn arbennig mewn meysydd allweddol lle y mae gennym brinder arbenigedd pwnc yn y sector cynradd. Mae mathemateg yn faes pwysig iawn; mae meysydd STEM yn gyffredinol yn bwysig. Mae cyfrifiadureg yn un arall. O ran fy mlaenoriaethau, rhaid cynnwys Cymraeg a cherddoriaeth yn hynny. Gwn fod llawer iawn y dylem allu ei wneud i uwchsgilio ein gweithlu addysg gynradd gydag ymagwedd gydweithredol tuag at wneud y cynllun newydd yn llwyddiant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. The purpose of an audit, of course, is not to pat oneself on the back; it's to identify problems that we can put right, and potentially, in terms of the new deal, provide you with a baseline against which you can assess progress. So, it may well be in your advantage to do that.

The passport element of the deal, as explained in your statement earlier in the week, suggests that the professional development offer is based on self-reflection and self-identification of training needs, which is a very empowering approach for the teaching profession, I must say. But with those professional development journeys being personally chosen, there's no guarantee that those journeys will necessarily match the Welsh Government's strategic needs for the profession. How will the Welsh Government ensure that the new deal will lead to a workforce that is more confident in teaching those strategically important subjects, such as science, languages and, of course, music?

Diolch i chi, Weinidog. Nid pwrpas archwiliad, wrth gwrs, yw eich canmol eich hun; ond nodi problemau y gallwn eu cywiro ac o bosibl, o ran y fargen newydd, rhoi llinell sylfaen i chi allu asesu cynnydd yn ei herbyn. Felly, gallai'n hawdd fod yn fantais i chi wneud hynny.

Mae elfen basbort y fargen, fel yr eglurwyd yn eich datganiad yn gynharach yn yr wythnos, yn awgrymu bod y cynnig datblygiad proffesiynol yn seiliedig ar hunanfyfyrion ac ymuniaethu ag anghenion hyfforddi, sy'n ddull grymusol iawn o weithredu ar gyfer y proffesiwn dysgu, mae'n rhaid i mi ddweud. Ond gyda'r teithiau datblygiad proffesiynol yn cael eu dewis yn bersonol, nid oes sicrwydd y bydd y teithiau hynny o reidrwydd yn cyd-fynd ag anghenion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y proffesiwn. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y fargen newydd yn arwain at weithlu sy'n fwy hyderus i addysgu pynciau strategol pwysig, fel gwyddoniaeth, ieithoedd, a cherddoriaeth, wrth gwrs?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, this is an important point to have raised in the Chamber here. The model that we are suggesting under the new deal is based on the very best experience internationally. It's not a million miles away from the experience of Finland, of Holland, or of a number of northern European countries—Ireland and Scotland, actually, although not England.

There is a demand for self-reflection, there is a demand that individual professionals should have an idea of how their career should progress and how they would want it to develop, and they must have a clear line of sight from qualification through to retirement, in terms of which is the best path for them. But if you delve deeper into the suggestions, there is also a demand that those individual wants be balanced against the needs of the school. The school development plan will have to report now, from September onwards, in terms of how the headteacher has orchestrated those wants and ambitions on the part of their teaching professionals, their staff, and moulded them into a strategic way forward for their school. That, should the headteacher take on their responsibilities well, I think, will safeguard against the issues that Eluned Parrott mentions.

Wel, mae hwn yn bwynt pwysig i gael ei godi yn y Siambr. Mae'r model rydym yn ei awgrymu o dan y fargen newydd yn seiliedig ar y profiadau gorau yn rhyngwladol. Nid yw'n annhebyg iawn i brofiad y Ffindir, yr Iseledirowedd neu nifer o wledydd gogledd Ewrop—Iwerddon a'r Alban, mewn gwirionedd, er nad Lloegr.

Mae yna alw am hunanfyfyrto; mae yna alw ar i weithwyr proffesiynol unigol gael syniad ynglŷn â sut y dylai eu gyrfa ddatblygu a sut y byddent eisiau iddi ddatblygu, ac mae'n rhaid iddynt allu gweld yn glir yr holl ffordd o gymhwyso i ymddeol, o ran pa lwybr sydd orau ar eu cyfer. Ond os treiddiwch yn ddyfnach i'r awgrymiadau, mae yna alw hefyd i sicrhau cydbwysedd rhwng dymuniadau unigolion ac anghenion yr ysgol. Bydd yn rhaid i gynllun datblygu'r ysgol adrodd yn awr, o fis Medi ymlaen, o ran sut y mae'r pennaeth wedi trefnu dymuniadau ac uchelgeisiau eu gweithwyr addysgu proffesiynol, eu staff, a'u mowldio'n ffordd strategol ymlaen ar gyfer eu hysgol. Os yw'r pennaeth yn ysgwyddo'i gyfrifoldebau'n dda, rwy'n meddwl y bydd hynny'n diogelu yn erbyn y materion y mae Eluned Parrott yn sôn amdanynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And, finally, the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Ac yn olaf, llefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Weinidog, sawl aelod o staff ydych chi'n disgwyl i gael eu diswyddo yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd y toriadau rydych chi wedi'u gwneud i gyllid ysgolion a cholegau o ran addysg ar ôl 16?

Thank you, Presiding Officer. Minister, how many staff members do you expect to be dismissed during the next financial year, because of the cuts that you have made to the budgets of post-16 schools and colleges?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, we have maintained our 1 per cent manifesto commitment to the funding of schools, and I don't anticipate that we will see anything like the kind of nightmare scenario that Simon Thomas is attempting to paint here this afternoon. I'm not denying that there are pressures within the educational budget. We've always been very open and honest with local government and with schools and colleges about just how great these pressures are, but the drive towards austerity and the decisions about the fact that young people and their education should pay for George Osborne's priorities of ideology are not made in this Chamber. They're not made on the fifth floor of the Welsh Government building. They are made in Westminster.

Wel, wrth gwrs, rydym wedi cynnal ein hymrwymiad manifesto 1 y cant i ariannu ysgolion, ac nid wyf yn rhagweld y gwelwn unrhyw beth tebyg i'r math o senario hunllefus y mae Simon Thomas yn ceisio ei darlunio yma y prynhawn yma. Nid wyf yn gwadu bod pwysau o fewn y gyllideb addysg. Rydym bob amser wedi bod yn agored ac yn onest iawn â llywodraeth leol a chydag ysgolion a cholegau ynglŷn â pha mor sylweddol yw'r pwysau hyn ond nid yw ymgyrch caledi a'r penderfyniadau ynglŷn ag a ddylai pobl ifanc a'u haddysg dalu am flaenoriaethau ideolegol George Osborne yn cael eu gwneud yn y Siambr hon. Nid ydynt yn cael eu gwneud ar bumed llawr adeilad Llywodraeth Cymru. Maent yn cael eu gwneud yn San Steffan.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, Lywydd, rwy'n gwranddo ar y Prif Weinidog, hyd yn oed os nad yw Huw Lewis yn gwranddo ar y Prif Weinidog, a dywedodd y Prif Weinidog yn glir wrthyf i yr wythnos diwethaf nad oedd yr 1 y cant ychwanegol yn gymwys ar gyfer addysg ar ôl 16, achos dim ond ar gyfer addysg oed gorfodol y mae'r hyn y mae'r Llywodraeth yn sôn amdano. Ces i e-bost ond y bore yma, Lywydd, gan ysgol a oedd yn wynebu chwech i saith o ddiswyddiadau athrawon er mwyn i gyllideb y flwyddyn nesaf fod yn 'balanced'. Nawr, rŷch chi, Weinidog—nid yn San Steffan, ond fan hyn—wedi penderfynu troi 11 grant yn un, gan gynnwys y grant ar gyfer lleiafrifoedd ethnig a'r grant ar gyfer effeithlonrwydd ysgolion, ac, wrth wneud hynny, fe lwyddoch chi—ddim San Steffan—i dorri'r grantiau gan gyfanswm o 10 y cant. Felly, rwy'n gofyn eto: a ydych chi'n disgwyl gweld ysgolion a cholegau yn colli swyddi yn y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd eich penderfyniadau chi ai peidio?

Well, Presiding Officer, I listen to the First Minister, even if Huw Lewis doesn't listen to the First Minister, and the First Minister told me clearly last week that the additional 1 per cent does not apply to post-16 education, because what the Government was talking about relates only to compulsory-age education. I received an e-mail just this morning, Presiding Officer, from a school that was facing six to seven teacher dismissals in order for next year's budget to be balanced. Now, you, Minister—not at Westminster, but here—have decided to combine 11 grants into one, including the grant for ethnic minorities and the grant for school efficiency, and, in so doing, you—not Westminster—have succeeded in cutting the grants by a total of 10 per cent. So, I ask once again: do you expect to see schools and colleges losing staff in the next financial year because of your decisions or not?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I've just explained and openly acknowledged that there will be pressures within the funding for education across Wales, particularly, of course, post 16. He's quite right; there's no great secret about the fact that the 1 per cent applies to compulsory-age education. We are moving towards the educational improvement grant, which will make difficult strategic decisions more viable, and more possibilities would be opened up in terms of partners in local government, in particular, and how they might be able to manage their way through this very, very difficult period.

Wel, rwyf newydd egluro a chydabod yn agored y bydd pwysau o fewn y cyllid ar gyfer addysg ledled Cymru, yn enwedig addysg ôl-16 wrth gwrs. Mae'n hollol iawn; nid oes cyfrinach fawr ynghylch y ffaith fod yr 1 y cant yn berthnasol i addysg oedran ysgol gorfodol. Rydym yn symud tuag at y grant gwella addysg, a fydd yn gwneud penderfyniadau strategol anodd yn fwy hyfyw, a byddai mwy o bosibiliadau ar gael o ran partneriaid mewn llywodraeth leol, yn arbennig, a sut y gallent reoli eu ffordd drwy'r cyfnod hynod o anodd hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If Plaid Cymru have alternative priorities, then they should make them known, because the Welsh Government has explicitly protected, preferentially, the young. We have strained every sinew to ensure that young people, particularly in compulsory-age education, have been sheltered from the Lib Dem-Tory storm. If Plaid Cymru have an alternative agenda, I'd like to hear it. I've not up until now.

Os oes gan Blaid Cymru flaenoriaethau eraill, yna dylent eu gwneud yn hysbys, gan fod Llywodraeth Cymru yn benodol wedi rhoi'r flaenoriaeth i warchod yr ifanc. Rydym wedi gwneud ein gorau glas i sicrhau bod pobl ifanc, yn enwedig rhai o oedran addysg orfodol, wedi eu cysgodi rhag storm y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Toriaid. Os oes gan Blaid Cymru agenda amgen, hoffwn ei chlywed. Nid wyf wedi ei chlywed hyd yn hyn.

13:54

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd be delighted to tell the Minister what our alternative agenda is, and it is not to sign up to the charter for budget responsibility that means that, in May, it doesn't matter whether you elect a Labour Government or a Tory Government, the same cuts will be coming down the M4 for education and health and the public services in Wales. That's the truth about Plaid Cymru's alternative.

Byddwn wrth fy modd yn dweud wrth y Gweinidog beth yw ein hagenda amgen: peidio ag ymuno â'r siarter cyfrifoldeb am gyllidebau sy'n golygu nad oes gwahaniaeth a ydych yn ethol Llywodraeth Lafur neu Lywodraeth Doriaidd ym mis Mai, daw'r un toriadau ar hyd yr M4 i addysg ac iechyd a'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dyna'r gwir am agenda amgen Plaid Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think, Minister, I did get a 'yes' out of you, that you expected jobs to be lost in the education profession because of these cuts. Now, where does this leave your new deal? It leaves it with no allocated resources, and no allocated money to support it. It leaves continuous professional development in Wales under-resourced and under-provided for. If this is what you call a passport for teachers, doesn't it seem to have expired already?

Rwy'n meddwl, Weinidog, i mi gael ymateb cadarnhaol gennyh, eich bod yn disgwyl i swyddi gael eu colli yn y proffesiwn addysg oherwydd y toriadau hyn. Nawr, lle y mae hyn yn gadael eich bargaen newydd? Mae'n ei gadael heb unrhyw adnoddau wedi'u dyrannu ar ei chyfer nac unrhyw arian i'w chefnogi. Mae'n gadael datblygiad proffesiynol parhaus yng Nghymru heb ddigon o adnoddau a heb ddigon o ddarpariaeth ar ei gyfer. Os mai dyna'r hyn rydych yn ei alw'n basbort i athrawon, onid yw'n ymddangos bod ei ddyddiad wedi dod i ben yn barod?

13:55 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, if Plaid Cymru don't support the new deal, they should make that known to the considerable number of teachers and their families across Wales who, I think, would fail to share his opinion of this massive step forward. Of course, Plaid Cymru's policies are based on the premise that a magical amount of £1.4 billion will descend from the heavens and solve all our problems. Therefore, they have once again, as they have historically, manoeuvred themselves into the situation whereby they can be a protest group rather than a party. [Interruption.] That's what we are hearing this afternoon. We're hearing protests—there's nothing wrong with that—but in terms of a political alternative, we hear nothing.

Wel, os nad yw Plaid Cymru yn cefnogi'r fargen newydd, rwy'n credu y dylent wneud hynny'n hysbys i'r nifer sylweddol o athrawon a'u teuluoedd ledled Cymru na fyddai'n rhannu ei farn ar y cam enfawr hwn ymlaen. Wrth gwrs, mae polisiau Plaid Cymru yn seiliedig ar y rhagosodiad y bydd swm hudol o £1.4 biliwn yn dod i lawr o'r nefoedd i ddatrys ein holl broblemau. Felly, unwaith eto, fel y maent wedi ei wneud yn y gorffennol, maent wedi symud eu hunain i sefyllfa lle y gallant fod yn grŵp protest yn hytrach na phlaid. [Torri ar draws.] Dyna rydym yn ei glywed y prynhawn yma. Rydym yn clywed protestiadau—nid oes unrhyw beth o'i le ar hynny—ond o ran dewis amgen yn wleidyddol, ni chlywn unrhyw beth.

13:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We now move back to the questions on the paper, and question 3 is from Lynne Neagle.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur, a daw cwestiwn 3 gan Lynne Neagle.

Sgiliau Pobl Ifanc

The Skills of Young People

13:56 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

3. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella sgiliau pobl ifanc ar draws Torfaen? OAQ(4)0557(ESK)

3. What plans does the Welsh Government have to improve the skills of young people across Torfaen? OAQ(4)0557(ESK)

13:56 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology

In line with the programme for government, we have taken a series of actions to improve the skills of young people, including the introduction of traineeships, prioritising support for apprenticeship places, and supporting over 14,000 job opportunities through our flagship Jobs Growth Wales programme, including 462 opportunities in Torfaen.

Yn unol â'r rhaglen lywodraethu, rydym wedi rhoi cyfres o gamau gweithredu ar waith i wella sgiliau pobl ifanc, gan gynnwys cyflwyno swyddi dan hyfforddiant, rhoi blaenoriaeth i gymorth ar gyfer prentisiaethau a chefnogi dros 14,000 o gyfleoedd swyddi drwy ein rhaglen flaenllaw, Twf Swyddi Cymru, gan gynnwys 462 o gyfleoedd yn Nhorfaen.

13:56 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Minister, and I am grateful that you met with me along with senior representatives of Torfaen council and Coleg Gwent at the end of last month to try and keep up the momentum on proposals for an integrated post-16 centre. Although it's clear there are still major obstacles to be overcome if these plans are to come to fruition, it was very helpful in terms of clarifying the position of all the different parties involved. Deputy Minister, you indicated that further meetings with the economy and finance Ministers would be helpful in terms of progressing this project, so could you provide me with an update on those discussions? Will you once again re-state your commitment to solve this long-standing inequity facing young people in my constituency?

Diolch, Ddirprwy Weinidog, ac rwy'n ddiolchgar i chi am gyfarfod â mi, ynghyd ag uwch-gynrychiolwyr o gyngor Torfaen a Choleg Gwent, ddiwedd y mis diwethaf er mwyn ceisio cadw momentwm y cynigion ar gyfer canolfan ôl-16 integredig. Er ei bod yn amlwg fod rhwystrau mawr yn dal i'w goresgyn os yw'r cynlluniau'n mynd i ddwyn ffrwyth, roedd yn ddefnyddiol iawn o ran egluro sefyllfa pawb a oedd yn gysylltiedig. Ddirprwy Weinidog, fe ddywedoch y byddai cyfarfodydd pellach gyda Gweinidog yr economi a'r Gweinidog cyllid yn ddefnyddiol o ran symud y prosiect hwn yn ei flaen, felly a allech chi roi'r newyddion diweddaraf am y trafodaethau hynny? A wnewch chi unwaith eto ailddatgan eich ymrwymiad i ddatrys yr annhegwch hirsefydlog hwn y mae pobl ifanc yn fy etholaeth yn ei wynebu?

- 13:57 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm happy to re-state that commitment. I remain completely committed to finding a solution for post-16 learners in Torfaen. I'm pleased to say that I've met with both Ministers. Both have agreed to take action to assess the current proposal we've now received from Torfaen and Coleg Gwent—the strategic outlined proposal—and we'll be exploring its potential and taking it through the process of approval, or otherwise, over the coming weeks and months. I'll make sure that the Member is kept informed of its progress.
- Rwy'n hapus i ailddatgan yr ymrwymiad hwnnw. Rwy'n dal yn gwbl ymrwymedig i ddod o hyd i ateb ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn Nhorfaen. Rwy'n falch o ddweud fy mod wedi cyfarfod â'r ddau Weinidog. Mae'r ddau wedi cytuno i roi camau ar waith i asesu'r cynnig cyfredol a ddaeth i law bellach gan Dorfaen a Choleg Gwent—y cynnig amlinellol strategol—a byddwn yn archwilio ei botensial ac yn mynd ag ef drwy'r broses gymeradwyo, neu fel arall, dros yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod. Byddaf yn sicrhau bod yr Aelod yn cael gwybod am ei gynnydd.
- 13:57 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Deputy Minister, you'll know that, in Torfaen, there are various projects designed to increase skills awareness, including QWEST, Skill Build and Bridges into Work programme. The Bridges into Work programme ends at the end of this month. Commentators have said that there's a certain amount of overlap between them. Would the Deputy Minister agree to publish an evaluation of these schemes in the hope that they can be extended to more people in the future?
- Ddirprwy Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod amryw o brosiectau yn Nhorfaen wedi'u cynllunio i gynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â sgiliau, gan gynnwys Ansawdd Gwaith Cyflogaeth Sgiliau a Hyfforddiant (AGCSH), Adeiladu Sgiliau a rhaglen Pontydd i Waith. Mae'r rhaglen Pontydd i Waith yn dod i ben ar ddiwedd y mis hwn. Mae sylwebyddion wedi dweud bod rhywfaint o orgyffwrdd rhyngddynt. A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno i gyhoeddi gwerthusiad o'r cynlluniau hyn yn y gobaith y gellir eu hymestyn i fwy o bobl yn y dyfodol?
- 13:58 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We're currently going through the second round of European social fund funding, which is the funding source for most of those schemes, although I'm not sure it's for all of them. We have a mechanism by which we assess each of the closing ESF schemes—or European-funded schemes if it's European regional development fund—and we assess their need going forward. We look at incoming bids for ESF funding in the education post-16 area and make sure that the programme is cohesive across the board. Of course, as those evaluations come forward, they are made public.
- Rydym ar hyn o bryd yn mynd drwy'r ail rownd o arian o gronfa gymdeithasol Ewrop, sef y ffynhonnell gyllido ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynlluniau hynny, er nad wyf yn siŵr a yw ar gyfer pob un ohonynt. Mae gennym system y byddwn yn ei defnyddio i asesu pob un o gynlluniau Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n dod i ben—neu gynlluniau a ariennir gan Ewrop yn achos Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop—ac rydym yn asesu'r angen amdanynt wrth symud ymlaen. Rydym yn edrych ar geisiadau sy'n dod i mewn am gyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ym maes addysg ôl-16 ac yn sicrhau bod y rhaglen yn gydlynus drwyddi draw. Wrth gwrs, caiff y gwerthusiadau hyn eu cyhoeddi wrth iddynt gael eu cyflwyno.
- 13:58 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you'll be aware of the decision of ACT Training to withdraw from the training centre in Tafarnaubach, and the needs for skills training across and throughout the valleys of Gwent. Would you be prepared to meet with me to discuss how we can secure training places in Tafarnaubach in Tredegar to ensure that we don't lose this enormously important training centre?
- Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol o benderfyniad ACT Training i dynnu'n ôl o'r ganolfan hyfforddi yn Nhafarnaubach, a'r angen am hyfforddiant sgiliau drwy gymoedd Gwent. A fydddech yn barod i gyfarfod â mi er mwyn trafod sut y gallwn sicrhau lleoedd hyfforddi yn Nhafarnaubach yn Nhrefegar i sicrhau nad ydym yn colli'r ganolfan hyfforddi hynod bwysig hon?
- 13:59 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, of course. I'm very happy to meet with the Member and discuss the options. The Welsh Government contracts with a number of headline contractors to deliver work-based learning programmes, ACT being one of them. Then there's a sub-contracting system that we don't directly control, but which we carefully evaluate to make sure that it's fit for purpose and that we approve of the various arrangements. So, I'm very happy to meet with the Member to discuss the issues in his own constituency.
- Byddwn, wrth gwrs. Rwy'n hapus iawn i gyfarfod â'r Aelod a thrafod yr opsiynau. Mae Llywodraeth Cymru yn contractio nifer o'r prif gontractwyr i gyflwyno rhaglenni dysgu seiliedig ar waith, ac mae ACT yn un ohonynt. Yna ceir system is-gontractio nad ydym yn ei rheoli'n uniongyrchol, ond rydym yn ei gwerthuso'n ofalus i sicrhau ei bod yn addas at y diben a'n bod yn cymeradwyo'r gwahanol drefniadau. Felly, rwy'n hapus iawn i gyfarfod â'r Aelod i drafod y materion sy'n codi yn ei etholaeth ei hun.

Y Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion

The Physical Literacy Programme for Schools

13:59	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y rhaglen llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion? OAQ(4)0559(ESK)</p>	<p>4. Will the Minister make a statement on the progress of the physical literacy programme for schools? OAQ(4)0559(ESK)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:00	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>My thanks to the Member for Newport East. Good progress is being made in the delivery of the physical literacy programme for schools. I've also agreed to continue the funding programme that is delivered by Sport Wales until March 2016.</p>	<p>Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Casnewydd. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar y gwaith o ddarparu'r rhaglen llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion. Rwyf hefyd wedi cytuno i barhau â'r rhaglen ariannu sy'n cael ei darparu gan Chwaraeon Cymru tan fis Mawrth 2016.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:00	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I very much welcome the emphasis on health and wellbeing in the Donaldson review of the curriculum. Almost all our children can be reached in our schools, and I think if we embed within them the physical skills and abilities that will stand them in good stead throughout their lives, in terms of their health and quality of life, then we'll be doing a very good job indeed. So, will you agree with me that Wales has made important progress with the physical literacy programme for schools, and we should now build on that with a physical literacy framework for our schools that would incorporate, amongst other things, teacher training, professional development, school self-evaluation and inspection?</p>	<p>Weinidog, croesawaf y pwyslais ar iechyd a lles yn adolygiad Donaldson o'r cwricwlwm yn fawr iawn. Mae modd cyrraedd bron bob un o'n plant yn ein hysgolion, a phe baem yn ymgorffori'r sgiliau a'r galluoedd corfforol i'w rhoi mewn sefyllfa dda drwy gydol eu bywydau o ran eu hiechyd ac ansawdd bywyd, credaf y byddwn yn gwneud gwaith da iawn yn wir. Felly, a wnewch chi gytuno â mi fod Cymru wedi gwneud cynnydd pwysig gyda'r rhaglen llythrennedd corfforol ar gyfer ysgolion, ac y dylem adeiladu ar hynny yn awr gyda fframwaith llythrennedd corfforol ar gyfer ein hysgolion a fyddai'n ymgorffori, ymysg pethau eraill, hyfforddiant athrawon, datblygiad proffesiynol, hunanarfarnu ac arolygu ysgolion?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I very much agree with John Griffiths in terms of the need to congratulate ourselves, frankly, but also our partners in terms of the progress thus far, working alongside Sport Wales and others. Of course, the Deputy Minister responsible is a huge enthusiast for promoting this agenda. We have come an extraordinarily long way on something of a shoestring in terms of resource in difficult times, but it's also right to point out that the importance of physical activity is there in the fundamentals of Professor Donaldson's 'Successful Futures' report for the new curriculum. It's there in the six proposed areas of learning and experience, and if you take a look at it, you'll read about his emphasis on the need for health and wellbeing being written into the foundation stones of the new curriculum. He explains, and goes on to say we need:</p> <p>'(healthy, confident individuals) knowing how to keep safe in a range of different circumstances and where to go for help; undertaking regular physical activity; developing and maintaining positive relationships.'</p> <p>So there, very much as a part, not just as a subject area, but as a founding principle of the new curriculum, is the area of physical activity. So, no headteacher should be in two minds about the requirement now within Wales to have physical activity as part of the basic, fundamental experience of every young person.</p>	<p>A dweud y gwir, cytunaf yn llwyr â John Griffiths o ran yr angen i longyfarch ein hunain, a hefyd ein partneriaid o ran y cynnydd cyn belled, gan weithio ochr yn ochr â Chwaraeon Cymru ac eraill. Wrth gwrs, mae'r Dirprwy Weinidog cyfrifol yn gefnogwr brwd i hyrwyddo'r agenda hon. Rydym wedi dod yn hynod o bell ar geiniog a dimai, mewn ffordd, o ran adnoddau mewn cyfnod anodd, ond mae hefyd yn iawn inni nodi bod pwysigrwydd gweithgarwch corfforol yno yn hanfodion adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus' yr Athro Donaldson ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae yno ymhlith chwe maes arfaethedig dysgu a phrofiad, ac os edrychych arno, fe fyddwch yn darllen am ei bwyslais ar yr angen i iechyd a lles gael eu cynnwys yn sylfeini'r cwricwlwm newydd. Mae'n egluro, ac yn mynd ymlaen i ddweud, ein bod angen:</p> <p>'(unigolion iach, hyderus) yn gwybod sut i gadw'n ddiogel mewn amrywiaeth o wahanol amgylchiadau a ble i fynd am gymorth; yn ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn rheolaidd; yn datblygu a chynnal perthnasau cadarnhaol.'</p> <p>Felly dyna faes gweithgarwch corfforol: mae'n bendant yn rhan o'r cwricwlwm newydd, nid yn unig fel pwnc, ond fel un o'i egwyddorion sylfaenol. Felly, ni ddylai unrhyw bennaeth fod rhwng dau feddwl ynglŷn â'r gofyniad yn awr yng Nghymru i gael gweithgarwch corfforol yn rhan o brofiad sylfaenol pob person ifanc.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:02 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, we know that many teachers have said that they don't feel totally confident when it comes to teaching physical literacy. To what extent are you alerting parents to failings or shortcomings in physical literacy in their local schools? Specifically, the new, colour-coded school ranking scheme that was introduced to much fanfare—although, in some quarters, it was criticised—to what extent does that take account of the quality of physical literacy/physical education being taught in our schools, so that parents are aware of issues in their local school and are able to take decisions accordingly?
- Weinidog, gwyddom fod llawer o athrawon wedi dweud nad ydynt yn teimlo'n gwbl hyderus i ddysgu llythrennedd corfforol. I ba raddau rydych chi'n rhybuddio rhieni ynglŷn â methiannau neu ddiffygion mewn llythrennedd corfforol yn eu hysgolion lleol? Yn benodol, y cynllun newydd i raddio ysgolion â chod lliwiau, a gyflwynwyd yn sain cryn dipyn o ffanffer—er iddo gael ei feirniadu gan rai—i ba raddau y mae'n ystyried ansawdd y llythrennedd corfforol/addysg gorfforol sy'n cael eu dysgu yn ein hysgolion, er mwyn i rieni fod yn ymwybodol o broblemau yn eu hysgol leol a gallu gwneud penderfyniadau yn unol â hynny?
- 14:03 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, there is complete openness, and more information available to parents than there ever has been in prior times, most particularly through the My Local School website, which combines a wealth of information available in one location. A parent really could spend many, many hours taking a look at the evaluations of how their school is doing. Just looking at the categorisation level will give you one snapshot idea of how a school is doing. Delving through into, for instance, an Estyn evaluation of what's going on in that school will give you much more information. But it is true, we do know, that the levels of physical literacy and physical activity in our schools, particularly primary schools, have increased enormously over the term of this Government.
- Wel, wrth gwrs, mae'r cyfan yn gwbl agored, ac mae mwy o wybodaeth ar gael i rieni nag a fu erioed o'r blaen, yn benodol drwy wefan Fy Ysgol Leol, sy'n cyfuno cyfoeth o wybodaeth mewn un lleoliad. Gallai rhiant dreulio oriau lawer yn edrych ar y gwerthusiadau sy'n dangos sut y mae eu hysgol hwy'n perfformio. Bydd edrych ar y lefel categorieddion unig yn rhoi cipolwg i chi o sut y mae ysgol yn dod yn ei blaen. Bydd pori drwy werthusiad Estyn, er enghraifft, o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol yn rhoi llawer mwy o wybodaeth i chi. Ond fe wyddom ei bod hi'n wir fod lefelau llythrennedd corfforol a gweithgarwch corfforol yn ein hysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd, wedi cynyddu'n aruthrol dros gyfnod y Llywodraeth hon.
- 14:04 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Gan fod gweithgaredd corfforol mor bwysig o ran iechyd, corfforol a meddyliol, ac yn dilyn argymhellion Donaldson rydych chi wedi cyfeirio atyn nhw, a ydych chi'n cytuno â Phlaid Cymru, felly, y dylai fod yna ddwy awr o addysg gorfforol o safon uchel yn rhan o weithgarwch pob plentyn yn ein hysgolion ni?
- As physical activity is so important in terms of health, both physical and mental health, and following the Donaldson recommendations that you've referred to, do you agree with Plaid Cymru, therefore, that there should be two hours of physical education of a high standard as part of every child's activity in our schools?
- 14:04 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Presiding Officer, I'm not going to get into a bidding war at this point around minimum time slots, and so on, for any area of experience and activity for our young people. I think that would not do justice to the way that Professor Donaldson has asked us to approach the great debate around the new curriculum. I am wary that we may fall into a whole series of rounds of whataboutery if we approach it quite in this way—what about this subject; what about that subject; what about the minimum time required for this, that or the other? We are at the stage here where we have a chance to change the way that we have approached school timetables, for instance, as a series of silos with competing subject areas trying to jostle for time and attention, but what Professor Donaldson has made very clear is that if physical activity is not part of the warp and weft of how a school operates, then you are not delivering on the basics of the curriculum.
- Lywydd, nid wyf am fynd i gecru yn awr ynglŷn ag isafswm slotiau amser ac ati o ran meysydd profiad a gweithgareddau ein pobl ifanc. Nid wyf yn credu y byddai hynny'n gwneud cyfiawnder â'r ffordd y mae'r Athro Donaldson wedi gofyn i ni fynd i'r afael â'r ddadl fawr ynghylch y cwricwlwm newydd. Rwy'n ymwybodol y gallem gael ein dal mewn cyfres o rowndiau o 'beth am?' os meddyliwn am y peth yn y ffordd hon—beth am y pwnc hwn; beth am y pwnc hwnnw; beth am yr isafswm o amser sydd ei angen ar gyfer hyn, llall neu arall? Rydym ar y cam lle y mae gennym gyfle i newid y ffordd rydym wedi ymdrin ag amserlenni ysgolion, er enghraifft fel cyfres o seilos, gyda meysydd pwnc sy'n cystadlu â'i gilydd yn ceisio ymladd am amser a sylw, ond yr hyn y mae'r Athro Donaldson wedi ei wneud yn glir iawn yw hyn: os nad yw gweithgarwch corfforol yn rhan o wead y modd y mae ysgol yn gweithredu, yna nid ydych yn cyflawni elfennau sylfaenol y cwricwlwm.

Hyfforddiant Addysg Tir

Land-based Training

- 14:05 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddiant addysg tir yng Nghymru? OAQ(4)0546(ESK) *5. Will the Minister make a statement on land-based training in Wales? OAQ(4)0546(ESK)*
- 14:05 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 I thank the Member for the question. The Welsh Government recognises the importance of land-based vocational training and supports learning in colleges and through its apprenticeship programme to around 2,400 full-time learners. Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw hyfforddiant galwedigaethol ar y tir ac yn cefnogi dysgu mewn colegau a thrwy ei rhaglen brentisiaeth i oddeutu 2,400 o ddysgwyr amser llawn.
- 14:06 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Diolch i chi am eich ateb. Rwy'n siŵr y bydd nifer ohonom ni yn croesawu adroddiad diweddar yr Athro Wynne Jones a gwblhawyd, wrth gwrs, ar gais y Llywodraeth. Ymhlith yr argymhellion oedd y dylai'r tri phrif ddarparwr cyrsiau amaethyddol lefel 3, sef Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria a Choleg Sir Gâr, gael anogaeth a chymorth i gydlynu eu gwaith yn well a hefyd i lunio cynlluniau ar gyfer cydweithredu, ac i wneud hynny fel mater o flaenoriaeth. A allwch chi roi diweddariad i ni o sut rydych yn gyrru ymlaen gyda'r gwaith yna a hefyd a allwch chi nodi a fyddwch chi'n clustnodi unrhyw adnoddau ar gyfer hwyluso'r gwaith? Thank you for that response. I'm sure that many of us will welcome the recent report by Professor Wynne Jones, which was completed at the request of the Government. Among the recommendations therein was one that the three main providers of agricultural courses at level 3, namely the Llandrillo Menai Group, Coleg Cambria and Coleg Sir Gâr, should be given encouragement and support to co-ordinate their work more effectively and also to draw up plans for collaboration, and to do that as a matter of priority. Can you give us an update on how you are driving forward with that particular work and can you note whether you will be allocating any resources for that work?
- 14:06 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Rebecca Evans, the Deputy Minister for Farming and Food, and I met with Professor Wynne Jones and warmly welcomed his report. The Member will know that we've accepted all of the recommendations in the report—five in full, seven in principle and three in part. The bits that are in principle or in part are just around practical and technical issues; they're not about the basis of the report, which we were more than happy to endorse. Actually, officials from the Department for Education and Skills and the Farming Connect area, and from the Deputy Minister's portfolio area, are meeting with Professor Jones next week to progress all of the recommendations, and I'm more than happy to undertake to keep the Member informed as to how they progress. Cyfarfu Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, a minnau â'r Athro Wynne Jones a chroesawu ei adroddiad yn gynnes. Bydd yr Aelod yn ymwybodol ein bod wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad—pump yn llwyr, saith mewn egwyddor a thri yn rhannol. Mae'r darnau sydd mewn egwyddor neu'n rhannol yn ymwneud â materion ymarferol a thechnegol yn unig; nid ydynt yn ymwneud â sail yr adroddiad, ac roeddem yn fwy na pharod i gymeradwyo'r sail honno. A dweud y gwir, mae swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau a'r ardal Cyswllt Ffermio, ac o faes portffolio'r Dirprwy Weinidog, yn cyfarfod â'r Athro Jones yr wythnos nesaf i symud yr holl argymhellion yn eu blaenau, ac rwy'n fwy na hapus i roi gwybod i'r Aelod ynglŷn â'u cynnydd.
- 14:07 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
 Minister, obviously the ability to train the next generation of people who make their living off the land is of vital importance. The new rural development plan puts at its heart training and access to training. What discussions have you and your officials had with the other Deputy Minister, who is responsible for the rural development plan, to see what specific educational opportunities might be funded from the moneys made available over the next six years, which the rural development plan will deliver? Weinidog, yn amlwg mae'r gallu i hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o bobl sy'n ennill eu bywoliaeth oddi ar y tir yn hanfodol bwysig. Mae hyfforddiant a mynediad at hyfforddiant yn ganolog i'r cynllun datblygu gwledig newydd. Pa drafodaethau rydych chi a'ch swyddogion wedi'u cael gyda'r Dirprwy Weinidog arall sy'n gyfrifol am y cynllun datblygu gwledig, er mwyn gweld pa gyfleoedd addysgol penodol y gellid eu hariannu o'r cyllid a ddaw ar gael dros y chwe blynedd nesaf drwy'r cynllun datblygu gwledig?

14:07 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Deputy Minister and I have had a number of meetings, and our officials have had a number of meetings. In particular, for example, we met with Lantra, the training council, to talk about some of their schemes. We've had a number of those, and we will continue to do that, because I absolutely agree with the fundamental principle in your question, which is that we must protect the next generation of farmers, and actually we must make sure that farming in Wales is state of the art. So, training both for current farmers and for the next generation is vitally important.

Mae'r Dirprwy Weinidog a minnau wedi cael nifer o gyfarfodydd, ac mae ein swyddogion wedi cael nifer o gyfarfodydd. Yn benodol, er enghraifft, cawsom gyfarfod â Lantra, y cyngor hyfforddi, i siarad am rai o'u cynlluniau. Rydym wedi cael nifer o'r rheini, a byddwn yn parhau i wneud hynny, am fy mod yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor sylfaenol yn eich cwestiwn, fod yn rhaid i ni amddiffyn y genhedlaeth nesaf o ffermwyr, ac mewn gwirionedd mae'n rhaid i ni sicrhau bod ffermio yng Nghymru ar flaen y gad. Felly, mae hyfforddiant i ffermwyr heddiw ac i'r genhedlaeth nesaf yn hollbwysig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:08 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I very much welcome the report by Professor Wynne Jones also, and I think it's an excellent piece of work from a real authority in the sector. One issue that has been brought to my attention, however, is that, while there are some real centres of excellence in further education and higher education for land-based skills, such as, for example, the dairy excellence centre at Coleg Sir Gâr, parts of east Wales are, at the moment, very reliant upon provision across the English border. What discussions have you had with your colleague, the Deputy Minister for Farming and Food, with regard to the danger of a brain drain developing in terms of those with land-based and rural skills, which would be potentially to the detriment of the future of our own economy?

Weinidog, croesawaf yr adroddiad gan yr Athro Wynne Jones hefyd, a chredaf ei fod yn ddarn rhagorol o waith gan awdurdod gwirioneddol yn y sector. Un mater sydd wedi'i ddwyn i fy sylw, fodd bynnag, yw hwn: er bod rhai canolfannau rhagoriaeth gwirioneddol mewn addysg bellach ac addysg uwch ar gyfer sgiliau ar y tir, megis, y ganolfan rhagoriaeth Ilaeth yng Ngholeg Sir Gâr, er enghraifft, mae rhannau o ddwyrain Cymru ar hyn o bryd yn ddibynnol iawn ar ddarpariaeth yr ochr draw i'r ffin. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'ch cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, ynglŷn â'r perygl y bydd draen dawn yn datblygu o ran y rhai sydd â sgiliau ar y tir a sgiliau gwledig, a allai fod yn niweidiol i ddyfodol ein heconomi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:09 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I haven't had any particular discussions on that very specific point, but what we have been having are a lot of discussions together—me and my officials with FE colleges—about the base of the curriculum. We don't guarantee that all FE colleges maintain the same curriculum, but we do ask that, in the plans that they submit to us for approval, they take account of local labour market intelligence, they take account of all the regional learning partnership work, they take account of work that the rural development plan outlines, and so on, to come to the basis on which they set out their curriculum, and then those plans are approved by DfES officials and, ultimately, by me and by the Minister for Education and Skills. So, in that way, we actually ensure that that isn't happening. But, if there are very specific issues that the Member wants to bring to my attention, I'm happy to look at that further.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau arbennig ynghylch yr union bwynt hwnnw, ond yr hyn rydym wedi bod yn eu cael yw llawer o drafodaethau gyda'n gilydd—fy swyddogion a minnau gyda cholegau Addysg Bellach—ynghylch sylfaen y cwricwlwm. Nid ydym yn gwarantu y bydd pob coleg AB yn cynnal yr un cwricwlwm, ond rydym yn gofyn iddynt ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur leol yn y cynlluniau y maent yn eu cyflwyno i ni i'w cymeradwyo, eu bod yn ystyried holl waith y partneriaethau dysgu rhanbarthol, eu bod yn ystyried y gwaith y mae'r cynllun datblygu gwledig yn ei amlinellu, ac yn y blaen, er mwyn pennu'r sylfaen y maent yn gosod eu cwricwlwm arni, ac yna cymeradwyr y cynlluniau hynny gan swyddogion yr Adran Addysg a Sgiliau, ac yn y pen draw, gennyf i a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau. Felly, yn y ffordd hon, rydym yn sicrhau na fydd draen dawn yn digwydd. Ond os oes materion penodol iawn y mae'r Aelod yn awyddus i dynnu fy sylw atynt, rwy'n hapus i edrych ymhellach ar hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Prentisiaethau i Bobl Ifanc

Apprenticeships for Young People

14:10 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am annog pobl ifanc i ystyried prentisiaethau? OAQ(4)0560(ESK)

6. Will the Minister make a statement on encouraging young people to consider apprenticeships? OAQ(4)0560(ESK)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for that important question. We are continuing to focus on the need to maintain apprenticeship funding for learners aged 16 to 24, and to ensure continued support for all-age higher apprenticeships.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn pwysig hwnnw. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar yr angen i gynnal cyllid prentisiaethau ar gyfer dysgwyr 16 i 24 oed, ac i sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi prentisiaethau uwch i bob oedran.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. Er gwaethaf uchelgeisiau rhaglen Ynys Ynni yn Ynys Môn, mae wedi dod i'm sylw i fod Scottish Power Energy Networks yn cael trafferth denu digon o bobl ifanc i mewn i brentisiaethau—pobl ifanc lleol, hynny yw—ac i ddilyn cyfleon addysg yn y diwydiant trosglwyddo ynni. Maen nhw yn dweud wrthyf i fod hynny yn berffaith glir mewn ffeiriau gyrfaoedd, yn arbennig o wir am ferched, ac maen nhw'n arbennig o bryderus, medden nhw, am y toriadau i gyllid Gyrfa Cymru. Beth all y Dirprwy Weinidog ei wneud i sicrhau bod cyngor gyrfaoedd, gan gynnwys gwerthu prentisiaethau, yn cyrraedd disgyblion ynghynt yn yr ysgol? A oes angen sicrhau hefyd fod ffeiriau gyrfaoedd fel hyn yn cael eu cynnal y tu allan i oriau ysgol, fel bod rhieni hefyd yn gallu dod yn rhan o'r broses a'u bod hwythau yn ymwybodol o'r cyfleon sydd ar gael drwy brentisiaethau?

Thank you. Despite the ambitions of the Energy Island programme on Anglesey, it's come to my attention that Scottish Power Energy Networks is having difficulty attracting enough young people into apprenticeships—local young people, that is—and to pursue opportunities in the energy transmission field. They say that that is clear in careers fairs, especially for girls, and they are concerned, they say, about the cuts to Careers Wales's budget. What can the Deputy Minister do to ensure that careers advice, including the selling and promoting of apprenticeships, reaches pupils sooner in their school careers? Do we need to ensure also that careers fairs are held outside of school hours so that parents can also become a part of the process and so that they are aware of the opportunities that are available through apprenticeships?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I agree with the premise that parents are very important in making the decision for young people, and we know that they're amongst the most influential in a young person's career decisions. Careers Wales have developed a web-based common application process—very confusingly called 'CAP' for those of us who know about agricultural things—so that young people can see all of the courses available to them, and apply for them on that basis, when in school, at the point that they're making choices. We are having a lot of conversations with school consortia, regional learning partnerships, and so on, to make sure that all young people choose their courses, both school based and vocational based, from that common application process, or common area prospectus as it's also known, but it's the same thing. So, if you have a look at the new Careers Wales website, which I think is a lot less clunky than it was before, you'll see that we're encouraging that. Obviously, the whole purpose of that is to get to parity of esteem between the two courses, and to ensure that people are not encouraged to stay on in an academic route where it's not appropriate, and that they are encouraged into a vocational route where that is appropriate, regardless of where they're coming from.

Ydw, rwy'n cytuno â'r rhagosodiad fod rhieni yn bwysig iawn pan fydd pobl ifanc yn gwneud y penderfyniad, a gwyddom eu bod ymhlith y rhai mwyaf dylanwadol o ran y dewisiadau sy'n wynebu pobl ifanc ynglŷn â'u gyrfaoedd. Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu proses ymgeisio gyffredinol ar y we—o'r enw 'CAP', sy'n ddryslyd iawn i'r rhai ohonom sy'n gwybod am bethau amaethyddol—er mwyn i bobl ifanc allu gweld yr holl gyrisiau sydd ar gael iddynt, ac ymgeisio am le arnynt ar y sail honno yn yr ysgol ar yr adeg y byddant yn gwneud dewisiadau. Rydym yn cael llawer o sgyrsiau gyda chonsortia ysgolion a phartneriaethau dysgu rhanbarthol ac yn y blaen er mwyn sicrhau bod pob person ifanc yn dewis eu cyrsiau, yn yr ysgol neu'n alwedigaethol, drwy'r broses ymgeisio gyffredin honno, neu'r prospectws ardal gyffredin fel y'i gelwir hefyd, ond yr un peth ydynt. Felly, os edrychwch ar wefan newydd Gyrfa Cymru, sy'n llawer llai trwsgl nag o'r blaen yn fy marn i, fe welwch ein bod yn annog hynny. Yn amlwg, holl bwrpas hynny yw ennyn parch cyfartal at y ddau gwrs, ac er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu hannog i barhau ar lwybr academiaidd lle nad yw hynny'n briodol, a'u bod yn cael eu hannog i ddilyn llwybr galwedigaethol lle y bo'n briodol, o ba gyfeiriad bynnag y dânt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On careers fairs, I have made the point at a number of fairs that I've been to that it's worth, first of all, thinking about the hours that they're held so that parents can attend, or so that other influencers such as grandparents can attend. I've also made the point—I made it at one I was at only last week—that if you're trying to encourage girls into a particular area of work and the careers fair is set up so that only male teachers are there and all the surrounding people who are looking interested are boys, they're most unlikely to cross the floor and have a look at it. So, we're hoping to make sure that there's at least one female tutor, for example, in every area. And conversely, in caring professions, that there's one male one so that we can encourage participation across the gender stereotypes that we still see in those areas of work.

O ran ffeiriau gyrfaoedd, rwyf wedi gwneud y pwynt mewn nifer o ffeiriau a fynychais ei bod hi'n werth ystyried, yn gyntaf oll, pa bryd y cânt eu cynnal er mwyn i rieni allu eu mynychu neu er mwyn i ddylanwadwyr eraill fel neiniau a theidiau allu bod yn bresennol. Rwyf hefyd wedi gwneud y pwynt—fe wnes hynny mewn ffair a fynychais yr wythnos diwethaf—os ydych yn ceisio annog merched i faes gwaith penodol ac mai athrawon gwrywaidd yn unig sy'n bresennol, a phawb sy'n dangos diddordeb yn fechgyn, maent yn annhebygol iawn o groesi'r llawr i gael gweld. Felly, rydym yn gobeithio sicrhau bod o leiaf un tiwtor benywaidd, er enghraifft, ym mhob maes. Ac fel arall, o ran y proffesiynau gofalu, fod un tiwtor gwrywaidd yn bresennol er mwyn i ni allu annog cyfranogiad ar draws y stereoteipiau cysylltiedig â rhyw sy'n dal i'w gweld yn y meysydd gwaith hynny.

14:13

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I welcome the success of Jobs Growth Wales, but the real results of the scheme remain difficult to ascertain. Figures from Statistics for Wales, released on 27 February, showed that of 5,313 youngsters who'd completed a six-month private sector apprenticeship, less than half found a full-time position with the same employer, and over 10% are unemployed. Minister, what plans are in place to ensure that we don't train young people up only to find that they're still unemployed at the end of the scheme?

Weinidog, croesawaf lwyddiant Twf Swyddi Cymru, ond mae canlyniadau gwirioneddol y cynllun yn parhau i fod yn anodd eu pennu. Mae ffigurau gan Ystadegau Cymru a ryddhawyd ar 27 Chwefror yn dangos bod llai na hanner y 5,313 o bobl ifanc a oedd wedi cwblhau prentisiaeth chwe mis yn y sector preifat wedi cael swydd lawn amser gyda'r un cyflogwr, a bod dros 10% yn ddi-waith. Weinidog, pa gynlluniau sydd ar waith i sicrhau nad ydym yn hyfforddi pobl ifanc a chanfod eu bod yn dal yn ddi-waith ar ddiwedd y cynllun?

14:13

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm not too sure which figures you're looking at. One of the difficulties with Jobs Growth Wales's figures for completions is that, of course, a large number of the people on Jobs Growth Wales schemes are still in the scheme, so it's very difficult to look at completion rates over a very short period of time. So, I don't quite recognise the figures, but I take the point that you're making in general.

Nid wyf yn rhy sicr ar ba ffigurau rydych yn edrych. Un o'r anawsterau gyda ffigurau Twf Swyddi Cymru ar gyfraddau cwblhau, wrth gwrs, yw bod nifer fawr o bobl ar gynlluniau Twf Swyddi Cymru yn dal i fod yn rhan o'r cynllun, felly mae'n anodd iawn edrych ar y cyfraddau cwblhau dros gyfnod byr iawn o amser. Felly, nid wyf yn gyfarwydd iawn â'r ffigurau hyn, ond rwy'n derbyn y pwynt cyffredinol rydych yn ei wneud.

A very large number of people who go on to a Jobs Growth Wales scheme actually go on to different full-time employment, not with the same employer, and they often do it before the end of their six-month period. It's because, actually, it's a very good stepping stone into good careers. We will be having a final evaluation done of the project and we are, in the next round of European funding, looking at a Jobs Growth Wales 2, although I'm not too sure what we're going to call it. As part of that final evaluation, we will be looking at issues like that. But, actually, it has a very high completion rate into an apprenticeship—an apprenticeship is not a backward step; it's a progression up the ladder from a minimum wage often. We're also looking at the quality of jobs that have been provided during the scheme, and then immediately afterwards, what the participation rate is and what the actual drop-out rate is for people who are no longer in education, employment or training afterwards, as opposed to being in some other form of education, employment or training. We will be making that evaluation public when we have it.

Mae nifer fawr iawn o bobl sy'n mynd ymlaen i gynllun Twf Swyddi Cymru mewn gwirionedd yn mynd ymlaen i waith llawn amser gwahanol, nid gyda'r un cyflogwr, ac maent yn aml yn gwneud hynny cyn diwedd eu cyfnod o chwe mis. Mae hyn oherwydd ei fod yn gam da iawn i mewn i yrfaeodd da. Byddwn yn cynnal gwerthusiad terfynol o'r prosiect ac rydym yn edrych, yn y rownd nesaf o gyllid Ewropeaidd, ar Twf Swyddi Cymru 2, er nad wyf i'n rhy sicr beth rydym yn mynd i'w alw. Fel rhan o'r gwerthusiad terfynol hwnnw, byddwn yn edrych ar faterion fel hynny. Ond mewn gwirionedd, mae cyfradd cwblhau uchel iawn i mewn i brentisiaeth—nid yw prentisiaeth yn gam yn ôl; mae'n aml yn gam yn uwch i fyny'r ysgol na'r isafswm cyflog. Rydym hefyd yn edrych ar safon y swyddi sydd wedi cael eu darparu yn ystod y cynllun, ac yna'n syth ar ôl hynny, beth yw cyfradd cyfranogiad a pha gyfradd sy'n rhoi'r gorau iddi ymhlith pobl nad ydynt bellach mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedyn, yn hytrach na mewn rhyw fath arall o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Byddwn yn gwneud y gwerthusiad hwnnw'n gyhoeddus pan fyddwn wedi ei gael.

14:15

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Minister, last week I had the opportunity to visit King, Morter, Proud and Company, which is a firm of accountants in Brecon, to meet some of their apprentices. They were very impressive young women, but both said that neither of them had ever been advised, whilst in school, about the availability of apprenticeships. Also, they were concerned that perhaps apprenticeships in non-traditional areas, such as accountancy and business administration, aren't really at the forefront of people's minds. What steps are the Government taking to ensure that all schoolchildren are told about the opportunities of apprenticeships, and that, also, apprenticeships are available in, perhaps, non-traditional areas? When people usually think of apprenticeships, perhaps they think of construction and things like that, but, actually, professions such as accountancy, the legal profession, are also available.

Weinidog, yr wythnos diwethaf cefais y cyfle i ymweld â King, Morter, Proud and Company, cwmni o gyfrifwyr yn Aberhonddu, i gwrrdd â rhai o'u prentisiaid. Roeddent yn fenywod ifanc a wnaeth argraff fawr ond dywedodd y ddwy nad oedd yr un ohonynt erioed wedi cael cyngor yn yr ysgol, o ran pa brentisiaethau a oedd ar gael. Hefyd, roeddent yn pryderu efallai nad oedd prentisiaethau mewn meysydd anhraddodiadol, megis cyfrifyddiaeth a gweinyddu busnes, yn flaenllaw ym meddyliau pobl mewn gwirionedd. Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod pob plentyn ysgol yn cael gwybod am gyfleoedd prentisiaeth, a hefyd bod prentisiaethau ar gael mewn meysydd anhraddodiadol, o bosibl? Pan fydd pobl fel arfer yn meddwl am brentisiaethau, efallai eu bod yn meddwl am adeiladu a phethau felly, ond mewn gwirionedd, mae cyfleoedd mewn proffesiynau megis cyfrifyddiaeth a'r gyfraith ar gael hefyd.

14:16

Julie James [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely. It's the same answer I gave to Rhun ap Iorweth, really. Careers Wales have only very recently developed this web-based approach to the routes; we're looking to ensure that all courses are chosen through those routes, so that all of the options available to people are available to them at the point they make the choice. I recently had the real pleasure of meeting with all of the apprentices employed by the Assembly Commission and by the Welsh Government up in Cathays park. There are some cracking photographs of them on the web—tragically, they had to have me in the photograph as well, but it doesn't detract too much from it. Those people were all doing things that are considered to be non-traditional apprenticeships: so, in HR, in accountancy, in book-keeping, in the work of the Commission, and so on. They were a great bunch of people; they were great to listen to. So, we take that point. We are making the Careers Wales website much better, we are ensuring that Careers Wales professionals make those choices really obvious, and, of course, we're putting our money into the higher level apprenticeship routes that those young people are taking advantage of.

Yn hollol. Dyna'r ateb a roddais i Rhun ap Iorweth mewn gwirionedd. Yn ddiweddar y datblygodd Gyrfa Cymru y dull hwn ar y we o gyrraedd llwybrau; rydym yn ceisio sicrhau bod pob cwrs yn cael ei ddewis drwy'r llwybrau hynny, er mwyn i'r holl opsiynau sydd ar gael i bobl fod ar gael iddynt ar yr adeg y gwnânt y dewis. Yn ddiweddar, cefais y pler gwirioneddol o gwrdd â phob un o'r prentisiaid a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad a chan Lywodraeth Cymru ym Mharc Cathays. Mae rhai lluniau gwych ohonynt ar y we—yn anffodus, roedd yn rhaid iddynt fy nghael innau yn y llun hefyd, ond nid yw'n tynnu gormod oddi arnynt. Roedd pob un o'r bobl hyn yn gwneud pethau sy'n cael eu hystyried yn brentisiaethau anhraddodiadol, er enghraifft Adnoddau Dynol, cyfrifdydiaeth, cadw cyfrifon, gwaith y Comisiwn ac yn y blaen. Roeddent yn griw gwych o bobl; roedd yn wych gwrandao arnynt. Felly, rydym yn cymryd y pwynt hwnnw. Rydym yn gwneud gwefan Gyrfa Cymru yn well o lawer, rydym yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol Gyrfa Cymru yn gwneud y dewisiadau hynny yn hollol amlwg, ac wrth gwrs, rydym yn rhoi ein harian i mewn i'r llwybrau prentisiaeth lefel uwch y mae pobl ifanc yn manteisio arnynt.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you.

Diolch yn fawr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

2. Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

We now move on to item 2, and that's questions to the Minister for Economy, Science and Transport. Question 1 is Mohammad Asghar.

2. Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn ymlaen at eitem 2, sef cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Daw cwestiwn 1 gan Mohammad Asghar.

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Allforion Cymru

Welsh Exports

14:17

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i roi hwb i allforion Cymru yn 2015? OAQ(4)0534(EST)

1. What plans does the Minister have to boost Welsh exports in 2015? OAQ(4)0534(EST)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

We continue to support businesses through our extensive programme of overseas trade missions and exhibitions, backed by a comprehensive support package.

Rydym yn parhau i gefnogi busnesau drwy ein rhaglen eang o deithiau masnach tramor ac arddangosfeydd, wedi'u cefnogi gan becyn cymorth cynhwysfawr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the reply, Minister. Recent figures show that the value of exports for Wales for the four quarters up to and including quarter four of 2014 has fallen by over £1.6 billion compared to the previous four quarters. What reason can the Minister provide for this significant drop in the value of our exports, which clearly indicates that Wales is losing its visibility in the global market?

Diolch am yr ateb, Weinidog. Mae ffigurau diweddar yn dangos bod gwerth allforion Cymru ar gyfer y pedwar chwarter hyd at, ac yn cynnwys pedwerydd chwarter 2014 wedi gostwng dros £1.6 biliwn o gymharu â'r pedwar chwarter blaenorol. Pa reswm y gall y Gweinidog ei roi dros y gostyngiad sylweddol yng ngwerth ein hallforion sy'n dangos yn glir bod Cymru yn llai gweledol yn y farchnad fyd-eang?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:18 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think you've got to look at Welsh exports in the round, not just look at quarter four of 2014; you've got to look at what's happening in other European countries. But we're quite clearly trying to ensure that we do progress and help companies to export more, because it's essential for the economy of Wales and the UK as a whole.
- Rwy'n meddwl bod yn rhaid i chi edrych ar allforion o Gymru yn gyffredinol, nid ar bedwerydd chwarter 2014 yn unig; mae'n rhaid i chi edrych ar yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Ond rydym yn amlwg yn ceisio sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd ac yn helpu cwmnïau i allforio mwy, gan fod hynny'n hanfodol i economi Cymru a'r DU yn gyffredinol.
- 14:18 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I'm sure you'll join me in welcoming Tata's strengthening export position in North American markets, actually showing the desirability of the high-quality steel produced at Port Talbot. What actions are the Welsh Government taking to support our manufacturing industries to build strong exports to the North American markets and benefit from the economic recovery being seen across the Atlantic?
- Weinidog, rwy'n siŵr y gwnewch chi ymuno â mi i groesawu'r ffaith fod sefyllfa allforio Tata yn cryfhau ym marchnadoedd Gogledd America, gan ddangos mewn gwirionedd cymaint o alw sydd am y dur o ansawdd uchel a gynhyrchir ym Mhort Talbot. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd er mwyn cefnogi ein diwydiannau gweithgynhyrchu i ddatblygu allforion cryf i farchnadoedd Gogledd America ac i elwa o'r adferiad economaidd sy'n digwydd ar yr ochr draw i'r Iwerydd?
- 14:18 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. In 2014, the USA was the top export destination for Welsh businesses, with the value of Welsh exports valued at something like £2.8 billion. Canada is also a top 10 Welsh export destination in 2014. We have a very strong presence as a Welsh Government in North America, and the First Minister continues to lead delegations to North America to consolidate the position.
- Diolch yn fawr. Yn 2014, yr Unol Daleithiau oedd y gyrchfan allforio fwyaf llwyddiannus i fusnesau Cymru, gyda gwerth allforion o Gymru oddeutu £2.8 biliwn. Roedd Canada hefyd yn un o 10 gyrchfan allforio mwyaf llwyddiannus Cymru yn 2014. Mae gennym bresenoldeb cryf iawn fel Llywodraeth Cymru yng Ngogledd America, ac mae'r Prif Weinidog yn parhau i arwain dirprwyathau i Ogledd America i atgyfnerthu ein safle.
- 14:19 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Er bod Cymru'n allforio mwy nag y mae'n ei fewnforio, nid yw hi'n cael ei gweld yn rhyngwladol fel gwlad allforio. Nawr, UKTI sydd yn cynrychioli Cymru dramor, ond o'r 600 o staff sydd ganddyn nhw, mae 500 yn gweithio yn Llundain, ac mae'r 100 arall wedi'u rhannu rhwng Glasgow a gweddill Lloegr. Nid oes dim un yn gweithio yma yng Nghymru. A ydych chi wedi bod mewn trafodaeth â'r Llywodraeth yn Llundain i gael presenoldeb gan UKTI yma yng Nghymru?
- Even though Wales exports more than it imports, it's not seen internationally as a country of exports. Now, UKTI represents Wales abroad, but of the 600 staff that they have, 500 work in London and 100 are divided between Glasgow and the rest of England. None of them work here in Wales. Have you had discussions with the Government in London about having a presence by UKTI here in Wales?
- 14:19 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I make it clear we do actually have an excellent relationship with UKTI in London? We have, of course, had exchanges of staff, and we have an excellent relationship, but I think there's probably more we can do to consolidate that relationship to make sure that Wales has the total benefit of UKTI's presence across the globe to help and assist exports and, of course, businesses attracted to Wales as well.
- A gaf fi ei gwneud yn glir fod gennym berthynas ardderchog, mewn gwirionedd, gyda Masnach a Buddsoddi y DU yn Llundain? Rydym wedi cyfnewid staff, wrth gwrs, ac mae gennym berthynas ardderchog, ond rwy'n meddwl bod mwy y gallwn ei wneud, yn ôl pob tebyg, i atgyfnerthu'r berthynas honno er mwyn sicrhau bod Cymru yn manteisio'n llawn ar bresenoldeb Masnach a Buddsoddi y DU ledled y byd i helpu a chynorthwyo allforion, a busnesau a ddenir i Gymru hefyd, wrth gwrs.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Active Travel (Wales) Act 2013

- 14:20 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)0540(EST)*
- 2. What progress has been made in implementing the Active Travel (Wales) Act 2013? OAQ(4)0540(EST)*

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gyflawni teithio llesol yng Nghymru, yn dilyn pasio a chychwyn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)0538(EST)

7. Will the Minister make a statement on Welsh Government action to achieve active travel in Wales, following the passing and commencement of the Active Travel (Wales) Act 2013? OAQ(4)0538(EST)

14:20 Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand, Presiding Officer, that you've given your permission for questions 2 and 7 to be grouped. Since the Active Travel (Wales) Act 2013 came into force last September, we have published guidance for local authorities on the delivery of the Act and the standards we wish to see, and are taking forward a wide range of measures to increase levels of active travel in Wales.

Deallaf, Lywydd, eich bod wedi rhoi eich caniatâd i gwestiynau 2 a 7 gael eu grwpio. Ers i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ddod i rym fis Medi diwethaf, rydym wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar weithredu'r Ddeddf a'r safonau rydym am eu gweld, ac yn datblygu ystod eang o fesurau i gynyddu lefelau teithio llesol yng Nghymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:20 Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. Last week, I visited Whitchurch Primary School as part of The Big Pedal competition, currently being run by Sustrans for schools across the UK. It was really exciting to see so many children cycling, scooting and walking to school. Bearing in mind how vitally important it is that children's views on safe routes to school are sought by local authorities as part of their duties in producing integrated network maps of new and improved active travel routes under the Active Travel (Wales) Act, what can the Minister do to ensure that children are consulted as part of the process of setting up these routes?

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb. Yr wythnos diwethaf, ymwelais ag Ysgol Gynradd Eglwys Newydd fel rhan o gystadleuaeth The Big Pedal sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd gan Sustrans ar gyfer ysgolion ledled y DU. Roedd yn gyffrous iawn gweld cymaint o blant yn beicio, ar eu sgwteri ac yn cerdded i'r ysgol. O gofio pa mor hanfodol bwysig yw hi i awdurdodau lleol glywed barn plant ar lwybrau diogel i'r ysgol fel rhan o'u dyletswyddau i gynhyrchu mapiau rhwydwaith integredig o lwybrau teithio llesol newydd a gwell o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), beth y gall y Gweinidog ei wneud er mwyn sicrhau bod ymgynghori'n digwydd â phlant fel rhan o'r broses o sefydlu'r llwybrau hyn?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:21 Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely concur with your comments, because it's important that children and young people are consulted. In terms of the delivery guidance, it makes it clear that the local authority should give particular consideration to their views. I also require local authorities to prove to me that they've engaged effectively with schools when we are looking at safe routes to school and, in terms of the development of safe routes along the trunk road, I've utilised the children's commissioner, with children's safety groups et cetera, to ensure that the practice is correct in the Assembly as well.

Cytunaf yn llwyr â'ch sylwadau, oherwydd mae'n bwysig ymgynghori â phlant a phobl ifanc. O ran y canllawiau gweithredu, maent yn ei gwneud yn glir y dylai'r awdurdod lleol roi ystyriaeth arbennig i'w barn. Rwyf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol brofi i mi eu bod wedi ymgysylltu'n effeithiol gydag ysgolion pan fyddwn yn edrych ar lwybrau diogel i ac o'r ysgol ac o ran y gwaith o ddatblygu llwybrau diogel ar hyd y gefnffordd, rwyf wedi gwneud defnydd o'r comisiynydd plant, gyda grwpiau diogelwch plant ac ati, er mwyn sicrhau bod arfer cywir ar waith yn y Cynulliad hefyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:21 John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you mentioned guidance under the Act, and of course, one of the purposes of the legislation is to ensure improved quality of design for on-road active travel infrastructure. So, how is Welsh Government supporting the adoption of the excellent new active travel design guidance to ensure that both local and national Government transport projects implement the highest level of design standard?

Weinidog, fe sonioch am ganllawiau o dan y Ddeddf, ac wrth gwrs, un o ddibenion y ddeddfwriaeth yw sicrhau cynlluniau o ansawdd gwell ar gyfer seilwaith teithio llesol ar y ffordd. Felly, sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses o fabwysiadu'r canllawiau rhagorol newydd ar gyfer cynllunio teithio llesol i sicrhau bod prosiectau trafnidiaeth lleol a chenedlaethol y Llywodraeth yn gweithredu'r lefel uchaf o ran safon cynllunio?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 14:22 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, well, I have to ensure that design guidance will be adhered to for projects on the trunk road and the motorway network, and, of course, we will work with our people in local government to ensure that they do the same. But I am giving further consideration to training needs for engineers and planners in local authorities and the private sector to ensure awareness of the new guidance so that we have good practice all across Wales.
- le, wel, mae'n rhaid i mi sicrhau y bydd canllawiau cynllunio yn cael eu dilyn ar gyfer prosiectau ar y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd, ac wrth gwrs, byddwn yn gweithio gyda'n swyddogion llywodraeth leol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud yr un peth. Ond rwy'n rhoi ystyriaeth bellach i anghenion hyfforddi peirianwyr a chynllunwyr awdurdodau lleol a'r sector preifat i sicrhau ymwybyddiaeth o'r canllawiau newydd er mwyn i ni gael arferion da ledled Cymru.
- 14:22 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I'm sure that you recognise, as I do, the slow start in local authorities realising the obligations on them under the Act. I think in particular of section 9 of the Act, namely placing signage on cycle routes. I'm sure that every Member of this Chamber could find an example on a weekly basis of contractors, utility companies and council workers infringing this section of the Act. What are you doing to enforce these responsibilities on local authorities?
- Weinidog, rwy'n siŵr eich bod chi fel finnau yn cydnabod bod awdurdodau lleol wedi bod yn araf yn dechrau gwireddu'r ymrwymadau sydd arnynt o dan y Ddeddf. Rwy'n meddwl yn benodol am adran 9 o'r Ddeddf, sef gosod arwyddion ar lwybrau beicio. Rwy'n sicr y gallai pob Aelod o'r Siambr hon ddod o hyd i enghraifft yn wythnosol o gontractwyr, cwmnïau gwasanaethau a gweithwyr cyngor yn torri'r adran hon o'r Ddeddf. Beth a wnewch i orfodi'r cyfrifoldebau hyn ar awdurdodau lleol?
- 14:23 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, there is an issue about producing maps of the existing routes et cetera, and we have put time guidance on that. I actually haven't had considerable correspondence on this issue, but, as the Member has raised it with me, I'll make further enquiries of my officials to see if there is anything further they can do in terms of local government and these signage issues.
- Wel, wrth gwrs, mae yna broblem ynghylch cynhyrchu mapiau o'r llwybrau presennol ac ati, ac rydym wedi rhoi canllawiau amser ar hynny. Mewn gwirionedd nid wyf wedi cael llawer o ohebiaeth ar y mater hwn, ond gan fod yr Aelod wedi ei grybwyll, fe holaf fy swyddogion i weld a oes unrhyw beth pellach y gellir ei wneud o ran llywodraeth leol a'r materion hyn sy'n codi mewn perthynas ag arwyddion.
- 14:23 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I return to the point I think Julie Morgan was making? I'm very concerned to see that safe routes to school are the building blocks—the very essential building blocks—for local active travel plans anyway. If we don't get that right, then the rest of the plan may well fall apart because it's starting with the young people, starting with those safe routes to schools, that really builds confidence in bike use and walking in particular. Are you convinced, Minister, that you have got that right or at least that the guidance is right and that you're working sufficiently hard with local authorities to give that emphasis on the safe routes to schools? I'm very concerned that that doesn't get lost in some of the other things that may be happening around these, particularly at this initial stage.
- A gaf fi ddychwelyd at y pwynt roedd Julie Morgan, rwy'n meddwl, yn ei wneud? Rwy'n awyddus iawn i weld mai llwybrau diogel i'r ysgol yw'r sylfeini—y sylfeini hanfodol iawn—ar gyfer cynlluniau teithio llesol lleol beth bynnag. Os na chawn hynny'n iawn, yna gall gweddill y cynllun chwalu gan mai dechrau gyda'r bobl ifanc, dechrau gyda'r llwybrau diogel i'r ysgolion, sy'n adeiladu hyder mewn gwirionedd ar gyfer defnyddio beic a cherdded yn arbennig. A dydych yn argyhoeddedig, Weinidog, eich bod wedi cael hynny'n iawn neu fod y canllawiau'n iawn, fan lleiaf, a'ch bod yn gweithio yn ddigon caled gydag awdurdodau lleol i sicrhau'r pwyslais ar y llwybrau diogel i'r ysgol? Rwy'n awyddus iawn i sicrhau nad yw hynny'n mynd ar goll ymysg rhai o'r pethau eraill a allai fod yn digwydd mewn perthynas â hyn, yn enwedig ar y cam cychwynnol hwn.
- 14:23 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I think I probably share an element of your concerns, because I think it is important that we get the guidance absolutely correct. I will be reviewing the guidance in light of experience, but also I think it's important for people to recognise their obligations on safe routes to school, and the safety of children is absolutely paramount. I think that, by us looking at the trunk roads ourselves and examining the issues around there, that gives us greater authority to engage with local authorities on what their responsibilities are, but it's a matter I'm happy to return to again in terms of a statement and update for Members.
- Ydw, credaf fy mod fwy na thebyg yn rhannu rhywfaint o'ch pryderon, oherwydd credaf ei bod yn bwysig i ni gael y canllawiau yn hollol gywir. Byddaf yn adolygu'r canllawiau yng ngoleuni profiad, ond rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig i bobl gydnabod eu cyfrifoldebau ynghylch llwybrau diogel i'r ysgol, ac mae diogelwch plant yn hollbwysig. Wrth i ni edrych ar y cefnffyrdd ein hunain ac archwilio'r problemau sy'n gysylltiedig â hwy, credaf y bydd hynny'n rhoi mwy o awdurdod i ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch beth yw eu cyfrifoldebau hwy, ond mae'n fater rwy'n hapus i ddychwelyd ato o ran rhoi datganiad a'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau.

- 14:24 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, it is clearly important with these Bills—and I've got the original Active Travel (Wales) Bill here and I was on the committee when it was being formulated—that, rather than simply lying on a shelf getting dusty it's actually happening out there. So, pardon the pun, but how is this happening out there on the ground? We know at the moment that local authority budgets, particularly in the coming year, are going to be extremely stretched. There is an obligation on local authorities to come forward with the new route-maps within a certain time frame. Is all this happening to plan, or are local authorities falling behind, understandably, at a time when budgets are being squeezed?
- Weinidog, mae'n amlwg yn bwysig fod y Biliau hyn—ac mae gen i'r Bil Teithio Llesol (Cymru) gwreiddiol yma ac roeddwn i ar y pwyllgor pan oedd yn cael ei lunio—yn digwydd allan yno mewn gwirionedd yn hytrach nag eistedd ar sillff yn hel llwch. Felly, maddeuwch y chwarae ar eiriau, ond sut y mae hyn yn digwydd allan ar lawr gwlad? Gwyddom ar hyn o bryd fod cyllidebau awdurdodau lleol, yn enwedig yn y flwyddyn sydd i ddod, yn mynd i fod o dan bwysau eithriadol. Mae rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i gyflwyno mapiau'r llwybrau newydd o fewn ffrâm amser benodol. A yw hyn i gyd yn digwydd fel y'i cynlluniwyd neu a yw awdurdodau lleol ar ei hôl hi, yn ddigon dealladwy, mewn cyfnod pan fo cyllidebau'n cael eu gwasgu?
- 14:25 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I don't think budget cuts are an excuse, actually, for not dealing with things that are at the heart of safety of children and what we're doing in terms of active travel. Can I say that we do have some concerns that local authorities are not as proactive as they should be in this particular area? I can assure the Member that we are dealing with those now.
- Nid wyf yn credu bod toriadau i gyllidebau'n esgus, mewn gwirionedd, dros beidio ag ymdrin â phethau sy'n ganolog i ddiogelwch plant a'r hyn rydym yn ei wneud o ran teithio llesol. A gaf fi ddweud bod gennym rai pryderon nad yw awdurdodau lleol mor rhagweithiol ag y dylent fod yn y maes penodol hwn? Gallaf sicrhau'r Aelod ein bod yn ymdrin â'r rheini yn awr.
- Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau** **Questions Without Notice from Party Spokespeople**
- 14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople and first this afternoon we have the Welsh Conservatives' spokesperson, Suzy Davies.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma dyma lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Suzy Davies.
- 14:25 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Deputy Minister, what do you think of the latest television advert in the 'Have you packed for Wales?' series?
- Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, beth yw eich barn am yr hysbyseb deledu ddiweddaraf yng nghyfres 'Does unman tebyg i Gymru'?
- 14:25 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*
- I think the results speak volumes. We are seeing the Welsh tourist economy outperforming the UK economy as a whole, both in terms of attracting increased visitor numbers and increasing visitor spend.
- Rwy'n meddwl bod y canlyniadau yn siarad cyfrolau. Mae economi twristiaeth Cymru yn perfformio'n well nag economi'r DU yn ei chyfanrwydd, o ran denu mwy o ymwelwyr a chynyddu gwariant ymwelwyr.

14:25	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for that answer. I was talking specifically about the latest advert, the production values of which, actually, are a complete credit to our creative industries. But, in terms of brand building and creating an appetite to stay longer and spend more in Wales, I have to say I think it's totally baffling. You'll know that the owner of one of our major attractions has called it the worst advert for Wales that he's seen in 43 years. In broadcasting it late on a Monday night to audiences in Wales, who may not even recognise that the advert showcases Cardiff, are you satisfied that the advert is reaching its target audience, because, of course, casual views are not the same as stimulating interest and, indeed, increasing visits?</p>	<p>Diolch am eich ateb. Roeddwn yn sôn yn benodol am yr hysbyseb ddiweddaraf, a'i gwerthoedd cynhyrchu sy'n gredyd i'n diwydiannau creadigol. Ond o ran datblygu brand a chreu'r awydd i aros yn hwy a gwario mwy yng Nghymru, rhaid i mi ddweud fy mod yn meddwl ei bod yn hollol anealladwy. Fe fyddwch yn ymwybodol fod perchennog un o'n prif atyniadau wedi dweud mai dyma'r hysbyseb salaf ar gyfer Cymru iddo ei gweld mewn 43 mlynedd. Drwy ei darlledu'n hwyr ar nos Lun i gynulleidfaoedd yng Nghymru nad ydynt efallai'n sylwi bod yr hysbyseb yn arddangos Caerdydd hyd yn oed, a ydych yn fodlon fod yr hysbyseb yn cyrraedd ei chynulleidfa darged, gan nad yw golygfeydd achlysurol, wrth gwrs, yr un fath ag ysgogi diddordeb nac yn wir, yr un fath â chynnyddu nifer yr ymweliadau?</p>
14:26	Kenneth Skates Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>First of all, I'm not surprised by that specific criticism from one person. Secondly, yes, I am satisfied that the advertisement is going out in the right places at the right times—not just within the UK, not just within Wales, but also in Germany and our other target markets, and that it's also being watched very broadly online.</p>	<p>Yn gyntaf oll, nid wyf wedi fy synnu gan y feirniadaeth benodol honno gan un person. Yn ail, ydw, rwy'n fodlon fod yr hysbyseb yn cael ei darlledu yn y manau cywir ar yr adegau cywir—nid yn unig o fewn y DU, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd yn yr Almaen a'n marchnadoedd targed eraill, a'i bod hefyd yn cael ei gwyllo'n eang ar-lein.</p>
14:26	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for the answer, but, as I said, casual views don't equate to actual visitors. But I am pleased you raised Germany. I am pleased to see that Visit Wales is now targeting Bavaria and Baden-Württemberg, as well as the traditional market of the Ruhr valley and northern cities.</p>	<p>Diolch am yr ateb, ond fel y dywedais, nid yw golygfeydd achlysurol yn cyfateb i ymwelwyr. Ond rwy'n falch eich bod wedi crybwyll yr Almaen. Rwy'n falch o weld bod Croeso Cymru yn targedu Bafaria a Baden-Württemberg, yn ogystal â marchnad draddodiadol dyffryn Ruhr a'r dinasoedd gogleddol.</p>
	<p>To whom have you or the Minister been speaking, firstly, about developing direct routes between Cardiff Airport and southern Germany, and, secondly, about progress on a rail spur from the Great Western main line to Heathrow Airport?</p>	<p>Gyda phwy rydych chi neu'r Gweinidog wedi bod yn siarad, yn gyntaf ynglŷn â datblygu llwybrau uniongyrchol rhwng Maes Awyr Caerdydd a de'r Almaen, ac yn ail ynglŷn â chynnydd ar gangen reilffordd o brif reilffordd y Great Western i Faes Awyr Heathrow?</p>
14:27	Kenneth Skates Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question that you ask is largely a matter for the Minister for Economy, Science and Transport. In terms of the outcome data, I should just refer back to the latest data, which shows that expenditure by visitors is up 1 per cent, whereas, across the UK, it's down 3.6 per cent, and overseas visitors are up 14.2 per cent compared to Great Britain as a whole, where visitors are down 7.1 per cent. This is drawing the 'Have you packed for Wales?' campaign.</p>	<p>Mater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i raddau helaeth yw'r cwestiwn rydych yn ei ofyn. O ran y data canlyniadau, dylwn gyfeirio'n ôl at y data diweddaraf, sy'n dangos bod gwariant ymwelwyr wedi cynyddu 1 y cant, ac i lawr 3.6 y cant dros y DU, ac mae nifer yr ymwelwyr tramor wedi cynyddu 14.2 y cant o gymharu â Phrydain yn ei chyfanrwydd, lle y mae nifer ymwelwyr i lawr 7.1 y cant. Mae hyn yn ystod yr ymgyrch 'Does unman tebyg i Gymru'.</p>
14:27	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.</p>	<p>Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.</p>
14:27	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch, Lywydd. Weinidog, a gaf i ofyn pa ddylanwad a wnaethoch chi geisio ei gael ar yr elfennau o ddatganiad Gŵyl Ddewi sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac i geisio sicrhau bod holl argymhellion y comisiwn Silk ar drafndiaeth yn cael eu cynnwys?</p>	<p>Minister, may I ask what influence you tried to bring to bear on those elements of the St David's Day statement that relate to transport and to try and ensure that all the recommendations of the Silk commission on transport are included?</p>

- 14:28 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I say that, obviously, the St David's Day announcement was a disappointment? Obviously, I've made my views quite clear within Government about what powers I think we need in terms of transport, from regulation of buses to an indication that we can have some influence on Network Rail. I will be continuing to pursue these matters.
- A gaf fi ddweud bod cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi yn amlwg wedi bod yn siom? Yn amlwg, rwyf wedi gwneud fy marn yn gwbl glir yn y Llywodraeth ynghylch y pwerau rwy'n credu sydd eu hangen arnom o ran trafndiaeth, o reoleiddio bysiau i arwydd y gallwn gael rhywfaint o ddylanwad ar Network Rail. Byddaf yn parhau i fynd ar drywydd y materion hyn.
- 14:28 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Several elements of the Silk proposal, as you say, are not included, including funding of Network Rail in relation to the Wales network. Can you say how you propose now to continue to put forward the case for the devolution of Network Rail funding? Also, the report says that it's likely that Wales and borders services primarily serving English markets will be placed into other franchises. They may primarily serve English markets, but, of course, they could still be very important routes for Welsh passengers. So, what assurances can you give that Welsh passengers won't suffer as a result of losing parts of the franchise, if, indeed, that does happen?
- Diolch yn fawr. Mae nifer o elfennau o gynnis Silk, fel y dywedwch, heb eu cynnwys, gan gynnwys ariannu Network Rail mewn perthynas â rhwydwaith Cymru. A allwch ddweud sut rydych yn bwriadu parhau i gyflwyno'r achos dros ddatganoli cyllid Network Rail? Hefyd, mae'r adroddiad yn dweud ei bod yn debygol y bydd gwasanaethau Cymru a'r gororau sy'n gwasanaethu marchnadoedd yn Lloegr yn bennaf yn cael eu cynnwys mewn masnachfreintiau eraill. Efallai eu bod yn gwasanaethu marchnadoedd yn Lloegr yn bennaf, ond wrth gwrs, gallent fod yn llwybrau pwysig iawn o hyd ar gyfer teithwyr yng Nghymru. Felly, pa sicrwydd a allwch ei roi na fydd teithwyr yng Nghymru yn dioddef o ganlyniad i golli rhannau o'r fasnachfaint, pe bai hynny'n digwydd?
- 14:29 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. I think we've got to be quite clear what we want from the new franchise and we've got to protect the interests of Wales in that franchise.
- Ie. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni fod yn gwbl glir ynghylch yr hyn rydym yn dymuno'i gael o'r fasnachfaint newydd ac mae'n rhaid i ni warchod buddiannau Cymru yn y fasnachfaint honno.
- With regard to Network Rail, I've had very constructive discussions with the UK Government about my concerns about the management of Network Rail; we can't even influence or instruct them. I think that my suggestions on this matter were listened to with attention and I do expect to make progress.
- O ran Network Rail, rwyf wedi cael trafodaethau adeiladol iawn gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â fy mhryderon ynghylch trefniadau rheoli Network Rail a'r ffaith nad oes gennym unrhyw reolaeth dros Network Rail; ni allwn ddylanwadu arnynt neu eu cyfarwyddo, hyd yn oed. Credaf eu bod wedi gwrando'n astud ar fy awgrymiadau ynglŷn â'r mater hwn ac rwy'n disgwyl gwneud cynnydd.
- 14:29 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Other elements also of the Silk proposal are omitted, including the devolution of drink-drive limits. In all, isn't it clear that transport is another example of where the St David's announcement has been an exercise in cherry-picking, holding back the development of the kind of transport policy that Plaid Cymru wants to see and that the people of Wales and stakeholders in Wales, as expressed through the Silk report, want to see being developed here in Wales?
- Diolch yn fawr. Mae elfennau eraill hefyd o gynnis Silk wedi eu hepgor, gan gynnwys datganoli terfynau yfed a gyrru. Ar y cyfan, onid yw'n glir fod trafndiaeth yn enghraifft arall sy'n dangos bod cyhoeddiad Dewi Sant yn ymarfer mewn dewis a dethol, ac yn rhwystro datblygiad y math o bolisi trafndiaeth y mae Plaid Cymru yn dymuno'i weld, a'r math o bolisi y mae pobl Cymru a rhanddeiliaid yng Nghymru, fel y mynegodd adroddiad Silk, yn dymuno'i weld yn cael ei ddatblygu yma yng Nghymru?
- 14:30 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think we all have opinions—individual and party-wise—about what further we would like to see undertaken. I think, in very real terms, the most useful thing in terms of a further settlement would be to have an element of control over Network Rail, which is something I intend to work for, and in other areas. But we must understand that devolution is evolutionary in some ways; we have made an element of progress, but not sufficient, in terms of my portfolio. But we've also got to be very careful what we do not want devolved in terms of the UK as well.
- Rwy'n credu bod barn gan bawb ohonom—yn unigol ac fel pleidiau—ynghylch beth yn rhagor y byddem yn hoffi ei weld yn digwydd. Rwy'n credu, mewn termau real iawn, mai'r peth mwyaf defnyddiol o ran setliad pellach fyddai cael elfen o reolaeth dros Network Rail, sy'n rhywbeth rwy'n bwriadu gweithio i'w gael, ac mewn meysydd eraill. Ond mae'n rhaid i ni ddeall bod datganoli yn esblygol mewn rhai ffyrdd; rydym wedi gwneud peth cynnydd, ond nid yw'n ddigonol o ran fy mhortffolio i. Ond mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn hefyd ynghylch yr hyn nad ydym am ei ddatganoli o ran y DU.

- 14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Eluned Parrott. Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Eluned Parrott.
- 14:30 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Minister, we all welcome the agreement reached between the UK Government and the Welsh Government on funding for the Valleys lines electrification project, back in November. But I was concerned to learn that, as of yet, the Welsh Government have not placed an order with Network Rail to restart the necessary planning works that were held up by that row. When will you be in a position to place that order, and get the project back on track? Diolch, Lywydd. Weinidog, rydym i gyd yn croesawu'r cytundeb a gafwyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyllid ar gyfer prosiect trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn ôl ym mis Tachwedd. Ond roeddwn yn bryderus i glywed nad yw Llywodraeth Cymru, hyd yn hyn, wedi gosod archeb gyda Network Rail i ailgychwyn y gwaith cynllunio angenrheidiol a ohiriwyd gan y ffrae honno. Pa bryd fyddwch chi mewn sefyllfa i roi'r gorchymyn hwnnw, a rhoi'r prosiect yn ôl ar y trywydd iawn?
- 14:30 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm not certain in my own mind about the role and function of Network Rail regarding the issues around the modernisation and electrification of the Valleys lines. We have difficulties with Network Rail, we have difficulties with the costs that they have, the escalation of costs, and the lack of control. We obviously have discussions on a number of issues, but we are now working through all the options regarding this matter. Wel, nid wyf yn sicr yn fy meddwl fy hun am rôl a swyddogaeth Network Rail ynghylch y materion sy'n ymwneud â moderneiddio a thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Mae gennym broblemau gyda Network Rail, mae gennym broblemau gyda'u costau, y cynnydd yn y costau, a'r diffyg rheolaeth. Yn amlwg, rydym yn cynnal trafodaethau ar nifer o faterion, ond rydym yn gweithio drwy'r holl opsiynau yn awr mewn perthynas â'r mater hwn.
- 14:31 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I must confess I'm even more concerned hearing it, because the business case for both Valleys lines electrification, and the electrification of the Great Western main line as far as Swansea, were both made financially viable on the basis that they would be done together, particularly as they share track between Cardiff and Bridgend. Clearly, as Network Rail is the project manager for the Great Western electrification, any complications in terms of how the Valleys lines electrification project may be managed could indeed put the timetable for that under further jeopardy. What do you believe is the deadline by which you need to have either placed an order, or set up an alternative programme, if the business cases are not to be put at risk? Diolch am eich ateb, Weinidog. Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod hyd yn oed yn fwy pryderus o'i glywed, oherwydd gwnaed yr achos busnes ar gyfer trydaneiddio llinellau'r Cymoedd a thrydaneiddio priif linell Great Western hyd at Abertawe, yn ariannol hyfyw ar y sail y byddent yn cael eu gwneud gyda'i gilydd, yn enwedig gan eu bod yn rhannu trac rhwng Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn amlwg, gan mai Network Rail yw'r rheolwr prosiect ar y gwaith o drydaneiddio'r Great Western, gallai unrhyw gymhlethdodau o ran sut y gallai prosiect trydaneiddio llinellau'r Cymoedd gael ei reoli roi'r amserlen ar gyfer hynny mewn mwy o berygl. Yn eich barn chi, erbyn pa bryd y bydd angen i chi fod wedi gosod archeb, neu sefydlu rhaglen amgen, os nad yw'r achosion busnes i gael eu rhoi mewn perygl?
- 14:32 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I won't be putting anything at risk. We've had the settlement with the UK Government, we've had the funding from the UK Government, which helps to assist us to undertake the Valleys modernisation and electrification. But I do have to look at the value-for-money issues in terms of who's providing what. But we are actually working through all the options that we need to work through, and I have indicated to Members I'll be making statements about the franchise, how we're taking other matters forward, before the summer. I don't think that we want to get too worked up about what Network Rail might be telling Members about what's going on. Ni fyddaf yn rhoi unrhyw beth mewn perygl. Rydym wedi cael y setliad gan Lywodraeth y DU, rydym wedi cael y cyllid gan Lywodraeth y DU, sy'n ein helpu i ymgymryd â'r gwaith o foderneiddio a thrydaneiddio yn y Cymoedd. Ond mae'n rhaid i mi edrych ar y materion sy'n codi ynghylch gwerth am arian o ran pwy sy'n darparu beth. Ond rydym yn gweithio drwy'r holl opsiynau sydd angen i ni weithio drwyddynt, ac rwyf wedi dweud wrth yr Aelodau y byddaf yn gwneud datganiadau ynghylch y fasnachfaint, a sut rydym yn bwrw ymlaen â materion eraill, cyn yr haf. Nid wyf yn credu y dylem gynhyrfu gormod ynglŷn â'r hyn y gallai Network Rail fod yn ei ddweud wrth Aelodau ynglŷn â beth sy'n digwydd.

14:32	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Interesting, Minister, but it wasn't actually Network Rail that raised the concern with me in the first place, I have to say. But, Minister, you can't design a franchise, or order new trains, or deliver a metro system, if you haven't resolved the question of what the infrastructure that all of this will run on is actually going to look like, and it may be that not all of the lines will need to be electrified if we have particular kinds of rolling stock—there are lots of questions to be asked. But the next stage is surely the detailed specification of what is going to be required. When will your department be able to produce the detailed specification on which the design of the franchise, the design of the electrification project, and the design of any future rolling stock requirements will be based?</p>	<p>Diddorol, Weinidog, ond nid Network Rail a leisiodd y pryder yn y lle cyntaf, mae'n rhaid i mi ddweud. Ond Weinidog, ni allwch gynllunio masnachfaint, neu archebu trenau newydd, neu ddarparu system metro, os nad ydych wedi datrys y cwestiwn ynglŷn â sut beth fydd y seilwaith y bydd hyn oll yn rhedeg arno mewn gwirionedd, ac efallai na fydd angen trydaneiddio'r holl linellau os oes gennym fathau penodol o gerbydau—mae nifer o gwestiynau i'w gofyn. Ond y cam nesaf, 'does bosib, yw manyleb o'r hyn fydd ei angen. Pryd fydd eich adran yn gallu cynhyrchu'r fanyleb a fydd yn sail i gynllun y fasnachfaint, cynllun y prosiect trydaneiddio, a chynllun gofynion unrhyw gerbydau yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:33	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>As the Member will be well aware, from scrutiny that I undertook at the Enterprise and Business Committee, all these issues are in hand. We're looking at the rolling stock issues, we're looking—. As you quite rightly say, technology has actually moved on since we looked at the original business case and what type of design we want, et cetera, et cetera. But I have given my assurance to Members that all these matters will be resolved before the summer recess, in terms of a further statement.</p>	<p>Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, o'r gwaith craffu a wnes yn y Pwyllgor Menter a Busnes, mae'r holl faterion hyn ar y gweill. Rydym yn edrych ar faterion y cerbydau, rydym yn edrych—. Fel rydych yn iawn i'w ddweud, mae technoleg wedi symud ymlaen ers i ni edrych ar yr achos busnes gwreiddiol a'r math o gynllun rydym yn dymuno'i gael, ac yn y blaen. Ond rwyf wedi rhoi fy sicrwydd i'r Aelodau y bydd yr holl faterion hyn yn cael eu datrys cyn toriad yr haf, o ran rhoi datganiad pellach.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:33	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move back to questions on the agenda, and it's question 3, Mike Hedges.</p>	<p>Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar yr agenda, a daw cwestiwn 3 gan Mike Hedges.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau		Safe Routes in Communities	
14:33	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p><i>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwybrau diogel mewn cymunedau? OAQ(4)0539(EST)</i></p>	<p><i>3. Will the Minister make a statement on safe routes in communities? OAQ(4)0539(EST)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:33	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Safe Routes in Communities, and particularly those around schools, and for the safety of children and young people, continue to be a priority for investment. Therefore, I have invited local authorities to submit bids to be funded in 2015-16 under the scheme.</p>	<p>Mae Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, yn enwedig y rhai o amgylch ysgolion ac ar gyfer diogelwch plant a phobl ifanc, yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi. Felly, rwyf wedi gwahodd awdurdodau lleol i gyflwyno ceisiadau am gyllid yn 2015-16 o dan y cynllun.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:34	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>This has undoubtedly been a very successful and popular scheme, and it's benefited a number of areas around schools in Swansea, including some, as you know, in your own constituency, Minister. When will you announce the criteria for the next round of bids?</p>	<p>Mae hwn wedi bod yn gynllun llwyddiannus a phoblogaidd iawn heb os, ac mae wedi bod o fudd i nifer o ardaloedd o amgylch ysgolion yn Abertawe, gan gynnwys rhai, fel y gwyddoch, yn eich etholaeth eich hun, Weinidog. Pa bryd y byddwch yn cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer y rownd nesaf o geisiadau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:34	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>I set out the criteria to local authorities when I invited them, last month, I think, to submit bids.</p>	<p>Nodais y meini prawf wrth yr awdurdodau lleol pan y'u gwahoddais, fis diwethaf rwy'n meddwl, i gyflwyno ceisiadau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:34 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the UK Government has introduced the business bicycle scheme, to provide advice and support for employers on measures to make cycling to work easier for their employees. What consideration has been given to introducing a similar scheme in Wales, to remove the barriers to safe cycling to work?
- Weinidog, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r cynllun beiciau busnes, i roi cyngor a chefnogaeth i gyflogwyr ar fesurau i wneud beicio i'r gwaith yn haws ar gyfer eu gweithwyr. Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru, er mwyn cael gwared ar y rhwystrau rhag beicio i'r gwaith yn ddiogel?
- 14:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I've obviously heard of the scheme, and I am aware of employers who have encouraged individuals to cycle to work, putting the appropriate facilities in for their cycles, and changing, et cetera. But this is something I'd be more than happy to explore, because I think that's quite important when you look at some of the developments that are going on, linking businesses into towns and everything. It might be a very worthwhile aspect to look at. But there is a wider aspect, I think, when you're cycling to work. Sometimes, you've got to cycle to a railway station, then you've got to get the bike on the train, or you've got to cycle somewhere to get a bus or vice versa. We've actually got to look at how we can accommodate more cycles on trains and what we can do about cycles on buses, so it's quite an integrated approach.
- Ydw, rwy'n amlwg wedi clywed am y cynllun, ac rwy'n gwybod am gyflogwyr sydd wedi annog unigolion i feicio i'r gwaith, gan osod cyfleusterau priodol ar gyfer eu beiciau, a newid dillad, ac yn y blaen. Ond mae hwn yn rhywbeth y byddwn yn fwy na pharod i'w archwilio, gan fy mod yn credu bod hynny'n eithaf pwysig o edrych ar rai o'r datblygiadau sy'n digwydd, gan gysylltu busnesau â threfi ac ati. Gallai fod yn agwedd werthfawr iawn i edrych arni. Ond mae yna agwedd ehangach, rwy'n meddwl, pan fyddwch yn beicio i'r gwaith. Weithiau, mae'n rhaid i chi feicio i orsaf drenau, yna mae'n rhaid i chi fynd â'r beic ar y trê, neu mae'n rhaid i chi feicio i rywle er mwyn dal bus neu fel arall. Mae'n rhaid i ni edrych mewn gwirionedd ar sut y gallwn ddarparu lle i fwy o feiciau ar drenau a'r hyn y gallwn ei wneud ynglŷn â mynd â beiciau ar fysiau, felly mae'n agwedd eithaf integredig.
- 14:35 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae cymuned Dole i'r gogledd o Aberystwyth ar yr A487 yn ymgyrchu i gael llwybr cerdded ar hyd yr A487 i gysylltu pentref Dole gyda Bow Street, a'r gwasanaethau yn y pentref mwy hwnnw. Rwyf wedi ysgrifennu atoch chi ar y mater yma. A ydych yn cytuno gyda fi, o ran pentrefi sydd ar gefnffordd fel yr A487, bod angen sicrhau bod llwybrau diogel gyda nhw i gerdded ar hyd yr A487, oherwydd nid yw cerdded ar y ffordd ei hunan erbyn hyn yn saff ar gyfer unigolion?
- Minister, the Dole community to the north of Aberystwyth on the A487 is campaigning for a walking route along the A487 to link Dole village with Bow Street, and the services in that larger village. I've written to you on this matter. Do you agree with me, in terms of villages on trunk roads such as the A487, there is a need to ensure that they have a safe walking route along the A487, because walking on the road itself is no longer safe for individuals?
- 14:36 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can I say that I have been discussing with officials more broadly how we might need to consider more bridges across some of the main roads that we have in Wales, in terms of trunk roads. That is a more permanent solution than lights, et cetera, and that is something we are going to be reviewing across the piece, because I'm determined to get road safety correct, particularly on my trunk roads.
- A gaf fi ddweud fy mod wedi bod yn trafod gyda swyddogion yn fwy cyffredinol ynglŷn â sut y gallai fod angen i ni ystyried mwy o bontydd dros rai o'r prif ffordd sydd gennym yng Nghymru, o ran cefnffyrdd. Mae hynny'n ateb mwy parhaol na goleuadau ac ati, ac mae hynny'n rhywbeth rydym yn mynd i'w adolygu yn gyffredinol, gan fy mod yn benderfynol o gael diogelwch ar y ffordd yn gywir, yn enwedig ar fy nghefnffyrdd.
- 14:36 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, whilst the decision to reduce speed limits at Nant Ddu and Llanspyddid is welcome, they have been categorised as works to be carried out in the medium term; so that, now, is some years away. The community can't understand, having identified the need to reduce speed limits, why they should wait. Could you explain why those schemes are categorised as medium term? And, of course, any speed limit is only as good as the enforcement and compliance with it. Therefore, could you give me an update of what discussions you've had with the police and crime commissioner regarding the installation of average speed cameras on the relevant stretches of the A40 and on the A470?
- Weinidog, er fy mod yn croesawu'r penderfyniad i ostwng cyfyngiadau cyflymder yn Nant Ddu a Llansbyddid, maent wedi eu categorio fel gwaith i'w gwblhau yn y tymor canolig; felly mae hynny, ar hyn o bryd, rai blynyddoedd i ffordd. Ar ôl cydnabod yr angen i ostwng cyfyngiadau cyflymder, nid yw'r gymuned yn deall pam y dylent aros. A allech egluro pam fod y cynlluniau hynny wedi'u categorio fel rhai ar gyfer y tymor canolig? Ac wrth gwrs, nid yw unrhyw derfyn cyflymder ond cystal â'r ffordd y mae'n cael ei orfodi arni, a lefelau cydymffurfiaeth. Felly, a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ynglŷn â pha drafodaethau rydych wedi eu cael gyda'r heddlu a'r comisiynydd heddlu a throsedd ynglŷn â gosod camerâu cyflymder cyfartalog ar rannau perthnasol o'r A40 a'r A470?

14:37

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I have my discussions generally with the chief constables concerning safety issues on the road, and we do have regular discussions between officials and the police on this. However, I understand your concerns, because this medium term could almost mean anything in real terms to people. But we have so many schemes across the piece now that we do need to reduce speed on, and with the cost, but I have asked my officials to look at more innovative ways of delivering this, because I think some of the costs associated with this are extraordinary in terms of what the requirements to do the work are. So, I will be updating Members in due course, because I intend eventually to publish a plan with all routes in and to show exactly where these are going to be done.

Cyffordd 41 yr M4

14:37

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gau cyffordd 41 yr M4? OAQ(4)0532(EST)

14:37

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The trial closure will remain in operation to the end of this month. We will then complete the final analysis of all the data collected.

14:38

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. There was a very well-attended public meeting last week, at which many residents of Port Talbot expressed their dissatisfaction at the impact on the town of this closure. The one question that we're all unsure about, however, is what happens at the end of the evaluation period, between the end of March and when you actually come to your conclusions. Will the junction be reopened for that period so that we can assess properly the impact of the speed cameras, or are you proposing to keep it closed for that period?

14:38

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've yet to take advice from my officials on this matter. I'm aware of the high level of correspondence about this issue. I understand the concerns expressed by you, and Members like David Rees, about these particular issues, and as soon as I decide to take a decision on these matters, I will advise Assembly Members.

Gallaf. Mae fy nhrefodaethau gyda'r prif gwnstabiliaid yn ymwneud ar y cyfan gyda materion diogelwch ar y ffordd, ac rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd ar hyn rhwng swyddogion a'r heddlu. Fodd bynnag, rwy'n deall eich pryderon, oherwydd mewn termau real gallai'r tymor canolig hwn olygu unrhyw beth, bron â bod, i bobl. Ond mae gennym gymaint o gynlluniau yn gyffredinol erbyn hyn ac angen i ni arafu arnynt, a gyda'r gost, ond rwyf wedi gofyn i fy swyddogion edrych ar ffyrdd mwy arloesol o gyflawni hyn, oherwydd credaf fod rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â hyn yn eithriadol o ran beth yw'r gofynion i wneud y gwaith. Felly, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau maes o law, oherwydd rwy'n bwriadu cyhoeddi cynllun yn y pen draw gyda'r holl lwybrau ynddo ac i ddangos yn union lle y mae'r rhain yn mynd i gael eu gwneud.

Junction 41 of the M4

4. Will the Minister make a statement on the closure of junction 41 of the M4? OAQ(4)0532(EST)

Bydd treialu cau'r gyffordd yn parhau i fod yn weithredol hyd at ddiwedd y mis hwn. Yna byddwn yn cwblhau'r dadansoddiad terfynol o'r holl ddata a gasglwyd.

Diolch am eich ateb, Weinidog. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus yr wythnos diwethaf a fynychwyd gan lawer iawn o bobl, lle y bu llawer o drigolion Port Talbot yn mynegi eu hanfodlonrwydd ynghylch effaith cau'r gyffordd ar y dref. Y cwestiwn rydym i gyd yn ansicr yn ei gylch, fodd bynnag, yw beth fydd yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod gwerthuso, rhwng diwedd mis Mawrth a phan fyddwch yn dod i'ch casgliadau. A fydd y gyffordd yn cael ei hailagor am y cyfnod hwnnw er mwyn inni allu asesu effaith y camerau cyflymder, neu a ydych yn bwriadu ei chadw ar gau am y cyfnod hwnnw?

Rwyf eto i dderbyn cyngor gan fy swyddogion ar hyn. Rwy'n ymwybodol o'r lefel uchel o ohebiaeth ynghylch y mater. Rwy'n deall y pryderon a fynegwyd gennych chi, ac Aelodau fel David Rees, ynglŷn â'r materion penodol hyn, a chyn gynted ag y byddaf yn penderfynu gwneud penderfyniad ar y materion hyn, byddaf yn rhoi gwybod i Aelodau'r Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:38

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as Peter Black said, we all attended a meeting last week, where residents clearly made their views very well heard for us, and I agree with those points. But in your consideration after the end of March, will you also take into consideration possible alternative solutions, and the impact perhaps upon issues that weren't in the original plan? For example, the new build school on Western Avenue in Sandfields will house 1,500 pupils and will be on the road side of the Afan Way, which is an alternative route that is currently in place. On top of that, there'll be a new Welsh secondary school, so there's going to be 2,000-plus pupils accessing that road, and therefore, their safety will be critical.

Weinidog, fel y dywedodd Peter Black, buom i gyd mewn cyfarfod yr wythnos diwethaf, lle y lleisiodd trigolion eu barn yn glir iawn, ac rwy'n cytuno â'r pwyntiau hynny. Ond yn eich ystyriaeth ar ôl diwedd mis Mawrth, a fyddwch hefyd yn ystyried atebion amgen posibl, a'r effaith efallai ar faterion nad oeddent yn y cynllun gwreiddiol? Er enghraifft, bydd yr ysgol newydd sbon ar Western Avenue yn Sandfields yn cynnwys 1,500 o ddisgyblion ac fe fydd hi ar ochr Ffordd Afan, sy'n llwybr amgen yno ar hyn o bryd. Ar ben hynny, bydd yno ysgol uwchradd Gymraeg newydd, felly bydd dros 2,000 o ddisgyblion yn defnyddio'r ffordd honno, ac felly, bydd eu diogelwch hwy'n allweddol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, I will take anything further that I need to into consideration, but we have looked at issues like hard shoulder running. There are a lot of things that have been considered, but I think we all agree that this is an exceptionally difficult stretch of the M4 to deal with. Even though you're obviously having public meetings and all that, I'm actually receiving positive feedback from some drivers about the improved traffic flows on the M4 during the trial.

Yn amlwg, byddaf yn ystyried unrhyw beth arall y bydd angen i mi ei ystyried, ond rydym wedi edrych ar faterion fel rhedeg ar y llain galed. Mae llawer o bethau wedi cael eu hystyried, ond rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gytûn fod hwn yn ddarn o'r M4 sy'n eithriadol o anodd ei drin. Er eich bod yn amlwg yn cael cyfarfodydd cyhoeddus ac ati, rwyf mewn gwirionedd yn derbyn adborth cadarnhaol gan rai gyrrwyr fod llif y traffig ar yr M4 wedi gwella yn ystod y cyfnod treialu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I'm afraid it's the same issue. Like Peter Black and everybody else, I attended the public meeting, and the strength of feeling on this decision is undeniable. The closure of junction 41 has, in the opinion of the people, been an unmitigated disaster. I wanted to focus my comments today specifically on the untold effect that it's had on the A48, which, shamefully, is not being monitored and is an issue I've raised before with you. I'd like to know why this was not considered when the closure of junction 41 was made.

Weinidog, rwy'n ofni mai'r un mater yw hwn. Fel Peter Black a phawb arall, mynychais y cyfarfod cyhoeddus, ac ni ellir gwadu'r teimladau cryf ynglŷn â'r penderfyniad hwn. Mae cau cyffordd 41, ym marn y bobl, wedi bod yn drychineb llwyr. Roeddwn i eisiau canolbwyntio fy sylwadau heddiw yn benodol ar yr effaith ofnadwy y mae hyn wedi'i chael ar yr A48, nad yw, yn gywilyddus, yn cael ei monitro ac yn fater y tynnais eich sylw ato o'r blaen. Hoffwn wybod pam nad oedd hyn yn cael ei ystyried pan gaewyd cyffordd 41.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say that we are aware that traffic is using the A48 local road rather than the signed diversion route? We understand that, but we have actually signed up the correct diversion route. Funding was actually provided to Neath Port Talbot for the traffic-calming measures on the A48, but that was not installed due to objections from residents and councillors in terms of traffic calming. We are monitoring the situation and we are continuing to liaise with Neath Port Talbot County Borough Council. I understand that Members all the time are having a lot of correspondence, and, likewise, so am I. But, on the other hand, we do have to have a trial; we do have to see how it goes and we then do have to assess the evidence on that very important part of the motorway.

A gaf fi ddweud ein bod yn ymwybodol fod traffig yn defnyddio ffordd leol yr A48 yn hytrach na dilyn arwyddion y llwybr gwyrriad? Rydym yn deall hynny, ond mewn gwirionedd rydym wedi gosod yr arwyddion ar gyfer y llwybr gwyrriad cywir. Darparwyd cyllid i Gastell-nedd Port Talbot ar gyfer y mesurau gostegu traffig ar yr A48, ond ni osodwyd y rheini o ganlyniad i wrthwynebiadau gan drigolion a chynghorwyr o ran tawelu traffig. Rydym yn monitro'r sefyllfa ac rydym yn parhau i gydgyssylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Deallaf fod yr Aelodau yn cael llawer o ohebiaeth drwy'r amser, a minnau hefyd yn yr un modd. Ond ar y llaw arall, mae'n rhaid i ni gael treial; rhaid i ni weld sut yr aiff hwnnw ac yn rhaid i ni asesu'r dystiolaeth ar y rhan hynod bwysig hon o'r draffordd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you may have had those positive comments, but you certainly wouldn't have had those positive comments from people who were having to face nightmare situations on Sunnycroft roundabout and then more traffic problems at junction 43—Llandarcy. Plus, we may have more problems with the bridge that will be opened in Baglan, creating more traffic issues off the M4 junction. So, I think that, as a Minister, you should be really concerned with those comments from people who live in the town itself. One of the main things that came from the public meeting was that you could potentially have a trial of the average speed cameras with the slip roads open because, at the moment, you're suggesting that the flow is going well for some people, but you're not going to get the clear analysis of the data with the slip roads closed and the average speed cameras working together. Can you do a trial with the average speed cameras and the slip roads open?

Weinidog, efallai eich bod wedi cael sylwadau cadarnhaol, ond yn sicr ni fydddech wedi cael sylwadau cadarnhaol gan yr rhai a oedd yn gorfod wynebu sefyllfaoedd hunllefus ar gylchfan Sunnycroft a mwy o broblemau traffig wedyn ar gyffordd 43—Llandarcy. Yn ogystal, efallai y bydd gennym fwy o broblemau gyda'r bont sydd i'w hagar ym Maglan, a fydd yn creu mwy o broblemau traffig oddi ar gyffordd yr M4. Felly credaf y dylech, fel Gweinidog, fod yn bryderus iawn ynghylch y sylwadau hynny gan bobl sy'n byw yn y dref ei hun. Un o'r prif bethau a ddaeth o'r cyfarfod cyhoeddus oedd y gallech o bosibl gynnal treial o'r camerâu cyflymder cyfartalog gyda'r slipffyrdd ar agor gan eich bod yn awgrymu, ar hyn o bryd, fod llif y traffig yn mynd yn dda i rai pobl, ond nid ydych yn mynd i gael dadansoddiad clir o'r data gyda'r slipffyrdd ar gau a'r camerâu cyflymder cyfartalog yn gweithio gyda'i gilydd. A allwch chi gynnal treial gyda'r camerâu cyflymder cyfartalog a'r slipffyrdd ar agor?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Or a trial with all the slip roads closed and see what happens. Look, there are many variations on this; there are many concerns being expressed. I take the advice of professionals in this area in terms of what they think we need to look at. I have a very open mind in all of these matters and I will look at the information when it comes. At the end of the day, you need to recognise that we've done a lot of work in terms of the analysis; we're monitoring the effect of the trial closure; we're looking at the issues around footfall in the car parks; we're looking at the air quality issues, which is also a big issue in Port Talbot—the air quality issue. So, I can assure you that this has been well-rounded in terms of the issues that we're looking at. When I make a decision, I can assure Members in the Chamber that they will be the first to know.

Neu dreial gyda'r holl slipffyrdd ar gau a gweld beth sy'n digwydd. Edrychwch, mae yna lawer o amrywiadau ar hyn; mae yna lawer o bryderon yn cael eu lleisio. Rwy'n derbyn cyngor gweithwyr proffesiynol yn y maes o ran yr hyn y maent yn credu sydd angen i ni edrych arno. Mae gen i feddwl agored iawn ynglŷn â phob un o'r materion hyn a byddaf yn edrych ar y wybodaeth pan ddaw. Yn y pen draw, mae'n rhaid i chi gydnabod ein bod wedi gwneud llawer o waith o ran y dadansoddiad; rydym yn monitro effaith treialu cau'r gyffordd; rydym yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â nifer yr ymwelwyr yn y meysydd parcio; rydym yn edrych ar faterion ansawdd aer, sydd hefyd yn broblem fawr ym Mhort Talbot—problem ansawdd aer. Felly, gallaf eich sicrhau bod hyn wedi bod yn gytbwys o ran y materion rydym yn edrych arnynt. Pan fyddaf yn gwneud penderfyniad, gallaf sicrhau mai'r Aelodau yn y Siambr fydd y cyntaf i wybod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Autism Spectrum Connections Cymru

Autism Spectrum Connections Cymru

14:42

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am agor siop un stop 21 High St Autism Spectrum Connections Cymru yng nghanol dinas Caerdydd? OAQ(4)0536(EST)

5. Will the Minister make a statement on the opening of the 21 High St Autism Spectrum Connections Cymru one-stop shop in Cardiff city centre? OAQ(4)0536(EST)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I officially opened it on 28 January. We are pleased to support the anchor company, autism employment business development programme, which has been designed to support key employers to address the under-representation of people with autism in the workplace in Wales.

Fe'i hagarais yn swyddogol ar 28 Ionawr. Rydym yn falch o gefnogi'r cwmni angori, rhaglen ddatblygu busnesau sy'n cyflogi pobl ag awtistiaeth, a gynlluniwyd i gynorthwyo cyflogwyr allweddol i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth i bobl ag awtistiaeth yn y gweithle yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I move to my supplementary question, I need to declare an interest in that I have recently been delighted to accept an invitation to become patron of Autism Spectrum Connections Cymru.

Cyn i mi symud at fy nghwestiwn atodol, mae angen i mi ddatgan buddiant yn yr ystyr fy mod wedi cael y pleser yn ddiweddar o dderbyn gwahoddiad i fod yn noddwr i Autism Spectrum Connections Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I am sure that you will agree with me that the Wales anchor company's autism and employment programme, recently launched, as you say, by yourself, is an outstanding initiative. This pilot programme will enable Wales anchor companies to gain a better understanding of autism-spectrum conditions and the benefits that people with autism-spectrum conditions can bring to the workforce. The programme also seeks to provide apprenticeships, work experience and sustainable employment to people with Asperger's syndrome and high-functioning autism, thus integrating them into the workplace. Do you agree with me, Minister, that if this pilot is successful, and I'm sure it will be, it would be of benefit if it were rolled out to cover the whole of Wales?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod rhaglen gyflogaeth ac awtistiaeth y cwmni angori yng Nghymru a lansiwyd yn ddiweddar, fel y dywedwch, yn fenter ragorol. Bydd y rhaglen beilot yn galluogi i gwmnïau angori yng Nghymru fod â gwell dealltwriaeth o gyflyrau ar y sbectrwm awtistig a'r manteision y gall pobl â chyflyrau ar y sbectrwm awtistig eu cyflwyno i'r gweithlu. Mae'r rhaglen hefyd yn anelu i ddarparu prentisiaethau, profiad gwaith a chyflogaeth gynaliadwy i bobl â syndrom Asperger ac awtistiaeth uchel-weithredol, a thrwy hynny eu hintegreiddio yn y gweithle. A ydych yn cytuno â mi, Weinidog, os yw'r cynllun peilot hwn yn llwyddiannus, ac rwy'n siŵr y bydd, y byddai'n fuddiol pe bai'n cael ei gyflwyno drwy Gymru gyfan?

14:44

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I am making financial support available to facilitate the expansion of the programme to other anchor and regionally important companies. I indicated in the launch that we would evaluate how successful it is and whether we could then, in terms of budgetary commitments, make further advances all across Wales. I'm also keen in this regard to pilot the appointment of a champion at a senior level to help to encourage anchor companies and other significant employers in Wales to engage with this programme. But, it has been a success and to meet the individuals who've had work experience was really heart-warming, I have to say. It was the first time that some of them had had the opportunity for any type of employment and the way that they were able to work in that workplace and how staff understood their needs and requirements was first class. So, it is really congratulations, I think, to the companies that, because of their corporate social responsibility, have been prepared to engage in this programme.

Ydw. Rwy'n sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i hwyluso'r gwaith o ehangu'r rhaglen i gynnwys cwmnïau angori eraill a chwmnïau sy'n bwysig yn rhanbarthol. Nodais yn y lansiad y byddem yn gwerthuso ei llwyddiant a pha un a allem wedyn, o ran ymrwymadau cyllidebol, wneud rhagor o gynnydd ledled Cymru. Rwyf hefyd yn awyddus yn hyn o beth i dreialu penodiad hyrwyddwr ar lefel uwch er mwyn helpu i annog cwmnïau angori a chyflogwyr pwysig eraill yng Nghymru i ymgysylltu â'r rhaglen hon. Ond mae wedi bod yn llwyddiant ac roedd cwrdd â'r unigolion sydd wedi cael profiad gwaith yn galonogol iawn, mae'n rhaid i mi ddweud. Dyma oedd y cyfle cyntaf i rai ohonynt gael unrhyw fath o gyflogaeth ac roedd y ffordd y gallent weithio yn y gweithle a'r modd y deallai'r staff eu hanghenion a'u gofynion yn ardderchog. Felly mewn gwirionedd, rwy'n credu y dylem longyfarch y cwmnïau a oedd yn barod i gymryd rhan yn y rhaglen hon oherwydd eu cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:45

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Further to Gwenda Thomas's question, I endorse what the Minister says about the excellent work of the autism centre and, in particular, training in the workplace and that experience that people can get. It would be desirable to have this type of project unfolded across the rest of Wales. What experience have your officials been informing you of from the initial start-up process? I understand this concept came down from Scotland in the first place, and, obviously, there are several centres now in Scotland. I'm sure we've learned some, or, certainly, your officials have learned some of the start-up problems that they faced in Cardiff. And, Cardiff being a large city, obviously it has a lot of people to deal with in the first place, but there are rural areas as well that could benefit from such a concept.

I ddilyn cwestiwn Gwenda Thomas, rwy'n ategu'r hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud ynglŷn â gwaith rhagorol y ganolfan awtistiaeth ac yn benodol yr hyfforddiant yn y gweithle a'r profiad hwnnw y gall pobl ei gael. Byddai'n ddymunol cyflwyno'r math hwn o brosiect ar draws gweddill Cymru. Pa brofiad y mae eich swyddogion wedi rhoi gwybod i chi amdano o'r broses gychwynnol? Rwy'n deall bod y cysyniad hwn wedi dod o'r Alban yn y lle cyntaf, ac yn amlwg, mae nifer o ganolfannau yn yr Alban bellach. Rwy'n siŵr ein bod ni wedi dysgu, neu'n sicr mae eich swyddogion wedi dysgu, am rai o'r problemau cychwynnol a wynebwyd yng Nghaerdydd. Gan fod Caerdydd yn ddinas fawr, yn amlwg mae ganddi lawer o bobl i ymdopi â hwy yn y lle cyntaf, ond mae yna ardaloedd gwledig hefyd a allai elwa o gysyniad o'r fath.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:45	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Exactly. We'll have a satisfactory evaluation, we hope, at the end of year 1 so we can continue, of course, with the funding. But, you are quite right, and I've actually been talking to Business Wales about whether they should train up some of their people who work in Business Wales, for young people who might want to take on business opportunities who are autistic, et cetera, so that we have a person designated to help them and to encourage their business opportunities, to be done either at the centre or over the telephone or through e-mail, et cetera. So, we are looking at the expansion of the scheme, but we will have to think very carefully how we would deliver it in rural areas if we decide to expand it.</p>	<p>Yn hollol. Bydd gennym werthusiad boddhaol, gobeithio, ar ddiwedd blwyddyn 1 fel y gallwn barhau i ariannu, wrth gwrs. Ond rydych yn llygad eich lle, ac rwyf mewn gwirionedd wedi bod yn trafod â Busnes Cymru ynglŷn ag a ddylent hyfforddi rhai o'u pobl sy'n gweithio yn Busnes Cymru, ar gyfer pobl ifanc sy'n awtistig, ac yn y blaen, ac efallai'n dymuno manteisio ar gyfleoedd busnes, fel bod gennym berson dynodedig i'w helpu ac i annog eu cyfleoedd busnes, naill ai yn y ganolfan neu dros y ffôn neu drwy e-bost, ac ati. Felly, rydym yn edrych ar ehangu'r cynllun, ond bydd yn rhaid inni feddwl yn ofalus iawn sut y byddem yn ei ddarparu mewn ardaloedd gwledig pe baem yn penderfynu ei ehangu.</p>
14:46	William Powell Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, I'd like to add my welcome to the funding that has come from your portfolio to support this important one-stop shop facility. I'd like to ask what performance indicators are going to be put in place to ensure that it does deliver value for money and also to seek reassurance that, as Andrew R.T. Davies said, those areas where you have less of a critical mass of people on the spectrum who are seeking vocational training have this. I've recently had correspondence from north Powys, which shows the need in that particular area.</p>	<p>Weinidog, hoffwn groesawu'r cyllid sydd wedi dod o'ch portffolio i gefnogi'r cyfleuster siop un stop pwysig hwn. Hoffwn ofyn pa ddangosyddion perfformiad sy'n mynd i gael eu rhoi ar waith i sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian a hoffwn ofyn hefyd am sicrwydd, fel y dywedodd Andrew R.T. Davies, fod ardaloedd gyda màs critigol llai o bobl ar y sbectrwm sy'n chwilio am hyfforddiant galwedigaethol yn cael hyn. Yn ddiweddar cefais ohebiaeth o ogledd Powys, sy'n dangos yr angen yn yr ardal benodol honno.</p>
14:47	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, obviously, we'll very carefully look at the outcomes that come from this particular project, but I think, where you see the involvement of large employers like the Admiral Group, they're particular keen to ensure value for money, but also ensure that they are doing the right thing in terms of developing the individual. I will obviously share this with Members when we have the assessment of this particular project, but your points on the rural issues are well made.</p>	<p>Wel, yn amlwg, byddwn yn edrych yn ofalus iawn ar ganlyniadau'r prosiect penodol hwn, ond rwy'n meddwl, pan fo cyflogwyr mawr fel yr Admiral Group yn rhan o bethau, eu bod yn arbennig o awyddus i sicrhau gwerth am arian, ond hefyd i sicrhau eu bod yn gwneud y peth iawn o ran datblygu'r unigolyn. Byddaf yn amlwg yn rhannu hyn gyda'r Aelodau pan fydd gennym yr asesiad o'r prosiect penodol hwn, ond mae eich pwyntiau ynglŷn â'r materion gwledig yn rhai da.</p>
	Gwasanaeth Rheilffordd Gerallt Gymro	The Gerallt Gymro Rail Service
14:47	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am welliannau i wasanaeth rheilffordd Gerallt Gymro rhwng gogledd a de Cymru? OAQ(4)0541(EST)</i></p>	<p><i>6. Will the Minister provide an update on improvements to the Gerallt Gymro rail service between north and south Wales? OAQ(4)0541(EST)</i></p>
14:47	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Obviously, I am very committed to improving journey times and transport links between north and south Wales, of course, to provide economic growth. Of course, as a nation we require these links. The railway service is a key part of this, and I have recently extended its contract until the end of the franchise.</p>	<p>Yn amlwg, rwy'n ymrwymedig iawn i wella amseroedd teithio a chysylltiadau trafndiaeth rhwng gogledd a de Cymru, wrth gwrs, er mwyn darparu twf economaidd. Wrth gwrs, fel cenedl rydym angen y cysylltiadau hyn. Mae'r gwasanaeth rheilffordd yn rhan allweddol o hyn ac yn ddiweddar rwyf wedi ymestyn ei gontract tan ddiwedd y fasnachfrant.</p>
14:47	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you. It's good to hear about the improvements that will result because of the new express train contract, but can I ask whether there will now be an opportunity to enhance rail services for travellers with physical, sensory or other disabilities?</p>	<p>Diolch. Mae'n dda clywed am y gwelliannau a ddaw o ganlyniad i gontract newydd y trêen cyflym, ond a gaf fi ofyn a fydd cyfle yn awr i wella gwasanaethau rheilffordd ar gyfer teithwyr â nam ar y synhwyrau, anabledau corfforol neu anabledau eraill?</p>

14:48

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that's an exceptionally important point, because we've got to recognise that we have to deal with rolling stock by 2020 in this regard, and I hope to set out more details regarding rolling stock and details of the new Wales and borders franchise in due course. So, the Member can be reassured that we are taking this matter seriously.

Rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt eithriadol o bwysig, oherwydd mae'n rhaid i ni gydnabod bod yn rhaid inni ddelio â cherbydau erbyn 2020 yn y cyswllt hwn, a gobeithiaf nodi rhagor o fanylion am gerbydau a manylion am fasnachfaint newydd Cymru a'r gororau maes o law. Felly, gall yr Aelod fod yn sicr ein bod o ddifrif ynglŷn â'r mater hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:48

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I was very glad to hear the first part of your answer to the question from Sandy Mewies, because, of course, journey times from north Wales are key. Currently, this service knocks 20 minutes off, but it still takes three hours and 20 minutes to get from north Wales down to Cardiff, and it can take two hours and 40 minutes to get from north Wales to London. Clearly, we want to have that connectivity with our capital city here in Wales. So, what are you doing to look at shortening journey times for other trains so that we can have a regular service down to Cardiff that has a shorter journey time and a quicker journey so that business people can get from north Wales to south Wales without having to fly or drive?

Weinidog, roeddwn yn falch iawn o glywed rhan gyntaf eich ateb i gwestiwn Sandy Mewies, oherwydd mae amseroedd teithio o ogledd Cymru yn allweddol, wrth gwrs. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth hwn yn tynnu 20 munud i ffwrdd, ond mae'n dal i gymryd tair awr ac 20 munud i deithio o ogledd Cymru i lawr i Gaerdydd, a gallwch fynd i Lundain o ogledd Cymru mewn dwy awr a 40 munud. Yn amlwg, rydym am gael cysylltedd o'r fath â'n prifddinas yma yng Nghymru. Felly, beth rydych yn ei wneud o ran lleihau amseroedd teithio ar gyfer trenau eraill fel y gallwn gael gwasanaeth rheolaidd i lawr i Gaerdydd gydag amser teithio byrrach a thaith gyflymach er mwyn i bobl fusnes allu teithio o ogledd Cymru i dde Cymru heb ofod hedfan neu yrru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:49

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I say particularly that the drive is quite an arduous drive if people are coming down for meetings? Can I make it clear that we will be looking at all these issues in terms of the franchise? We've got to get better access. We've got to get journey times down where it's possible, but, also as well, I think we have to provide a service that's fit for purpose, may I suggest? We've got to have a service that makes it easy for passengers, in terms of information displayed and seats et cetera, the type of communication, and this is a very difficult area for us, in terms of the geography of Wales, to get right. And, of course, we've got to blend that with north-to-south and the fact people don't like a lot of little stops, and that, inevitably then, of course, cuts down on the journey times. We see that, as an example, from Swansea to London—if we didn't have to stop in Bristol or anywhere in England, the journey times would be much swifter.

A gaf fi ddweud, yn benodol, fod y daith yn un lafurus os yw pobl yn gyrru i lawr i gyfarfodydd? A gaf fi ei gwneud yn glir y byddwn yn edrych ar yr holl faterion hyn mewn perthynas â'r fasnachfaint? Mae'n rhaid i ni wella hygyrchedd. Mae'n rhaid i ni leihau amseroedd teithio lle y bo hynny'n bosibl, ond hefyd, rwy'n credu bod yn rhaid i ni ddarparu gwasanaeth sy'n addas at y diben, os caf fi awgrymu? Mae'n rhaid i ni gael gwasanaeth sy'n ei gwneud yn hawdd i deithwyr, o ran y wybodaeth a ddangosir a seddi ac yn y blaen, y math o gyfathrebu, ac mae hwn yn faes anodd iawn i ni ei gael yn gywir o ran daearyddiaeth Cymru. Ac wrth gwrs, mae'n rhaid i ni gyfuno hynny gyda gogledd-de a'r ffaith nad yw pobl yn hoffi llawer o arosfannau bach, a bydd hynny wedyn, yn anochel wrth gwrs, yn lleihau'r amseroedd teithio. Er enghraifft, gallwn weld o Abertawe i Lundain—pe na bai'n rhaid aros ym Mryste neu yn unrhyw le yn Lloegr, byddai'r amseroedd teithio yn llawer cyflymach.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:50

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid wyf yn gwybod sut mae Antoinette Sandbach yn mesur yr amser o ogledd Cymru i Gaerdydd fel tair awr ac 20 munud. O le rwyf i'n edrych, mae gogledd Cymru'n lle mawr iawn ac mae Caerdydd yn llawer iawn pellach na Wrecsam. Nid dim ond amser siwrnai sy'n bwysig, wrth gwrs, ond safon y siwrnai hefyd. Rwy'n falch iawn o'r buddsoddiad y gwnaeth Plaid Cymru ei sicrhau drwy Lywodraeth Cymru'n Un i gychwyn y gwasanaeth Gerallt Gymro a chael gwasanaeth sy'n teimlo fel gwasanaeth cenedlaethol, yn hytrach na theimlo fel gwasanaeth lleol rydych chi'n gorfod bod arno fo am bump awr. Mi fyddai Llywodraeth Plaid Cymru eto'n sicr o fod eisiau datblygu'r math yna o wasanaeth cenedlaethol, ond sut mae'r Gweinidog yn bwriadu chwilio am y math yna o fuddsoddiad drwy'r breindal nesaf i sicrhau ein bod ni'n cael gwasanaeth o safon?

I don't know how Antoinette Sandbach measures the time from north Wales to Cardiff as three hours 20 minutes. From where I look at it, north Wales is a very large place and Holyhead is much further away than Wrexham. It's not just the time a journey takes that's important, of course, but the quality of the journey too. I'm very proud of the investment that Plaid Cymru secured through the One Wales Government to start the Gerallt Gymro service and to have a service that feels like a national service, rather than feeling like a local service that you have to sit on for five hours. A Plaid Cymru Government would certainly want to develop that sort of national service, but how does the Minister intend to seek that kind of investment through the next franchise to ensure that we do get a quality service?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:50	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	I think a quality service will be down to the quality of the rolling stock that is provided and the facilities that are provided on board. I think they are all essential. What people are actually telling us is that people do like faster journeys, but they also like the quality of the journey to be particularly important, and I think it's important we carry on in that vein, to explore the opportunities we have to make it a much better service between north and south Wales.	Rwy'n credu y bydd gwasanaeth o safon yn dibynnu ar ansawdd y cerbydau a ddarperir a'r cyfleusterau sy'n cael eu darparu ar y trenau. Rwy'n credu eu bod i gyd yn hanfodol. Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym mewn gwirionedd yw bod pobl yn hoff o deithiau cyflymach, ond maent hefyd yn awyddus i ansawdd y daith fod yn arbennig o bwysig, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i ni barhau yn yr un modd i edrych ar y cyfleoedd sydd gennym i wneud y gwasanaeth rhwng gogledd a de Cymru yn llawer gwell.	Senedd.tv Fideo Video
14:51	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Question 7 was grouped with question 2, so we move to question 8—Peter Black.	Grwpiwyd cwestiwn 7 gyda chwestiwn 2, felly symudwn at gwestiwn 8—Peter Black.	Senedd.tv Fideo Video
Cynllun y Bathodyn Glas		The Blue Badge Scheme		
14:51	Peter Black Bywgraffiad Biography	<i>8. A wnaiffy Gweinidog ddatganiad am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun bathodyn glas? OAQ(4)0533(EST)</i>	<i>8. Will the Minister make a statement on any proposed changes to the blue badge scheme? OAQ(4)0533(EST)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:51	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	Further to my recent letter to Members to update them, my officials are conducting a review of the scheme's current delivery methods, informed by practice in other parts of the UK. I'd hoped to provide a further update more quickly than this, but there is now extensive work going on in some local authority areas.	Yn dilyn fy llythyr diweddar at yr Aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, mae fy swyddogion yn cynnal adolygiad o ddulliau cyflawni presennol y cynllun, ar sail ymarfer mewn rhannau eraill o'r DU. Roeddwn wedi gobeithio rhoi diweddariad pellach yn gynt na hyn, ond mae gwaith helaeth yn digwydd erbyn hyn yn ardaloedd rhai o'r awdurdodau lleol.	Senedd.tv Fideo Video
14:51	Peter Black Bywgraffiad Biography	Thank you for that answer, Minister. You'll know, of course, that I have particular concerns about Swansea, which has many, many times more refusals than any other local authority in Wales. They continue to insist that the reason for that is they're the only ones doing it properly. Given the experience you've had and the correspondence you've had in terms of the experience in Swansea and elsewhere, have you given any consideration as to whether local authorities are fit to continue to deliver this service?	Diolch am eich ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn gwybod, wrth gwrs, fod gennyf bryderon penodol ynghylch Abertawe sy'n gwrthod ceisiadau yn llawer iawn amlach nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Maent yn parhau i fynnu mai'r rheswm am hynny yw mai hwy'n unig sy'n ei wneud yn iawn. O ystyried y profiad rydych wedi'i gael a'r ohebiaeth rydych wedi'i chael o ran y profiad yn Abertawe ac mewn manau eraill, a ydych wedi ystyried a yw awdurdodau lleol yn gymwys i barhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn?	Senedd.tv Fideo Video
14:52	Edwina Hart Bywgraffiad Biography	I'm currently awaiting a report back from the expert group that's gone into Swansea. The expert group have actually asked for additional time to look at some of the issues around Swansea, but I hope that I will have a report from them before the Easter recess. I will then begin some consideration of how the scheme should be operated in the future, whether the scheme is all right—because there have been issues around local authorities, particularly on cognitive behaviour, and we are now having a plethora of cases emerging about how they're not, perhaps, utilising the regulations and the work that we've undertaken in the correct manner. But I can assure Members that I am terribly concerned about the level of correspondence I'm having on this and the administration of the scheme.	Ar hyn o bryd rwy'n aros am adroddiad yn ôl gan y grŵp arbenigol sydd wedi mynd i Abertawe. Mae'r grŵp arbenigol wedi gofyn am amser ychwanegol i edrych ar rai o'r materion sy'n ymwneud ag Abertawe, ond rwy'n gobeithio cael adroddiad oddi wrthynt cyn toriad y Pasg. Yna byddaf yn dechrau ystyried sut y dylai'r cynllun gael ei weithredu yn y dyfodol, a yw'r cynllun yn iawn—oherwydd mae problemau wedi bod mewn perthynas ag awdurdodau lleol, yn enwedig ynglŷn ag ymddygiad gwybyddol, ac mae gennym lu o achosion erbyn hyn yn dod i'r amlwg ynglŷn â sut nad ydynt, efallai, yn defnyddio'r rheoliadau a'r gwaith rydym wedi ei wneud yn y modd cywir. Ond gallaf sicrhau'r Aelodau fy mod yn bryderus iawn ynghylch y lefel o ohebiaeth rwy'n ei chael ar hyn a gweinyddiad y cynllun.	Senedd.tv Fideo Video

- 14:52 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, like many, I welcome the positive changes to the blue badge scheme, which now takes cognitive impairments into consideration. However, what advice can you give to one of my constituents who, despite having multiple cognitive impairments, is not eligible as he's over 65, which, of course, is of great distress to him and his family? Within your department's review of the blue badge refusals, can this particular issue also be raised?
- Weinidog, fel llawer o bobl, rwy'n croesawu'r newidiadau cadarnhaol i gynllun y bathodyn glas, sydd bellach yn ystyried nam gwybyddol. Fodd bynnag, pa gyngor y gallwch ei roi i un o fy etholwyr sydd â nifer o namau gwybyddol, ond nad yw'n gymwys am ei fod dros 65 oed, ac mae hyn, wrth gwrs, yn peri gofid mawr iddo ef a'i deulu? Yn adolygiad eich adran o geisiadau'r bathodyn glas sy'n cael eu gwrthod, a ellid tynnu sylw at y mater penodol hwn hefyd?
- 14:52 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. As part of the review I've commissioned, I will be looking at particular issues like this, because these are some of the problems that are rising from the scheme. I think the Government toolkit to assist them was good, and some local authorities say it's working very well, but the level of correspondence I'm having on this matter doesn't indicate that to me.
- Gellid. Yn rhan o'r adolygiad a gomisiynais, byddaf yn edrych ar faterion penodol o'r fath, gan mai dyma rai o'r problemau sy'n deillio o'r cynllun. Rwy'n meddwl bod pecyn cymorth y Llywodraeth i'w cynorthwyo yn dda, ac mae rhai awdurdodau lleol yn dweud ei fod yn gweithio'n dda iawn, ond nid yw'r lefel o ohebiaeth rwy'n ei chael ar y mater yn dynodi hynny.
- 14:53 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- When you made your written statement last December, updating us on the blue badge scheme, you made the point that this reflects your policy to extend eligibility, and it was certainly not your intention that anyone meeting the criteria should be denied access to a badge. What advice would you give to Flintshire council regarding the constituent who has contacted me who had a blue badge on her GP's advice, but, when it expired, she applied for renewal and was now told she didn't score enough points, despite having mobility problems and a suite of conditions, including lymphoedema, which have only got worse since her first badge was awarded?
- Pan wnaethoch eich datganiad ysgrifenedig fis Rhagfyr diwethaf, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar gynllun y bathodyn glas, fe wnaethoch y pwynt fod hyn yn adlewyrchu eich polisi i ymestyn cymhwysedd, ac yn sicr nad eich bwriad oedd y dylai unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf gael eu gwrthod am fathodyn. Pa gyngor y bydddech yn ei roi i Gyngor Sir y Fflint ynghylch yr etholwr sydd wedi cysylltu â mi a oedd wedi cael bathodyn glas ar gyngor ei meddyg teulu: pan ddaeth i ben, gwnaeth gais i'w adnewyddu a dywedwyd wrthi nad oedd hi'n sgorio digon o bwyntiau, er bod ganddi broblemau symud a nifer o gyflyrau, gan gynnwys lymffoedema, sydd ond wedi gwaethygu ers iddi gael ei bathodyn cyntaf?
- 14:54 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- May I say that the example you've given is no different to the examples I was having from other Members and from other people across Wales? This is why we've got the review, and I'd ask the Members to bear with me as I go through this process of looking at some of the cases that have been referred to me, taking some advice on them and thinking about a constructive way forward. The intention of the scheme was, obviously, to prevent abuse, but it wasn't to stop people having a blue badge if they required it, and some of the casework that has come to me I can barely believe, in terms of the refusal.
- A gaf fi ddweud nad yw'r enghraifft rydych wedi ei rhoi yn wahanol i'r enghreifftiau roeddwn yn eu cael gan Aelodau eraill a phobl eraill ledled Cymru? Dyma pam ein bod wedi cael yr adolygiad, a byddwn yn gofyn i'r Aelodau fod yn amyneddgar gyda mi wrth i mi fynd drwy'r broses hon o edrych ar rai o'r achosion a gyfeiriwyd ataf, gan gymryd rhywfaint o gyngor arnynt a meddwl am ffordd adeiladol ymlaen. Bwriad y cynllun, yn amlwg, oedd atal camddefnydd, nid atal pobl rhag cael bathodyn glas os oeddent ei angen, a phrin y gallaf gredu peth o'r gwaith achos sydd wedi fy nghyrraedd, o ran gwrthod ceisiadau.
- 14:54 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, Minister, like many Members, my postbag too is filling up, and I'm sure that wasn't your original intention, of course. Depending on the circumstances, if an applicant has been refused a blue badge, I understand that an appeal can be made to an occupational therapist, another health profession, the public service ombudsman or even the Welsh Government. Can you actually simplify the appeals procedure, please? I think that's important.
- Wel, Weinidog, fel llawer o Aelodau, mae fy mag post yn llenwi hefyd, ac rwy'n siŵr nad dyna oedd eich bwriad gwreiddiol, wrth gwrs. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, os yw ymgeisydd am fathodyn glas yn cael ei wrthod, rwy'n deall y gellir apelio at therapydd galwedigaethol, gweithiwr iechyd proffesiynol arall, ombwdsmon y gwasanaethau cyhoeddus neu Lywodraeth Cymru hyd yn oed. A allwch chi symleiddio'r weithdrefn apelio, os gwelwch yn dda? Credaf fod hynny'n bwysig.

14:55	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, I think I'll certainly take your comments on board, because I'm likely now to have comprehensive suggestions from my officials about taking this matter forward, because we can't allow this kind of position to carry on.</p>	<p>Gwnaf, rwy'n sicr am ystyried eich sylwadau, gan fy mod, erbyn hyn, yn debygol o gael awgrymiadau cynhwysfawr gan fy swyddogion ynglŷn â symud y mater hwn yn ei flaen, oherwydd ni allwn ganiatáu i sefyllfa o'r fath barhau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Metro De Cymru		The South Wales Metro	
14:55	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p>9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed o ran datbygu metro de Cymru? OAQ(4)0544(EST)</p>	<p>9. Will the Minister make a statement on progress in developing a south Wales metro? OAQ(4)0544(EST)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes. I recently published an update setting out progress to date on the metro. The future of the Wales and borders franchise is a key element in the delivery of the metro. It's my intention to update Members on the progress of both before the summer recess.</p>	<p>Gwnaf. Yn ddiweddar, cyhoeddais ddiweddariad yn nodi'r cynnydd ar y metro hyd yma. Mae dyfodol masnachfaint Cymru a'r gororau yn elfen allweddol yn y gwaith o ddarparu'r metro. Fy mwriad yw rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed ar y ddau cyn toriad yr haf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:55	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. Minister, 60 years ago, you could get on a train in my home village of Raglan and travel to Cardiff. Ironically, today, Raglan station has itself moved to St Fagan's, which is where we now have to go to see it. I'm sure that you will agree with me that progress has not been kind to our rural railways. Now, clearly, the cost of reinstating our railways and those stations would be very high, but the south Wales metro—[Interruption.] Yes, it would be nice.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Weinidog, 60 mlynedd yn ôl, gallech ddal trên yn fy mhentref genedigol yn Rhaglan a theithio i Gaerdydd. Yn eironig, heddiw, mae gorsaf Rhaglan ei hun wedi symud i Sain Ffagan, a dyna lle y mae'n rhaid i ni fynd er mwyn ei gweld. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno na fu cynnydd yn garedig i'n rheilffyrdd gwledig. Nawr, yn amlwg, byddai'r gost o ailosod ein rheilffyrdd a'r gorsafoedd hynny'n uchel iawn, ond mae metro de Cymru —[Torri ar draws.] Byddai, mi fyddai'n braf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>The south Wales metro scheme includes improving transport links in the peripheral city region area, including areas such as Raglan and Monmouth. What form do you envisage these improvements taking, and do you share my concerns that a danger of shrinking budgets is that some of the peripheral plans for the metro could ultimately fall by the wayside if we are focusing resources on the important areas of the Valleys? Those are important areas, but the rural areas shouldn't be forgotten, should they?</p>		<p>Mae cynllun metro de Cymru yn cynnwys gwella cysylltiadau trafniadaeth yn ardal berifferol y ddinas-ranbarth, gan gynnwys ardaloedd fel Rhaglan a Threfynwy. Pa ffurf y rhagwelwch a fydd i'r gwelliannau hyn, ac a ydych yn rhannu fy mhryderon mai perygl cyllidebau sy'n crebachu yw y gallai rhai o'r cynlluniau perifferol ar gyfer y metro gael eu hesgeuluso yn y pen draw os ydym yn canolbwyntio adnoddau ar ardaloedd pwysig y Cymoedd? Maent yn ardaloedd pwysig, ond ni ddylem anghofio'r ardaloedd gwledig, na ddylem?</p>	
14:56	<p>Edwina Hart Bywgraffiad Biography</p> <p>No, I don't think any area should be forgotten. But, in terms of the metro, we are talking about a generational project. We'll have the core that we'll work on, and then we expand outwards. I think that was important in the discussions I've had with Monmouthshire about the importance of looking at developments in that area in terms of how you access it. Can I say that you're always reminded about the rail service if you ever watch Michael Portillo's programmes on railways and the journeys that could be made across the UK and continentally, and sometimes you envy the Victorians in terms of delightful steam trains and having proper tea and cakes on them, if you watch some other TV programmes as well?</p>	<p>Na, nid wyf yn credu y dylid anghofio unrhyw ardal. Ond o ran y metro, rydym yn sôn am brosiect cenedlaeth. Bydd gennym y craidd y byddwn yn gweithio arno, ac yna byddwn yn ehangu tuag allan. Credaf fod hynny'n bwysig yn y trafodaethau rwyf wedi eu cael gyda Sir Fynwy am bwysigrwydd edrych ar ddatblygiadau yn yr ardal honno o ran hygyrchedd. A gaf fi ddweud eich bod chi bob amser yn cael eich atgoffa am y gwasanaeth trên os ydych chi'n gwyllo rhaglenni Michael Portillo ar reilffyrdd a'r teithiau y gellid eu gwneud ar draws y DU ac ar draws y cyfandiroedd, ac weithiau fe fyddwch yn eiddigeddus o drenau stêm hyfryd y Ffactoriaid, a chael te a chacennau go iawn arnynt, os ydych yn gwyllo rhai rhaglenni teledu eraill hefyd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol		National Museums and Galleries	

- 14:57 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol yng Nghymru? OAQ(4)0546(EST)
10. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's commitment to providing free entry to national museums and galleries in Wales? OAQ(4)0546(EST)
- 14:57 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 Yes. As outlined in the programme for government, we remain committed to the policy of free entry to the seven museums run by National Museum Wales. Further to the First Minister's answer to your question yesterday, I am pleased that the national museum has confirmed that the option of underground tours being charged for at Big Pit will not be taken forward.
 Gwnaf. Fel yr amlinellwyd yn y rhaglen lywodraethu, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r polisi mynediad am ddim i'r saith amgueddfa sy'n cael eu cynnal gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Yn dilyn ateb y Prif Weinidog i'ch cwestiwn ddoe, rwy'n falch fod yr amgueddfa genedlaethol wedi cadarnhau na fyddant yn symud ymlaen gyda'r opsiwn o godi tâl am deithiau tanddaearol yn y Big Pit.
- 14:57 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 Thank you, Deputy Minister. Obviously, I was absolutely delighted with the First Minister's announcement yesterday. I'm also really looking forward to you coming to Big Pit with me next month so that you can meet staff there and experience the underground tour for yourself. Deputy Minister, I know that you're aware of the current impasse over pay and conditions for staff and of the really significant financial pressures facing National Museum Wales because of UK Government cuts. Can I ask whether you'll do everything you can to encourage both sides to reach an agreement that's both fair to the lowest paid and which ensures the long-term sustainability of our fantastic Welsh museums and galleries?
 Diolch, Ddirprwy Weinidog. Yn amlwg, roeddwn wrth fy modd gyda chyhoeddiad y Prif Weinidog ddoe. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at fis nesaf pan fyddwch yn dod gyda mi i'r Big Pit i gyfarfod â staff yno a phrofi'r daith danddaearol drosoch eich hun. Ddirprwy Weinidog, gwn eich bod yn ymwybodol o'r cyfyngder presennol ynghylch cyflogau ac amodau staff a'r pwysau ariannol hynod o sylweddol sy'n wynebu Amgueddfa Genedlaethol Cymru oherwydd toriadau Llywodraeth y DU. A gaf fi ofyn a fyddwch yn gwneud popeth a allwch i annog y ddwy ochr i ddod i gytundeb sy'n deg i'r rhai sy'n cael eu talu leiaf ac sy'n sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein hamgueddfeydd a'n horielau gwych yng Nghymru?
- 14:58 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 Yes, I would encourage both the management and the union representatives at the national museum to continue to discuss this issue and to work together to reach a positive outcome. The management at the national museum have been made aware of the need to consider the impact of the proposed changes on individuals, and, in implementing the changes, they will be concerned to ensure that staff on lower grades of employment are protected as best as possible.
 Byddwn, byddwn yn annog y rheolwyr a'r cynrychiolwyr undeb yn yr amgueddfa genedlaethol i barhau i drafod y mater hwn ac i weithio gyda'i gilydd i gyrraedd canlyniad cadarnhaol. Mae'r rheolwyr yn yr amgueddfa genedlaethol yn ymwybodol o'r angen i ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar unigolion, ac wrth weithredu'r newidiadau, byddant yn awyddus i sicrhau bod staff ar raddfeydd cyflogaeth is yn cael eu diogelu yn y ffordd orau bosibl.
- 14:59 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo Video](#)
 I'm grateful to the Deputy Minister for his reiteration of the very welcome statement that the First Minister gave us yesterday. As you will know, Deputy Minister, visitors to Big Pit have increased by 110 per cent since there was free entry, but this doesn't seem to have happened in terms of regeneration of Blaenavon town itself. How can this tourism dividend be taken forward?
 Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ailadrodd y datganiad a roddodd y Prif Weinidog i ni ddoe, ac sydd i'w groesawu'n fawr. Fel y gwyddoch, Ddirprwy Weinidog, mae nifer y bobl sy'n ymweld â'r Big Pit wedi cynyddu 110 y cant ers i'r mynediad fod am ddim, ond nid yw'n ymddangos fod hyn wedi digwydd o ran adfywio tref Blaenafon ei hun. Sut y gellid datblygu'r difidend twristiaeth hwn?

14:59	Kenneth Skates Bywgraffiad Biography	Can I thank William Graham for his question and also for highlighting the most welcome increase in visitor numbers since the attraction was made free to enter? Of course, the heritage tourism project has invested heavily in the sites in Blaenavon and has led to considerable opportunities in terms of jobs. Across Wales, the heritage tourism project has created no fewer than 1,000 full-time equivalent jobs, which, in turn, are benefiting communities in those areas.	A gaf fi ddiolch i William Graham am ei gwestiwn a hefyd am dynnu sylw at y cynnydd sydd i'w groesawu yn nifer yr ymwelwyr ers i'r mynediad fod am ddim? Wrth gwrs, mae'r prosiect twristiaeth treftadaeth wedi buddsoddi'n drwm yn y safleoedd ym Mlaenafon ac mae wedi arwain at gyfleoedd sylweddol o ran swyddi. Ar draws Cymru, mae'r prosiect twristiaeth treftadaeth wedi creu 1,000 fan lleiaf o swyddi cyfwerth ag amser llawn, sydd yn eu tro'n sicrhau manteision i'r cymunedau yn yr ardaloedd hynny.	Senedd.tv Fideo Video
15:00	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	Weinidog, rydych chi wedi cadarnhau'r ymrwymiad i fynediad yn rhad ac am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru. A allwch chi gadarnhau y prynhawn yma fod hynny'n mynd i fod yn wir i bob un o safleoedd Amgueddfa Cymru, ac a allwch chi gadarnhau hefyd nad oes yna unrhyw fwriad i edrych ar y posibilrwydd o gau yr un o'r safleoedd hynny, gan gynnwys safle Amgueddfa Wlân Cymru, yn fy etholaeth i, yn Nre-fach?	Minister, you've confirmed the commitment to free entry to the sites of National Museum Wales. Can you confirm this afternoon that that's going to be true of all National Museum Wales sites, and can you also confirm that there is no intention to consider the possibility of closing any of those sites, including the site of the National Wool Museum, in my constituency, in Drefach?	Senedd.tv Fideo Video
15:00	Kenneth Skates Bywgraffiad Biography	Can I thank the Member for his question? Every effort will be made to ensure that there is minimal impact on the national museums in terms of the need to reduce costs and increase income generation. I can confirm that, again, as outlined in the programme for government, we remain committed to the policy of free entry to all seven museums.	A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei gwestiwn? Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgueddfeydd cenedlaethol o ran yr angen i leihau costau a chynyddu incwm. Gallaf gadarnhau unwaith eto, fel yr amlinellir yn y rhaglen lywodraethu, ein bod yn parhau'n ymrwymedig i bolisi mynediad am ddim i bob un o'r saith amgueddfa.	Senedd.tv Fideo Video
15:00	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Thank you very much.	Diolch yn fawr iawn.	Senedd.tv Fideo Video
15:00	Pwynt o Drefn Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	We now have a point of order. I call on Kirsty Williams to ask that point of order.	Point of Order Yn awr mae gennym bwynt o drefn. Galwaf ar Kirsty Williams i godi'r pwynt o drefn.	Y Senedd.tv Fideo Video
15:01	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography	Thank you, Presiding Officer. I raise a point of order under Standing Order 12.16(viii). Presiding Officer, in yesterday's First Minister's questions, in response to a question raised by me regarding the Welsh Ambulance Services NHS Trust paying for taxis, the First Minister said, and I quote, 'So, that figure is not just about taxis. It's about a number of services that are offered by the ambulance service in a non-emergency context.' He talked about laundry services and carrying bloods. However, I have the freedom of information data in front of me. It explicitly states the figures used were the—and I quote: 'Amount paid to Hackney Taxi Companies for transporting patients'.	Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n codi pwynt o drefn o dan Reol Sefydlog 12.16(viii). Lywydd, yn y cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe, mewn ymateb i gwestiwn a ofynnais ynghylch Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn talu am dacsis, dywedodd y Prif Weinidog, ac rwy'n dyfynnu, 'Felly, nid yw'r ffigur hwnnw'n ymwneud â thacsis yn unig. Mae'n ymwneud â nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y gwasanaeth ambiwlans mewn cyd-destun nad yw'n argyfwng.' Soniodd am wasanaethau golchi dillad a chludo gwaed. Fodd bynnag, mae gennyf y data rhyddid gwybodaeth o fy mlaen. Mae'n datgan yn glir mai'r ffigurau a ddefnyddiwyd oedd—ac rwy'n dyfynnu: 'Y swm a dalwyd i Gwmnïau Tacsï Hacıni am gludo cleifion.	Senedd.tv Fideo Video

I fear, Presiding Officer, that the First Minister may have inadvertently received incorrect information, which he has then conveyed to the Chamber. I'd be grateful if the First Minister could clarify.

Rwy'n ofni, Lywydd, efallai fod y Prif Weinidog wedi cael gwybodaeth anghywir yn anfwriadol, gwybodaeth y mae ef wedyn wedi ei rhannu â'r Siambwr. Fe fyddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog egluro.

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, that's not actually a point of order for me, but I will give the First Minister the opportunity to reply.

Wel, nid yw hwnnw'n bwynt o drefn i mi mewn gwirionedd, ond rhoddaf gyfle i'r Prif Weinidog ateb.

15:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is the information received from the ambulance trust. I'm more than happy, of course, to deal with the issue through correspondence or through other channels. I hear what you say about this not being a point of order.

Dyna'r wybodaeth a gafwyd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Rwy'n fwy na pharod i ymdrin â'r mater drwy ohebiaeth neu drwy sianeli eraill, wrth gwrs. Rwy'n deall yr hyn a ddywedwch, nad yw hwn yn bwynt o drefn.

15:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I think you've both had a chance to put your views on record. I think the First Minister's given—[Interruption.] Sorry, I missed what you said. You said you were going to look at the Record?

Rwy'n credu eich bod ill dau wedi cael cyfle i gofnodi eich safbwyntiau. Rwy'n credu bod y Prif Weinidog wedi rhoi—[Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, ni chlywais yr hyn a ddywedoch. Fe ddywedoch eich bod yn mynd i edrych ar y Cofnod?

15:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

No.

Naddo.

15:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

No, sorry. Okay, fine. So, it's on the record now.

Naddo, mae'n ddrwg gennyf. Iawn, digon teg. Felly, mae wedi'i gofnodi yn awr.

15:02 **3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Hapchwarae**

3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Gambling

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, a debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call on Mick Antoniw to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21. Galwaf ar Mick Antoniw i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5712 Mick Antoniw, Jocelyn Davies, Aled Roberts, Nick Ramsay

Motion NDM5712 Mick Antoniw, Jocelyn Davies, Aled Roberts, Nick Ramsay

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod bod technoleg ar-lein ynghyd â hysbysebu dwys wedi ysgogi twf hapchwarae yng Nghymru ac yn nodi:

1. Recognises that online technology together with intense advertising has fuelled the growth of gambling in Wales and notes that:

a) bod hapchwarae ar gael i holl boblogaeth Cymru 24/7;

a) gambling is available to the entire population of Wales 24/7;

b) y gall hapchwarae ddod yn gaethiwed sy'n niweidiol yn gymdeithasol, gan gyfrannu at dlodi, iechyd a phroblemau cymdeithasol;

b) gambling can become a socially damaging addiction, contributing to poverty, health and social problems;

c) bod adnabod caethiwed a darparu cymorth yn gynnar yn hanfodol er mwyn atal pobl rhag dod yn gaeth i hapchwarae;

d) bod y twf mewn hapchwarae ar-lein a pheiriannau hapchwarae ods sefydlog wedi troi hapchwarae yn y DU i mewn i ddiwydiant gwerth biliynau o bunnoedd; ac

e) bod amgylchedd rheoleiddio hapchwarae yn gymharol ysgafn.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu a gweithredu strategaeth i fynd i'r afael â'r canlyniadau cymdeithasol ac iechyd sy'n deillio o hapchwarae;

b) ymgysylltu â Llywodraeth y DU i drafod datganoli rhagor o bwerau dros drwyddedu peiriannau hapchwarae; ac

c) ymgysylltu â'r diwydiant hapchwarae a'r Ymddiriedolaeth Hapchwarae Cyfrifol i sicrhau bod cyfran briodol o'r cyllid yn cael ei wario yng Nghymru i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â bod yn gaeth i hapchwarae.

Cynigiwyd y cynnig.

c) early identification and support is essential if addiction is to be avoided;

d) the growth in online gambling and fixed-odds betting machines has turned gambling in the UK into a multi-billion pound industry; and

e) the regulatory environment in which gambling takes place is relatively light-touch.

2. Calls on the Welsh Government to:

a) develop and implement a strategy to tackle the social and health consequences of gambling;

b) engage with the UK Government to discuss the devolution of greater powers over the licensing of gaming machines; and

c) engage with the gambling industry and the Responsible Gambling Trust to ensure that an appropriate proportion of funding is spent in Wales to tackle issues around gambling addiction.

Motion moved.

15:02

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I'm grateful for the opportunity to bring this individual Member debate and also for the support for this motion from Jocelyn Davies, who will conclude the debate, and from Nick Ramsay and Aled Roberts.

The reason for bringing this motion before the Assembly is that it is my belief, and that of many others, that we risk an epidemic of social and health consequences as a result of increased and relatively unfettered gambling, particularly in respect of the growth of fixed-odds gaming and online gambling.

At the outset, I must clarify that I am not opposed to gambling per se. I, like many of my constituents, gamble occasionally. In fact, I was once the fortunate beneficiary of a Grand National £5 to-win bet on Red Marauder, which came in at 35:1. I sometimes buy a lottery ticket, despite the odds being 28 million:1 against my winning. Like many other Assembly Members, my constituency has also benefited from projects that have been supported by the National Lottery. This motion is not about any of these things. The motion is about the way in which gambling has changed and grown into a multibillion-pound industry, and about the potential social and economic consequences of that growth and those changes, particularly on the young, whose exposure and access to gambling is now a key target for gambling advertising.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno'r ddadl Aelod unigol hon, a hefyd am y gefnogaeth a gafwyd i'r cynnig hwn gan Jocelyn Davies, a fydd yn cloi'r ddadl, a chan Nick Ramsay ac Aled Roberts.

Rwy'n cyflwyno'r cynnig hwn gerbron y Cynulliad am fy mod yn credu, fel nifer o bobl eraill, ein bod mewn perygl o gael epidemig o ganlyniadau iechyd a chymdeithasol o ganlyniad i gynnydd mewn hapchwarae sy'n gymharol ddilyffethair, yn enwedig o ran twf hapchwarae ods sefydlog a hapchwarae ar-lein.

Ar y cychwyn, mae'n rhaid i mi egluro nad wyf yn gwrthwynebu hapchwarae fel y cyfryw. Fel llawer o fy etholwyr, rwy'n gamblo o bryd i'w gilydd. A dweud y gwir, bûm unwaith yn ddigon ffodus i elwa ar fet o £5 i Red Marauder ennill yn y Grand National, a daeth i mewn ar 35:1. Weithiau, rwy'n prynu tocyn loteri, er gwaetha'r ods o 28 miliwn:1 yn fy erbyn. Fel nifer o Aelodau eraill y Cynulliad, mae fy etholaeth hefyd wedi elwa o brosiectau a gefnogwyd gan y Loteri Genedlaethol. Nid yw'r cynnig hwn yn ymwneud ag unrhyw un o'r pethau hyn. Mae'r cynnig yn ymwneud â'r ffordd y mae hapchwarae wedi newid a thyfu i fod yn ddiwydiant gwerth biliynau o bunnoedd, ac mae'n ymwneud â chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd posibl y twf a'r newidiadau hyn, yn enwedig i'r ifanc, sy'n agored iawn i hapchwarae hawdd bellach, gan eu gwneud yn darged allweddol i hysbysebion hapchwarae.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is my belief that gambling addiction is an increasing and largely inadequately recognised problem, one that is growing through intrusive advertising and the use of online technology. This motion is about the potential for gambling to wreck lives. It recognises how gambling has changed and proposes the development of a strategy by Welsh Government to tackle the consequences of those changes.

One of the problems we face in understanding this issue is the relative lack of information and data around gambling addiction. The last gambling prevalence survey was carried out by the UK Government in 2010 and has since been abolished, meaning that there are very little up-to-date data on what has happened over the past five years. The 2010 UK data indicate that 73 per cent of all adults have gambled at some time, and, of those gambling, it was a significant problem for about 1 to 1.3 per cent. That is around 350,000 to 450,000 persons in the UK, equating to probably around 20,000 people in Wales. Notably, the data also show a higher rate of problem gambling amongst women in Wales compared to the rest of the UK.

A 2009 survey by Ipsos MORI identified 2 per cent of 12 to 15-year-olds, some 60,000 teenagers, as having significant gambling problems, and this would suggest around 3,000 12 to 15-year-olds in Wales. I use all these figures rather cautiously, because they are by now not only five years out of date but much of the data are dependent on self-reporting surveys, so the methodologies are different and uncertain. I think it is reasonable to assume that there is a significant gambling addiction problem out there and it is growing, but that we do not know enough about the full extent of that problem.

I think we can also reasonably assume that, with the changes in technology and the constant bombardment of the population with gambling advertising, the take-up of online gambling is rising and is rising significantly. It is almost impossible to avoid it: mobile phone texts, internet adverts, TV adverts, newspaper adverts, betting-shop window adverts, football ground adverts and so on. Advertising is now unashamedly intrusive, giving 24/7 access across all age groups. Anyone with a computer, smart phone, or iPad is vulnerable irrespective of age, sex, race or location. It should concern us all that, as a result, habitual gambling is in danger of being normalised.

According to a 2012 House of Commons Select Committee report on gambling, only around 20 per cent of online gambling is actually based in the UK, but even that is still worth nearly £2 billion. On this basis, the overall value of online gambling must be around £10 billion per annum and is predicted by 2015-16 to have increased by about 34 per cent on those figures. If this does not cause us concern, if it does not ring warning bells, then it certainly should.

Rwy'n credu bod dibyniaeth ar hapchwarae yn broblem gynyddol nad yw'n cael ei chydabod yn ddigonol i raddau helaeth, ac mae'n broblem sy'n tyfu drwy hysbysebu ymwithiol a'r defnydd o dechnoleg ar-lein. Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r posibilrwydd y gallai hapchwarae chwalu bywydau. Mae'n cydnabod sut y mae hapchwarae wedi newid ac yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth i fynd i'r afael â chanlyniadau'r newidiadau hynny.

Un o'r problemau sy'n ein hwynebu o ran deall y mater yw'r diffyg cymharol o wybodaeth a data ynghylch dibyniaeth ar hapchwarae. Cafodd yr arolwg diwethaf o raddau hapchwarae ei gynnal gan Lywodraeth y DU yn 2010 ac ers hynny fe'i diddymwyd, sy'n golygu mai ychydig iawn o ddata cyfredol sydd ar gael ar yr hyn a ddigwyddodd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae data y DU 2010 yn dangos bod 73 y cant o oedolion wedi hapchwarae ar ryw adeg, ac o'r rhai hynny a oedd yn hapchwarae, roedd yn broblem sylweddol i tua 1 neu 1.3 y cant, sef oddeutu 350,000 i 450,000 o bobl yn y DU, sy'n cyfateb i oddeutu 20,000 o bobl yng Nghymru, yn ôl pob tebyg. Yn arwyddocaol, mae'r data hefyd yn dangos fod cyfradd uwch o fenywod yng Nghymru â phroblem hapchwarae o gymharu â gweddill y DU.

Noddod arolwg gan Ipsos MORI yn 2009 fod gan 2 y cant o blant 12 i 15 oed, oddeutu 60,000 o blant yn eu harddegau, broblemau hapchwarae sylweddol, a byddai hyn yn awgrymu oddeutu 3,000 o blant 12 i 15 oed yng Nghymru. Rwy'n defnyddio'r holl ffigurau hyn yn weddol ofalus, oherwydd eu bod bum mlynedd ar ei hôl hi, a hefyd am fod llawer o'r data yn ddibynnol ar arolygon hunan-gofnodedig, felly mae'r methodolegau'n wahanol ac yn ansicr. Rwy'n credu ei bod yn rhesymol tybio bod yna broblem sylweddol o ran dibyniaeth ar hapchwarae ac mae'n tyfu, ond nid ydym yn gwybod digon am hyd a lled y broblem honno'n iawn.

Rwy'n credu ei bod yn rhesymol i ni gymryd yn ganiataol, gyda'r newidiadau mewn technoleg a'r ffaith fod y boblogaeth yn cael ei pheledu'n gyson gan hysbysebion hapchwarae, fod y nifer sy'n hapchwarae ar-lein yn cynyddu ac yn cynyddu'n sylweddol. Mae bron yn amhosibl i'w osgoi: negeseuon testun ar ffônau symudol, hysbysebion y rhyngwyd, hysbysebion teledu, hysbysebion papur newydd, hysbysebion yn ffenestri siopau betio, hysbysebion ar gaeau pêl-droed ac yn y blaen. Mae hysbysebu yn ddigydwylbod o ymwithiol erbyn hyn, yn caniatáu mynediad 24/7 ar draws pob grŵp oedran. Mae pob un sydd â chyfrifiadur, ffôn clyfar neu iPad yn agored, beth bynnag fo'u hoedran, rhyw, hil neu leoliad. Dylai beri pryder i bob un ohonom felly fod hapchwarae cyson mewn perygl o gael ei normaleiddio.

Yn ôl adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar hapchwarae yn 2012, tua 20 y cant yn unig o hapchwarae ar-lein sy'n seiliedig yn y DU mewn gwirionedd, ond mae hynny hyd yn oed yn dal i fod yn werth bron i £2 biliwn. Ar y sail hon, mae'n rhaid bod hapchwarae ar-lein yn gyffredinol yn werth oddeutu £10 biliwn y flwyddyn a rhagwelir cynnydd o tua 34 y cant ar y ffigurau hynny erbyn 2015-16. Os nad yw hyn yn peri pryder i ni, os nad yw'n canu larwm, yna fe ddylai wneud hynny'n bendant.

The growth of fixed-odds gaming machines in bookies should also concern us. Since the 2005 Gaming Act, betting office gaming machines have increased significantly. The maximum stakes are £100 for a potential £500 prize, and it is possible to bet £100 in 20 seconds. Amongst those engaged in support and counselling services, these machines are described as the 'crack cocaine' of gambling. Of course, the industry is concerned about its reputation and is putting in place codes of conduct and is looking at how to spot potential problem gamblers, but in my view there is a lot more to do.

Since the 2005 Gaming Act, the industry, through the responsible Gambling Commission, raises voluntarily around £6 million for the purposes of education, counselling and research. In Wales, we have benefited from a three-year £180,000 per annum pilot focused on Newport, Cardiff and Swansea, organised via the Addiction Recovery Agency. However, this funding comes to an end at the end of this month, and this will mean that the only funding for support for early intervention and counselling in Wales is an allocation of £25,000. I believe that we are only glimpsing the tip of the gambling iceberg and that, in particular, online gambling is poorly understood and may represent a growing social problem, increasingly affecting teenagers and young adults. A student adviser from the University of South Wales says this:

'we have certainly seen a worrying growth in gambling...it feels that for an increasing number of students gambling is highly addictive and impacting hugely on their personal lives their ability to perform academically and indeed ultimately to remain on their course'.

So what can be done? There is clearly a need for more research. I'm also firmly of the view that we should explore how we might use our planning powers more proactively, to better manage the proliferation and location of betting outlets. This Assembly should also have increased powers over the regulation of fixed-odds betting machines. We need also to engage with the Gambling Commission to ensure that there is proper funding available for counselling and support services in Wales. In particular, we need an education strategy for the young. This is a particularly important point, because we know so little about gambling today that we know even less about how trends will develop in the future. One thing is clear: today's teenagers are exposed to gambling in ways none of us ever were. Saturation advertisements alongside televised sporting events mean that we risk a future where, for the next generation, sport and gambling are intrinsically linked. Whereas sport once had the power to promote health, fitness and friendship, it may increasingly become a vehicle generating ever more bespoke gambling odds. Because the internet is now such a central part of our lives, it has the potential to normalise gambling in a way that the physical effort required to visit a bookmaker never did.

Dylai'r cynnydd mewn peiriannau hapchwarae ods sefydlog mewn siopau bwci beri pryder i ni hefyd. Ers Deddf Hapchwarae 2005, mae nifer y peiriannau hapchwarae mewn swyddfeydd betio wedi cynyddu'n sylweddol. Uchafswm y bet yw £100 am wobr bosibl o £500, ac mae'n bosibl betio £100 mewn 20 eiliad. Ymysg y bobl sy'n ymwneud â gwasanaethau cefnogi a chynghori, caiff y peiriannau eu disgrifio fel 'crac cocên' y byd hapchwarae. Wrth gwrs, mae'r diwydiant yn pryderu am ei enw da ac mae'n rhoi codau ymddygiad ar waith ac yn edrych ar sut i adnabod hapchwaraewyr problemus posibl, ond yn fy marn i mae llawer mwy i'w wneud.

Ers Deddf Hapchwarae 2005, mae'r diwydiant, drwy'r Comisiwn Hapchwarae Cyfrifol, yn codi tua £6 miliwn yn wirfoddol at ddibenion addysg, cwnsela ac ymchwil. Yng Nghymru, rydym wedi elwa o gynllun peilot tair blynedd gwerth £180,000 y flwyddyn yn canolbwyntio ar Gasnewydd, Caerdydd ac Abertawe a drefnwyd drwy'r Addiction Recovery Agency. Fodd bynnag, daw'r cyllid hwn i ben ar ddiwedd y mis, sy'n golygu mai'r unig arian cymorth a fydd ar gael ar gyfer ymyrryd yn gynnar a chwnsela yng Nghymru fydd dyraniad o £25,000. Rwy'n credu mai prin ein bod yn gweld crafu'r wyneb o ran hapchwarae, ac nad oes dealltwriaeth dda o hapchwarae ar-lein, yn arbennig. Gallai fod yn broblem gymdeithasol gynyddol, sy'n effeithio fwyfwy ar bobl yn eu harddegau ac oedolion ifanc. Dywedodd cynghorydd myfyrwr o Brifysgol De Cymru hyn:

'Rydym yn sicr wedi gweld twf sy'n peri pryder mewn hapchwarae... mae'n ymddangos bod hapchwarae'n hynod gaethiwus i nifer cynyddol o fyfyrwr a'i fod yn cael effaith enfawr ar eu bywydau personol, ar eu gallu i berfformio'n academaidd ac yn wir, yn y pen draw, ar eu gallu i barhau gyda'u cwrs'.

Felly beth y gellir ei wneud? Mae'n amlwg fod angen mwy o ymchwil. Rwyf hefyd yn gadarn o'r farn y dylem ystyried sut y galle ddefnyddio ein pwerau cynllunio yn fwy rhagweithiol er mwyn rheoli'r cynnydd yn nifer a lleoliad siopau betio'n well. Dylai'r Cynulliad gael mwy o bwerau dros reoleiddio peiriannau betio ods sefydlog hefyd. Yn ogystal, mae angen i ni ymgysylltu â'r Comisiwn Hapchwarae i sicrhau bod cyllid priodol ar gael ar gyfer gwasanaethau cymorth a chwnsela yng Nghymru. Yn benodol, rydym angen strategaeth addysg ar gyfer yr ifanc. Mae hwn yn bwynt arbennig o bwysig, gan na wyddom fawr ddim am hapchwarae heddiw ac mae hynny'n golygu ein bod yn gwybod llai fyth ynglŷn â sut y bydd tueddiadau'n datblygu yn y dyfodol. Mae un peth yn glir: mae pobl yn eu harddegau heddiw yn agored i hapchwarae mewn ffyrdd nad oedd yn bodoli i neb ohonom erioed o'r blaen. Mae hysbysebion di-ben-draw ochr yn ochr â digwyddiadau chwaraeon ar y teledu yn golygu ein bod mewn perygl o weld dyfodol lle y bydd chwaraeon a hapchwarae wedi'u cysylltu'n gynhenid i bobl y genhedlaeth nesaf. Tra oedd gan chwaraeon bŵer unwaith i hybu iechyd, ffitrwydd a chyfeillgarwch, gallai ddatblygu'n gyfrwng sy'n cynhyrchu ods hapchwarae mwyfwy pwrpasol. Am fod y rhyngwrwyd bellach yn rhan mor ganolog o'n bywydau, mae perygl y gallai normaleiddio hapchwarae mewn modd na allai'r ymdrech gorfforol roedd ei hangen i ymweld â siop y bwci ei wneud byth.

Consider this: it is a very short step for a teenager who habitually 'games' using a virtual currency to gamble with actual money. We know, too, that the internet can be addictive, so the question arises: is the combination of internet and gambling synergistically greater? We simply don't know, but my fear is that it is the fate of the next generation to find out. That is why, devolved or not, Wales needs to take gambling seriously. It needs to have a strategy in place that gives our people the best chance of having a life that isn't blighted by gambling addiction.

Ystyriwch hyn: cam bychan iawn a gymer i unigolyn yn ei arddedgau sydd weithiau'n 'hapchwarae' gydag arian rhithwir i ddechrau hapchwarae gydag arian go iawn. Rydym yn gwybod hefyd y gall y rhyngwrwyd fod yn gaethiwus, felly rhaid gofyn: a yw'r cyfuniad o'r rhyngwrwyd a hapchwarae yn broblem fwy o faint yn synergyddol? Yn syml iawn, nid ydym yn gwybod, ond rwy'n ofni mai tynged y genhedlaeth nesaf fydd cael gwybod. Dyna pam y mae angen i Gymru fod o ddirif ynglŷn â hapchwarae, pa un a yw'n fater wedi'i ddatganoli ai peidio. Mae angen i Gymru fabwysiadu strategaeth sy'n rhoi'r cyfle gorau i'n pobl gael bywyd nad yw wedi ei ddiffetha gan ddibyniaeth ar hapchwarae.

15:11

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to add my name to this cross-party motion today. Can I concur with Mick Antoniw's opening remarks that this is not a debate against gambling per se? But I think that there is a big problem here that needs to be addressed, and regulation is almost certainly part of the answer.

Now, if you type the word 'gambling' into any search engine online, you'll be met with a multitude of gambling sites that each offer myriad special bonuses if you play with them now. I think I set myriad alarm bells ringing in the Assembly Commission as I tried to research this debate today and access some of these sites to see what was on offer. That's my excuse, anyway. [Laughter.] These bonuses range from a free £10 play right up to one site offering a VIP bonus of up to £1,000.

Somewhere much further down the list on the search engine page you may find the Gambling Commission website, and further still Gamblers Anonymous and similar sites—a site almost anonymous itself amongst the others. There are believed to be as many as 450,000 problem gamblers in the UK. As with most addictions, it is the anticipation and thrill of gambling that creates a natural high, which can of course become addictive. As a nation, we have in the past been fond of the odd flutter at the bookies, or using up our spare change in the local cafe's one-arm bandit. Of course, since the introduction of the National Lottery, that aspect of gambling has become commonplace. However, the more recent phenomenon of the internet has made gambling quick, easy and all-too-readily accessible. That's 24/7 access from the comfort of your own home, and Mick Antoniw has already said how large sums of money can be frittered away in just a few seconds.

Rwy'n falch o ychwanegu fy enw at y cynnig trawsbleidiol hwn heddiw. A gaf fi gytuno â sylwadau agoriadol Mick Antoniw nad yw hon yn ddatl yn erbyn hapchwarae fel y cyfryw? Ond rwy'n credu bod yna broblem fawr yma y mae angen rhoi sylw iddi, ac mae rheoleiddio bron yn sicr yn rhan o'r ateb.

Nawr, os teipiwch y gair 'gambling' i mewn i unrhyw chwilotwr ar-lein, bydd y canlyniadau'n cynnwys lluo o safleoedd hapchwarae sy'n cynnig bonws arbennig rif y gwllith os ydych yn eu chwarae ar unwaith. Rwy'n credu fy mod wedi canu larymau dirifedi yng Nghomisiwn y Cynulliad wrth i mi geisio ymchwilio i'r ddatl hon heddiw a chael mynediad i rai o'r safleoedd hyn i weld beth oedd ar gael. Dyna fy esgus, beth bynnag. [Chwerthin.] Mae'r bonysau hyn yn amrywio o gêm £10 rad ac am ddim i un safle a gynigiai fonws arbennig o hyd at £1,000.

Yn llawer is i lawr y rhestr ar y dudalen chwilotra mae'n bosibl y dowch o hyd i wefan y Comisiwn Hapchwarae, ac yn is eto, safle Gamblers Anonymous a safleoedd tebyg—safle sydd bron yn anhysbys ei hun ymysg y lleill. Credir bod cymaint â 450,000 o hapchwarawyr â phroblem yn y DU. Fel gyda'r rhan fwyaf o fathau o ddibyniaeth, y disgwyliad a'r wefr a geir wrth hapchwarae sy'n creu teimladau o hapusrwydd naturiol, a gall hynny, wrth gwrs, ddod yn gaethiwus. Fel cenedl, yn y gorffennol rydym wedi bod yn hoff o fetio yn awr ac yn y man mewn siopau bwci, neu wario ein newid mân ar beiriannau hapchwarae'r caffii lleol. Wrth gwrs, ers cyflwyno'r Loteri Genedlaethol, mae'r agwedd honno ar hapchwarae wedi dod yn fwy cyffredin. Fodd bynnag, mae ffenomen ddiweddar y rhyngwrwyd wedi gwneud hapchwarae'n gyflym, yn hawdd ac yn rhy hygyrch o'r hanner. Mae'n cynnig mynediad 24/7 o gysur eich cartref eich hun ac mae Mick Antoniw eisoes wedi dweud sut y gellid gwario arian mawr yn afraid mewn ychydig eiliadau'n unig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

When it came into effect in 2007, the Gambling Act saw a number of changes, and I think this was a watershed moment with regard to access to gambling. For example, before the Act, anyone wanting to join a casino could do so, subject to a cooling-off period. A punter today has, of course, merely to turn up, sign up and go. Casinos, bookmakers and online betting websites could advertise for the first time, subject to a 9 p.m. watershed, and haven't we been bombarded in recent years by colourful personalities—Barbara Windsor, Ray Winstone and Rafa Nadal—extolling the virtues of the gambling brand? As I said before, we're not opposing gambling here, but there is a problem with the way that it has been marketed, which this motion seeks to address.

There can be no doubt, then, that gambling has become far more accessible. People are becoming increasingly involved, and more and more people are falling into the problem of gambling addiction. As I understand it, from my knowledge of this, in 2013, the Welsh Government did not add questions about internet gambling to the national internet health survey that took place then. This was despite requests from the gambling regulator. Perhaps this can be revisited and perhaps this is an appropriate time to do it. Campaigners did call it disappointing at the time, stating that internet gambling may be leading to a new generation of problem gamblers, and there could be tens of thousands in Wales. The online gambling industry was then worth a massive £2 billion.

Now, it's not just a health problem, of course, for the gambler; as we know, as well as affecting the tens of thousands of individuals, the problem has a knock-on effect on the families of those individuals. Perhaps more than in the cases of other addictions, families are affected by this to an enormous extent. The NHS recognises that, as well as the more obvious effects that a gambling problem can have on a person's financial situation, there's a serious impact on the mental health of the gambler. According to the Royal College of Psychiatrists, problem gamblers are more likely to suffer from low self-esteem, develop stress-related disorders, become anxious, have poor sleep and appetite, develop a substance misuse problem and suffer from depression. And, of course, as we know, whenever you have any of these problems, that can then feed back into a growing initial problem. So, the gambling problem can become worse.

The truth is we do not know the exact number of people affected by this problem. It would be helpful if we had those figures in order to better understand it as a health issue. So often in this Chamber, in different debates, we talk about a problem with the lack of data. So, I'd like to call upon the Minister to develop and implement a strategy to tackle the health consequences of gambling—an opportunity that was missed in 2013.

Pan ddaeth i rym yn 2007, gwelodd y Ddeddf Hapchwarae nifer o newidiadau, ac rwy'n credu ei fod yn drobwynt o ran hygyrchedd hapchwarae. Er enghraifft, cyn y Ddeddf, gallai unrhyw un a oedd am ymuno â chasino wneud hynny yn amodol ar gyfnod ar gyfer ailfeddwl. Heddiw, yr unig beth sy'n rhaid i gwsmer ei wneud, wrth gwrs, yw mynd i gasino, cofrestru a bwrw iddi. Gallai casinos, siopau bwci a gwefannau betio ar-lein hysbysebu am y tro cyntaf ar yr amod ei bod ar ôl 9 p.m., ac onid ydym wedi cael ein peledu dros y blynyddoedd diwethaf gan bersonoliaethau lliwgar—Barbara Windsor, Ray Winstone a Rafa Nadal—yn mawrygu rhinweddau'r brand hapchwarae? Fel y dywedais o'r blaen, nid ydym yn gwrthwynebu hapchwarae yma, ond mae problem gyda'r modd y cafodd ei farchnata, a cheisio ymwneud â hynny y mae'r cynnig hwn.

Ni all fod unrhyw amheuaeth, felly, fod hapchwarae wedi dod yn llawer mwy hygyrch. Mae mwyfwy o bobl yn cymryd rhan yn gynyddol ac mae mwyfwy o bobl â phroblem ddibyniaeth ar hapchwarae. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, o fy ngwybodaeth am hyn, yn 2013, ni ychwanegodd Llywodraeth Cymru gwestiynau am hapchwarae ar-lein at arolwg iechyd cenedlaethol y rhyngryd a gynhaliwyd bryd hynny, er gwaethaf ceisiadau gan y rheoleiddiwr hapchwarae. Efallai y gellid ailystyried hyn ac mae'n bosibl mai dyma'r amser priodol i wneud hynny. Dywedodd ymgyrchwyr fod hynny'n siomedig ar y pryd, gan nodi efallai fod hapchwarae ar-lein yn arwain at genhedlaeth newydd o hapchwarawyr â phroblem, a gallai fod degau o filoedd ohonynt yng Nghymru. Bryd hynny, roedd y diwydiant hapchwarae ar-lein yn werth y swm aruthrol o £2 biliwn.

Nawr, nid problem iechyd yn unig yw hi'r hapchwarawyr, wrth gwrs; fel y gwyddom, yn ogystal ag effeithio ar ddegau o filoedd o unigolion, mae'r broblem yn cael sgil- effaith ar deuluoedd yr unigolion hynny. Mae teuluoedd yn cael eu heffeithio gan hyn i raddau enfawr, efallai'n fwy felly nag yng nghyd-destun mathau eraill o ddibyniaeth. Yn ogystal â'r effeithiau mwy amlwg y gall problem hapchwarae ei chael ar sefyllfa ariannol rhywun, mae'r GIG yn cydnabod bod yna effaith ddifrifol ar iechyd meddwl yr hapchwarawyr. Yn ôl Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, mae'n fwy tebygol fod hapchwarawyr â phroblem yn dioddef o hunan-barch isel, yn datblygu anhwylderau sy'n gysylltiedig â straen, yn bryderus, yn cysgu'n wael a'u harchwaeth bwyd yn wael, yn datblygu problemau camddefnyddio sylweddau ac yn dioddef o iselder. Ac wrth gwrs, fel y gwyddom, pan fo gennych unrhyw un o'r problemau hyn, gall hynny fwydo'n ôl i'r broblem gychwynnol gynyddol. Felly, gall y broblem hapchwarae waethygu.

Y gwir yw nad ydym yn gwybod faint yn union o bobl sy'n cael eu heffeithio gan y broblem hon. Byddai o gymorth pe bai gennym y ffigurau hynny er mwyn gallu ei ddeall yn well fel mater iechyd. Yn aml yn y Siambr hon, mewn gwahanol ddadleuon, rydym yn siarad am broblem gyda diffyg data. Felly, hoffwn alw ar y Gweinidog i ddatblygu a gweithredu strategaeth i fynd i'r afael â chanlyniadau iechyd hapchwarae—cyfle a gollwyd yn 2013.

Finally, Presiding Officer, I've touched upon the problem of the effect that gambling has on the families involved, and I think that we do need to have a proper focus on the impact on children in all of this. They are, in many ways, the secret sufferers. Thank you for bringing this motion forward today, Mick Antoniw; I'm happy to support it.

Yn olaf, Lywydd, rwyf wedi crybwyll y problem gyda'r effaith y mae hapchwarae yn ei chael ar y teuluoedd dan sylw, ac rwy'n credu bod angen i ni ganolbwyntio'n briodol ar yr effaith ar blant yn hyn i gyd. Hwyl yw'r dioddefwyr cudd mewn sawl ffordd. Diolch i chi am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw, Mick Antoniw; rwy'n hapus i'w gefnogi.

15:16

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will also be supporting the motion today, although, in my opinion, it doesn't go half far enough, although I admit that we don't have the powers here in the Assembly.

Gambling has come a long way since it was simply an agreement made between two individuals and honoured by a gentlemen's agreement. In my mind, two key things have happened to gambling that have made society worse. One is that we've had Government approval of gambling from the very beginning in legislation. The second is the rampant commercialisation of gambling, which Members so far have talked about in this debate. But, I want to return to Government approval.

I was very much opposed to the introduction of the National Lottery and I'd be very happy to see the National Lottery disappear tomorrow. I think it is wrong that we have a lottery. I think it is wrong that Government approves gambling in this way. I think it is wrong that we take from the poorest in order to spend for some of the richest in society. I'm not denigrating the work of the different lottery charities and funds that do the best they can and consult with everyone locally; I am actually philosophically opposed to a national lottery run by a national government with all the associated support, recommendation and approval of gambling that goes with that. I'm particularly opposed to the way the BBC relates and publicises the National Lottery, which I think is contrary to its charter and, I think, brings the BBC into commercialisation and marketing.

But, having approved the National Lottery back during John Major's Government, it was then inevitable, I think, that the flood gates would open on Government approval for further gambling in the Gambling Act 2005—some of the consequences of which Nick Ramsay has already outlined. I think it's very unfortunate to have seen a Labour Government, then, seeking to make gambling a 24/7 activity, something akin to shopping, or something akin to our health service, or something akin to something that we do in our daily lives. It goes hand in hand, of course, with societal changes that mean that gambling is all part of our economy now, because we've allowed the hedge funds to dominate the way we decide our economy. Of course, in the same way as with hedge funds, the rich get away with it and the poorest end up paying their £1, £2, or their money to gambling.

Byddaf hefyd yn cefnogi'r cynnig heddiw, er nad yw'n mynd hanner digon pell yn fy marn i. Ond rwy'n cyfaddef nad oes gennym y pwerau yma yn y Cynulliad.

Mae hapchwarae wedi datblygu llawer ers y dyddiau pan oedd, yn syml, yn gytundeb a wneid rhwng dau unigolyn, drwy ddealltwriaeth anrhydeddus. Yn fy marn i, mae dau beth allweddol wedi digwydd i hapchwarae sydd wedi gwneud cymdeithas yn waeth. Y cyntaf yw bod hapchwarae wedi cael cymeradwyaeth y Llywodraeth o'r cychwyn cyntaf mewn deddfwriaeth. Yr ail yw bod hapchwarae wedi cael ei fasnacheiddio'n rhemp, ac mae Aelodau wedi siarad am hynny'n barod yn y ddatl hon. Ond rwyf am ddychwelyd at gymeradwyaeth Llywodraeth.

Roeddwn yn gwrthwynebu'r penderfyniad i gyflwyno'r Loteri Genedlaethol yn fawr a byddwn yn hapus iawn i weld y Loteri Genedlaethol yn diflannu yfory. Rwy'n credu nad yw'n iawn fod gennym loteri. Rwy'n credu ei bod yn anghywir i Lywodraeth gymeradwyo hapchwarae yn y modd hwn. Rwy'n credu ei bod yn anghywir ein bod yn cymryd gan y tlotaf er mwyn gwario ar rai o'r cyfoethocaf mewn cymdeithas. Nid wyf yn pardduo gwaith y gwahanol elusennau loteri a'r cronfeydd sy'n gwneud eu gorau ac yn ymgynghori â phawb yn lleol; mewn gwirionedd rwy'n gwrthwynebu ar sail athronyddol loteri genedlaethol sy'n cael ei chynnal gan lywodraeth genedlaethol gyda'r holl gymorth, argymhellion a chymeradwyaeth i hapchwarae sy'n gysylltiedig â hynny. Yn arbennig, rwy'n gwrthwynebu'r ffordd y mae'r BBC yn ymwneud â'r Loteri Genedlaethol ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddi, ac rwy'n credu bod hynny'n groes i'w siarter ac yn tynnu'r BBC i mewn i weithgarwch masnacheiddio a marchnata yn fy marn i.

Ond o gofio mai yn ôl yn ystod Llywodraeth John Major y cymeradwywyd y Loteri Genedlaethol, roedd yn anochel bryd hynny, rwy'n credu, y byddai'r llifddorau'n agor ar gymeradwyaeth y Llywodraeth i hapchwarae pellach yn Neddf Hapchwarae 2005—ac mae Nick Ramsay eisoes wedi amlinellu rhai o ganlyniadau honno. Rwy'n credu ei bod yn hynod o anffodus ein bod wedi gweld Llywodraeth Lafur, bryd hynny, yn ceisio gwneud hapchwarae yn weithgaredd 24/7, rhywbeth yn debyg i siopa, rhywbeth yn debyg i'n gwasanaeth iechyd neu rywbeth tebyg i rywbeth a wnawn yn ein bywydau bob dydd. Mae'n mynd law yn llaw â newidiadau cymdeithasol, wrth gwrs, sy'n golygu bod hapchwarae yn rhan o'n heconomi yn awr, am ein bod wedi caniatáu i'r cronfeydd mantoli reoli'r ffordd y penderfynwn ar ein heconomi. Wrth gwrs, yn yr un modd â chronfeydd mantoli, mae'r cyfoethog yn cael eu ffordd a'r rhai tlotaf sy'n talu eu £1, £2, neu eu harian i hapchwarae yn y pen draw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, when did I gamble last? Well, it was yesterday, when I bought raffle tickets for the worthy cancer charity from the Assembly rugby team. That involved a social interaction, a discussion about the purpose and why I was buying those raffle tickets, and a discussion about why they were raising the money. That is a world removed from, alone at 2 o'clock in the morning, going online to a gambling site, whether it's bingo, designed—. Because one of the things about gambling and commercialisation is how gender specific it is. It's designed for women gamblers, girl gamblers, men gamblers, boy gamblers. It is very gender specific, the way that this has been carved up. It is a world removed, but of course the advertising, the kind of advertising we see for gambling, is the kind that we ruled out years ago for smoking and drinking—a glamorous world of social interaction, of high status, of how you can become much more successful personally and come along if you only engaged in gambling. It is a world removed from the reality of most online gambling and certainly a world removed from the reality of the most addictive gambling.

Now, mention has already been made of fixed-odds machines in this context—which have, as I think Mick Antoniw said, been described as the crack cocaine of gambling—and the proliferation of these machines in different shops around our high streets. A shop can only have so many machines, of course, but that has meant that the poorest communities—towns like Llanelli, for example—are disfigured by a configuration of gambling and betting shops that really only exist for the fixed-odds machines. It is not about, again, any kind of social interaction, any kind of knowledge of the betting field, any kind of relationship around sporting events, and it's become, in itself, its own end and means.

I'm particularly concerned also that gambling is starting to have an effect on politics. It's a little-known fact that Benjamin Netanyahu, who won the election yesterday, was majorly funded by a free newspaper called 'Israel HaYom', which is paid for by a United States gambling magnate. Absolutely everyone in Israel was getting Netanyahu's anti-Palestinian propaganda paid for by US gamblers. In Australia, the pokie machines have changed the nature of the gambling debate there, and changed policy by switching the support from one party—the Labor Party—to another party—Abbott's party—which then dropped the legislation on the pokie machines.

It's started to happen here in the UK. The Labour Party received £120,000 in the last financial year under Electoral Commission rules from those associated with gambling. Chuka Umunna received £20,000 from a gambling lobbyist and Ed Balls has received £2,600 from a gambling lobbyist. I don't want to see that happen to any political party in the United Kingdom, which is why this motion does not go far enough for me. I say abolish the National Lottery, stop media advertising of all gambling, ban online gambling and certainly ban all bonus gambling and all free bets.

Nawr, pa bryd wnes i hapchwarae ddiwethaf? Wel, ddoe, pan brynais docynnau raffi gan dim rygbi'r Cynulliad ar gyfer elusen ganser deilwng. Roedd hynny'n cynnwys rhyngweithio cymdeithasol, trafodaeth am y pwrpas a pham roeddwn yn prynu'r tocynnau raffi, a thrafodaeth ynglŷn â pham eu bod yn codi'r arian. Mae hynny'n gwbl wahanol i fod ar eich pen eich hun am 2 o'r gloch y bore, yn mynd ar safle hapchwarae ar-lein, boed yn fingo, wedi'i ddylunio—. Oherwydd un o'r pethau ynghylch hapchwarae a masnacheiddio yw pa mor rhyw-benodol ydyw. Mae'n cael ei gynllunio ar gyfer hapchwarawyr sy'n fenywod, hapchwarawyr sy'n ferched, hapchwarawyr sy'n ddynion, hapchwarawyr sy'n fechgyn. Mae'r ffordd y mae hyn wedi cael ei gynllunio yn rhyw-benodol iawn. Mae'n fyd cwbl wahanol, ond wrth gwrs, mae'r hysbysebu, y math o hysbysebu a welwn i hyrwyddo hapchwarae, yn debyg i'r hysbysebu a waharddwyd gennym flynyddoedd yn ôl ar gyfer ysmegu ac yfed—byd hudolus o ryngweithio cymdeithasol a statws uchel, o sut y gallwch fod yn llawer mwy llwyddiannus yn bersonol a dod yn eich blaen pe baech ond yn cymryd rhan mewn hapchwarae. Mae'n fyd cwbl wahanol i realiti'r rhan fwyaf o hapchwarae ar-lein ac yn sicr yn fyd cwbl wahanol i realiti'r hapchwarae mwyaf caethiwus.

Nawr, soniwyd eisoes am beiriannau ods sefydlog yn y cyd-destun hwn—ac maent wedi cael eu disgrifio, fel y dywedodd Mick Antoniw rwy'n credu, fel crac cocên y byd hapchwarae—a'r cynnydd yn nifer y peiriannau hyn mewn gwahanol siopau'r stryd fawr yn ein trefi. Hyn a hyn o beiriannau yn unig y gall siop eu cael, wrth gwrs, ond mae hynny wedi golygu bod y cymunedau tlotaf—trefi fel Llanelli, er enghraifft—yn cael eu hanffurfio gan gasgliad o siopau hapchwarae a betio sy'n bodoli'n unig oherwydd y peiriannau ods sefydlog mewn gwirionedd. Unwaith eto, nid yw'n ymwneud ag unrhyw fath o ryngweithio cymdeithasol, unrhyw fath o wybodaeth am fetio, unrhyw fath o gysylltiad â digwyddiadau chwaraeon, ac mae wedi tyfu'n nod ynddo'i hun bellach.

Rwy'n arbennig o bryderus hefyd fod hapchwarae'n dechrau cael effaith ar wleidyddiaeth. Nid yw'n ffaith hysbys iawn fod Benjamin Netanyahu, a enillodd yr etholiad ddoe, yn cael ei gyllido'n bennaf gan bapur newydd rhad ac am ddim o'r enw 'Israel HaYom', a gŵr mawr ym maes hapchwarae o'r Unol Daleithiau sy'n talu amdano. Roedd pawb yn Israel yn cael propaganda gwrth-Balesteinaidd Netanyahu wedi'i dalu amdano gan hapchwarawyr yr Unol Daleithiau. Yn Awstralia, mae'r peiriannau 'pokie' wedi newid natur y ddadl hapchwarae yno ac wedi newid polisi drwy drosglwyddo'r gefnogaeth o un blaid—y Blaid Lafur—i blaid arall—plaid Abbott—a ddiddymoddy ddeddfwriaeth ar y peiriannau 'pokie' wedyn.

Mae wedi dechrau digwydd yma yn y DU. Derbyniodd y Blaid Lafur £120,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf o dan reolau'r Comisiwn Etholiadol gan rai sy'n gysylltiedig â hapchwarae. Derbyniodd Chuka Umunna £20,000 gan lobiwr hapchwarae ac mae Ed Balls wedi cael £2,600 gan lobiwr hapchwarae hefyd. Nid wyf am weld hynny'n digwydd i unrhyw blaid wleidyddol yn y Deyrnas Unedig, a dyna pam nad yw'r cynnig hwn yn mynd yn ddigon pell i mi. Rwy'n dweud y dylid diddymu'r Loteri Genedlaethol, rhoi'r gorau i hysbysebu hapchwarae o bob math ar y cyfryngau, gwahardd hapchwarae ar-lein ac yn sicr, gwahardd pob hapchwarae bonws a phob bet rad ac am ddim.

I welcome the opportunity to speak in the debate this afternoon. The Liberal Democrats will have a free vote on this matter, but I will be supporting the motion.

For Liberals, motions of this kind always create a tension between where one draws the line between personal freedom and the ability of an individual to make choices about their own lives, but also the role of the state in protecting individuals and persons from harm. And what we do know is that gambling addiction can cause real harm. Gambling, as has been studied and proven by a number of academic studies and reports, can be as addictive as alcohol or drugs, and can be equally as difficult to get clean from as it can be from those substances.

I'd like to talk just very briefly about the issue of fixed-odds betting terminals. Mick Antoniw referred to them as the 'crack cocaine of gambling'. They are high speed and high stakes, and an individual can literally burn through thousands of pounds in a short space of time. Not so long ago, 'The Guardian' ran the story of a gentleman called Tony Franklin. It took him just 59 minutes to squander £3,500 on these machines. Thirteen days before Christmas, he was able to walk into his local Coral bookmakers; he walked up to the counter, swiped his debit card and spent £500 picking the wrong numbers. Eight minutes later, he took out a further £1,000 on his debit card. He burnt through that. He took out another £1,000; he took out another £1,000 and the money was gone.

The latest figures, Presiding Officer, from the Gambling Commission that I was able to obtain with regard to the use of these machines in Wales said that, in 2012, £1.62 billion was staked on these machines within Wales. That's £274 million in our capital city, £122 million in Newport and £62.8 million in Wrexham. Today, Welsh people are literally pouring their money into the machines, and I suspect they are the people who can least afford to do it. Can we imagine what that £1.62 billion could have done in the Welsh economy, could have done for individual families and could have done for individuals?

Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl y prynhawn yma. Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cael pleidlais rydd ar y mater hwn, ond byddaf yn cefnogi'r cynnig.

I Ryddfrydwyr, mae cynigion o'r math hwn bob amser yn creu tyndra rhwng lle y mae tynnu'r llinell rhwng rhyddid personol a gallu'r unigolyn i wneud dewisiadau dros ei fywyd ei hun, ond hefyd rôl y wladwriaeth yn amddiffyn unigolion a phobl rhag niwed. A'r hyn rydym yn ei wybod yw y gall dibyniaeth ar hapchwarae achosi niwed go iawn. Gall hapchwarae, fel sydd wedi cael ei astudio a'i brofi gan nifer o astudiaethau academaidd ac adroddiadau, fod mor gaethiwus ag alcohol neu gyffuriau, a gall rhoi'r gorau i hapchwarae fod yr un mor anodd â rhoi'r gorau i ddefnyddio'r sylweddau hynny.

Hoffwn siarad yn fyr iawn ar fater beiriannau hapchwarae ods sefydlog. Cyfeiriodd Mick Antoniw atynt fel 'crac cocên y byd hapchwarae'. Maent yn hynod o gyflym ac mae arian mawr yn y fantol, a gall unigolyn, yn llythrennol, losgi drwy filoedd o bunnoedd mewn cyfnod byr o amser. Ychydig amser yn ôl, roedd stori yn 'The Guardian' am ŵr bonheddig o'r enw Tony Franklin. Ni chymerodd fwy na 59 munud iddo wastraffu £3,500 ar y peiriannau hyn. Dri diwrnod ar ddeg cyn y Nadolig, gallodd gerdded i mewn i'w siop bwci Coral lleol; aeth at y cownter, rhoi ei gerdyn debyd drwy'r peiriant a gwario £500 yn dewis y rhifau anghywir. Wyth munud yn ddiweddarach, tynnodd £1,000 arall allan ar ei gerdyn debyd a'i wario i gyd. Tynnodd £1,000 arall allan; tynnodd £1000 arall allan ac roedd yr arian wedi mynd.

Lywydd, roedd y ffigurau diweddaraf y gallwn gael gafael arnynt gan y Comisiwn Hapchwarae yn dweud bod £1.62 biliwn wedi ei wario ar y peiriannau hyn yng Nghymru yn ystod 2012. Dyna £274 miliwn a wariwyd yn ein prifddinas, £122 miliwn yng Nghasnewydd a £62.8 miliwn yn Wrecsam. Heddiw, mae pobl Cymru yn llythrennol yn arllwys eu harian i mewn i'r peiriannau, ac rwy'n amau mai dyma'r bobl leiaf tebygol o allu fforddio gwneud hynny. A allwn ni ddychmygu beth y gallai'r £1.62 biliwn hwnnw fod wedi'i wneud i economi Cymru, beth y gallai fod wedi ei wneud i deuluoedd unigol a beth y gallai fod wedi ei wneud i unigolion?

I make no bones about it: the ability to take action on these machines at a national level has been incredibly, incredibly difficult, no doubt, perhaps, because of some of the pressures that Simon just alluded to, and the very strength of the gambling lobby. But let us be clear: as Mick Antoniw said, we have moved a world away from when my grandma on grand national day would send my uncle to the bookies with her £1 each-way bet on the horse whose colours she liked best outlined in the 'Mirror' that morning. I think they had lots of stars on there; always stars. We've moved such a long way from those days, from those scenarios. Like Mick, I am so concerned to see the effect of the constant advertisements, and especially the effect on young people—whether it be for instant credit loans, from those kinds of companies, or gambling—so much so that even my children say to me, 'Why don't we play that? We might win £1 million and we can go to Disney World'. So, the effect that it has on young people, and young children, as a way of achieving the goals that they have, the aspirations that they have, it is pervasive through all aspects of society, and I think we really need to stop to look at where we have got to, and to consider whether the balance of liberalisation, in this particular field, has gone too far.

Nid wyf yn gwadu'r peth: mae'r gallu i weithredu yn erbyn y peiriannau hyn ar lefel genedlaethol wedi bod yn eithriadol o anodd, a diau mai'r rheswm am hynny, efallai, yw'r pwysau y mae Simon newydd ei grybwyll ac oherwydd cryfder y lobi hapchwarae. Ond gadewch i ni fod yn glir: fel y dywedodd Mick Antoniw, rydym mewn byd cwbl wahanol i'r byd lle y byddai fy nain, ar ddiwrnod y Grand National, yn gyrru fy ewythr i siop y bwci gyda'i bet £1 bob ffordd ar y ceffyl roedd hi'n fwyaf hoff o'i liwiau yn y 'Mirror' y bore hwnnw. Rwy'n credu bod yna lawer o sêr arnynt; roedd yna sêr bob amser. Rydym wedi datblygu cymaint ers y dyddiau hynny, o'r senarios hynny. Fel Mick, mae gweld effaith yr hysbysebion cyson, a'r effaith ar bobl ifanc yn enwedig, yn peri cymaint o bryder i mi—boed yn hysbysebion ar gyfer benthychiadau credyd parod, o'r mathau hynny o gwmnïau, neu hapchwarae—cymaint felly fel bod fy mhlant yn dweud wrthyf hyd yn oed, 'Pam nad ydym yn chwarae? Efallai y byddwn yn ennill £1 miliwn a gallwn fynd i Disney World'. Felly, mae'r effaith y mae'n ei chael ar bobl ifanc, a phlant ifanc, fel ffordd o gyrraedd y nodau sydd ganddynt, y dyheadau sydd ganddynt, mae'n treiddio drwy bob agwedd o gymdeithas, ac rwy'n credu bod gwir angen i ni roi'r gorau i edrych ar lle rydym wedi cyrraedd, ac ystyried a yw cydbwysedd y rhyddfrydoli sydd wedi digwydd yn y maes penodol hwn wedi mynd yn rhy bell.

15:25

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd firstly like to commend the individual Members for bringing this debate to the Chamber today. I think it is an important debate that we should have, and, in my own experience, there are many issues, which Members have already mentioned, that impact on my constituents, as far as problem gambling is concerned. I do think that the industry is increasingly powerful and developed, and intrusive—it's actually putting gambling in the faces of our families and communities in a way that wasn't hitherto the case—whether it's through aggressive and intrusive tv advertising in our homes, the presence of online gambling availability in our homes throughout the day and night, or, indeed, on our high streets. I'd like to echo what Mick Antoniw said in terms of planning, because, in my experience, it's often the case that there's a concentration of amusement arcades, betting shops, in an area of our high streets, which is alluring to people, and I certainly know of vulnerable individuals who have lost all of their benefits in an amusement arcade on the day that they received those benefits, and then, obviously, struggled, for the weeks to come, to, somehow, try and survive without the availability of that money. So, there are very, very serious issues around these matters.

I actually met with a representative of the gambling industry some time ago, and he was telling me about what he portrayed as his own company's efforts to achieve more responsible gambling, and limitations on, for example, the fixed-odds betting machines, so it wouldn't be possible to lose the amount of money that Kirsty Williams mentioned, for example, in that space of time as there would be in-built mechanisms in those machines that would prevent that. But, nonetheless, even the limitations that were proposed, to my way of thinking, still allowed far too much money to be lost in far too short a space of time. Obviously, the industry is aware of the campaign to achieve more responsible gambling and limitations on the ability to gamble, and is coming forward with its own proposals to some extent.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn gyntaf, hoffwn gymeradwyo'r Aelodau unigol am gyflwyno'r ddadl hon i'r Siambr heddiw. Rwy'n credu ei bod yn ddadl bwysig y dylem ei chael, ac yn fy mhrofiad fy hun, mae llawer o'r materion y soniodd yr Aelodau amdanynt eisoes yn effeithio ar fy etholwyr i o ran problem hapchwarae. Rwy'n credu bod y diwydiant yn datblygu fwyfwy ac yn gynyddol bwerus. Mae'n ymwthiol—mewn gwirionedd, mae'n gwthio hapchwarae i wynebau ein teuluoedd a'n cymunedau mewn ffordd nad oedd yn wir o'r blaen—drwy hysbysebu teledu ymosodol ac ymwthiol yn ein cartrefi, argaeledd hapchwarae ar-lein yn ein cartrefi drwy gyddol y dydd a'r nos, neu'n wir, ar ein stryd fawr. Hoffwn adleisio'r hyn a ddywedodd Mick Antoniw am gynllunio, oherwydd yn fy mhrofiad i, mae'n aml yn wir fod crynodiad o arcedau a siopau betio ar ran o stryd fawr ein trefi a'n dinasoedd sy'n denu pobl, ac rwy'n sicr yn gwybod am unigolion bregus sydd wedi colli eu holl fudd-daliadau mewn arcêd ar y diwrnod y cawsant y budd-daliadau hynny, ac yna'n amlwg yn ei chael hi'n anodd dros yr wythnosau wedyn i geisio goroesi rywsut heb yr arian. Felly, mae problemau difrifol iawn yn deillio o'r materion hyn.

Cyfarfûm â chynrychiolydd o'r diwydiant hapchwarae beth amser yn ôl, a dywedodd wrthyf am yr hyn a bortreadai fel ymdrechion ei gwmni i sicrhau hapchwarae mwy cyfrifol, a chyfyngiadau ar beiriannau hapchwarae ods sefydlog, er enghraifft, fel na fyddai'n bosibl colli'r swm o arian a grybwyllwyd gan Kirsty Williams mewn amser o'r fath gan y byddai systemau wedi cael eu hymgorffori yn y peiriannau i atal hynny. Serch hynny, roedd y cyfyngiadau a argymhellwyd hyd yn oed yn dal i ganiatáu i lawer gormod o arian gael ei golli mewn cyfnod llawer rhy fyr o amser yn fy marn i. Yn amlwg, mae'r diwydiant yn ymwybodol o'r ymgyrch i sicrhau hapchwarae mwy cyfrifol a'r cyfyngiadau ar y gallu i hapchwarae, ac mae'n ceisio cyflwyno ei gynnigion ei hun i ryw raddau.

Llywydd, I very much back the call in this motion for the Welsh Government to develop a strategy that would deal with the social and health harms that come from problem gambling and addictions that destroy families—we probably all know, certainly I do, of families that have been destroyed by problem gambling—and also that we do need further devolution of powers around the licensing of machines, and that there does need to be greater engagement with the gambling industry. The meeting that I had, I think, showed that, probably for reasons of self-interest, the industry is thinking about engaging at a Wales level with the Government, Assembly Members and others, to see if there can be, at least, some meeting of minds, in terms of developments that would cut across some of the problems and diminish the problems that we've heard about today, and I think that would be useful.

If funding was made available by the industry, to help with the problems that gambling creates in our communities and our families, then that would be useful also. But, ultimately, I think, I agree with many of the points that Members have mentioned today, including the lottery as a regressive tax, which I think is very much is, and, certainly, that's my experience in Newport, which is a huge contributor, proportionately, to lottery funds, but, sadly, is one of the least favoured when it comes to the distribution of those funds. It's the people in the more deprived communities who are prone to the hope that schemes like the lottery give them, that they can quickly transform their fortunes through taking part in the lottery, and, sadly, as we know, the odds of that transformation taking place are hugely negative, as far as they're concerned.

So, I think this has been very much a worthwhile debate today. I would like to think that it will lead on to further consideration of these issues here in the Assembly by Assembly Members, and also by Welsh Government itself, so that we can take further action, greater action, to deal with these very serious problems.

15:30

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rise to support the motion before the Assembly today as well. I don't want to repeat too many of the statistics that we've already heard, but I think it's just bearing in mind the whole scale of gambling here in Wales, particularly with those fixed-odds betting machines that Kirsty Williams mentioned: each one of them raising £1 million each year—each one of them raising £1 million each year—or around £3,000 per day. I think we fail to really comprehend the damage that that is doing to our society, and, frankly, if that's money that is taken out of the economic cycle for reinvestment in other high-street businesses and shops, and other parts of the productive economy, then I think that is a shameful thing, which we need to do more to be able to tackle.

Llywydd, rwy'n ategu'r alwad yn y cynnig hwn i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth a fyddai'n ymdrin â'r niwed i iechyd a'r niwed cymdeithasol sy'n deillio o broblem hapchwarae a dibyniaeth sy'n dinistrio teuluoedd—yn ôl pob tebyg, rydym i gyd yn gwybod am deuluoedd sydd wedi cael eu dinistrio gan hapchwarae, rwyf innau'n sicr yn gwybod am rai—a hefyd rydym angen mwy o ddatganoli pwerau i drwyddedu peiriannau, ac mae angen ymgysylltu mwy â'r diwydiant hapchwarae. Roedd y cyfarfod a gefais, rwy'n credu, yn dangos bod y diwydiant, am resymau hunan-les yn ôl pob tebyg, yn ystyried ymgysylltu ar lefel Cymru gyda'r Llywodraeth, Aelodau'r Cynulliad ac eraill, i weld a ellir dod i gytundeb ar rai pethau o leiaf o ran datblygiadau a fyddai'n mynd i'r afael â rhai o'r problemau a lleihau'r problemau rydym wedi clywed amdanynt heddiw, ac rwy'n credu y byddai hynny'n ddefnyddiol.

Pe bai arian ar gael gan y diwydiant i helpu gyda'r problemau y mae hapchwarae yn eu creu yn ein cymunedau a'n teuluoedd, yna byddai hynny'n ddefnyddiol hefyd. Ond yn y pen draw, rwy'n credu fy mod yn cytuno â llawer o'r pwyntiau y mae'r Aelodau wedi eu crybwyll heddiw, gan gynnwys y pwynt fod y loteri fel treth atchweliadol. Rwy'n cytuno'n gryf â hynny, ac yn sicr dyna fy mhrofiad yng Nghasnewydd, sy'n cyfrannu'n helaeth yn ôl cyfran i gronfeydd y loteri, ond yn anffodus, mae'n un o'r llefydd sy'n cael ei ffafrio leiaf pan ddaw pan ddaw i ddosbarthu'r arian hwnnw. Y bobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig sy'n dueddol o gredu'r gobaith y gall cynlluniau fel y loteri ei roi iddynt, y gallant drawsnewid eu bywydau'n gyflym drwy gymryd rhan yn y loteri, ac yn anffodus, fel y gwyddom, mae'r tebygolrwydd y bydd y trawsnewid o'r fath yn digwydd yn hynod o annhebygol o'u safbwynt hwy.

Felly, rwy'n credu bod hon wedi bod yn ddadl werth chweil heddiw. Hoffwn feddwl y bydd yn arwain at ystyriaeth bellach o'r materion hyn yma yn y Cynulliad gan Aelodau'r Cynulliad, a hefyd gan Lywodraeth Cymru ei hun, fel y gallwn gymryd camau pellach, a gweithredu mwy, i ymdrin â'r problemau difrifol hyn.

Rwy'n codi i gefnogi'r cynnig sydd gerbron y Cynulliad heddiw hefyd. Nid wyf am ailadrodd gormod o'r ystadegau rydym wedi eu clywed eisoes ond rwy'n credu ei fod wedi gwneud i ni ystyried graddau hapchwarae yma yng Nghymru, yn enwedig gyda'r peiriannau hapchwarae ods sefydlog a grybwyllodd Kirsty Williams: mae pob un ohonynt yn gwneud £1 miliwn bob blwyddyn—pob un ohonynt yn gwneud £1 miliwn bob blwyddyn—neu tua £3,000 y dydd. Credaf nad ydym yn gallu deall y niwed y mae hyn yn ei wneud i'n cymdeithas, ac a dweud y gwir, os yw hwnnw'n arian sy'n cael ei dynnu allan o'r cylch economaidd ar gyfer ailfuddsoddi mewn busnesau a siopau eraill ar y stryd fawr, a rhannau eraill o'r economi cynhyrchiol, yna credaf fod hynny'n beth cywilyddus ac yn rhywbeth y mae angen i ni wneud mwy i allu mynd i'r afael ag ef.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

John Griffiths has quite rightly mentioned the destructive nature of excessive and compulsive gambling, when it becomes an addiction, and, like you, John, I have seen families destroyed, I have seen marriages broken, I have seen people lose their homes and all their worldly goods as a result of gambling addictions that have gone unchecked, unsupported, in terms of people being able to get out of that cycle that they just simply cannot break. That's why I want to see more addiction services here in Wales, available to support those people who are desperate and who are in need.

The preventative stuff of course is very important, in terms of dealing with the inappropriate advertising, in terms of dealing with the advertising that appears to be focused at deprived communities and particularly at younger people. But, of course, we do need to deal with the problems that are already manifesting in our society. There are people who come seeking help for gambling addiction, and, unfortunately, all too often they are overlooked, when compared to those other addictions for which there is support out there for people to be able to overcome, particularly substance misuse problems, for example.

One thing that I've been very pleased to come across in recent months, of course, is the excellent work being done by the new service called Beat the Odds, which has been established by the Living Room and CAIS here in Wales, in Cardiff, in order to help people to overcome the stigma associated with confessing and coughing up to a gambling problem, and to help address that through proper addiction support services. I want to see more of those available across Wales, and I know that the Welsh Government will want to see that too.

The lack of data on gambling, as some have already pointed out, is something that we also need to overcome. I do think that we have an opportunity, with the annual Welsh Health Survey, to be able to glean some data, even if it's only a certain amount of data collected each year on an annual basis, just to help fill in the gaps in our knowledge about the scale of gambling in Wales, and the scale of problem gambling, so that we can then look at, once a need is identified, plugging that need with proper services to help deal with them. I do agree also with those Members who've said that we need some more of the legislative powers here in Wales if we want to tackle it and it's not going to be done on a UK-wide level.

So, I'm very much in support of the motion before us. I just want to refer to the fact that there was a report, of course, in the 'Daily Post' newspaper yesterday about the fixed-odds betting machines and their incomes across Wales. I was absolutely astonished that, in my own constituency, £25 million per year is going down the drain on these machines, taking that out of my local economy—£0.25 billion across north Wales, just on those machines alone. When you think about those figures, it is frightening. We need to take some action, and I wholly endorse the motion that's before us.

Mae John Griffiths yn llygad ei le yn sôn am natur ddinistriol hapchwarae gormodol a chymhellol, pan fydd yn troi'n gaethiwed, ac fel chi, John, rwyf wedi gweld teuluoedd yn cael eu dinistrio, rwyf wedi gweld priodasau'n chwalu, rwyf wedi gweld pobl yn colli eu cartrefi a'u holl eiddo bydol o ganlyniad i ddibyniaeth ar hapchwarae na chawsant gefnogaeth i'w ymladd ac i dorri'n rhydd o'r cylch nad ydynt, yn syml iawn, yn gallu ei dorri. Dyna pam rwyf am weld mwy o wasanaethau dibyniaeth yma yng Nghymru i gefnogi pobl sy'n anobeithio ac mewn angen.

Mae'r pethau ataliol, wrth gwrs, yn bwysig iawn, o ran ymdrin â hysbysebu anaddas, o ran ymdrin â hysbysebu sydd i'w weld yn canolbwyntio ar gymunedau difreintiedig ac ar bobl iau yn enwedig. Ond wrth gwrs, mae angen i ni ymdrin â'r problemau sydd eisoes i'w gweld yn ein cymdeithas. Mae yna bobl sy'n ceisio cymorth ar gyfer dibyniaeth ar hapchwarae, ac yn anffodus, maent yn cael eu hanwybyddu'n rhy aml, o'i gymharu â'r mathau eraill o ddibyniaeth y mae cefnogaeth ar gael i helpu pobl eu goresgyn, yn enwedig problemau camddefnyddio sylweddau, er enghraifft.

Un peth rwyf wedi bod yn falch iawn o ddod ar ei draws yn y misoedd diwethaf, wrth gwrs, yw'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan wasanaeth newydd o'r enw Beat the Odds, a sefydlwyd gan Stafell Fyw a CAIS yma yng Nghymru, yng Nghaerdydd, er mwyn helpu pobl i oresgyn y stigma sy'n gysylltiedig â chyffesu bod ganddynt problem hapchwarae, a'u helpu i fynd i'r afael â hynny drwy'r gwasanaethau cymorth dibyniaeth priodol. Rwyf am weld mwy o'r rhain ar draws Cymru, a gwn y bydd Llywodraeth Cymru am weld hynny hefyd.

Fel y mae rhai eisoes wedi ei nodi, mae'r diffyg data ar hapchwarae yn rhywbeth y mae angen i ni ei oresgyn hefyd. Rwy'n credu bod gennym gyfle, gyda'r Arolwg Iechyd Cymru blynyddol, i ddod o hyd i rywfaint o ddata, hyd yn oed os mai ychydig o ddata yn unig a gesglir yn flynyddol ydyw. Gall helpu i lenwi'r bylchau yn ein gwybodaeth am hyd a lled hapchwarae yng Nghymru, a graddau problem hapchwarae, er mwyn i ni nodi'r angen a helpu i ymdrin â hi drwy'r gwasanaethau priodol. Rwy'n cytuno hefyd â'r Aelodau a ddywedodd fod angen rhagor o bwerau deddfwriaethol yma yng Nghymru os ydym am fynd i'r afael â hyn ac nid yw'n mynd i gael ei wneud ar lefel y DU gyfan.

Felly, rwy'n sicr o blaid y cynnig ger ein bron. Hoffwn gyfeirio, wrth gwrs, at y ffaith fod adroddiad ym mhapur newydd y 'Daily Post' ddoe am y peiriannau hapchwarae ods sefydlog a'u hincwm ledled Cymru. Fe'm syfrdanwyd yn llwyr fod £25 miliwn y flwyddyn yn mynd i lawr y draen ar y peiriannau hyn yn fy etholaeth fy hun, gan dynnu'r arian hwnnw o fy economi leol—£0.25 biliwn ar draws gogledd Cymru ar y peiriannau hynny'n unig. Pan fyddwch yn meddwl am y ffigurau hynny, mae'n frawychus. Mae angen i ni weithredu, ac rwy'n cefnogi'n llwyr y cynnig sydd ger ein bron.

I don't doubt the sincerity of this debate, but I do believe that calling for a strategy on the social consequences of gambling would have been something that my Financial Education and Inclusion (Wales) Bill would have delivered, by virtue of the fact that it would have made statutory the financial inclusion plans on a local basis. Yes, the refresh will happen, but I think all of this debate could, and did actually, happen at the time. For example, I received evidence from Swansea council, a Labour-led local authority, who wanted the Bill to go forward in the sense that they wanted to be able to control the planning system so they could stop the propensity of gambling shops in Swansea, because, if you don't see them, you potentially don't enter them. That doesn't address the online gambling issue, but I think that, if local authorities have that foresight and those creative ideas to take forward, then the planning system should therefore be more flexible so that they can put these ideas forward. So, I would hope that the financial inclusion strategy refresh that the Minister has now committed to do will look at all of these issues so as to make sure that, if there are local authorities that want to take more decisive action, that can be reflected through that particular strategy.

I don't doubt the cross-party nature of the debate, but it would be nice to have perhaps heard from some of the Government party AMs at the time when my Bill was going through, because it was rejected at the time, even though, in my memorandum at the beginning of Stage 1, I said clearly that we needed to have much more decisive action, especially on gambling. We don't have the powers here over regulation, no, but we do have the powers to call on that, and we do have the powers over education, because if our young people are taught from a young age about the dangers of gambling, in their schools, then they can be told of the health effects and the dangers in a way that we are not teaching them about those at the moment. I would ask you all to go online and read about John Hartson's view and experience of gambling, because he's said, 'If I gamble again, I'll die'. I think you need people like him, who are role models in our society, to go out there and talk to people who are potentially engaging in these activities: not just poor people, but people from all walks of life, who are, every weekend, putting bets down on various sporting activities, be it online or through the shops that we have on our high streets.

I think what's important as well is for us to look at who is delivering what on the ground. I recently visited Neath Port Talbot Credit Union and they again said to me about the fact that there were people coming to them wanting to access a loan for, say, a prom dress for their little girl's sixth-form prom, or wanting to buy a new washing machine, but then when they drilled down to having the discussion with them, they were talking to them about the fact that they were putting just a few quid a day on an online gambling app, and then they said, 'Well, do you not think that this money could be put towards that dress or that washing machine?' So, it's re-educating some people as well as to how it's affecting their everyday lives: as opposed to just seeing it as something that they enjoy doing, seeing it as something that, potentially, could be posing financial difficulties for them in their everyday lives.

Nid wyf yn amau didwylledd y ddadl hon, ond rwy'n credu y byddai galw am strategaeth ar ganlyniadau cymdeithasol hapchwarae wedi bod yn rhywbeth y byddai fy Mil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) wedi ei gyflawni, yn rhinwedd y ffaith y byddai wedi gwneud y cynlluniau cynhwysiant ariannol ar sail leol yn statudol. Bydd, fe fydd y diweddarau'n digwydd, ond rwy'n credu y gallai'r ddadl hon fod wedi digwydd ar y pryd, ac fe wnaeth hynny mewn gwirionedd. Er enghraifft, cefais dystiolaeth gan gyngor Abertawe, awdurdod lleol dan arweiniad Llafur, a oedd am i'r Bil fynd yn ei flaen yn yr ystyr eu bod eisiau gallu rheoli'r system gynllunio er mwyn atal y duedd i agor siopau hapchwarae yn Abertawe, oherwydd os nad ydych yn eu gweld, rydych yn llai tebygol o fynd i mewn iddynt. Nid wyf hynny'n mynd i'r afael â phroblem hapchwarae ar-lein, ond rwy'n credu os oes gan awdurdodau lleol ragweledigaeth a syniadau creadigol o'r fath, yna dylai'r system gynllunio fod yn fwy hyblyg er mwyn iddynt allu symud y syniadau hyn yn eu blaen. Felly, byddwn yn gobethio y bydd diweddarau'r strategaeth cynhwysiant ariannol y mae'r Gweinidog bellach wedi ymrwymo i'w wneud yn edrych ar yr holl faterion hyn er mwyn gwneud yn siŵr, os oes awdurdodau lleol sy'n awyddus i roi camau mwy pendant ar waith, y gellid adlewyrchu hynny yn y strategaeth benodol honno.

Nid wyf yn amau natur drawsbleidiol y ddadl, ond byddai wedi bod yn braf clywed gan rai o ACau plaid y Llywodraeth ar yr adeg pan oedd fy Mil ar ei daith drwy'r siambr, oherwydd cafodd ei wrthod ar y pryd, er fy mod, yn fy memorandwm ar ddechrau Cam 1, wedi dweud yn glir fod angen i ni weithredu yn llawer mwy pendant, yn enwedig ar hapchwarae. Nid oes gennym y pwerau yma i reoleiddio, na, ond mae gennym y pwerau i alw am hynny, ac mae gennym y pwerau dros addysg, oherwydd os yw ein pobl ifanc yn cael eu haddysgu'n ifanc am beryglon hapchwarae, yn eu hysgolion, yna gellir dweud wrthynt am yr effeithiau ar iechyd a'r peryglon mewn modd nad ydym yn eu dysgu amdanynt ar hyn o bryd. Byddwn yn gofyn i chi gyd i fynd ar-lein a darllen am farn a phrofiad John Hartson o hapchwarae, oherwydd mae wedi dweud, 'Os byddaf yn hapchwarae eto, fe fyddaf yn marw'. Rwy'n credu eich bod angen pobl fel John Hartson, sy'n fodelau rôl yn ein cymdeithas, i fynd o gwmpas i siarad â phobl sydd o bosibl yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn: nid pobl dlawd yn unig, ond pobl o bob math o gefndir, sy'n betio bob penwythnos ar weithgareddau chwaraeon amrywiol, boed ar-lein neu yn y siopau sydd gennym ar y stryd fawr.

Rwy'n credu ei bod hi hefyd yn bwysig i ni edrych ar bwy sy'n darparu beth ar lawr gwlad. Yn ddiweddar, ymwelais ag Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot ac unwaith eto fe ddywedwyd wrthyf fod yna bobl yn dod i'w gweld sydd eisiau benthyciad, er enghraifft, i brynu ffrog dawns ar gyfer dawns chweched dosbarth eu merch, neu sydd eisiau prynu peiriant golchi newydd, ond wedyn pan fyddent yn bwrw iddi i gael y drafodaeth gyda hwy, roeddent yn sôn eu bod yn gwario ychydig bunnoedd y dydd ar ap hapchwarae ar-lein, ac yna byddent yn dweud, 'Wel, onid ydych yn meddwl y gallai'r arian fod yn cael ei roi tuag at y ffrog neu'r peiriant golchi?' Felly, mae'n ymwneud ag ailaddysgu rhai pobl hefyd ynglŷn â sut y mae'n effeithio ar eu bywydau bob dydd: yn hytrach na'u bod yn ei weld fel rhywbeth y maent yn mwynhau ei wneud, eu bod yn gallu ei weld fel rhywbeth a allai, o bosibl, fod yn peri anawsterau ariannol iddynt yn eu bywyd bob dydd.

The argument, I suppose, that Kirsty Williams would put—you know, having a free vote for the Liberals—is that it's a personal choice. I think some people would say, 'Well, yes, you shouldn't have a nanny-state approach to this; if I want to gamble, I should be able to gamble.' But, then again, I suppose it's like anything: if it goes past the point of acceptability, and goes past the point of just being a leisure activity, then that's something to worry about. But, quite often, as John Hartson has said, you don't recognise it in yourself, and I suppose that's like any addiction, or even if you have a mental health problem: you can't see it in yourself for a long time. And so, I suppose, when we're talking about having strategies, and when we're talking about policies, we really do need to talk to the people who are being affected so that we can really get the best out of our Government policies in this particular area.

So, while I do welcome the debate, I think we need to be looking at actions now as opposed to talking through these issues, which have been talked to destruction, I believe.

15:39

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

How refreshing to have a debate brought here today on a subject that is becoming a problem in society and yet has been very little talked about in this Chamber. Almost 2 per cent of the adult males in England and Wales can be classified as pathological gamblers, and it is now estimated that 24,000 people are addicted to gambling, costing Welsh punters £1.6 billion a year. But of particular concern is the increase in fixed-odds machines. The Campaign for Fairer Gambling recently revealed that people across north Wales pump more than £284 million into these, labelling them as the 'crack cocaine' of gambling. High-stakes gaming machines cost £675 for every Welsh adult a year. Recent figures by the Campaign for Fairer Gambling revealed that residents in my own constituency of Aberconwy pumped £27.8 million into betting terminals alone, resulting in a loss of £1.3 million.

These machines can take up to £100 a minute and the studies suggest that bookmakers have been capitalising on people's misfortune and vulnerability by targeting those areas of deprivation and high unemployment. The report contrasts constituencies with the highest unemployment, which have 1,351 betting shops, with just 325 in areas with the lowest unemployment. The campaign has called for restrictions to be enforced on fixed-odds betting terminals to reduce the amount of machines per shop from four to one and reduce the maximum stake from £100 to just £2. I just wonder whether the Minister can actually do anything on that.

Mae'n debyg mai'r hyn y byddai Kirsty Williams yn ei ddadlau—wyddoch chi, ei gwneud yn bleidlais rydd i'r Rhyddfrydwyr—yw mai dewis personol ydyw. Rwy'n credu y byddai rhai pobl yn dweud, 'Wel, ni ddylech gael agwedd gwladwriaeth faldodus tuag at hyn; os ydw i eisiau hapchwarae, dylwn allu hapchwarae.' Eto i gyd, mae'n debyg ei fod yn union yr un fath ag unrhyw beth arall: os yw'n pasio'r pwynt lle y mae'n dderbyniol, ac yn pasio'r pwynt o fod yn weithgaredd hamdden yn unig, yna mae'n rhywbeth i boeni yn ei gylch. Ond yn aml, fel y mae John Hartson wedi ei ddweud, nid ydych yn ymwybodol ohono ynoch eich hun, ac mae'n debyg fod hynny yr un fath ag unrhyw ddibyniaeth, neu os oes gennych broblem iechyd meddwl hyd yn oed: ni allwch ei weld ynoch eich hun am amser hir. Ac felly, mae'n debyg, pan fyddwn yn sôn am gael strategaethau, a phan fyddwn yn sôn am bolisiau, mae gwyr angen i ni siarad â'r bobl sy'n cael eu heffeithio er mwyn i ni allu cael y gorau o'n polisiau Llywodraeth yn y maes penodol hwn.

Felly, er fy mod yn croesawu'r dadl, rwy'n credu bod angen i ni edrych ar gamau gweithredu yn awr yn hytrach na siarad am y materion hyn, sydd wedi cael eu trafod hyd at syrffed, rwy'n credu.

Dyna braf yw cael trafodaeth yma heddiw ar bwnc sy'n dod yn broblem o fewn cymdeithas ac eto nid yw wedi cael llawer o sylw yn y Siambr hon. Gellir categorioeddio bron i 2 y cant o oedolion gwrywaidd Cymru a Lloegr fel hapchwaraewyr patholegol, ac amcangyfrifir bellach bod 24,000 o bobl yn gaeth i hapchwarae, sy'n gostio £1.6 biliwn y flwyddyn i gamblwyr yng Nghymru. Ond yr hyn sy'n peri pryder arbennig yw'r cynnydd mewn peiriannau ods sefydlog. Mae'r Campaign for Fairer Gambling wedi datgan yn ddiweddar fod pobl ar draws gogledd Cymru yn arllwys mwy na £284 miliwn i mewn i'r peiriannau hyn, ac yn eu labelu fel 'crac cocên' y byd hapchwarae. Mae peiriannau hapchwarae betiau mawr yn costio £675 am bob oedolyn yng Nghymru bob blwyddyn. Mae ffigurau diweddar gan y Campaign for Fairer Gambling yn dangos bod trigolion yn fy etholaeth i yn Aberconwy wedi arllwys £27.8 miliwn i mewn i beiriannau betio yn unig, gan arwain at golled o £1.3 miliwn.

Gall y peiriannau hyn gymryd hyd at £100 y funud ac mae'r astudiaethau'n awgrymu bod siopau bwci wedi bod yn manteisio ar anlwc a natur fregus pobl drwy dargedu ardaloedd lle y ceir lefelau uchel o amddifadedd a diweithdra. Mae'r adroddiad yn cyferbynnu etholaethau â'r lefelau diweithdra uchaf, sydd â 1,351 o siopau betio, gyda dim ond 325 mewn ardaloedd lle y ceir y lefelau diweithdra isaf. Mae'r ymgyrch wedi galw am gyfyngiadau ar beiriannau betio ods sefydlog i leihau nifer y peiriannau yn mhob siop o bedair i un a lleihau'r uchafswm y gellir ei fetio o £100 i £2 yn unig. Tybed a yw'r Gweinidog yn gallu gwneud unrhyw beth ynglŷn â hynny mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gambling addictions cause tough emotional, financial and psychological issues, and, as Bethan Jenkins said, are not always easily identifiable. As well as spending wages and savings, it is common for debt levels to rise as a result of gamblers borrowing and even taking out loans to cover their losses—a point that Kirsty made. Gamblers have a tendency to stay away from school, college or work and, due to their preoccupation with gambling, many compulsive gamblers find it difficult to maintain sustainable relationships.

There are some range of therapies out there and cognitive behavioural therapy, which can be used to tackle the condition. But this addiction can be just as devastating as alcohol and drug dependency. A constituent of mine summed up how his problem with gambling had left him feeling—‘hollow, desolated and dejected’. In 2013, Dr Bowden-Jones, head of the National Problem Gambling Clinic in Soho said that the Welsh Government should set up a clinic in Wales to deal with people who were pathological gamblers. She called on the Welsh Government to recognise the need for treatment as a mental illness, claiming that, through treatment at the clinic, six months on from treatment, over 80 per cent of people they see are not gambling anymore.

Another constituent had, by his own admission, neglected his family and home and he informed me that he cared little for anything other than gambling. He was sincere in his commitment to beating his addiction, yet the closest Gamblers Anonymous meeting to him was in Chester. I couldn't get any funding for him to actually help with transport costs, so he was unable to attend; thereby, the last time I spoke to him, he was so determined to be cured that he is actually now moving out of Wales. That is terrible.

Early identification and support is essential if addiction is to be avoided. I do believe that it is the duty of the Welsh Government to engage with the gambling industry and the Responsible Gambling Trust and ensure that assistance is accessible to people in every corner of Wales. Thank you to the individual Members for bringing this forward.

Mae dibyniaeth ar hapchwarae yn achosi problemau anodd yn emosïynol, yn ariannol ac yn seicolegol, ac fel y dywedodd Bethan Jenkins, nid ydynt bob amser yn hawdd i'w nodi. Yn ogystal â gwario cyflogau a chynilion, mae'n gyffredin i lefelau dyled godi o ganlyniad i hapchwaraewyr yn benthyg arian ac yn trefnu benthyciadau i dalu am eu colledion—pwynt a gafodd ei wneud gan Kirsty. Mae hapchwaraewyr yn tueddu i gadw draw o'r ysgol, y coleg neu'r gwaith ac oherwydd eu diddordeb mewn hapchwarae, mae llawer o hapchwaraewyr cymhellol yn ei chael yn anodd cynnal perthynas ag eraill.

Mae therapïau amrywiol i'w cael, yn ogystal â therapi ymddygiad gwybyddol, y gellir ei defnyddio i drin y cyflwr. Ond gall y ddibyniaeth fod yr un mor ddinistriol â 11 dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau. Disgrifodd un o fy etholwyr sut y mae ei broblem hapchwarae wedi gwneud iddo deimlo—'gwag, llwm a digalon'. Yn 2013, dywedodd Dr Bowden-Jones, pennaeth y clinig cenedlaethol ar gyfer trin problem hapchwarae yn Soho y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu clinig yng Nghymru i drin pobl a oedd yn hapchwaraewyr patholegol. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i gydnabod yr angen i'w drin fel salwch meddwl, gan honni bod dros 80 y cant o'r bobl a gafodd eu trin yn y clinig wedi rhoi'r gorau i hapchwarae o fewn chwe mis i gael eu triniaeth.

Yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, roedd etholwr arall wedi esgeuluso ei deulu a'i gartref a dywedodd wrthyf nad oedd llawer o ots ganddo am unrhyw beth ar wahân i hapchwarae. Roedd yn ddifffuant yn ei ymrwymiad i drechu ei ddibyniaeth, er bod y cyfarfod Gamblers Anonymous agosaf ato yng Nghaer. Ni lwyddais i sicrhau unrhyw arian i'w helpu gyda chostau cludiant, felly ni allai fynychu'r cyfarfodydd; oherwydd hynny, y tro diwethaf y siaradais ag ef, roedd mor benderfynol o drechu ei ddibyniaeth fel ei fod bellach yn symud o Gymru. Mae hynny'n ofnadwy.

Mae bod yn ymwybodol o'r broblem a chael cymorth yn gynnar yn hanfodol os ydych am osgoi dibyniaeth. Rwy'n credu ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r diwydiant hapchwarae a'r Ymddiriedolaeth Hapchwarae Cyfrifol a sicrhau bod cymorth ar gael i bobl ym mhob cwr o Gymru. Diolch i'r Aelodau unigol am gyflwyno hyn.

15:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to speak on behalf of the Government—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog i siarad ar ran y Llywodraeth—Lesley Griffiths.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Thank you, Presiding Officer, and I declare an interest in that I have a family member who has a part-time job in a bookmaker's.

Diolch i chi, Lywydd, ac rwy'n datgan diddordeb gan fod gen i aelod o'r teulu sydd â swydd ran-amser mewn siop bwci.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am very pleased to be responding to this debate on behalf of the Welsh Government. I think, as Mick Antoniw's opening remarks demonstrated, this issue does fall into many of my ministerial colleagues' portfolios.

Rwy'n falch iawn o gael ymateb i'r ddatlun hon ar ran Llywodraeth Cymru. Rwy'n credu, fel y dangosodd sylwadau agoriadol Mick Antoniw, y gellir cynnwys y mater mewn sawl un o bortffolios fy nghyd-weinidogion.

Gambling is, of course, a very complex issue and, for many, it is a matter of personal choice and responsibility, offering an occasional and harmless distraction. However, for others, gambling, like alcohol, is a potentially addictive activity—a habit that cannot be easily broken and that can cause damaging physical and psychological effects.

Addiction can have an adverse effect on a person's health and happiness and can also put a strain on their relationship with others, causing problems at home, at work, and in school, as Nick Ramsay stated. Whilst gambling may appear to be a possible source of income, especially in these economically difficult times, in most cases, it will leave gamblers and their families worse off.

The issue of gambling's links to poverty was recently raised with me in the Chamber by the Member for Pontypridd, Mick Antoniw, and tackling poverty is a key priority for the Welsh Government. Poverty is not solely about income; it does impact on all other areas of life, including education, health, housing and employment. This is why addressing poverty is not the role of a single department. Every department within Welsh Government is playing an important role and taking forward policies and programmes that aim to support those living in low-income households. I will continue to hold departments to account for the work they are doing to help tackle poverty, ensuring it's targeted effectively and achieving maximum results. As I committed to during that exchange with Mick, my officials are engaging with the Minister for Health and Social Services' officials to explore what more we can do as a Government to tackle gambling addiction and the subsequent impacts it has. Of course, as Bethan Jenkins mentioned, it's not just people living in poverty who gamble.

The UK Government's 2005 Gambling Act introduced a new regulatory system to govern gambling in Great Britain. It introduced a unified regulator, the Gambling Commission, and a new licensing regime. The Act also created specific offences designed to protect children and vulnerable adults by preventing access to inappropriate or harmful gambling. However, the 2005 Act did not give this National Assembly for Wales any devolved legislative powers in relation to gambling. So, as a non-devolved issue, problem gambling is not something the Welsh Government can tackle directly or in isolation. Clearly, there would be great value in developing a clearer understanding of the scale and distribution of such problems in order that we can work to better address the contributing factors. So, I am pleased that the Gambling Commission is now planning to undertake a Welsh survey, which will give us a clearer understanding of the specific issues we face in Wales and hopefully plug that gap of data that Darren Millar referred to.

Mae hapchwarae, wrth gwrs, yn fater cymhleth iawn ac i lawer, mae'n fater o ddeuwis a chyfrifoldeb personol, sy'n cynnig hwyl fach diniwed ac achlysurol. Fodd bynnag, i bobl eraill, mae hapchwarae, fel alcohol, yn weithgaredd a allai fod yn gaethiwus—yn arfer na ellir ei dorri'n hawdd a gall hynny achosi effeithiau corfforol a seicolegol niweidiol.

Mae dibyniaeth yn gallu cael effaith niweidiol ar iechyd a hapusrwydd person a gall hefyd roi straen ar eu perthynas ag eraill, gan achosi problemau yn y cartref, yn y gwaith, ac yn yr ysgol, fel y nododd Nick Ramsay. Er y gallai hapchwarae ymddangos fel pe bai'n cynnig ffynhonnell incwm bosibl, yn enwedig yn y cyfnod economaidd anodd hwn, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn gadael hapchwarawyr a'u teuluoedd yn waeth eu byd.

Crybwyllwyd y cysylltiad rhwng hapchwarae a thlodi yn ddiweddar yn y Siambwr gan yr Aelod dros Bontypridd, Mick Antoniw, ac mae mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Nid yw tlodi yn ymwneud ag incwm yn unig; mae'n cael effaith ar bob agwedd arall ar fywyd, gan gynnwys addysg, iechyd, tai a chyflogaeth. Dyma pam nad yw trechu tlodi yn rôl i un adran benodol. Mae pob adran yn Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan bwysig ac yn bwrw ymlaen â pholisiau a rhaglenni gyda'r nod o gefnogi'r rhai hynny sy'n byw mewn cartrefi incwm isel. Byddaf yn parhau i ddwyn adrannau i gyfrif am y gwaith y maent yn ei wneud i helpu i fynd i'r afael â thlodi, gan sicrhau ei fod yn cael ei dargedu'n effeithiol ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Fel yr ymrwymais i'w wneud yn ystod y drafodaeth honno gyda Mick, mae fy swyddogion yn ymgysylltu â'r Gweinidog Iechyd a swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol i archwilio beth arall y gallwn ei wneud fel Llywodraeth i fynd i'r afael â dibyniaeth ar hapchwarae a'i effeithiau dilynol. Wrth gwrs, fel y crybwyllodd Bethan Jenkins, nid pobl sy'n byw mewn tlodi yn unig sy'n hapchwarae.

Cyflwynodd Deddf Gamblo 2005 Llywodraeth y DU system reoleiddio newydd i reoli hapchwarae ym Mhrydain. Cyflwynodd reoleiddiwr unedig, y Comisiwn Hapchwarae, a chyfundrefn drwyddedu newydd. Hefyd, creodd y Ddeddf droseddau penodol a luniwyd i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed drwy atal mynediad at hapchwarae amhriodol neu niweidiol. Fodd bynnag, nid oedd Deddf 2005 yn rhoi unrhyw bwerau deddfwriaethol datganoledig mewn perthynas â hapchwarae i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, fel mater heb ei ddatganoli, nid yw hapchwarae sy'n peri problemau yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ymdrin ag ef yn uniongyrchol neu ar ei ben ei hun. Yn amlwg, byddai gwerth mawr mewn datblygu dealltwriaeth gliriach o raddau a dosbarthiad problemau o'r fath er mwyn i ni fynd ati i ddelio'n well â'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt. Felly, rwy'n falch fod y Comisiwn Hapchwarae yn awr yn bwriadu cynnal arolwg yng Nghymru a fydd yn rhoi dealltwriaeth gliriach o'r materion penodol sy'n ein hwynebu yng Nghymru ac a fydd, gobeithio, yn cau'r bwloch data roedd Darren Millar yn cyfeirio ato.

Nonetheless, we recognise the effects problem gambling has on our public services. We acknowledge that gambling can lead to a range of problems for a minority of individuals and their families. In recent years, the prominence and availability of gambling services and the public promotion of these services have increased significantly, as many Members have alluded to. The number of locations where gambling now takes place has expanded greatly, and you can gamble anywhere from a traditional betting shop, to the comfort of your own home, on the go or via a range of online betting services. Last year, the Minister for Health and Social Services wrote to the UK Government to raise our concerns about the effects of gambling on public health in Wales. He pressed for further action to limit the number of premises, their prominence and the promotion of the services. Of course, all levels of Government have their role to play in protecting vulnerable individuals and groups in our communities from the potential harm that can be caused.

A preventative approach to dealing with problem gambling is particularly important, and early identification and intervention are key. Problem gambling can disproportionately affect vulnerable groups in society. These include individuals and families facing poverty and financial difficulty, people with alcohol and/or mental health issues and adolescents. In terms of public help for most gamblers, the issue is one of behaviour and choice. Those with a gambling addiction can seek the support and advice of their general practitioner. Mental health services might play a part if the issue is having a bearing on or is caused by an individual's mental ill health. In general, however, there is no medical intervention for gambling addiction, only psychological interventions, which can help to motivate individuals to change their behaviour. However, we must acknowledge that problem gambling is not in itself a mental health issue, and in terms of practice, therapeutic or psychological intervention would only be provided by the NHS in exceptional circumstances, such as where gambling severely impacts on social functioning and co-occurs with a mental health condition.

Serch hynny, rydym yn cydnabod yr effeithiau y mae hapchwarae sy'n peri problemau yn eu cael ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn cydnabod y gall hapchwarae arwain at amrywiaeth o broblemau i leiafrif o unigolion a'u teuluoedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae amlygrwydd ac argaeledd gwasanaethau hapchwarae a'r modd y caiff y gwasanaethau hyn eu hyrwyddo'n gyhoeddus wedi cynyddu'n sylweddol, fel y soniodd nifer o'r Aelodau. Mae'r nifer o leoliadau lle y mae hapchwarae'n digwydd wedi cynyddu'n sylweddol erbyn hyn, a gallwch hapchwarae yn unrhyw le, o siop fetio draddodiadol i gysur eich cartref eich hun, ar ffôn symudol neu drwy ystod o wasanaethau betio ar-lein. Y llynedd, ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Lywodraeth y DU i fynegi ein pryderon am effeithiau hapchwarae ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Pwysai am gamau pellach i gyfyngu ar nifer y safleoedd, eu hamlygrwydd a'r modd y maent yn hyrwyddo eu gwasanaethau. Wrth gwrs, mae gan bob lefel o Lywodraeth ei rôl i'w chwarae o ran amddiffyn unigolion a grwpiau sy'n agored i niwed yn ein cymunedau rhag y niwed posibl.

Mae defnyddio dull ataliol o ymdrin â hapchwarae sy'n peri problemau yn arbennig o bwysig, ac mae nodi ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol. Gall hapchwarae o'r fath effeithio'n anghymesur ar grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys unigolion a theuluoedd sy'n wynebu tlodi ac anawsterau ariannol, pobl sydd â phroblemau cysylltiedig ag alcohol a/neu broblemau iechyd meddwl, a'r glasod. O ran cymorth cyhoeddus i'r rhan fwyaf o hapchwaraewyr, mae'r mater yn un sy'n ymwneud ag ymddygiad a dewis. Gall pobl â dibyniaeth ar hapchwarae ofyn am gefnogaeth a chyngor gan eu meddyg teulu. Gallai gwasanaethau iechyd meddwl chwarae rhan os yw'r mater yn cael effaith ar iechyd meddwl yr unigolyn neu os yw'n cael ei achosi gan salwch meddwl yr unigolyn. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oes unrhyw ymyrraeth feddygol ar gyfer dibyniaeth ar hapchwarae, dim ond ymyriadau seicolegol, a all helpu i ysgogi unigolion i newid eu hymddygiad. Fodd bynnag, rhaid i ni gydnabod nad yw hapchwarae sy'n peri problemau ynddo'i hun yn fater iechyd meddwl, ac o ran ymarfer, ni fyddai ymyrraeth therapiwtig neu seicolegol ond yn cael ei darparu gan y GIG mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft pan fo hapchwarae'n cael effaith ddifrifol ar weithredu cymdeithasol a phan fydd yn cyddigwydd â chyflwr iechyd meddwl.

Of course, we recognise the importance of emotional and practical advice for those suffering from mental ill health. This is reflected in our ongoing commitment to the funding of Wales's C.A.L.L., community advice and listening line, available every day of the year. This is a useful source of advice for those experiencing mental distress as well as for their friends, families and carers. There are also other websites and helplines available if people would rather access information themselves or discuss the problem anonymously. The gambling support group website GamCare and Gamblers Anonymous provide further information and advice, as does Citizens Advice. We will continue to encourage people who believe they, a family member or friend have a concerning gambling habit to access the online and telephone-based services provided by GambleAware. The Welsh Government remains committed to supporting not-for-profit advice providers, so that the most vulnerable people in our society have access to free and independent advice on issues including debt and welfare benefits. This year, we committed a further £2 million for advice providers to help ensure support services are available for some of the people hardest hit by welfare reform and in parts of Wales where debt levels are known to be high.

We've also been clear that support given to credit unions has been given to address the tackling poverty agenda. They can help individuals access finance in a secure way and are part of the solution to pay-day loan companies. As I've said, legislative competence for gambling is not devolved in Wales and the Silk commission made no recommendation on it. We are aware that the Smith Commission recommended Scottish Ministers should have powers to prevent the proliferation of fixed-odds betting terminals and of the draft clauses giving effect to this recommendation in the UK Government command paper published in January. There is, however, no proposal for this in Wales, at present.

We will continue to urge the UK Government to maximise options available to address the issue of problem gambling.

Wrth gwrs, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyngor emosynol ac ymarferol i rai sy'n dioddef o salwch meddwl. Adlewyrchir hyn yn ein hymrwymiad parhaus i ariannu C.A.L.L. Cymru, llinell wrando a chymorth cymunedol sydd ar gael bob dydd o'r flwyddyn. Dyma ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor i rai sy'n dioddef o ofid meddwl yn ogystal â'u ffrindiau, teuluoedd a gofalwyr. Hefyd, mae gwefannau a llinellau cymorth eraill ar gael os yw'n well gan bobl ddod o hyd i wybodaeth eu hunain neu drafod y broblem yn ddiennw. Mae gwefan grŵp cymorth hapchwarae GamCare a Gamblers Anonymous yn darparu gwybodaeth a chyngor pellach, fel y mae Cyngor ar Bopeth. Byddwn yn parhau i annog pobl sy'n credu bod ganddynt hwy, aelod o'r teulu neu ffrind arfer hapchwarae i ddefnyddio'r gwasanaethau ar-lein a'r gwasanaethau dros y ffôn a ddarperir gan GambleAware. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i gefnogi darparwyr cyngor dielw, er mwyn i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas gael cyngor annibynnol am ddim ar faterion sy'n cynnwys dyledion a budd-daliadau lles. Eleni, rydym wedi neilltuo £2 filiwn arall i ddarparwyr cyngor er mwyn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cymorth ar gael i rai o'r bobl sydd wedi dioddef fwyaf o ganlyniad i ddiwygio lles ac ar gael mewn rhannau o Gymru lle y gwyddom fod lefelau dyled yn uchel.

Rydym hefyd wedi bod yn glir fod y gefnogaeth i undebau credyd wedi cael ei rhoi er mwyn mynd i'r afael ag agenda trechu tlodi. Gallant helpu unigolion i gael gafael ar gyllid mewn modd diogel ac maent yn rhan o'r ateb i gwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog. Fel rwyf wedi ei ddweud, nid yw cymhwysedd deddfwriaethol dros hapchwarae wedi cael ei ddatganoli yng Nghymru ac nid yw comisiwn Silk wedi gwneud unrhyw argymhelliad yn ei gylch. Rydym yn ymwybodol fod Comisiwn Smith yn argymhell y dylai fod gan Weinidogion yr Alban bwerau i atal y cynnydd yn nifer y peiriannau hapchwarae ods sefydlog a'r cymalau drafft sy'n rhoi grym i'r argymhelliad hwn ym mhapur gorchymyn Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Ionawr. Fodd bynnag, nid oes cynnig ar hyn yng Nghymru, ar hyn o bryd.

Byddwn yn parhau i annog Llywodraeth y DU i wneud y gorau o'r opsiynau sydd ar gael i fynd i'r afael â hapchwarae sy'n peri problemau.

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Jocelyn Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:51 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Now, the gambling industry has changed. The days when the ability to gamble was limited by betting office opening hours are long gone. Online gambling makes it easy for anyone to gamble any time of the day or night and be limited only by their own willpower. Gambling apps on smartphones mean that you don't even have to be at a computer; you can gamble real money anywhere, at any time. Well, unlike Mick, I intensely dislike gambling, although I acknowledge it brings pleasure to many people without any harm at all.

Diolch i chi, Lywydd. Nawr, mae'r diwydiant hapchwarae wedi newid. Mae'r dyddiau pan oedd y gallu i hapchwarae wedi ei gyfyngu i oriau agor swyddfeydd betio wedi hen fynd. Mae hapchwarae ar-lein yn ei gwneud yn hawdd i unrhyw un hapchwarae ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos a'r unig beth sy'n cyfyngu ar hynny yw grym ewyllys yr unigolyn. Mae apps hapchwarae ar ffonau clyfar yn golygu nad oes rhaid i chi fod ar gyfrifiadur hyd yn oed; gallwch hapchwarae ag arian go iawn yn unrhyw le, ar unrhyw adeg. Wel, yn wahanol i Mick, nid wyf yn hoffi hapchwarae o gwbl, er fy mod yn cydnabod ei fod yn rhoi pleser i lawer o bobl heb unrhyw niwed o gwbl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Since the Gambling Act, we've seen an explosion of the most dangerous and compulsive forms of gambling. The fixed-odd betting machines can now be found in almost every bookies on every high street, and as Mick said, they're often described as the crack cocaine of gambling. It makes it possible for people to gamble up to £100 every 20 seconds. Huge losses can accumulate in no time at all and the psychological high offered by a machine that combines huge risk and speed is treacherous for problem gamblers.

The industry supports various initiatives to try and curb problem gambling, but self-regulation can only go so far. The focus on promoting responsible gambling, I think, diverts attention from the fact that many of the services they offer, like the fixed-odd machines—and I think that was mentioned by Kirsty, John, Janet and, I think, Darren as well—and, of course, those smartphone apps, are designed to be as compulsive and as easily accessible as possible. Darren told us, I think, that each one of those machines takes £1 million a year.

Research has found that rates of problem gambling are as high as 23 per cent amongst those who use the machines, and it's estimated that roughly a quarter of all the profit from fixed-odd machines comes from problem gamblers whose habit is damaging their relationships and their careers. So, why would the gambling industry want to take action against such an important source of revenue? And, of course, Janet, I think, mentioned that there should be a maximum £2 bet available on those machines.

When gambling becomes a problem, this is not through a lack of responsibility on the gambler's part; gambling addiction is now recognised as a disease, like other addictions. I think Darren outlined the problems that he's seen as a result of gambling addiction. It can destroy lives, just as alcohol and drugs can. And while addicts do not develop a physical dependency on gambling, the psychological, emotional and financial costs are very high indeed. I think Darren also mentioned the Beat the Odds support programme, and we ought to acknowledge the great work that they do.

We need, I think, to move beyond the idea of promoting responsible gambling and look closely at what can be done to significantly limit some of the more dangerous forms of gambling—perhaps not quite as radical as the proposals made by Simon Thomas here this afternoon, but while it's not possible to stop somebody developing a problem, it is possible to limit the amount of damage they can do to their lives.

Ers y Ddeddf Hapchwarae, rydym wedi gweld cynnydd aruthrol yn y ffurfiau mwyaf peryglus a chymhellol ar hapchwarae. Gellir gweld y peiriannau hapchwarae ods sefydlog ymhob siop bwci ar y stryd fawr, bron, ac fel y dywedodd Mick, cânt eu disgrifio'n aml fel crac cocên y byd hapchwarae. Mae'n bosibl i bobl wario hyd at £100 bob 20 eiliad. Gall colledion enfawr gronni mewn ychydig iawn o amser ac mae'r hapusrwydd seicolegol a gynigir gan beiriannau sy'n cyfuno risg enfawr â chyflymder yn beryglus tu hwnt i hapchwarawyr sydd â phroblem.

Mae'r diwydiant yn cefnogi amryw o fentrau i geisio atal hapchwarae sy'n peri problemau, ond hyn a hyn yn unig y gall hunanreoleiddio ei wneud. Rwy'n credu bod y ffocws ar hyrwyddo hapchwarae cyfrifol yn dargyfeirio sylw oddi wrth y ffaith fod llawer o'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig, fel y peiriannau ods sefydlog—a chredaf bod Kirsty, John, Janet a Darren, rwy'n credu, wedi crybwyll hynny—ac wrth gwrs, mae'r apps ffonau clyfar wedi cael eu cynllunio i fod mor gymhellol a hygyrch â phosibl. Dywedodd Darren wrthym, rwy'n credu, fod pob un o'r peiriannau hynny'n gwneud £1 miliwn y flwyddyn.

Mae ymchwil wedi canfod bod cyfraddau hapchwarae sy'n peri problemau cymaint â 23 y cant ymhlith rhai sy'n defnyddio'r peiriannau ac amcangyfrifir bod tua chwarter o holl elw peiriannau ods sefydlog yn dod gan rai sydd â phroblem hapchwarae y mae eu harfer yn niweidio eu perthynas ag eraill a'u gyrfaoedd. Felly, pam y byddai'r diwydiant hapchwarae am weithredu yn erbyn ffynhonnell refeniw mor bwysig? Ac wrth gwrs, crybwyllodd Janet, rwy'n credu, y dylid cael uchafswm bet o £2 ar y peiriannau hynny.

Pan fydd hapchwarae'n troi'n broblem, nid yw'n digwydd oherwydd diffyg cyfrifoldeb ar ran yr hapchwarawyr; bellach, cydnabyddir bod dibyniaeth ar hapchwarae yn glefyd, fel ffurfiau eraill ar ddibyniaeth. Rwy'n credu bod Darren wedi amlinellu'r problemau y mae wedi eu gweld o ganlyniad i ddibyniaeth ar hapchwarae. Mae'n gallu dinistrio bywydau, yn union fel y gall alcohol a chyffurfiau ddinistrio bywydau. Ac er nad yw pobl sy'n gaeth yn datblygu dibyniaeth gorfforol ar hapchwarae, mae'r costau seicolegol, emosiynol ac ariannol yn uchel iawn yn wir. Rwy'n credu mai Darren hefyd a grybwyllodd raglen gymorth Beat the Odds, a dylem gydnabod y gwaith gwych y maent yn ei wneud.

Rwy'n credu ein bod angen symud y tu hwnt i'r syniad o hyrwyddo hapchwarae cyfrifol ac edrych yn ofalus ar yr hyn y gellir ei wneud i gyfyngu ar rai o'r mathau mwyaf peryglus o hapchwarae yn sylweddol—nid cynigion mor radical â'r cynigion a wnaed gan Simon Thomas y prynhawn yma efallai, ond er nad yw hi'n bosibl atal rhywun sy'n datblygu problem, mae'n bosibl cyfyngu ar y difrod y gallant ei wneud i'w bywydau.

There are a number of options to explore to further regulate gambling, which, I think, we all agreed, actually, should happen. I suggest that the UK Government, the industry and maybe credit card providers should look to further limiting the use of credit cards for gambling. You cannot use a credit card in a betting shop or a bingo hall or a casino, but for some reason, you can use your credit card online. Now, some card providers prohibit online gambling entirely, while others charge a fee and higher interest rates on gambling costs, but nobody should be able to gamble money that they don't actually have yet. I think it increases the likelihood of someone getting into serious financial difficulties.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:55.

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Now, we've seen a number of actions taken by the UK Government over the last 10 years that I think have made the situation worse. When the Labour Government passed the Gambling Act, it opened the floodgates, I think, to the rise of these fixed-odd betting machines and the gambling adverts on TV. The other evening, I saw 15 adverts for gambling in just one evening's viewing. I think Nick Ramsay outlined the failings of that legislation as well in his contribution. Harriet Harman has, in fact, since admitted that Labour made a mistake with that Bill, Of course, since then, the coalition Government has failed to take significant action, relying instead on that industry self-regulation. This approach is not working and these problem gamblers are not getting the help that they need.

The Smith commission report includes provision for the devolution of powers to Scottish Ministers to prevent an increase in fixed-odd betting machines in Scotland by being able to restrict the number of machines when granting new gambling licences. I think Wales should have the same power. This is particularly important as the evidence suggests that the gambling industry targets low-income areas, and there are more betting shops in poorer areas than rich areas. I think John Griffiths made this point when he talked about Newport. Some of the most vulnerable communities in Wales have no doubt been exploited, and the Welsh Government should have the power to do that. I think that's something that we all seem to be agreed on, that there should be extra powers here.

Mae yna nifer o opsiynau i'w harchwilio er mwyn rheoleiddio hapchwarae ymhellach, ac rydym i gyd yn cytuno, rwy'n credu, y dylent ddigwydd mewn gwirionedd. Awgrymaf y dylai Llywodraeth y DU, y diwydiant a darparwyr cardiau credyd efallai ystyried cyfyngu ymhellach ar ddefnydd cardiau credyd wrth hapchwarae. Ni allwch ddefnyddio cerdyn credyd mewn siop fetio na neuadd fingo neu gasino, ond am ryw reswm, gallwch ddefnyddio eich cerdyn credyd ar-lein. Yn awr, mae rhai darparwyr cardiau yn gwahardd hapchwarae ar-lein yn gyfan gwbl, ac eraill yn codi ffi a chyfraddau llog uwch ar gostau hapchwarae, ond ni ddylai neb allu hapchwarae ag arian nad oes ganddynt eto mewn gwirionedd. Rwy'n credu ei fod yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhywun yn mynd i drafferthion ariannol difrifol.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:55.

Nawr, rydym wedi gweld nifer o gamau gan Lywodraeth y DU dros y 10 mlynedd diwethaf sydd wedi gwneud y sefyllfa'n waeth, yn fy marn i. Pan basiwyd y Ddeddf Hapchwarae gan y Llywodraeth Lafur, agorodd y llifddorau, rwy'n credu, i'r cynnydd yn y peiriannau hapchwarae ods sefydlog hyn a'r hysbysebion hapchwarae ar y teledu. Y noson o'r blaen, gwelais 15 o hysbysebion hapchwarae wrth wyllo'r teledu mewn un noson yn unig. Rwy'n credu bod Nick Ramsay wedi amlinellu methiannau'r ddeddfwriaeth honno hefyd yn ei gyfraniad. Mewn gwirionedd, mae Harriet Harman wedi cyfaddef ers hynny fod y Blaid Lafur wedi gwneud camgymeriad gyda'r Bil hwnnw. Wrth gwrs, ers hynny, mae'r Llywodraeth glymlaid wedi methu â rhoi camau sylweddol ar waith, gan ddibynnu yn hytrach ar adael i'r diwydiant hunanreoleiddio. Nid yw'r dull hwn yn gweithio ac nid yw'r rhai sydd â phroblem hapchwarae yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae adroddiad comisiwn Smith yn cynnwys darpariaeth ar gyfer datganoli pwerau i Weinidogion yr Alban atal cynnydd mewn peiriannau hapchwarae ods sefydlog yn yr Alban drwy allu cyfyngu ar nifer y peiriannau wrth roi trwyddedau hapchwarae newydd. Rwy'n credu y dylai Cymru gael yr un pŵer. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y diwydiant hapchwarae'n targedu ardaloedd incwm isel, ac mae mwy o siopau betio mewn ardaloedd tlotach na mewn ardaloedd cyfoethog. Rwy'n credu bod John Griffiths wedi gwneud y pwynt wrth sôn am Gasnewydd. Nid oes amheuaeth fod rhai o'r cymunedau mwyaf agored i niwed yng Nghymru wedi cael eu hecsbloetio, a dylai Llywodraeth Cymru gael y pŵer i wneud hynny. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth rydym i gyd i weld yn cytuno arno, y dylid cael pwerau ychwanegol yma.

Simon, I think, is closer to my approach than many in the Chamber, but perhaps for different reasons. But he did remind us that gambling has been sanctioned by various Governments. They've taxed it, of course, and, in some ways, have encouraged it, by this under-regulation, but it's worth remembering, Simon, that raffle tickets are gambling of pure luck, when you think about it—no skill involved at all. Perhaps you should remember that next time; it's better for you to make a donation than it is for you to take the ticket. He also reminded us of the way that the industry—not the raffle-ticket sellers, but the big bucks in this industry—may actually be influencing Government policy. I couldn't disagree with anything that he said, actually.

Kirsty outlined the actual impact on individuals who couldn't control their addiction and how this industry has radically changed now to attract the young. I think that's something we should be very careful of. Of course, Bethan never misses an opportunity to remind us that her Bill could have been used to assist in addressing some gambling issues. I think that was an opportunity missed. I don't think that she should miss opportunities to remind us of that either.

I am pleased that the Welsh Government acknowledges that gambling actually increases poverty and is working to see what the Government can do to tackle problem gambling. The 2005 Act failed to give the Welsh Government powers, and that's another failure of the Act that we can add to the list. The Minister didn't say that the Welsh Government will be pushing for a review of that Act, but I think that it's timely that it was reviewed. But, it is good to hear that the Welsh Government is pushing for gambling restrictions because of health concerns. The Welsh Government here does accept that gambling increases poverty and is a health risk to people. So, I hope that more help will be made available to gamblers before significant health impacts are caused.

Now, for most people—

Mae Simon, rwy'n credu, yn agosach at fy agwedd i na llawer yn y Siambr, ond efallai am resymau gwahanol. Ond fe'n hatgoffodd fod hapchwarae wedi cael ei awdurdodi gan wahanol Lywodraethau. Maent wedi rhoi treth arno, wrth gwrs, ac mewn rhai ffyrdd, maent wedi ei annog, drwy danreoleiddio fel hyn, ond mae'n werth cofio, Simon, fod hapchwarae gyda thocynnau raffl yn lwc pur, pan feddylwch am y peth—nid yw'n gofyn am sgil o gwbl. Efallai y dylech gofio hynny y tro nesaf; mae'n well i chi roi rhodd na chymryd y tocyn. Hefyd, fe'n hatgoffodd am y ffordd y gallai'r diwydiant—nid gwerthwyr tocynnau raffl, ond y rhai sydd â'r arian mawr yn y diwydiant hwn—fod yn dylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth mewn gwirionedd. Ni allwn anghytuno ag unrhyw beth a ddywedodd, mewn gwirionedd.

Amlinellodd Kirsty yr effaith wirioneddol ar unigolion nad oedd yn gallu rheoli eu dibyniaeth a'r modd y mae'r diwydiant wedi newid yn sylweddol bellach i ddenu'r ifanc. Credaf fod hynny'n rhywbeth y dylem fod yn ofalus iawn ohono. Wrth gwrs, nid yw Bethan byth yn colli cyfle i'n hatgoffa y gallai ei Bil fod wedi cael ei ddefnyddio i helpu i fynd i'r afael â phroblemau hapchwarae. Credaf fod hwnnw'n gyfle a gollwyd, ac nid wyf yn credu y dylai gollu cyfle i'n hatgoffa o hynny chwaith.

Rwy'n falch fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hapchwarae yn cynyddu tlodi a'i bod yn gweithio i weld beth y gall ei wneud i fynd i'r afael â hapchwarae sy'n peri problemau. Methodd Deddf 2005 roi pwerau i Lywodraeth Cymru, a dyna un arall o fethiannau'r Ddeddf y gallwn eu hychwanegu at y rhestr. Ni ddywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn pwyso am adolygiad o'r Ddeddf honno ond rwy'n meddwl ei bod yn bryd iddi gael ei hadolygu. Ond mae'n dda clywed bod Llywodraeth Cymru yn pwyso am gyfyngiadau ar hapchwarae oherwydd pryderon iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod hapchwarae yn cynyddu tlodi ac yn risg i iechyd pobl. Felly, rwy'n gobeithio y bydd mwy o gymorth ar gael i hapchwarawyr cyn y ceir effeithiau sylweddol ar iechyd.

Nawr, i'r rhan fwyaf o bobl—

15:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have been generous.

Rwyf wedi bod yn hael.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:58 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay. So, for most people, it is a harmless entertainment, but, for a small minority, gambling becomes an addiction that can ruin lives. I'm very pleased to take part in this debate this afternoon. Thank you.

lawn. Felly, i'r rhan fwyaf o bobl, mae'n adloniant diniwed, ond i leiafrif bach, gall dibyniaeth ar hapchwarae ddifetha bywydau. Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma. Diolch yn fawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gwasanaethau Mamolaeth a Gwasanaethau Clinigol Eraill i Fenywod yng Ngogledd Cymru

The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt.

4. Welsh Conservatives Debate: Maternity and Other Women's Clinical Services in North Wales

Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

15:59

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 4 is the Welsh Conservatives debate on maternity and other women's clinical services in North Wales. I call on Aled Roberts to move the motion.

Eitem 4 yw Dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar wasanaethau mamolaeth a gwasanaethau clinigol eraill i fenywod yng Ngogledd Cymru. Galwaf ar Aled Roberts i gynniw y cynnig.

Cynnig NDM5728 Darren Millar, Llyr Gruffydd, Aled Roberts

Motion NDM5728 Darren Millar, Llyr Gruffydd, Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r penderfyniad diweddar gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i atal gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol a gwasanaethau clinigol eraill i fenywod yn Ysbyty Glan Clwyd; a

1. Notes the recent decision by the Betsi Cadwaladr University Health Board to suspend consultant-led maternity and other women's clinical services at Ysbyty Glan Clwyd; and

2. Yn galw ar y bwrdd iechyd i sicrhau parhad gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol a gwasanaethau clinigol eraill i fenywod ym mhob un o'r tri o ysbytai cyffredinol dosbarth yng ngogledd Cymru.

2. Calls upon the health board to ensure the continuity of consultant-led maternity and other women's clinical services at each of the three district general hospitals in North Wales.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:59

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn cynnig y ddadl yma, ac mae'n bleser cael gwneud hynny, ond gan wneud hynny ar ran y tair plaid, yn hytrach na bod yna unrhyw fath o syniad fy mod i'n mynd i symud meinciau yma. A gaf i hefyd ddweud, tra'n gwneud hynny, fy mod yn cydnabod bod yr ymgyrch yn y gogledd yn un amlbleidiol, sy'n cynnwys aelodau o'r Blaid Lafur? Nid ydym ject yn sôn am wasanaethau mamolaeth, wrth gwrs. Fel rhan o'r penderfyniad yma, mae llawdriniaeth y fron wedi cael ei throsglwyddo o Fangor ac o Wrecsam i Glan Clwyd, ac mae yna hefyd wasanaethau gynaeolegol wedi cau yn Glan Clwyd.

I am moving this debate, and it is a pleasure to do so, but I am doing so on behalf of the three parties, so that no-one gets the impression that I'm crossing the floor. May I also say, in doing so, that I recognise the cross-party nature of the campaign in north Wales, which includes some Labour members? We are not only talking about maternity services, of course. As part of this decision, breast surgery has been transferred from Bangor and from Wrexham to Glan Clwyd, and there are also gynaecological services that have been closed in Glan Clwyd.

I think it's rather sad that this is the first opportunity for us as north Wales Assembly Members to contribute formally to this debate with regard to the reshaping of services in north Wales. It was interesting, yesterday morning, to read an interview with Trevor Purt in which he said that he was anxious that the health board could enter into a conversation about reshaping services. Well, I have to say, to date, it's been a bit of a monologue, because, to date, they've used urgency protocols and, if you look through the minutes of the board, there is no justification for those urgency protocols being used whatsoever. Clearly, that's the view of the community health council, although it may not be the view of the deputy chief medical officer or the chief nursing officer, interestingly. I wonder whether they were involved in any discussions with the health board before that particular assessment was undertaken.

Rwy'n credu ei bod braidd yn drist mai dyma'r cyfle cyntaf i ni fel Aelodau'r Cynulliad yng ngogledd Cymru gyfrannu'n ffruiol at y ddadl hon o ran ail-lunio gwasanaethau yn y gogledd. Bore ddoe, roedd yn ddiddorol darllen cyfweiliad gyda Trevor Purt lle y dywedodd ei fod yn awyddus i'r bwrdd iechyd allu dechrau trafod ail-lunio gwasanaethau. Wel, rhaid i mi ddweud, hyd yma, mae wedi bod yn dipyn o fonolog, oherwydd hyd yn hyn, maent wedi defnyddio protocolau brys ac os edrychwch drwy gofnodion y bwrdd, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ddefnyddio protocolau brys o'r fath o gwbl. Yn amlwg, dyna farn y cyngor iechyd cymuned, er efallai nad dyna fydd barn y dirprwy brif swyddog meddygol neu'r prif swyddog nyrsio, yn ddiddorol iawn. Tybed a oeddent yn rhan o unrhyw drafodaethau gyda'r bwrdd iechyd cyn cyflawni'r asesiad penodol hwnnw.

So, as part of this debate today, I want to actually underline the fact that we, as Assembly Members across the board, want the Betsi Cadwaladr health board to revisit this decision. We also want them to affirm that they will retain consultant-led services at the three district general hospitals in north Wales. We don't do that lightly, because that's been done on the basis of an assurance given to us as Assembly Members by the chair of the Betsi Cadwaladr board in a meeting that we held some three weeks ago, although, interestingly, the Government actually deletes that paragraph from the motion here this afternoon. That suggests that perhaps the comments of the First Minister last week, when he failed to give that assurance and said that, following the return of consultant-led services to Glan Clwyd, there would have to be a reshaping of services, may mean that those of us in Bangor or in Wrexham may have to revisit this discussion with Betsi Cadwaladr in due course. So, I would invite the Minister to indicate to us this afternoon whether—in response to the community health council's letter, which suggests that they are not satisfied that the urgency protocol has been committed by the health board—he has any intention, under his powers under the engagement and consultation guidance issued to the Welsh NHS, of actually insisting that Betsi Cadwaladr undertake full consultation before the implementation of their decision.

At the moment, they are telling us that it's full steam ahead as far as 6 April is concerned, even though they hadn't undertaken any consultation with the Welsh ambulance trust, they hadn't undertaken any risk assessment as far as the mothers or the babies were concerned and, furthermore, they couldn't even tell us whether there was sufficient capacity at Wrexham in particular, following the transfer of maternity services in north Powys from Shrewsbury to Wrexham in the vast majority of cases.

They rely, of course, on the urgency principle on the basis of clinical safety. Now, I don't know about you, but urgency, to my mind, actually is a bit shorter than some seven or eight months, because, Minister, if you go back to the Betsi board minutes on 29 July, they were already talking about the transformation, as they called it, of maternity services—the centralising of services at two of the three sites. But then, if you look at any of the board minutes or any of the committee minutes between July and January, there's not a word. Not a word. In fact, it's interesting, if you look at the discussion that we've had on Betsi's governance over the previous 12 months, if you look at their minutes on sustaining clinical services of May 2014: on their website, still in draft form. Their sub-committee meeting minutes on 16 October 2014 are still in preparation. So, how does the public of north Wales actually test some of these assertions with regard to clinical safety?

Felly, yn rhan o'r ddadl hon heddiw, rwyf am danlinellu'r ffaith ein bod, fel Aelodau Cynulliad yn gyffredinol, yn awyddus i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ailedrych ar y penderfyniad hwn. Rydym hefyd am iddynt gadarnhau y byddant yn cadw gwasanaethau o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn y tri ysbyty cyffredinol yng ngogledd Cymru. Nid ydym yn gwneud hyn ar chwarae bach, gan iddo gael ei wneud ar sail sicrwydd a roddwyd i ni fel Aelodau'r Cynulliad gan gadeirydd bwrdd Betsi Cadwaladr mewn cyfarfod a gynhaliwyd gennym oddeutu tair wythnos yn ôl, er bod y Llywodraeth mewn gwirionedd, yn ddiddorol ddigon, yn dileu'r paragraff hwnnw o'r cynnig y prynhawn yma. Mae hynny'n awgrymu efallai fod sylwadau'r Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, pan fethodd roi sicrwydd o'r fath a dweud y byddai'n rhaid ail-lunio gwasanaethau yn dilyn adfer gwasanaethau o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn ysbyty Glan Clwyd, yn golygu y gallai fod yn rhaid i'r rheini ohonom ym Mangor neu yn Wrecsam gael y drafodaeth hon eto gyda Betsi Cadwaladr maes o law. Felly, hoffwn wahodd y Gweinidog i ddangos i ni y prynhawn yma—mewn ymateb i lythyr y cyngor iechyd cymuned sy'n awgrymu nad ydynt yn fodlon fod y bwrdd iechyd wedi defnyddio'r protocol brys— a oes ganddo unrhyw fwriad yn rhinwedd ei bweru o dan y canllawiau ymgysylltu ac ymgynghori ar gyfer y GIG yng Nghymru o fynnu bod Betsi Cadwaladr yn ymgynghori'n llawn mewn gwirionedd cyn gweithredu eu penderfyniad.

Ar hyn o bryd, maent yn dweud wrthym eu bod yn bwrw ymlaen â'u cynlluniau ar gyfer 6 Ebrill, er nad oeddent wedi ymgynghori ag ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru, na chyflawni asesiad risg mewn perthynas â'r mamau neu'r babanod, ac ar ben hynny, ni allent ddweud wrthym hyd yn oed a oedd digon o gapasiti yn Wrecsam yn arbennig, yn dilyn trosglwyddo gwasanaethau mamolaeth yng ngogledd Powys o'r Amwythig i Wrecsam yn y mwyafrif helaeth o achosion.

Maent yn dibynnu ar yr egwyddor frys ar sail diogelwch clinigol wrth gwrs. Nawr, wn i ddim amdanoch chi, ond yn fy marn i, mae brys yn golygu ychydig llai na saith neu wyth mis, oherwydd, Weinidog, os ewch yn ôl at gofnodion bwrdd Betsi Cadwaladr ar 29 Gorffennaf, roeddent eisoes yn sôn am y trawsnewid, fel y'i galwent, i wasanaethau mamolaeth—canoli gwasanaethau ar ddau o'r tri safle. Ond wedyn, os edrychwch ar unrhyw gofnodion bwrdd neu gofnodion pwyllgorau rhwng mis Gorffennaf a mis Ionawr, nid ydynt yn sôn gair am hyn. Dim gair. Yn wir, mae'n ddiddorol, os edrychwch ar y drafodaeth a gawsom ar drefniadau llywodraethu Betsi Cadwaladr dros y 12 mis blaenorol, os edrychwch ar gofnodion Mai 2014 ar gynnal gwasanaethau clinigol: ar eu gwefan, maent yn dal ar ffurf drafft. Mae cofnodion cyfarfod eu his-bwyllgor ar 16 Hydref 2014 yn dal i gael eu paratoi. Felly, sut y gall y cyhoedd yng ngogledd Cymru brofi rhai o'r honiadau hyn ynghylch diogelwch clinigol?

Of course, they knew about this even before July 2014, because they'd a report from the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists, which actually told them that they needed to address issues within Glan Clwyd and also within the other two units. But it's interesting that I can't find anything. I've looked high and low, and I can't find anything that actually suggests that they have actioned any of the recommendations within that royal college report. We were told that there were locum positions that still needed to be filled in November 2013. The royal college told them to replace them with substantive posts. A few of us, as Assembly Members, have asked for details of their recruitment attempts—referred to by the First Minister yesterday. You even, as an Assembly Member, have to ask, under freedom of information, to your own NHS health board what attempts they've undertaken to recruit. Remember, this was the same discussion that we had on the neonatal discussion two years ago.

So, we're getting to the stage when not only north Clwyd BMA actually have little or no confidence in this health board, but the vast majority of Assembly Members in north Wales and the people of north Wales have no confidence either. They were also told to introduce cross-rotas across all three sites as a way of actually sustaining services at three sites. What have they done? Nothing since November 2013.

There's also an interesting reference in the July 2014 minutes to the preparation of a draft three-year plan, which I understand has been submitted to the Welsh Government in January. It will be interesting to know whether that draft plan actually includes proposals to relocate maternity services because the sneaking suspicion is that this wasn't an urgency decision. The sneaking suspicion is that this was a plan, and the plan has been derailed somewhat by the First Minister's intervention with regard to the provision of the SuRNICC at Glan Clwyd, and his assurances that actual consultant-led services will be returned to Glan Clwyd after 12 months—or is it 18 months? The Government tells us 12 months; the health board tells us 18 months.

More worrying, and the reason why we've actually put the second paragraph in the motion, is what is the plan after those 18 months. It was quite clear from our meeting—. This is not an attempt to actually cause any concern whatsoever in north Wales; it is an attempt to actually get a clear indication from this Government as to whether or not consultant-led services will actually return to all three sites, because that's the assurance that's been given to us as Assembly Members by the health board—it's not one that's repeated by the Government. I have to say that the people of north Wales are actually fed up of this Government telling them that it's a matter for the health board as far as the reconfiguration of services is concerned because, at the end of the day, the buck stops with this Welsh Government.

Wrth gwrs, roeddent yn gwybod am hyn cyn mis Gorffennaf 2014 hyd yn oed, gan eu bod wedi cael adroddiad gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a ddywedai mewn gwirionedd fod angen iddynt fynd i'r afael â phroblemau yng Nglan Clwyd a hefyd yn y ddwy uned arall. Ond mae'n ddiddorol na allaf ddod o hyd i unrhyw beth. Rwyf wedi edrych ym mhob man ac ni allaf ddod o hyd i ddim sy'n awgrymu mewn gwirionedd eu bod wedi gweithredu unrhyw argymhellion yn yr adroddiad gan y coleg brenhinol. Dywedwyd wrthym fod yna swyddi locwm a oedd yn dal i fod angen eu llenwi ym mis Tachwedd 2013. Dywedodd y coleg brenhinol wrthynt am greu swyddi parhaol yn eu lle. Mae rhai ohonom, fel Aelodau'r Cynulliad, wedi gofyn am fanylion eu hymdrechion i recriwtio—fel y soniodd y Prif Weinidog ddoe. O dan y drefn rhyddid gwybodaeth, rhaid i chi hyd yn oed, fel Aelod Cynulliad, ofyn i'ch bwrdd iechyd GIG eich hun pa ymdrechion a wnaethant i recriwtio. Cofiwch, dyma'r un drafodaeth a gawsom ar y gwasanaethau babanod newydd-anedig ddwy flynedd yn ôl.

Felly, rydym ar fin cyrraedd y cam pan nad oes gan nid yn unig BMA gogledd Clwyd fawr o hyder yn y bwrdd iechyd, os o gwbl, ond nid oes gan y mwyafrif llethol o Aelodau Cynulliad a phobl gogledd Cymru hyder ynddo chwaith. Dywedwyd wrthynt hefyd i gyflwyno patrymau rota ar draws y tri safle fel ffordd o gynnal gwasanaethau ar dri safle. Beth a wnaethant? Dim o gwbl ers mis Tachwedd 2013.

Ceir cyfeiriad diddorol hefyd yng nghofnodion mis Gorffennaf 2014 at baratoi cynllun drafft tair blynedd ac rwy'n deall ei fod wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Bydd yn ddiddorol gwybod a yw'r cynllun drafft mewn gwirionedd yn cynnwys argymhellion i ail-leoli gwasanaethau mamolaeth gan fod rhywfaint o amheuaeth nad oedd hwn yn benderfyniad brys. Mae rhywfaint o amheuaeth mai cynllun oedd hwn a'i fod wedi'i furw oddi ar ei echel braidd gan ymyriad y Prif Weinidog mewn perthynas â darparu Canolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig yng Nglan Clwyd a'r sicrwydd a roddodd y byddai gwasanaethau o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn dychwelyd i ysbty Glan Clwyd ar ôl 12—neu ai ar ôl 18 mis ydyw? Mae'r Llywodraeth yn dweud 12 mis a'r bwrdd iechyd yn dweud 18 mis.

Yr hyn sy'n peri mwy o bryder, a'r rheswm pam ein bod wedi cynnwys yr ail baragraff yn y cynnig, yw beth yw'r cynllun ar ôl y 18 mis. Roedd yn eithaf amlwg o'n cyfarfod—. Nid ymgais i achosi unrhyw bryder yng ngogledd Cymru yw hyn mewn gwirionedd; mae'n ymgais i gael arwydd clir gan y Llywodraeth pa un a fydd gwasanaethau o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn dychwelyd i'r tri safle gan mai dyna'r sicrwydd a roddwyd i ni fel Aelodau'r Cynulliad gan y bwrdd iechyd—nid yw'n un sy'n cael ei ailadrodd gan y Llywodraeth. Rhaid i mi ddweud bod pobl y gogledd wedi cael llond bol ar y Llywodraeth hon yn dweud wrthynt mai mater i'r bwrdd iechyd yw hyn o ran ad-drefnu gwasanaethau gan mai Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw.

16:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the amendment to the motion. I call on the Minister for Health and Social Services to move, formally, amendment 1 tabled in the name of Jane Hutt.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig, yn ffurfiol, gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gwelliant 1—Jane Hutt

Amendment 1—Jane Hutt

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Delete point 2 and replace with:

2. Yn nodi mai ataliad dros dro yw hwn ac y bydd gwasanaethau o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn cael eu hadfer o fewn 12 mis;

2. Notes that this suspension is temporary in nature and that consultant led services will be restored within 12 months;

3. Yn nodi y bydd y SuRNICC yn cael ei lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd fel rhan o ddarpariaeth y bwrdd iechyd o wasanaethau mamolaeth yn y Gogledd sy'n glinigol ddiogel ac yn gynaliadwy.

3. Notes that the SuRNICC will be sited at Ysbyty Glan Clwyd as part of the health board's provision of clinically safe and sustainable maternity services for North Wales.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

16:07

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Formally.

Yn ffurfiol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:07

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rŷm ni'n gwybod, wrth gwrs, fod tua 2,400 o fabanod yn cael eu geni bob blwyddyn yn Ysbyty Glan Clwyd. Os bydd y newidiadau yma'n dod i rym, fel y mae disgwyl iddyn nhw wneud ymhen ychydig wythnosau, yna mae'n bosib bydd tua 2,000 o'r rheini'n gorfod ffeindio eu ffordd i Ysbyty Gwynedd neu Wrecsam, naill ai fel genedigaethau wedi'u cynllunio neu, wrth gwrs, yn fwy pryderus, fel genedigaethau argyfwng. Mae hyn, yn ôl y bwrdd iechyd, yn llai o risg na pharhau i lenwi'r rota meddygon gradd ganol gyda meddygon locwm. Wel, y cwestiwn yw: ble mae'r dystiolaeth? Ble mae'r ymgynghoriad? Os yw hyn yn wir, pam nad oedd hi'n argyfwng ddwy flynedd yn ôl pan wnaeth adroddiad i'r adran amlygu yn union yr un problem adeg hynny?

We know, of course, that some 2,400 babies are born annually in Glan Clwyd Hospital. If these changes do come to pass, as they are expected to do in a few weeks' time, then it's possible that some 2,000 of those will have to find their way to Ysbyty Gwynedd or to Wrexham, either as planned births or, of course, more worryingly, as emergency births. Now this, according to the health board, is less of a risk than continuing to actually fill the middle grade doctors' rota with locums. Well, the question is: where's the evidence? Where's the consultation? If this is true, why wasn't it a crisis two years ago when a report into the department highlighted exactly the same problem at that time?

Nawr, mae'r rhain yn gwestiynau sylfaenol y mae'r bwrdd iechyd wedi methu mynd i'r afael â nhw. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi methu cymryd eu cyfrifoldeb fan hyn. Dyma'ch cyfle chi i ddangos nad yw'r Llywodraeth dim ond yn hidio am goridor yr M4, ond yn barod i ddangos arweiniad a dweud bod angen gwasanaeth iechyd sy'n gymwys ar gyfer anghenion penodol y gogledd—rhanbarth lled wledig, wrth gwrs, sydd ddim yn ffitio model dinesig o ddarparu gwasanaeth iechyd.

Now, these are fundamental questions that the health board has failed to grapple with. The Government has also failed to take its responsibility here. This is your opportunity to show that the Government doesn't only care about the M4 corridor, and that you are ready to show leadership and say that we need a health service that is appropriate to the specific needs of north Wales—a relatively rural area, of course, which doesn't fit the urban model of health service provision.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Nid dyma'r tro cyntaf i'r bwrdd iechyd yma wneud penderfyniadau annoeth. Dwy flynedd yn ôl, roedd yn rhaid i'r Prif Weinidog ymyrryd, fel rŷm ni wedi clywed, oherwydd penderfyniad i symud gwasanaeth gofal dwys i fabanod newydd-anedig dros y ffin i Arrowe Park. Mae'r ysbysai cymunedol bach wedi cau, gan achosi tagfeydd yn yr unedau damweiniâu yn ein hysbytai mwy, ac mae gan y bwrdd iechyd yma drac record o fethu a gwrandao ar gyngor clinigol, heb sôn am y farn gyhoeddus. Yn dystiolaeth i hynny, wrth gwrs, mae datganiad ysgytwol y BMA y bore yma. Dyna pam mae pobl nawr mor ddiog am y penderfyniad yma, wrth gwrs; gyda 2,000 ar brom Rhyl yn ddiweddar a channoedd yn y gadeirlan yn Llanelwy. Mae ganddyn nhw gefnogaeth meddygon, nyrsys a bydwagedd. Gadewch i ni gofio, os bydd pethau'n mynd o chwith, y nyrsys, y bydwagedd a'r meddygon sy'n rhoi eu 'registration' proffesiynol nhw mewn perygl, nid y bobl sy'n rhedeg y bwrdd iechyd a'r bobl sy'n gwneud rhai o'r penderfyniadau yma.

Nawr, yn y flwyddyn ddiwethaf, fe wariodd Betsi £14 miliwn ar feddygon locwm, ond, yn ôl y rhesymeg dros gau'r gwasanaeth, nid yw meddygon locwm yn ddiogel. Mae un locwm ar y ward obstetreg yn Ysbyty Glan Clwyd wedi gweithio yno am dair blynedd. A ydy hynny wedi bod yn anniogel, felly, am dair blynedd? Nid yw'r locwm sy'n gweithio yn yr adran wedi cael cynnig contract llawn amser, ac yn y cyfarfod nos lau yr wythnos ddiwethaf, mi ddywedwyd nad job y bwrdd ydy mynd ar eu hôl nhw, gan eu bod yn medru trio am unrhyw job a oedd yn cael ei hysbysebu. Wel, dyna chi gyfaddefiad sy'n ddamniol, os gaf i ddweud.

Mae ffactor arall pwysig posib yn hyn oll, wrth gwrs. Rŷm ni'n gwybod y bydd y bwrdd yn gorwario o gwmpas £30 miliwn yn y flwyddyn ariannol yma. Rŷm ni hefyd yn gwybod bod locwm yn costio llawer iawn o arian. Roedd £260,000 wedi'i wario yn adran mamolaeth Glan Clwyd yn unig ym mis Rhagfyr yn unig—mewn un mis. Mae'n amlwg bod cyfran helaeth o'r gorwariant yn codi o fethiant y bwrdd i leihau ei ddibyniaeth ar feddygon locwm a staff asiantaeth, sy'n costio hyd at bedair gwaith cost staff arferol, wrth gwrs. Nid yw hyn yn broblem newydd, ac eto mae uwch-reolwyr y bwrdd wedi dewis gadael i'r broblem dyfu.

Nawr, nid yw Plaid Cymru yn credu bod hyn yn argyfwng sydd wedi codi yn ddisymwth, ac mae'n rhaid dweud hynny yn blwmp ac yn blaen. Nid ydym yn credu bod hyn yn 'newid ar frys' sydd ei angen heb ymgynghori. Mae hwn yn argyfwng sydd, mewn gwirionedd, wedi'i greu gan fethiant y bwrdd. Pe bai nhw wedi ymgynghori, byddai bydwagedd, nyrsys a doctoriaid wedi esbonio'r problemau sy'n codi yn sgil y symudiad. Byddai'r 'anaesthetists' wedi esbonio'r problemau sy'n codi iddyn nhw. Byddai'r bydwagedd wedi medru esbonio eu bod wedi colli dau o feddygon canolradd yn ysbty Wrexham dros y misoedd diwethaf, oherwydd diffyg sylw gan reolwyr. Byddai'r gwasanaeth triniaeth canser y fron, sydd hefyd yn gorfod symud yn sgil hyn, wedi esbonio'r effaith arnyn nhw yn ogystal, heb sôn am y rhai sydd wirioneddol yn dioddef oherwydd y newid yma, sef, wrth gwrs, y mamau sy'n disgwyl, ac yn dal heb gael gwybod ymhle y byddan nhw'n cael geni eu babanod.

This isn't the first time for this health board to make unwise decisions. Two years ago, the First Minister had to intervene, as we have heard, because of a decision to move newborn intensive care services over the border to Arrowe Park. The small community hospitals have closed, causing jams in the A&E departments in the larger hospitals, and this health board has a track record of not listening to clinical advice, never mind listening to public opinion. The evidence for that, of course, is the staggering statement by the BMA this morning. That's why people are now so angry about this decision, of course; with 2,000 on the prom in Rhyl recently, and hundreds in the cathedral in St Asaph. They also have the support of doctors, nurses and midwives. Let's bear in mind that if things do go wrong, it's the nurses, the midwives and the doctors that put their own professional registration in jeopardy, rather than those running the health board and the people making some of these decisions.

Now, in the last year, Betsi spent £14 million on locums, but, according to the rationale for closing the service, locums aren't safe. There is one locum on the obstetric ward at Ysbyty Glan Clwyd who has worked there for three years. Has that been unsafe, therefore, for a period of three years? The locum working in the department hasn't been offered a full-time contract, and in the meeting on Thursday night last week, we were told that it's not the board's job to pursue them because they can apply for any job advertised. Well, there's a damning admission, if I may say so.

There's another important factor, of course, in all this. We know that the board will overspend by some £30 million in this financial year. We also know that a locum costs a lot of money: £260,000 was spent in the Glan Clwyd maternity service in December alone—in just one month. It's clear that a large proportion of the overspend arises from the board's failure to reduce its dependency on locums and agency staff, which cost up to four times the cost of regular staff, of course. This isn't a new problem, but senior managers within the board have allowed the problem to develop and grow.

Now, Plaid Cymru doesn't believe that this is a crisis that has arisen from nothing, and we must make that clear. We don't consider that this an 'urgent' change that is needed without consultation. This is a crisis that, in fact, has been created by the board's failure. Had they consulted, then midwives, nurses and doctors would have explained the problems that would be caused by these moves. The anaesthetists would have explained the problems that would arise for them. The midwives would have explained that they have lost two mid-ranking doctors from the hospital in Wrexham over the past few months because of a lack of attention by managers. The breast cancer treatment service, which also has to move as a result of this, would have explained the impact on them as well, never mind those people who are truly going to suffer because of these changes, namely the expectant mothers who still don't know where they will give birth to their babies.

Nid dim ond poen meddwl oherwydd yr ansicrwydd sydd yma, wrth gwrs. Mae astudiaethau'n dangos hefyd fod teithio mwy na 28 milltir i uned obstetreg yn creu peryglon ychwanegol i fabanod. Mae Ysbyty Glan Clwyd 34 milltir o Fangor a 38 milltir o Wrexham. A ydy hyn wedi cael ei asesu fel rhan o risg gan Betsi? A ydy'r Llywodraeth yma wedi gofyn am asesiad o'r fath o gwmpas y risg? Yn hytrach nag ymateb 'knee-jerk', byrhoedlog i bob argyfwng, mae angen inni gael cynllun tymor hir er mwyn gwella'n gwasanaeth iechyd, ac mi ddylai hwnnw fod wedi bod yn ei le flynyddoedd yn ôl.

Ond, nid yw hi'n rhy hwyr. Mi all y bwrdd iechyd wyrdroi'r penderfyniad yma a sicrhau nad oes gennym ni 2,000 o famau beichiog yn poeni wrth geisio teithio ar hyd yr A55, gan weddio, wrth gwrs, nad yw'r ffordd ar gau oherwydd gwaith trwsio neu ddamweiniau. Ddoe ddiwethaf, fe gawsom ni ddatganiad gan y Gweinidog trafnidiaeth yn ein hysbysu ni o orchmynion ar waharddiad a chyfyngiadau traffig ar yr A55 a fydd yn gwneud y sefyllfa yn well. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad ac, yn anffodus, nid yw yna ar hyn o bryd.

It's not just anxiety because of the uncertainty that this causes, of course. Studies also show that travelling more than 28 miles to an obstetrics unit creates additional risks for babies. Glan Clwyd Hospital is 34 miles from Bangor and 38 miles from Wrexham. Has this been assessed as part of the risk by Betsi? Has the Government asked for such an assessment around that risk? Rather than a knee-jerk, short-term reaction to every crisis, we need a long-term plan in place in order to improve our health service, and that should have been in place years ago.

But, it's not too late. The health board can overturn this decision and ensure that we don't have 2,000 expectant mothers worrying while trying to travel along the A55, praying, of course, that the road isn't closed because of road works or accidents. Yesterday, we had a statement from the Minister for transport informing us of orders on traffic limitations on the A55, which will make the situation better. We need the Welsh Government to show leadership and, unfortunately, it's not there at present.

16:13

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think I want to try and start this debate off by taking some of the emotion out of it from outside this Chamber, and to replace that emotion with the emotions that we heard at the public meeting on Thursday, from pregnant ladies, women, who are about to give birth within the next month or so and are extremely worried, anxious and, above all, who don't really understand how the health board has arrived at this situation. I think that we need to keep them in our minds when we are discussing these issues and I just wished the board would have kept those people in their minds when they made those decisions.

This debate, I think, today, comes as a result of the incompetence of the local health board. Their handling of the way in which they are looking to get to downgrade the maternity services at Glan Clwyd Hospital has been nothing short of shambolic. Many of the major stakeholders, being the Assembly Members and the Members of Parliament, were told with less than 24 hours' notice, with no papers, and were asked, then, not say anything prior to the board meeting.

Now, all of those claims there were around the fact that the services, supposedly, at Glan Clwyd would not maintain a safe and sustainable service for the next 12 months. That has been dismissed now and we've moved on from that position, because, now, what we are looking at are ways in which consultants will or can make arrangements for those consultant-led maternity services at Glan Clwyd to be saved there.

Rwy'n credu fy mod am geisio agor y ddadl drwy gymryd peth o'r emosiwn allan ohoni o'r tu allan i'r Siambr hon ac yn ei le, rwyf am roi'r emosiynau a glywsom yn y cyfarfod cyhoeddus ddydd lau gan ferched beichiog, menywod sydd ar fin rhoi genedigaeth o fewn y mis ac sy'n poeni'n ofnadwy, yn bryderus, ac yn anad dim, yn methu deall sut y mae'r bwrdd iechyd wedi cyrraedd y sefyllfa hon. Credaf fod angen i ni eu cofio wrth i ni drafod y materion hyn a hoffwn pe bai'r bwrdd wedi cofio am y bobl hyn wrth iddynt wneud y penderfyniadau hynny.

Rwy'n meddwl bod y ddadl hon heddiw yn deillio o anghymhwystra'r bwrdd iechyd lleol. Mae'r ffordd y maent wedi ceisio israddio'r gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd wedi bod yn draed moch. Rhoddwyd llai na 24 awr o rybudd i lawer o'r prif randdeiliaid, sef Aelodau'r Cynulliad a'r Aelodau Seneddol, heb unrhyw bapurau, a gofynnwyd iddynt wedyn i beidio â dweud dim cyn i'r bwrdd gyfarfod.

Nawr, roedd yr holl honiadau'n ymwneud â'r ffaith na fyddai'r gwasanaethau yng Nglan Clwyd, yn ôl yr honiad, yn cynnal gwasanaeth diogel a chynaliadwy dros y 12 mis nesaf. Mae hynny wedi cael ei ddiystyru bellach ac rydym wedi symud ymlaen o'r safbwynt hwnnw am ein bod erbyn hyn yn edrych ar ffyrdd y bydd meddygon ymgynghorol yn gwneud trefniadau, neu'n gallu gwneud trefniadau i achub y gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, I've said before that, within a five-mile radius of Glan Clwyd Hospital, there are some 90,000 people that could access that, many of whom have the poorest health inequalities, many my constituents from the poorest areas of Wales. And it doesn't give me any pleasure to say that. I wish we were at the bottom of that league table, to be quite honest with you, but we're not, and, sadly, we're hearing of young people expecting who cannot afford the bus fare to go to an antenatal clinic some five miles away. How on earth—. If they are low risk, but have a problem, how on earth are they going to go and find the consultant at Wrexham or at Bangor to be reassured that the baby is fine, the baby is growing, and that everything is fine? How are they going to afford to do that if they cannot afford to attend an antenatal clinic? When I've mentioned this at the board, I'm told that I'm over-egging the pudding, but I'm not, because many of my constituents cannot and simply will not go to antenatal. The first thing that they will do is turn up at Glan Clwyd Hospital—especially if they've already had a child at Glan Clwyd—expecting the consultant to be there should the consultant be needed. It's a bit late then, isn't it, at four o'clock in the morning, when they suddenly turn up and they have to find that they have to be put in an ambulance and sent some 40 miles away.

If the board wants to wash their hands of that group of people, then they can do that, but I'll tell you what, I'm not going to do it, and I'm going to stand by those people, because they need that voice, they need that voice, and, if the board won't listen, then I'm telling them—those people, if they're listening out here—there are people who do listen, and we'll fight for them.

I can't understand how the independent board members voted for the proposals, because they had some scant information, and, when we've asked for information on risk assessments, it's not been forthcoming. So, I can only conclude, and from listening to the health boards' comments at the public meeting—. By the way, that's the first time that the public has had a chance to ask questions of the health board, and that was because politicians called a meeting that the health board should have been calling; the health board should have called those. The health board should have been telling people what was going to happen, not allowing them to find out from the likes of politicians what was happening. And so no wonder public confidence in the local health board is at an all-time low, and, do you know, that's the one area that the local health board been very good at, reducing their standing in the public domain, because they promised faithfully 12 months ago, after the last debacle, that this would never happen again, and here they are, less than 12 months on, breaking that promise. So people understand, when the health board say things, it's like apple pie and motherhood, and pie crusts are easily broken, and that's where the health board have to come back from.

Now, I'm very grateful to the health Minister and to the First Minister for assuring the public—

Nawr, fel y dywedais o'r blaen, o fewn cylch o bum milltir o Ysbyty Glan Clwyd, ceir oddeutu 90,000 o bobl a allai wneud defnydd o'r gwasanaeth. Mae llawer ohonynt yn profi'r anghydraddoldebau iechyd gwaethaf, gan gynnwys llawer o fy etholwyr yn ardaloedd tlotaf Cymru. Ac nid yw'n rhoi unrhyw bleser i mi ddweud hynny. Hoffwn pe baem ar waelod y tabl cynghrair i fod yn gwbl onest, ond nid dyna fel y mae, ac yn anffodus, rydym yn dlywed am bobl ifanc beichiog na allant fforddio tocyn bws i fynd i glinig cyn geni oddeutu bum milltir i ffwrdd. Sut ar y ddaear—. Os yw eu risg yn isel, ond bod ganddynt broblem, sut yn y byd y maent yn mynd i ddod o hyd i feddyg ymgynghorol yn Wrecsam neu ym Mangor i gael sicrwydd fod y babi yn iawn, fod y babi'n tyfu, a bod popeth yn iawn? Sut y maent yn mynd i allu fforddio gwneud hynny os nad ydynt yn gallu fforddio mynychu clinig cyn geni? Pan grybwyllais hyn wrth y bwrdd, dywedwyd wrthyf fy mod yn gorliwio, ond nid yw hynny'n wir, yn syml iawn am na all llawer o fy etholwyr fynd i'r clinig cyn geni. Y peth cyntaf y byddant yn ei wneud yw mynd i Ysbyty Glan Clwyd—yn enwedig os ydynt eisoes wedi cael plentyn yng Nglan Clwyd—gan ddisgwyl y bydd meddyg ymgynghorol yno pe bai angen meddyg ymgynghorol. Mae hi ychydig yn hwyr bryd hynny, onid yw, am bedwar o'r gloch yn y bore, pan fyddant yn dod yno a darganfod bod yn rhaid iddynt gael eu rhoi mewn ambiwlans a'u cludo tua 40 milltir i ffwrdd.

Os yw'r bwrdd yn dymuno anwybyddu'r grŵp hwn o bobl, gallant wneud hynny, ond rwy'n dweud hyn, nid wyf i'n mynd i wneud hynny, ac rwy'n mynd i sefyll gyda'r bobl hyn am fod angen i'w llais gael ei glywed, maent angen rhywun i godi llais drostynt ac os na fydd y bwrdd yn gwrando, yna rwy'n dweud wrthynt—y bobl hyn, os ydynt yn gwrando—mae yna bobl sy'n gwrando, ac fe fyddwn ni'n ymladd drostynt.

Ni allaf ddeall sut y pleidleisiodd aelodau annibynnol y bwrdd dros y cynigion, oherwydd nid oedd ganddynt lawer o wybodaeth, a phan ofynnem ni am wybodaeth am asesiadau risg, ni chawsom y wybodaeth honno. Felly, ni allaf ond dod i'r casgliad o wrando ar sylwadau'r bwrdd iechyd yn y cyfarfod cyhoeddus—. Gyda llaw, dyna'r tro cyntaf i'r cyhoedd gael cyfle i ofyn cwestiynau i'r bwrdd iechyd, a hynny oherwydd bod gwleidyddion wedi galw cyfarfod y dylai'r bwrdd iechyd fod wedi ei alw; dylai'r bwrdd iechyd wedi galw'r cyfarfodydd hynny. Dylai'r bwrdd iechyd fod wedi dweud wrth bobl beth oedd yn mynd i ddigwydd yn hytrach na gadael iddynt gael gwybod beth oedd yn digwydd gan wleidyddion ac ati. Ac felly nid yw'n syndod fod hyder y cyhoedd yn y bwrdd iechyd lleol yn is nag erioed. Wyddoch chi, dyna'r un maes y mae'r bwrdd iechyd lleol wedi bod yn dda iawn am ei wneud, pardduo eu henw da yn llygad y cyhoedd, oherwydd fe addawsant 12 mis yn ôl, ar ôl y llanastr diwethaf, na fyddai hyn byth yn digwydd eto, a dyma nhw, lai na 12 mis yn ddiweddarach, yn torri'r addewid. Felly mae pobl yn deall, pan fo'r bwrdd iechyd yn dweud pethau, mae fel tarten afal a bod yn fam, ac mae crystiau tartenni afalau yn hawdd eu torri, a dyna lle sy'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddod yn ôl ohono.

Nawr, rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog iechyd ac i'r Prif Weinidog am roi sicrwydd i'r cyhoedd—

16:18

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will do, thank you.

For assuring us that the SuRNICC will be at Glan Clwyd Hospital, and I'm very grateful to the Minister for all the work that he has done in listening to the voices of the many people of my constituency. I will finish there, thank you.

Fe wnaif, diolch.

Am roi sicrwydd i ni mai yng Nglan Clwyd y bydd y Ganolfan Is-ranbarthol ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd-anedig, ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am yr holl waith y mae wedi'i wneud yn gwrando ar leisiau llawer o bobl yn fy etholaeth. Rwyf am orffen yn y fan honno, diolch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:18

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When Betsi Cadwaladr University Local Health Board rang to advise that they would be considering a recommendation to suspend consultant-led maternity care at Ysbyty Glan Clwyd, I was also told that they could not at that stage confirm whether a consultant-led maternity service would return to Glan Clwyd. When we subsequently met the health board, we were told that this would not be a permanent change and that obstetrics would be returning to Glan Clwyd as one of three units in north Wales.

We were also told that a group of clinicians and managers would be looking at clinical pathways and risk gateways before they pressed the 'go' button, and that transport for transfer and emergency must be assured 24/7. They emphasised their middle-grade recruitment problems, the need to provide a better training experience, and that this was a pre-emptive decision to stop things getting worse—about outcomes, safety, and avoiding maternity deaths.

My last two children were born by emergency caesarean at Wrexham Maelor Hospital after normal labour became crises. Had the obstetric expertise not been immediately available, I was told I could have lost both my wife and our first son. A grandmother e-mailed me to tell me her daughter had an emergency caesarean very successfully at Glan Clwyd in April, and to ask what will happen to patients at this hospital who find themselves in this situation in the future.

Another constituent wrote: 'I gave birth to my daughter over 30 years ago, and what was to be a perfect and wonderful experience turned into a traumatic nightmare and an emergency caesarean. From the time the doctors realised there was a problem to me being wheeled into the theatre was three minutes—the time it took to walk down a corridor.' The health board has stated that the unit at Glan Clwyd Hospital will remain as a free-standing, midwifery-led unit so healthy women experiencing a normal pregnancy can continue to give birth there. But these and many other stories confirm that this will be putting lives at risk.

Pan ffoniodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i roi gwybod y byddent yn ystyried argymhellid i atal gofal mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd, dywedwyd wrthyf hefyd na allent gadarnhau ar y cam hwnnw a fyddai gwasanaeth mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn dychwelyd i ysbyty Glan Clwyd. Pan gyfarfuom â'r bwrdd iechyd, dywedwyd wrthym na fyddai hwn yn newid parhaol ac y byddai obstetreg yn dychwelyd i ysbyty Glan Clwyd fel un o dair uned yng ngogledd Cymru.

Dywedwyd wrthym hefyd y byddai grŵp o glinigwyr a rheolwyr yn edrych ar lwybrau clinigol a phyrth risg cyn iddynt wasgu'r botwm 'mynd', a bod yn rhaid sicrhau cludiant ar gyfer trosglwyddo a chudiant brys ar sail 24/7. Roeddent yn pwysleisio eu problemau gyda recriwtio meddygon canolradd, yr angen i ddarparu profiad hyfforddi gwell a bod hwn yn benderfyniad rhagataliol i atal pethau rhag gwaethygu—yn ymwneud â chanlyniadau, diogelwch ac osgoi marwolaethau mamolaeth.

Ganed fy nau blentyn diwethaf drwy doriad Cesaraid brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar ôl i esgor arferol droi'n argyfwng. Pe na bai arbenigedd obstetreg ar gael ar unwaith, dywedwyd wrthyf y gallwn fod wedi colli fy ngwraig a fy mab cyntaf. Anfonodd un nain e-bost ataf yn dweud bod ei merch wedi cael toriad Cesaraid brys llwyddiannus iawn yng Nglan Clwyd ym mis Ebrill, ac i ofyn beth fydd yn digwydd i gleifion yn yr ysbyty sy'n wynebu sefyllfa o'r fath yn y dyfodol.

Ysgrifennodd etholwr arall fel hyn: 'Rhoddais enedigaeth i fy merch dros 30 mlynedd yn ôl, a throdd profiad a oedd i fod yn brofiad perffaith a rhyfeddol yn hunllef drawmatig a thoriad Cesaraid brys. Tri munud a gymerodd o'r adeg y sylweddolodd y meddygon fod problem i gael fy nghludo i'r theatr—yr amser a gymer i gerdded ar hyd coridor.' Mae'r bwrdd iechyd wedi datgan y bydd yr uned yn Ysbyty Glan Clwyd yn parhau i fod yn uned annibynnol o dan arweiniad bydwagedd er mwyn i fenywod iach sy'n cael beichiogrwydd normal allu parhau i roi genedigaeth yno. Ond mae'r straeon hyn a llawer o rai eraill yn cadarnhau y bydd hyn yn rhoi bywydau mewn perygl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The National Childbirth Trust has rightly called on Assembly Members to encourage home births and the use of birth centres for low-risk women, and to give public support for local maternity units, both obstetric and midwife-led. But their 'Location, location, location' report also states that reasonable access to birth centres and obstetric units is defined as within 15 miles for rural settings, and 7.5 miles as the crow flies for urban settings.

As we heard, Glan Clwyd lies 38 miles from Wrexham Maelor Hospital and 33 miles from Ysbyty Gwynedd, along notoriously congested roads. As GPs have said, transferring a mother requiring an emergency caesarean section is clearly questionable, to say the least. As a midwife in Wrexham asks, 'How do they expect to get a woman requiring a category 1 emergency section from Glan Clwyd into theatre in Wrexham or Bangor without significant morbidity and mortality?' She added that Wrexham is frequently full to capacity, and that perfectly capable registrars are put off by lack of recognition and hospital politics. She concluded by stating that Wrexham staff have been advised not to join protests against the decision to downgrade, and asked, 'Whatever happened to freedom of speech?' This makes a mockery of the Minister for Health and Social Services's comments about NHS whistleblowers yesterday.

Last week, the First Minister dismissed a letter from the North Wales Community Health Council, forcing them to write again requesting a formal intervention by the Welsh Government. They expressed their difficulty in understanding how the Welsh Government's independent review could have been dealt with in a single day without considering any empirical evidence and without any discussion with patient groups and external stakeholders. The 2013 investigation into Glan Clwyd's obstetrics and gynaecology department by the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists exposed gaps in jobs planning and appraisal and evidence of poor communication skills, bullying and intimidating behaviour. The independent assessment now refers to well-documented difficulties, and states that trainees in obstetrics and gynaecology were removed from the department in August 2014 because of concerns about the quality of the training they were receiving despite 'efforts' to improve it by the health board. Anyone with managerial experience knows that training and development are management responsibilities and this is a statement of management failure.

I'll leave the last word to a clinician, who stated at last Thursday's meeting in St Asaph cathedral that, 'You're not going to recruit people to a closed service'.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant, yn briodol iawn, wedi galw ar Aelodau'r Cynulliad i annog genedigaethau cartref a'r defnydd o ganolfannau geni i ferched risg isel, ac i roi cefnogaeth gyhoeddus i unedau mamolaeth lleol o dan arweiniad obstetrig ac unedau o dan arweiniad bydwragedd. Ond mae eu hadroddiad 'Location, location, location' hefyd yn nodi mai'r diffiniad o fynediad rhesymol at ganolfannau geni ac unedau obstetrig yw 15 milltir neu lai ar gyfer lleoliadau gwledig a 7.5 milltir fel yr hed y frân ar gyfer lleoliadau trefol.

Fel y clywsom, mae Glan Clwyd 38 o filltiroedd i ffwrdd o Ysbyty Maelor Wrecsam a 33 milltir i ffwrdd o Ysbyty Gwynedd ar hyd ffyrdd sy'n enwog am eu tagfeydd. Fel y mae meddygon teulu wedi dweud, mae trosglwyddo mam sydd angen toriad cesaraidd brys yn amlwg yn ddadleuol, a dweud y lleiaf. Fel y mae bydwaig yn Wrecsam yn gofyn, 'Sut y maent yn disgwyl cael menywod sydd angen toriad Cesaraidd brys categori 1 o ysbyty Glan Clwyd i theatr yn Wrecsam neu Fangor heb lefelau sylweddol o afiachusrwydd a marwolaethau?' Ychwanegodd fod Wrecsam yn aml yn llawn i'r ymylon a bod cofrestrwyddion cwbl gymwys yn cael eu digalonni gan ddiffyg cydnabyddiaeth a gweidyddiaeth ysbyty. Gorfennodd drwy dweud bod staff yn Wrecsam wedi cael eu cynghori i beidio ag ymuno mewn protestiadau yn erbyn y penderfyniad i israddio, ac mae'n gofyn, 'Beth a ddigwyddodd i ryddid i lefaru?' Mae'n gwneud i sylwadau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am chwythwyr chwiban y GIG ddoe ymddangos yn chwerthinlyd.

Yr wythnos diwethaf, diystyrod y Prif Weinidog lythyr gan Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, gan eu gorfodi i ysgrifennu eto i ofyn i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn ffurfiol. Roeddent yn mynegi eu hanhawster i ddeall sut y gellid bod wedi ymdrin ag adolygiad annibynnol Llywodraeth Cymru mewn un diwrnod heb ystyried unrhyw dystiolaeth empirig a heb unrhyw drafodaeth gyda grwpiau cleifion a rhanddeiliaid allanol. Amlygodd ymchwiliad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr yn 2013 i adran obstetreg a gynaeocolg Glan Clwyd fylchau yn y broses o gynllunio a gwerthuso swyddi a thystiolaeth o sgiliau cyfathrebu gwael, bwlio ac ymddygiad bygythiol. Mae'r asesiad annibynnol bellach yn cyfeirio at anawsterau sydd wedi'u cofnodi'n eang, ac yn datgan bod hyfforddeion obstetreg a gynaeocolg wedi cael eu symud o'r adran ym mis Awst 2014 oherwydd pryderon am ansawdd yr hyfforddiant a gaent er gwaethaf 'ymdrechion' i'w wella gan y bwrdd iechyd. Mae unrhyw un sydd â phrofiad o reoli yn gwybod bod hyfforddiant a datblygiad yn gyfrifoldebau rheoli ac mae hwn yn ddatganiad o fethiant i reoli.

Gadawaf y gair olaf i glinigydd a nododd yn y cyfarfod ddydd lau diwethaf yn eglwys gadeiriol Llanelwy, 'nad ydych yn mynd i recriwtio pobl i wasanaeth sydd wedi ei gau'.

16:23	Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography I've no doubt that this situation is very worrying for anybody who's expecting a baby in the next nine months, but I think that this is not a problem that has just blown up out of nowhere, and it isn't just about middle-grade doctors, who are no longer allocated in training posts at the Glan Clwyd since August last year. I can well understand the frustration of local Assembly Members, but just a cursory examination of some of the documents that are available indicate that this is a problem that's been going on for a decade or more.	Nid oes gennyf amheuaeth fod y sefyllfa hon yn peri pryder mawr i unrhyw un sy'n disgwyl babi yn y naw mis nesaf, ond nid problem sydd newydd ymddangos o unman yw hon yn fy marn i, ac nid yw'n ymwneud yn unig â meddygon canolradd nad ydynt bellach yn cael swyddi dan hyfforddiant yng Nglan Clwyd ers mis Awst y llynedd. Gallaf ddeall rhwystredigaeth yr Aelodau Cynulliad lleol, ond mae cipolwg yn unig ar rai o'r dogfennau sydd ar gael yn dangos bod hon yn broblem sydd wedi bod ar y gweill ers degawd neu fwy.	Senedd.tv Fideo Video
16:24	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography Will you take an intervention on that point?	A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?	Senedd.tv Fideo Video
16:24	Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography Okay.	Iawn.	Senedd.tv Fideo Video
16:24	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography The reality is that there have been serious management failings at the Betsi Cadwaladr. As Aled Roberts has said, there was a requirement to organise rotas over all three sites and the management team never put that in place.	Y realiti yw y bu methiannau rheoli difrifol yn ardal Betsi Cadwaladr. Fel y mae Aled Roberts wedi dweud, roedd gofyn trefnu rotâu dros y tri safle ac ni roddwyd hynny ar waith gan y tîm rheoli.	Senedd.tv Fideo Video
16:24	Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography Picking up on that point, there clearly is an extremely difficult bunch of people based at Glan Clwyd. You've only got to read the report from the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists that was published sometime between 2013 and February this year by Dr Steele, which indicates that the consultants do not talk to each other, they do not book their holidays in advance, and therefore people do not know whether they've got to cover clinics, sometimes at fewer than 24 hours' notice.	Ar y pwynt hwnnw, mae'n amlwg bod criw anodd iawn o bobl yng Nglan Clwyd. Nid oes ond angen i chi ddarllen yr adroddiad gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a gyhoeddwyd rywbryd rhwng 2013 a mis Chwefror eleni gan Dr Steele, sy'n dangos nad yw'r meddygon ymgynghorol yn siarad â'i gilydd, nid ydynt yn trefnu eu gwyliau ymlaen llaw ac felly, nid yw pobl yn gwybod a oes angen iddynt lenwi ar eu rhan mewn clinigau, ar lai na 24 awr o rybudd weithiau.	Senedd.tv Fideo Video
16:24	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Will you take an intervention?	A wnewch chi dderbyn ymyriad?	Senedd.tv Fideo Video
16:25	Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography Can I just make a little bit of an advance? So, I think it's very worrying to read that people are not collaborating together. There are seven consultants at this site. I have to pay tribute to the midwives, who are clearly doing an excellent job in keeping things together, but if you cannot get consultants working together, sharing good practice, collaborating on serious incident reviews— Some of the consultants are not even turning up at serious incident reviews. These are not people who are prepared to examine their own practice. So, I think that it cannot be any surprise that Glan Clwyd has the worst caesarean rates in Wales, and 28% is unacceptable.	A gaf fi fwrw ymlaen am ychydig? Felly, mae darllen nad yw pobl yn cydweithio yn peri pryder mawr i mi. Ceir saith meddyg ymgynghorol ar y safle. Rhaid i mi dalu teyrnged i'r bydwragedd sy'n amlwg yn gwneud gwaith ardderchog yn cadw pethau ar y trywydd iawn, ond os na allwch gael meddygon ymgynghorol i weithio gyda'i gilydd, rhannu arferion da, cydweithio ar adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol—. Nid yw rhai o'r meddygon ymgynghorol yn mynychu cyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol. Nid yw'r rhain yn bobl sy'n barod i archwilio eu harferion eu hunain. Felly, yn fy marn i, ni all fod yn syndod mai Glan Clwyd sydd â'r cyfraddau triniaethau Cesaraidd gwaethaf yng Nghymru, ac mae 28% yn annerbyniol.	Senedd.tv Fideo Video

This cannot be explained away by the deprivation levels in the Rhyl area. Keeping the caesarean rates down requires good team work, not just internally between doctors in the team, but crucially with the midwives, who are the front-line experts for normal deliveries on the labour ward, and, to drive down unacceptably high caesarean rates, there need to be clear and agreed protocols on when obstetricians need to be involved and confidence that these obstetricians will actually turn up to provide the benefit of their expertise if it's thought that things may be going wrong in a woman's labour.

Janet Finch-Saunders a gododd—

Nid oes modd esbonio hyn drwy gyfeirio at lefelau amddifadedd ardal Y Rhyl. Mae cadw cyfraddau triniaethau Cesaraidd i lawr yn galw am waith tîm da, yn fewnol rhwng meddygon yn y tîm, ond yn hanfodol hefyd, gyda'r bydwragedd, sef yr arbenigwyr rheng flaen ar enedigaethau normal ar y ward esgor. Er mwyn gostwng cyfraddau triniaethau Cesaraidd annerbyniol o uchel, mae angen sicrhau bod protocolau clir wedi'u cytuno ynghylch pa bryd y bydd angen i obstetryddion weithredu a hyder y bydd obstetryddion yno mewn gwirionedd i gyfrannu eu harbenigedd os credir efallai fod pethau'n mynd o chwith pan fo menyw'n esgor.

Janet Finch-Saunders rose—

16:26

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This team of obstetricians has not even been able to always provide the 40 hours of consultant cover on the labour ward. Apart from the serious clinical outcomes of women unnecessarily having to undergo caesarean sections—hardly the best way to start a new relationship—perhaps the most serious things that I have read in the report by Dr Steele are that only two or three of the seven consultants respond in a timely fashion to complaints. I have no doubt that those one or two people are desperately trying to provide a decent, professional service. But Dr Steele's report reveals that some sets of notes appear to go missing for a while, and this is clearly outwith clinical governance procedures. Patients' case notes need to be taken under the wing of the complaints manager, whether that's the medical director, the chief of staff, or someone else, precisely to prevent what happened at Barrow-in-Furness, where notes were tampered with.

Nid oedd y tîm hwn o obstetryddion bob amser hyd yn oed yn gallu darparu'r 40 awr o wasanaeth meddygon ymgynghorol ar y ward esgor. Ar wahân i'r canlyniadau clinigol difrifol pan fydd menywod yn gorfod cael toriadau Cesaraidd yn ddiangen—a go brin mai dyna'r ffordd orau i neb gychwyn ar berthynas newydd—efallai mai'r pethau mwyaf difrifol a ddarllenais yn adroddiad Dr Steele yw mai dau neu dri yn unig o'r saith meddyg ymgynghorol sy'n ymateb mewn modd amserol i gwynion. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth fod yr un neu ddau o bobl hynny'n ymdrech'u'n daer i ddarparu gwasanaeth gweddus, proffesiynol. Ond mae adroddiad Dr Steele yn datgelu bod rhai setiau o nodiadau i'w gweld yn mynd ar goll am gyfnod, ac mae hyn yn amlwg y tu allan i weithdrefnau llywodraethu clinigol. Mae angen i'r rheolwr cwynion, boed yn gyfarwyddwr meddygol, pennaeth staff neu rywun arall, gadw nodiadau achos cleifion, yn unswydd er mwyn osgoi'r hyn a ddigwyddodd yn Barrow-in-Furness, lle y cafodd nodiadau eu newid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:27

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could you help me for a moment? With an intervention.

A allech chi fy helpu am eiliad? Gydag ymyriad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. The Member has had to withstand about four or five requests for an intervention now, and I find this rather disruptive. The Member is making a very solid speech, and, if you want to refute these facts, I've got four more Members that want to be called. Please don't interrupt any further. Jenny Rathbone.

Trefn. Mae'r Aelod wedi gorfod gwrthsefyll tua phedwar neu bump o geisiadau am ymyriad yn awr, ac rwy'n ystyried hyn braidd yn aflonyddgar. Mae'r Aelod yn cyflwyno araith gadarn iawn ac os ydych am wrthbrofi'r ffeithiau, mae gen i bedwar Aelod arall sydd eisiau cael eu galw. Os gwelwch yn dda, peidiwch â thorri ar draws rhagor. Jenny Rathbone.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

So, I would like to suggest that this 12-month suspension of the obstetrics service at Glan Clwyd is an opportunity to really make the root-and-branch change that is definitely required at Glan Clwyd. I cannot agree with the First Minister that this does not, in any way, interfere with the decision on the sub-regional neonatal intensive care centre. It is absolutely clear that the neonatal intensive care centre cannot be located at Glan Clwyd unless there is an obstetric-led unit, because the obstetric-led delivery unit is going to be where those high-risk women who need the care of an obstetrician are most likely to have babies that also need the services of a neonatal unit. Quite how the health board, the local Assembly Members and the population of north Wales are going to resolve this problem, I do not know, and it's obviously not up to me, but clearly no change is absolutely not an option.

Felly, hoffwn awgrymu bod atal gwasanaeth obstetreg dros dro am 12 mis yng Nglan Clwyd yn gyfle i sicrhau newid gwirioneddol drwyddo draw sy'n bendant ei angen yng Nglan Clwyd. Ni allaf gytuno â'r Prif Weinidog nad yw hyn yn amharu mewn unrhyw fodd ar y penderfyniad ynghylch y ganolfan isranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig. Mae'n gwbl glir na ellir lleoli'r ganolfan gofal dwys ar gyfer babanod newydd-anedig yng Nglan Clwyd oni bai bod yno uned dan arweiniad obstetrig, gan fod yr uned eni dan arweiniad obstetrig yn mynd i fod wedi'i lleoli lle y bydd menywod risg uchel sydd angen gofal obstetregydd yn fwyaf tebygol o gael babanod sydd hefyd angen gwasanaethau uned ar gyfer babanod newydd-anedig. Nid wyf yn gwybod yn union sut y mae'r bwrdd iechyd, yr Aelod Cynulliad lleol a phoblogaeth gogledd Cymru yn mynd i ddatrys y broblem, ac mae'n amlwg nad fy lle i yw penderfynu, ond mae'n amlwg nad yw 'dim newid' yn opsiwn o fath yn y byd.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Un peth sy'n amlwg yw bod y penderfyniad i gau'r uned famolaeth o dan arweiniad meddygon yng Nglan Clwyd wedi codi gwrychyn, wedi codi ofnau gwirioneddol a phryderon ymysg mamau a darpar famau ar hyd a lled y gogledd, ac nid jest yn ardal Glan Clwyd. Rwy'n deall rhesymeg y bwrdd a'i gonsyrn am ddiogelwch, ond cyfrifoldeb y bwrdd ydy sicrhau'r cwota angenrheidiol o feddygon cymwys. Yn ôl Chris Ruane, Aelod Llafur Dyffryn Clwyd, nid oedd o'n gwybod dim byd, meddai fo, am unrhyw brinder tan i'r cyhoeddiad diweddar yma ddigwydd.

One thing that's become apparent is that the decision to close the consultant-led maternity unit at Glan Clwyd has caused a furore, has caused real anxiety and concerns among mothers and prospective mothers across north Wales, and not just in the Glan Clwyd area. I understand the rationale of the board and their concern for safety, but it's the responsibility of the board to ensure the necessary quota of qualified doctors. According to Chris Ruane, the Labour Member for the Vale of Clwyd, he knew nothing about any shortage until this recent announcement was made.

Rwyf am drio ehangu'r drafodaeth ychydig y prynhawn yma, gan fod sefyllfa Glan Clwyd yn mynd i gael effaith uniongyrchol ac, o bosibl, anuniongyrchol ar y ddwy brif ysbyty arall yn y gogledd. Mi allai'r addewidion sydd wedi cael eu gwneud yma yn y Siambr yma gael effaith hirdymor ar ddarpar famau a chleifion yn y gogledd-orllewin. Ni fedrai'r Llywodraeth ychwaith golchi ei ddwylo o'r llanast yma. Pan ofynnais i gwestiwn i'r Gweinidog am brinder meddygon, rhai teulu a rhai yn yr ysbytai, yn y gogledd, fe ges i ateb digon dilornus nad oedd y fath beth â phrinder meddygon. A dyma ni heddiw yn wynebu cau uned famolaeth. Oherwydd beth? Wel, prinder doctoriaid.

I'm going to try and expand the discussion a little this afternoon, because the situation of Glan Clwyd is going to have a direct impact, and perhaps an indirect impact, on the other two main hospitals in north Wales. The pledges made in this Chamber could have a long-term effect on prospective mothers and patients in north-west Wales. The Government cannot wash its hands of this mess. When I asked a question to the Minister about a shortage of doctors, both GPs and hospital doctors, in north Wales, I was given quite a dismissive response that there was no such thing as a shortage of doctors. And here we are today facing the closure of a maternity unit. Why? Well, a shortage of doctors.

Mae gen i gydymdeimlad ag aelodau'r bwrdd. Rwy'n adnabod rhai ohonyn nhw, ac maen nhw'n bobl sydd yn fawr eu consyrn dros eu cymunedau. Nid wyf yn ymuno yn y condemniad diddiwedd yma ar aelodaeth y bwrdd. Ond mi hoffwn i wneud tri phwynt. Yn gyntaf, am sefyllfa Ysbyty Gwynedd. Y cwestiwn i'r Gweinidog ydy: a ydy o'n ffyddiog bod y capasiti yn ysbytai Gwynedd a Maelor i ddelio gyda'r newid dros dro, os bydd o'n digwydd? Hefyd, pan fydd adfer y gwasanaeth yng Nglan Clwyd—rwy'n cymryd yn ganiataol ei fod o'n diflannu dros dro—pa sicrwydd sydd yna y bydd gwasanaeth mamolaeth llawn ar gael yn Ysbyty Gwynedd, gan gofio ein bod ni eisoes yn y gogledd-orllewin yn wynebu pellterau sylweddol i gleifion deithio o Ben Llŷn, o Borthmadog, o ogledd Môn—20 milltir a mwy i gyrraedd Ysbyty Gwynedd?

I do have sympathy with board members. I know some of them, and they're people who are very much concerned about their communities. I don't join in this endless condemnation of the board. But I would like to make three points. First, about the situation at Ysbyty Gwynedd. The question for the Minister is: is he confident that the capacity is in place in Ysbyty Gwynedd and in Maelor hospital to deal with this temporary change, if it happens? Also, when the service is restored at Glan Clwyd—I assume that it is to disappear temporarily—what guarantee is there that there will be a full maternity service available at Ysbyty Gwynedd, given that we in north-west Wales are already facing significant distances for patients to travel from the Llŷn peninsula, from Porthmadog, from northern Anglesey—20 miles and more to reach Ysbyty Gwynedd?

16:31 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ymyrryd ar y pwynt yna? Ddim fy mod i yma i roi gwrs ddaeryddiaeth o gwbl, ond mae'n werth cofio bod rhannau o Ynys Môn hyd yn oed, sy'n cael ei hystyried yn gymharol agos i Ysbyty Gwynedd, 30 milltir i ffwrdd o Ysbyty Gwynedd, sydd eto'n pwysleisio'r angen i ystyried y ddaeryddiaeth wrth gynllunio ar gyfer y gwasanaeth.

May I intervene on that point? Not that I am here to give you a geography lesson at all, but it is well worth remembering that parts of Anglesey even, which is considered relatively close to Ysbyty Gwynedd, are 30 miles away from Ysbyty Gwynedd, which again emphasises the need to consider the geography when planning for the service.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:31 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Diolch am y wers ddaeryddol yna. [Chwerthin.] Mae'r ystyriaeth hon yn berthnasol, wrth gwrs, nid yn unig i'r gwasanaeth mamolaeth, ond hefyd i'r gwasanaethau brys eraill, ac mae angen sicrwydd ar staff a chleifion yn yr ardal.

Thank you. Thank you for that geography lesson. [Laughter.] This is a material consideration, of course, not only for maternity services, but also for the other emergency services, and staff and patients in the area need to be reassured.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn ail, rydym wedi clywed llawer o addewidion am y gwasanaethau'n cael eu cynnig yn y gymuned, ac rwy'n meddwl bod hyn yn berthnasol iawn i ddyffryn Clwyd yn yr argyfwng presennol yma. Ond rwyf eto i ddeall beth yn union ydy'r bwriadau a'r cynlluniau penodol o ran y gwasanaethau yn y gymuned o ran bwrdd Betsi Cadwaladr, a sut bydd y rhain yn clymu i mewn gyda'r meddygon teulu, sy'n prysur ddiffannu o gefn gwlad, er bod y Gweinidog yn gwadu hynny, wrth i'w cyllid nhw grebachu. Felly, mae yna nifer o bethau yn dod at ei gilydd yn y fan hyn sy'n codi pryderon ymysg trigolion fy ardal i.

Secondly, we have heard many pledges made on services provided in the community, and I think that this is very pertinent to the Vale of Clwyd in the current crisis. But I have yet to understand exactly what the intentions and the specific plans are for community-based services in Betsi Cadwaladr, and how these will tie in with GPs, who are disappearing from rural Wales, although the Minister denies that, as their funding shrinks. Therefore, a number of things are converging here that cause real concern among residents in my area.

Un peth yn olaf. Byddwn yn rhybuddio pob un ohonom ni o un peth, sef tansellio hyder staff a ffydd cleifion drwy ladd ar y gwasanaeth iechyd yn barhaus. Mae yna gyfrifoldeb ar y bwrdd—oes—ac mae yna gyfrifoldeb ar y rheolwyr. Ac mae yna gyfrifoldeb arall ar yr ymgynghorwyr a'r staff i gydweithio yn y gogledd er lles y bobl. Pwy ddaw i weithio i'r gogledd os mai'r ddelwedd sy'n cael ei chyfleu yw un o wasanaeth rhanedig a checru parhaus? Mae pethau da yn digwydd, ac un o'r rheini, wrth gwrs, ydy datblygiad yr ysgol feddygaeth ym Mhrifysgol Bangor, a'r gwaith ymchwil ardderchog sy'n digwydd yn y brifysgol. Dyna sut mae denu staff o safon i rannu eu hamser rhwng gwaith academaidd a gwaith ymarferol. Ac wrth wneud hynny, mi fyddan nhw'n denu hefyd feddygon iau i'w canlyn, ac mi fydd hynny ynddo'i hun yn rhoi gwell hyfforddiant yn y pen draw. Nid wyf yn clywed digon am hynny gan y bwrdd na chan Lywodraeth Cymru. Felly, gadewch inni wneud gogledd Cymru yn ardal lle mae ansawdd a phrofiad cleifion a staff yn arwain y ffordd, yn lle bod yn destun checru parhaus.

One final point. I would warn each and every one of us of one thing, namely the undermining of the confidence of staff and patients by continually criticising the health service. There is a responsibility on the board—yes—and managers also have a responsibility. And there is another responsibility on consultants and staff to collaborate in north Wales for the benefit of the people. Who will come to work in north Wales if the image portrayed is one of a service that is divided amid constant arguing? There are good things happening, and one of those, of course, is the development of the school of medicine at Bangor University, and the excellent research that is taking place at the university. That is how you attract quality staff, to share their time between academic work and practical work. And in doing so, they'll also attract junior doctors, and that it will, in itself, ultimately lead to better training. I do not hear enough of that from the board or from the Welsh Government. So, let's make north Wales an area where the quality and the patient and staff experience lead the way, rather than cause continuous argument.

16:33 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will answer Jenny Rathbone's cursory—and it definitely was cursory—examination of the papers. The reason why Glan Clwyd has a higher caesarean rate is because all the high-risk women currently go there, because that's where the neonatal unit is, and that's where the neonatal facility is. So, the more high-risk women go there.

Rwyf am ateb archwiliad arwynebol Jenny Rathbone o'r papurau—ac roedd yn bendant yn arwynebol. Y rheswm pam y mae gan Glan Clwyd gyfradd uwch o driniaethau Cesaraidd yw am mai yno y mae'r holl fenywod sy'n wynebu risg uchel yn mynd ar hyn o bryd, am mai dyna lle y mae'r uned ar gyfer babanod newydd-anedig, dyna lle y mae'r cyfleuster newydd-anedig. Felly, mae mwy o fenywod sy'n wynebu risg uchel yn mynd yno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:34 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:34 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

No, not on that point. So, that is why—. If you'd done more than a cursory examination, you would've known that the highest number of medical negligence claims in the Betsi Cadwaladr health board with regard to the maternity unit is against Wrexham Maelor, not against Glan Clwyd, despite the fact that they are dealing with the high-risk cases. Normally, medical negligence claims are a very good indication of where there are weaknesses in the system. If you'd done more than take a cursory glance at the report that you looked at and you'd bothered to read the letter that was issued by the health Minister last week, you would have noticed that the review that was carried out said:

'We note the long standing concerns about consultant team dynamics at Ysbyty Glan Clwyd but these are being tackled and are not in themselves a justification for urgent service change.'

So, bearing in mind that you know nothing about north Wales, you don't represent there, you have no involvement in the hospital, I suspect—[Interruption.]

Na wnaif, nid ar y pwynt hwnnw. Felly, dyna pam—. Pe baech wedi gwneud mwy nag archwiliad brysiog, fe fyddech yn gwybod mai yn erbyn Wrecsam Maelor y gwneir y nifer fwyaf o honiadau o esgeulustod meddygol mewn perthynas â'r uned famolaeth ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, nid yn erbyn Glan Clwyd, er eu bod yn ymdrin ag achosion risg uchel. Fel arfer, mae honiadau o esgeulustod meddygol yn arwydd da iawn o lle y ceir gwendidau yn y system. Pe baech wedi gwneud mwy na bwrw cipolwg brysiog ar yr adroddiad ac wedi trafferthu i ddarllen y llythyr a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd yr wythnos diwethaf, byddech wedi sylwi bod yr adolygiad a gynhaliwyd yn dweud hyn:

'Rydym yn nodi'r pryderon hirsefydlog ynghylch dynameg y tîm ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd ond mae'r rhain yn cael sylw ac nid ydynt ynddynt eu hunain yn cyfiawnhau newid gwasanaethau ar frys.'

Felly, gan gofio nad ydych yn gwybod dim am ogledd Cymru, nad ydych yn cynrychioli'r rhan honno o'r wlad, nad oes gennych unrhyw ran yng ngwaith yr ysbyty, rwy'n amau—[Torri ar draws.]

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Order. Order. You have an obligation to be courteous to all Members, and I will—[Interruption.] Order. I will not have you impugning a Member because she is from a certain part of Wales. Everyone has a right to speak in this debate. I call the Members that I think deserve a hearing. I called that Member, and you are not to refer to her in that discourteous way again.

Trefn. Trefn. Mae gennych rwymedigaeth i fod yn gwrtais i bob Aelod, ac nid wyf— [Torri ar draws.] Trefn. Nid wyf yn mynd i adael i chi ladd ar Aelod am ei bod yn dod o ran benodol o Gymru. Mae gan bawb hawl i siarad yn y ddadl hon. Fe alwaf ar yr Aelodau y credaf eu bod yn haeddu gwrandawriad. Gelwais yr Aelod, ac nid ydych i gyfeirio ati yn y ffordd anghwrtais honno eto.

16:35 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I suggest if she was more familiar with the region she might be more familiar with the issues.

Wel, rwy'n awgrymu pe bai'n fwy cyfarwydd â'r rhanbarth, efallai y byddai'n fwy cyfarwydd â'r materion hyn.

16:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Order.

Trefn.

16:36 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

And she might—

Ac efallai y byddai—

16:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Order. You're on thin ice. Now, you just made you— [Interruption.] Order. Don't talk when I'm speaking. Now, you make the case, you are perfectly at liberty to refute the arguments she made, and your reference to the letter and the other documents: that's fine. But, you're not to impugn her for not representing north Wales. Now, continue.

Trefn. Rydych chi ar dir peryglus. Nawr, rydych wedi gwneud eich—[Torri ar draws.] Trefn. Peidiwch â siarad pan rwy'n siarad. Nawr, rydych yn cyflwyno eich achos, mae gennych berffaith ryddid i wrthbrofi'r dadleuon a wnaeth, a'ch cyfeiriad at y llythyr a'r dogfennau eraill: mae hynny'n iawn. Ond nid ydych i ymosod arni am nad yw'n cynrychioli gogledd Cymru. Nawr, ewch yn eich blaen.

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it's quite clear that a lack of familiarity with the region is a lack of familiarity with the issues. And, it's quite clear that you are unable to point to any steps that the most highly paid NHS management in north Wales took to implement the recommendations of the report. The fact is that they didn't. They didn't seek to do it, precisely because of that secret agenda that we think there has been with the clinical management at the health board. Public confidence is at an all-time low with the health board, because of the way in which they conducted this service change, and the fact that they haven't appropriately looked at the risks. You are quite right—Aled Roberts was quite right—to point out that Assembly Members are having to ask for information from the health board under the Freedom of Information Act procedure. I am still waiting for disclosure—and they are out of time, they are over their limit—for when they advertised, where they advertised and how often they advertised. That information was promised to me by the chief executive, health Minister, and if they can't provide it clearly and quickly on a justification that they're unable to recruit, you've got to question why that information isn't being put into the public domain. We know why it is: it's because they haven't advertised in the appropriate places. We've been contacted by two registrars from the Maelor hospital, who said that they left because they didn't see that there were opportunities available for them to be recruited in. The impression being given up in north Wales is that this service is deliberately being run down. I'm afraid, when you get that kind of information in your inbox, Minister, it goes a long way to undermining the confidence in the chief executive and his medical director, and when we're criticising the health board, that's who we're criticising, because they're the people who haven't provided the information to us.

It is quite clear that this temporary closure is going to result in deaths. The risk assessments, which haven't been properly carried out, will result in maternal and baby deaths, not least because the transport Minister has just indicated that there are going to be substantial road closures on the A55 overnight, which means that women won't be able to be transported in the ambulances to either Ysbyty Gwynedd or the Maelor. There is a lack of confidence in the chief executive because he made precisely the same kind of promises at Whithybush about maternity services being returned, which they never did. Doctors have highlighted the risks, they have explained the risks; they say that they weren't consulted. Clinicians in interdependent specialities were not consulted about the consequential impact of the health board's management proposals—

Wel, mae'n eithaf amlwg fod diffyg cynefindra â'r ardal yn ddiffyg cynefindra â'r materion dan sylw. Ac mae'n eithaf amlwg na allwch gyfeirio at unrhyw gamau a gymerwyd gan reolwyr y GIG sy'n cael eu talu fwyaf yng ngogledd Cymru i weithredu argymhellion yr adroddiad. Y ffaith amdani yw nad ydynt wedi gwneud hynny. Nid ydynt wedi ceisio gwneud hynny, a hynny yn ein barn ni oherwydd yr agenda gudd sydd wedi bod gan reolwyr clinigol yn y bwrdd iechyd. Mae hyder y cyhoedd yn y bwrdd iechyd yn is nag erioed oherwydd y ffordd y cyflawnwyd y newid gwasanaeth a'r ffaith nad ydynt wedi edrych yn briodol ar y risgiau. Rydych yn llygad eich lle—roedd Aled Roberts yn hollol iawn—i nodi bod yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad ofyn am wybodaeth gan y bwrdd iechyd o dan weithdrefn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rwy'n dal i aros am ddatgeliad—ac maent wedi rhedeg allan o amser, maent wedi mynd heibio'r terfyn amser—ynghlŷn â pha bryd, ymhle a pha mor aml yr aethant ati i hysbysebu.

Addawodd y prif weithredwr roi'r wybodaeth honno i mi, Weinidog iechyd, ac os na allant ei darparu'n glir ac yn gyflym i gyfiawnhau eu hanallu i recriwtio, rhaid i chi holi pam nad yw'r wybodaeth ar gael yn gyhoeddus. Rydym yn gwybod pam: am nad ydynt wedi hysbysebu yn y manau priodol. Mae dau gofrestrydd yn ysbyty Maelor wedi cysylltu â ni ac wedi dweud eu bod wedi gadael am nad oeddent yn gweld bod cyfleoedd ar gael i gael eu recriwtio iddynt. Yr argraff a roddir yng ngogledd Cymru yw bod y gwasanaeth yn cael ei ddiraddio'n fwiadol. Pan gewch wybodaeth o'r fath yn eich mewnlwch, Weinidog, rwy'n ofni ei fod yn cyfrannu'n helaeth at danseilio hyder yn y prif weithredwr a'i gyfarwyddwr meddygol, a phan fyddwn yn beirniadu'r bwrdd iechyd, dyna pw y rydym yn eu beirniadu, oherwydd mai dyna'r bobl sydd heb ddarparu'r wybodaeth ar ein cyfer.

Mae'n gwbl glir fod y cau dros dro yn mynd i arwain at farwolaethau. Bydd yr asesiadau risg, nad ydynt wedi cael eu cynnal yn briodol, yn arwain at farwolaethau mamau a babanod, yn enwedig am fod y Gweinidog trafniadaeth newydd ddynodi y bydd yr A55 yn cael ei chau dros nos gryn dipyn, sy'n golygu na fydd modd cludo menywod mewn ambiwlansys naill ai i Ysbyty Gwynedd nac i ysbyty Maelor. Ceir diffyg hyder yn y prif weithredwr am ei fod wedi gwneud yn union yr un math o addewidion yn Llwynhelig ynghlŷn ag ailgyflwyno gwasanaethau mamolaeth ac ni wnaed hynny. Mae meddygon wedi tynnu sylw at y peryglon, maent wedi egluro'r peryglon; maent yn dweud nad ymgynghorwyd â hwy. Ni ymgynghorwyd â chlinigwyr mewn arbenigeddau rhyngddibynnol am effaith ganlyniadol argymhellion rheolwyr y bwrdd iechyd—

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Make this the last point, please.

Gwnech hwn yn bwynt olaf, os gwelwch yn dda.

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—and the British Medical Association, the experts, the doctors who can clinically assess the risk—

[Yn parhau.]—a Chymdeithas Feddygol Prydain, yr arbenigwyr, y meddygon sy'n gallu asesu'r risg yn glinigol

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish now.

Gorffennwch yn awr.

16:39 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—were not consulted.

[Yn parhau.]—ni ymgynghorwyd â hwy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:39 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ysbyty Glan Clwyd is home to an average of 2,262 births each year, so it begs the question: why would any Government in power allow a health board to withdraw consultant-led maternity services against the will of the people and against the will of the clinicians? We are advised that rotas at Ysbyty Glan Clwyd are at risk of collapse, that there are not sufficient medical staff to maintain a fully functioning service and that there are serious issues among the staff themselves. We know too, as has been mentioned, that this has been going on for some time. Now, the decision to withdraw consultant-led maternity services is not based on clinical evidence, it's not supported by clinicians, and it is now feared by thousands of potential parents across north Wales. Such has been the pressure, supported by some north Wales AMs of all parties, the Minister for Health and Social Services ordered an independent assessment by the chief nursing officer and deputy chief medical officer. However, on investigation, we found that this independent assessment was completed within one day. It was labelled by the chief officer of north Wales community health council as not fit for purpose and it was not a review. There were no terms of reference, they would not be meeting any patient groups or stakeholders outside BCULHB, they would not be considering statistical or clinical evidence and the BCULHB decision to move services could not be altered. If that's not a fait accompli, I don't know what is. The health board's own report on obstetrics and gynaecology safety and sustainability states that

'formal consultation is not required and would struggle to be meaningful.'

The chair of the BMA said:

'We are disappointed the health board has failed to consult with senior obstetricians at Glan Clwyd to explore the options available for the obstetric service at the hospital',

Genir 2,262 o fabanod yn Ysbyty Glan Clwyd bob blwyddyn, felly rhaid gofyn y cwestiwn: pam y byddai unrhyw Lywodraeth sydd mewn grym yn caniatáu i fwrdd iechyd dynnu gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn ôl yn erbyn ewyllys y bobl ac yn erbyn ewyllys y clinigwyr? Rydym yn cael clywed bod y rotâu yn Ysbyty Glan Clwyd mewn perygl o fethu, nad oes digon o staff meddygol i gynnal gwasanaeth sy'n gweithredu'n llawn a bod problemau difrifol ymhlith y staff eu hunain. Gwyddom hefyd, fel y crybwyllwyd, fod hyn wedi bod yn digwydd ers peth amser. Nawr, nid yw'r penderfyniad i dynnu gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn ôl yn seiliedig ar dystiolaeth glinigol, nid yw'n cael ei gefnogi gan glinigwyr a bellach, mae miloedd o ddarpar rieni ledled gogledd Cymru wedi eu dychryn gan y cyfryw benderfyniad. Cafwyd cymaint o bwysau, gyda chefnogaeth gan ACau o bob plaid yng ngogledd Cymru, fel bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gorchymyn i asesiad annibynnol gael ei gynnal gan y prif swyddog nyrsio a'r dirprwy brif swyddog meddygol. Fodd bynnag, ar ôl ymchwilio, canfuom fod yr asesiad annibynnol wedi ei gwblhau mewn un diwrnod. Fe'i galwyd gan brif swyddog cyngor iechyd cymuned gogledd Cymru yn asesiad nad oedd yn addas i'r diben ac nid oedd yn adolygiad. Nid oedd ganddo gyloch gorchwyl, ni fyddent yn cwrrd ag unrhyw grwpiau cleifion neu randdeiliaid y tu allan i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, ni fyddent yn ystyried tystiolaeth ystadegol neu glinigol ac ni ellid newid penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i symud gwasanaethau. Os nad yw hynny'n fait accompli, nid wyf yn gwybod beth sydd. Mae adroddiad y bwrdd iechyd ei hun ar ddiogelwch a chynaliadwyedd gwasanaethau obstetreg a gynaeoleg yn datgan fel hyn:

'nid oes angen ymgynghori ffurfiol a byddai'n anodd iddo fod yn ystyrlon.'

Dyweddodd cadeirydd y BMA:

'Rydym yn siomedig fod y bwrdd iechyd wedi methu ymgynghori ag uwch obstetryddion yng Nglan Clwyd i archwilio'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer y gwasanaeth obstetreg yn yr ysbyty',

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

leading to expectations that 500 potential mothers and babies will be delivered in the freestanding midwifery-led unit at the hospital. We ask: how practical is this and what is the true definition of 'safe'? With 36% of first-time mothers experiencing unforeseen complications during labour, there will be at least three emergency transfers a week. Minister, we are here today in the comfort of this Chamber in Cardiff bay, far removed from the daily travelling issues that occur on the A55. The alternatives do not stack up. We are talking about a minimum travel time of up to 50 or 60 minutes in an emergency. According to a 2014 French study entitled 'Where does distance matter?', there is an increased risk to expectant mothers if they have to travel for more than 20 minutes or 28 miles, and a Dutch study found that transfer time from home to hospital in terms of giving birth of more than just 20 minutes by car was associated with increased risk of mortality and adverse outcomes. We are talking about our vulnerable mothers and their precious babies. Susan Harper, who suffered a ruptured ectopic pregnancy last year, said that doctors had told her that, had she waited 60 minutes—the time this could take—she would have been dead. My own experience changed from normal to emergency, and the options presented today would have meant that I would not be delivering this speech here today and my own daughter would not now be a contributing member of our society.

In 2013, the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists conducted an investigation into consultant medical—I think I've said this. It pointed out issues such as the lack of team working, unprofessional behaviour of staff and the lack of supervision. Then, in the progress report, Healthcare Inspectorate Wales and the Wales Audit Office made 24 recommendations on the governance arrangements at BCULHB. However, a particular concern was the board's

'inability to submit an integrated medium-term plan to the Welsh Government for approval'

which is expected and required. I ask the health Minister: what have you done to ensure that the health board actually submitted that report? Minister, what steps have you taken in any of this to alleviate what has now become a really problematic situation? We now have clinicians calling for a vote of no-confidence in the health board, saying:

'This is a very worrying time for patients and employees and the division invites the Minister to make an early statement in the Senedd on this rapidly deteriorating situation.'

They request an investigation into

'how inadequate leadership and governance at the health board...has allowed this unacceptable situation to develop'.

I request, we request, the people out there request, that you now intervene and stop this downgrade now, once and for all.

gan arwain at ddisgwyliadau y bydd 500 posibl o famau a babanod yn cael gwasanaeth yn yr uned annibynnol o dan arweiniad bydwragedd yn yr ysbyty. Gofynnwn: pa mor ymarferol yw hyn, a beth yw'r gwir ddiffiniad o 'diogel'? Gyda 36% o famau am y tro cyntaf yn profi cymhlethdodau annisgwyl wrth esgor, bydd yna o leiaf dri throsglwyddiad brys yr wythnos. Weinidog, rydym yma heddiw yng nghysur y Siambr hon ym mae Caerdydd, ymhell i ffwrdd o'r problemau teithio dyddiol sy'n digwydd ar yr A55. Nid yw'r dewisiadau eraill yn dal dŵr. Rydym yn sôn am amser teithio o hyd at 50 neu 60 munud fan lleiaf mewn argyfwng. Yn ôl astudiaeth a wnaed yn Ffrainc o dan y pennawd 'Ble y mae pellter yn cyfrif?', mae mwy o risg i famau beichiog os oes rhaid iddynt deithio am fwy na 20 munud neu 28 milltir, a chanfu astudiaeth yn yr Iseldiroedd fod risg uwch o farwolaethau a chanlyniadau anffafriol pan fo'r amser trosglwyddo mewn car o'r cartref i'r ysbyty wrth roi genedigaeth yn fwy nag 20 munud. Rydym yn sôn am ein mamau a'u babanod gwerthfawr sy'n agored i niwed. Dywedodd Susan Harper, a ddiodefodd feichiogrwydd ectopig wedi rhwygo y llynedd, fod meddygon wedi dweud wrthi pe bai wedi aros 60 munud—yr amser y gallai hyn ei gymryd—byddai wedi marw. Newidiodd fy mhrofiad fy hun o fod yn normal i fod yn argyfwng, a byddai'r opsiynau sy'n cael eu cynnig heddiw wedi golygu na fyddwn yn cyflwyno'r araith hon heddiw, ac ni fyddai fy merch yn awr yn aelod gweithgar o'n cymdeithas.

Yn 2013, cynhaliodd Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr ymchwiliad i feddygaeth ymgynghorol—rwy'n meddwl fy mod i wedi dweud hyn. Tynnodd sylw at faterion fel diffyg gweithio mewn tîm, ymddygiad amhroffesiynol staff a diffyg goruchwyliaeth. Yna, yn yr adroddiad cynnydd, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 24 o argymhellion ynghylch y trefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fodd bynnag, un mater a oedd yn destun pryder penodol oedd anallu'r bwrdd

'i gyflwyno cynllun tymor canolig integredig i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo'

yn ôl yr hyn sy'n ddisgwyliedig ac yn ofynnol. Gofynnaf i'r Gweinidog iechyd: beth rydych chi wedi'i wneud i sicrhau bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r adroddiad hwnnw mewn gwirionedd? Weinidog, pa gamau a gymeryd gennych yn hyn oll i liniaru'r hyn sydd bellach wedi dod yn sefyllfa wirioneddol broblemus? Erbyn hyn mae gennym glinigwyr yn galw am bleidlais o ddiffyg hyder yn y bwrdd iechyd, gan ddweud:

'Mae hwn yn gyfnod pryderus iawn i gleifion a gweithwyr ac mae'r isadran yn gwahodd y Gweinidog i wneud datganiad buan yn y Senedd ar y sefyllfa hon sy'n dirywio'n gyflym.'

Maent yn gofyn am ymchwiliad i'r modd y mae

'arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu annigonol yn y bwrdd iechyd... wedi caniatáu i'r sefyllfa annerbyniol hon ddatblygu'.

Rwy'n gofyn, rydym ni'n gofyn, mae'r bobl bellach yn gofyn i chi ymyrryd ac atal yr israddio hwn yn awr, unwaith ac am byth.

- 16:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.
- 16:44 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*
- Dirprwy Lywydd, thank you for the opportunity to respond to this afternoon's debate. I want to begin by setting out the Government's voting intentions this afternoon. I have been very keen to move the Government amendments because they put on record two very important points about the provision of services at Ysbyty Glan Clwyd. However, when it comes to voting time, I will ask my colleagues on the Government side to abstain and I will do so for this reason: the Betsi Cadwaladr community health council has made a formal referral to me of the actions of the local health board in what the CHC believe to have been a failure to engage, within the terms of the relevant regulations, in coming to their view that doctor-led services in the maternity unit at YGC should be temporarily suspended. I must now carry out my functions, as outlined in the regulations on CHCs and service change, and make a determination in this matter.
- Ddirprwy Lywydd, diolch i chi am y cyfle i ymateb i'r ddadl y prynhawn yma. Rwyf am ddechrau drwy nodi sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu pleidleisio y prynhawn yma. Rwyf wedi bod yn awyddus iawn i gynnig gwelliannau'r Llywodraeth am eu bod yn cofnodi dau bwynt pwysig iawn am y modd y caiff gwasanaethau eu darparu yn Ysbyty Glan Clwyd. Fodd bynnag, pan ddaw'n adeg pleidleisio, byddaf yn gofyn i fy nghyd-Aelodau ar ochr y Llywodraeth i ymatal a hynny am y rheswm hwn: mae cyngor iechyd cymuned Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno atgyfeiriad ffurfiol i mi ynghylch gweithredoedd y bwrdd iechyd lleol yn yr hyn y mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn credu ei fod yn fethiant i ymgysylltu yn ôl amodau'r rheoliadau perthnasol wrth ffurfio eu barn y dylai gwasanaethau o dan arweiniad meddygon yn yr uned mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd gael eu hatal dros dro. Rhaid i mi gyflawni fy swyddogaethau yn awr, fel y'u hamlinellir yn y rheoliadau ar gyfer Cyngorau Iechyd Cymuned a newid gwasanaethau, a dod i benderfyniad ar y mater hwn.
- 16:45 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Will you take an intervention, Minister? A wnewch chi dderbyn ymyriad, Weinidog?
- 16:45 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will. Gwnaf.
- 16:45 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that. Can I just be clear for my sake and for my constituents' sakes? Will you confirm that by abstaining today, it means that the Welsh Government will continue to work with the north Wales AMs, the clinicians, the health board and the public to find an alternative solution to enable consultant-led maternity services to remain at Glan Clwyd?
- Diolch i chi. A gaf fi fod yn glir er fy mwyn fy hun ac er mwyn fy etholwyr? A wnewch chi gadarnhau bod y ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn ymatal heddiw yn golygu y bydd yn parhau i weithio gyda ACau gogledd Cymru, y clinigwyr, y bwrdd iechyd a'r cyhoedd i ddod o hyd i ateb arall er mwyn sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn parhau yng Nglan Clwyd ?
- 16:46 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Dirprwy Lywydd, let me be clear: there's nothing in what I'm saying now about the legal decision that I must make in determining the CHC's referral that prevents the Welsh Government from continuing to be involved in the work of the health board to look at the decision it has made and—as I'll say again a little bit later, I hope—in taking seriously any alternative proposals that may be made to them for their consideration. I'm very happy to put that on the record.
- Ddirprwy Lywydd, gadewch i mi fod yn glir: nid oes dim yn yr hyn rwy'n ei ddweud yn awr am y penderfyniad cyfreithiol y mae'n rhaid i mi ei wneud wrth benderfynu ar atgyfeiriad y Cyngor Iechyd Cymuned sy'n atal Llywodraeth Cymru rhag parhau i fod yn rhan o waith y bwrdd iechyd i edrych ar y penderfyniad y mae wedi'i wneud, ac—fel y byddaf yn ei ddweud eto ychydig yn nes ymlaen gobeithio—o ran rhoi ystyriaeth ddifrifol i unrhyw gynigion amgen y gellir eu gwneud iddynt eu hystyried. Rwy'n hapus iawn i hynny gael ei gofnodi.

I do just need to complete my explanation, however, for the reason why I am asking Government Members to abstain when we come to voting. There has been a significant litigious history that has surrounded determinations under those regulations in the recent past, and I wanted to be scrupulously clear that no vote cast on the Government side this afternoon could be construed as standing in the way of my taking an informed and considered view of the issue referred to me, nor as predetermining the decision I have to make.

So, Dirprwy Lywydd, that does not, I believe, prevent me from participating in this important debate, nor from attempting to respond to some of the points made during it. I take very seriously the points that have been this afternoon about the public mood in north Wales and the strength of feeling expressed by many about the temporary changes announced recently by the local health board. What I want to try and do for a moment, though, is to explain something of the context in which that decision has been made.

The health board came to its conclusion after receiving independent clinical advice, which was commissioned in direct response to concerns about patient safety raised by whistleblowers in 2013. I don't want to read out again the details of the Steele report and the report of the Royal College of Obstetricians and Gynaecologists, but I don't think any Member here should not take seriously the points that those reports have made about the professional culture within the service at Ysbyty Glan Clwyd, some of the working practices in the department and the recommendations that the report made for improvements to those services. That includes changes to professional practice and culture in relation to professional leadership, and support and staff development to assist the implementation of the changes.

I've heard Members say around the Chamber that the health board has been able to make some progress with those recommendations and I recognise that. But, it does appear that the concerns were there about this unit and they weren't just in those reports, were they? Members here will be aware of the longer history that has surrounded that unit, but that history has had an impact on the ability of the board to recruit substantively to the unit; not in consultants, because Ysbyty Glan Clwyd has a full complement of seven consultants, but in the middle-grade doctors, who are required in order to go on providing a safe and sustainable obstetric service for mothers and babies in that area. In the end, Llywydd, when all the things that we've heard are said and taken seriously, we have to recognise that that must be the paramount consideration for any NHS organisation: ensuring that services are safe for those who need them the most.

Fodd bynnag, mae angen i mi gwblhau fy eglurhad am y rheswm pam rwy'n gofyn i Aelodau Llywodraeth ymatal pan ddaw'n amser pleidleisio. Mae cryn dipyn o gyfreitha wedi bod ynghlwm wrth benderfyniadau o dan y rheoliadau hyn yn y gorffennol diweddar, ac roeddwn am fod yn gwbl glir na ellid dehongli bod unrhyw bleidlais a fwir ar ochr y Llywodraeth y prynhawn yma yn sefyll yn fy ffordd rhag ffurfio barn wybodus ac ystyriol ynghylch y mater a atgyfeiriwyd ataf, nac yn rhagbennu'r penderfyniad sy'n rhaid i mi ei wneud.

Felly, Ddirprwy Lywydd, nid yw hynny, yn fy marn i, yn fy atal rhag cymryd rhan yn y ddaol bwysig hon, na rhag ceisio ymateb i rai o'r pwyntiau a wnaed yn rhan ohoni. Rwy'n sicr o ddirif ynghylch y pwyntiau a wnaed y prynhawn yma ynglŷn â'r teimlad cyhoeddus yng ngogledd Cymru a chryfder y teimlad a fynegwyd gan lawer ynghylch y newidiadau dros dro a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y bwrdd iechyd lleol. Yr hyn rwyf am geisio ei wneud am eiliad, fodd bynnag, yw esbonio rhywfaint o'r cyd-destun y gwneud y penderfyniad hwnnw ynddo.

Daeth y bwrdd iechyd i'w gasgliad ar ôl cael cyngor clinigol annibynnol a gomisiynwyd mewn ymateb uniongyrchol i bryderon am ddiogelwch cleifion a godwyd gan chwythwyr chwiban yn 2013. Nid wyf am ddarllen manylion adroddiad Steele ac adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynecolegwyr eto, ond credaf y dylai pob Aelod yma gymryd o ddirif y pwyntiau a wnaed yn yr adroddiadau hynny am y diwylliant proffesiynol o fewn y gwasanaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, rhai o'r arferion gweithio yn yr adran a'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar gyfer gwelliannau i'r gwasanaethau hynny. Mae hynny'n cynnwys newidiadau i arferion a diwylliant proffesiynol mewn perthynas ag arweinyddiaeth broffesiynol, a chefnogi a datblygu staff i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r newidiadau.

Rwyf wedi clywed Aelodau'n dweud yn y Siambr fod y bwrdd iechyd wedi gallu gwneud rhywfaint o gynnydd gyda'r argymhellion hynny ac rwy'n cydnabod hynny. Ond mae'n ymddangos bod y pryderon yn bodoli am yr uned hon, onid oeddent, ac nid ymddangos yn yr adroddiadau'n unig a wnaent. Bydd Aelodau yma yn ymwybodol o'r hanes hwy sydd wedi bod ynghlwm wrth yr uned honno, ond mae hanes o'r fath wedi cael effaith ar allu'r bwrdd i recriwtio yn sylweddol i'r uned; nid o ran meddygon ymgynghorol, gan fod gan Ysbyty Glan Clwyd nifer llawn o saith o feddygon ymgynghorol, ond o ran meddygon canolradd, sydd eu hangen er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth obstetreg diogel a chynaliadwy ar gyfer mamau a babanod yn yr ardal. Yn y pen draw, Llywydd, pan fydd yr holl bethau rydym wedi eu clywed wedi cael eu dweud a'u cymryd o ddirif, mae'n rhaid i ni gydnabod mai dyna fydd y brif ystyriaeth ar gyfer unrhyw sefydliad GIG: sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel ar gyfer y rhai sydd fwyaf o'u hangen.

The context within which the health board has reached its conclusion has to take all those considerations into account, but the amendments that have been put down in the Government's name, I think, are designed to address this issue. It's a real issue, and I've heard it around the Chamber and, again, I think the health board have to listen to what has been said. But, when change is needed—and change is always difficult in the health service—then the case for change, when change is required, must be made unambiguously. There must be a clear message for local populations, who otherwise are concerned and made anxious about change, that they hear a single message. That's why Members here will have heard the First Minister say repeatedly and with absolute clarity that the service must be restored to Ysbyty Glan Clwyd within 12 months. The health board has been left in no doubt whatsoever of that necessity.

The same certainty also exists, as the second element of the Government amendment makes clear, in relation to the SuRNICC. Not for the first time, Dirprwy Lywydd, I find myself frustrated at the difficulty that some health boards appear to encounter in communicating clearly what they are doing to their local population. BCU health board—

Mae'r cyd-destun y mae'r bwrdd iechyd wedi dod i'w gasgliadau o'i fewn yn gorfod rhoi sylw i'r holl ystyriaethau hynny, ond rwy'n credu bod y gwelliannau a nodwyd yn enw'r Llywodraeth wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'n broblem wirioneddol, ac rwyf wedi ei chlywed o gwmpas y Siambr ac unwaith eto, rwy'n meddwl bod yn rhaid i'r bwrdd iechyd wrando ar yr hyn a ddywedwyd. Ond pan fo angen newid—ac mae newid bob amser yn anodd yn y gwasanaeth iechyd—rhaid cyflwyno'r achos drosto'n ddiamwys. Rhaid i'r neges fod yn glir ar gyfer poblogaethau lleol a fyddai fel arall yn bryderus ac yn ofidus ynglŷn â newid. Rhaid iddynt glywed yn neges. Dyna pam y bydd yr Aelodau yma wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud dro ar ôl tro yn gwbl eglur fod yn rhaid i'r gwasanaeth gael ei adfer i Ysbyty Glan Clwyd o fewn 12 mis. Ni adawyd i'r bwrdd iechyd fod mewn unrhyw amheuaeth o gwbl ynglŷn â'r rheidrydd hwnnw.

Mae'r un sicrwydd yn bodoli hefyd, fel y mae'r ail elfen yng ngwelliant y Llywodraeth yn egluro, mewn perthynas â'r ganolfan is-ranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig. Nid am y tro cyntaf, Ddirprwy Lywydd, rwy'n teimlo'n rhwystredig ynglŷn â'r anhawster y mae rhai byrddau iechyd i'w weld yn ei gael i gyfathrebu'n glir yr hyn y maent yn ei wneud i'w poblogaeth leol. Mae bwrdd iechyd prifysgol Betsi Cadwaladr—

16:51 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rŷch chi'n sôn am gysylltu â'r cyhoedd—y bwrdd i gysylltu â'r cyhoedd—ond faint o gysylltiad sydd wedi bod rhwng y Llywodraeth a'r bwrdd ynglŷn â'r SuRNICC yma a'r cadarnhad bod y SuRNICC yn mynd i ddod?

You mention communicating with the public—the board communicating with the public—but how much contact has there been between the board and the Government on the SuRNICC and the confirmation that the SuRNICC is going to be established?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:52 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased to answer that question, and I'm pleased, as well, to say that, in the contributions we've heard this afternoon, I very much agreed with a large number of the points that were made by Alun Ffred Jones, when he recognised that the Betsi Cadwaladr board is made up of people from the Betsi Cadwaladr area. They are good people. They are doing their best. They deserve not to be attacked on the grounds that, somehow, they do not have the best interests of the local population at heart. I agreed with what he said earlier about the need for co-operation across the whole of north Wales. My frustration is that, as Government, I am aware of a series of actions that the board has taken to support the SuRNICC decision. I set them out in information that I circulated to Members only a few days ago. The health board has to be better at doing that on its own account, so that people in the locality are aware of the plans that it has in place and the steps that it has taken.

Rwy'n falch iawn o ateb y cwestiwn hwnnw, ac rwy'n falch hefyd i ddywed fy mod yn cytuno â nifer fawr o'r pwytiaid a wnaeth Alun Ffred Jones yn y cyfraniadau a glywsom y prynhawn yma pan oedd yn cydnabod bod bwrdd Betsi Cadwaladr wedi'i gyfansoddi o bobl o ardal Betsi Cadwaladr. Maent yn bobl dda. Maent yn gwneud eu gorau. Nid ydynt yn haeddu cael eu sarhau ar ryw sail nad budd gorau'r boblogaeth leol sydd agosaf at eu calonnau. Roeddwn yn cytuno â'r hyn a ddywedodd yn gynharach am yr angen i gydweithredu ar draws gogledd Cymru i gyd. Yr hyn sy'n peri rhwystredigaeth i mi fel aelod o'r Llywodraeth yw fy mod yn ymwybodol o gyfres o gamau y mae'r bwrdd wedi'u cymryd i gefnogi'r penderfyniad ynghylch y ganolfan is-ranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig. Nodais hwy yn y wybodaeth a ddosberthais i'r Aelodau ychydig ddyddiau'n ôl yn unig. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fod yn well am wneud hynny drosto'i hun, er mwyn i bobl yn yr ardal fod yn ymwybodol o'r cynlluniau sydd ganddo ar waith a'r camau y mae wedi'u cymryd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I end, Dirprwy Lywydd, because I know I'm out of time, simply by reinforcing a point that I made in the very first letter I wrote to local health boards and that the First Minister has repeated here? In this difficult period, if there are alternative ideas, if there are plans that people who work in the service are able to come forward with—those proposals would need to be realistic and specific enough to be deliverable—but if those plans and ideas are there, I expect the health board to take them seriously. I expect them to discuss them with the people who bring them forward, and I expect them to make explanations if, in the end, the best available advice still stays to the board that the temporary suspension of the current service, so that it can be rapidly rebuilt, remains the course of action that they have to put into practice. Thank you very much.

A gaf fi orffen yn syml iawn, Ddirprwy Lywydd, gan fy mod yn gwybod nad oes amser ar ôl gennyf, drwy atgyfnerthu pwynt a wnes yn y llythyr cyntaf a ysgrifennais at fyrddau iechyd lleol a phwynt y mae'r Prif Weinidog wedi ei ailadrodd yma? Yn y cyfnod anodd hwn, os oes syniadau amgen, os oes cynlluniau y gall pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth eu cyflwyno—byddai'n rhaid i'r argymhellion fod yn ddigon realistig a phenodol i'w cyflawni—ond os yw'r cynlluniau a'r syniadau yno, rwy'n disgwyl i'r bwrdd iechyd fod o ddifrif yn eu cylch. Rwy'n disgwyl iddynt eu trafod gyda'r bobl sy'n eu cyflwyno ac rwy'n disgwyl iddynt egluro os mai'r cyngor gorau yn y pen draw i'r bwrdd o hyd fydd atal y gwasanaeth presennol dros dro er mwyn ei ailddatblygu'n gyflym, ac mai dyna yw'r llwybr sy'n rhaid iddynt ei ddilyn o hyd. Diolch yn fawr iawn.

16:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to reply to the debate.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddafl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:54 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to everyone who has taken part in this debate. I was pleased to hear the Minister say that he will be encouraging the Government to abstain on this vote today, because I think it is appropriate that he keeps his powder dry to be able to intervene should that be necessary as a result of the request from the community health council in north Wales. It would be helpful, Minister, if you could perhaps set out the timescale by which you expect to make a decision on that request to referral. Perhaps you could do that now if that's possible.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddafl hon. Roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn dweud y bydd yn annog y Llywodraeth i ymatal ar y bleidlais hon heddiw, oherwydd credaf ei bod yn briodol iddo ymneilltuo er mwyn iddo allu ymyrryd pe bai angen o ganlyniad i gais y cyngor iechyd cymuned yng ngogledd Cymru. Efallai y byddai'n ddefnyddiol, Weinidog, pe gallech nodi'r amserlen erbyn pryd rydych yn disgwyl gwneud penderfyniad ar y cais i atgyfeirio. Efallai y gallech wneud hynny yn awr os yw hynny'n bosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:54 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dirprwy Lywydd, I'm happy to say that I hope to take that decision as soon as I can. I must do it on the basis of full and proper legal advice, but I don't expect that advice to be delayed for too long.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n hapus i ddweud fy mod yn gobeithio gwneud y penderfyniad cyn gynted ag y gallaf. Mae'n rhaid i mi ei wneud ar sail cyngor cyfreithiol llawn a phriodol, ond nid wyf yn disgwyl y bydd y cyngor hwnnw'n rhy hir yn dod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:55 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that, Minister. As you will know, the community health council is clearly of the view that this should not have been dealt with as an urgent change, given the fact that, on the one hand, the health board in north Wales is saying, 'This is an urgent change we need to make immediately', but yet it is also a pre-emptive change. That does seem rather extraordinary.

Diolch am hynny, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae'r cyngor iechyd cymuned yn amlwg o'r farn na ddylai hwn fod wedi cael ei drin fel newid ar frys, o ystyried y ffaith fod y bwrdd iechyd yng ngogledd Cymru yn dweud ar y naill law, 'Mae hwn yn newid ar frys sydd angen i ni ei wneud ar unwaith', ond mae hefyd yn newid rhagataliol. Mae hynny'n ymddangos yn anghyffredin braidd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As Aled Roberts quite rightly pointed out, this was first mooted by the health board back in July of last year, according to its board papers. We know also that it had ample opportunity to prepare a glossy leaflet on its proposals, which was distributed at the health board meeting on 10 February, and yet it didn't have time to pick up the phone earlier to the community health council, to the consultants, to the midwifery staff, to the trade unions, to the elected representatives of north Wales, or even to the Welsh ambulance service, on which many of these plans and proposals rely. Not only that, but, of course, the glossy document that they produced is also full of errors. It's actually littered with inaccuracies. So, it is rather disappointing that they had the opportunity to prepare that, and yet didn't have the opportunity to pick up the phone and engage with those people, who they, frankly, have a duty to engage with in accordance with Welsh Government guidance. It's no wonder, therefore, that the BMA had a vote of no confidence yesterday at their Clwyd North division and that, quite rightly, people have pointed out that, rapidly, the public of north Wales are losing confidence in the health board.

The board, of course, has said that they want to minimise risks to people, quite rightly. That should be one of their aims. They want to have the best possible outcomes for mothers and their babies, and yet, when taking the decision, there were no full risk assessments attached to the decision that they were being asked to make. Instead, there was a suggestion that they should ascertain the risks after 10 February, while the implementation was taking place, up until 6 April. I've never heard anything so ridiculous in my life. Not only that, but they were not prepared to share the board papers on which the decision was being made until minutes before the board actually sat to discuss the issue. This is directly criticised, of course—this sort of behaviour—in the 2013 Wales Audit Office—Healthcare Inspectorate Wales report. Exactly the same sort of behaviour. The pattern is there, and it's been, unfortunately, repeated. I want to see them improve their governance practices, and that's why I'm pleased that they're going to be before the Public Accounts Committee next week, where, no doubt, there'll be some questions raised about them.

The health board also claim, of course, that they have faced recruitment challenges. As many other Members have said, we are yet to receive copies of any information in relation to the recruitment efforts that have been made. I understand, from speaking to the chair of the health board, that there have been at least two adverts in the past 12 months. Well, frankly, that's not good enough. I know that those adverts were not put in places like the 'British Medical Journal', the obvious place to advertise for the people whom the health board were trying to recruit.

Fel y nododd Aled Roberts yn gwbl briodol, cafodd hyn ei grybwyll gyntaf gan y bwrdd iechyd yn ôl ym mis Gorffennaf y llynedd, yn ôl ei bapurau bwrdd. Rydym hefyd yn gwybod ei fod wedi cael digon o gyfle i baratoi taflen sgleiniog ar ei gynigion, a ddosbarthwyd yng nghyfarfod y bwrdd iechyd ar 10 Chwefror, ac eto ni chafodd amser i godi'r ffôn yn gynharach i roi gwybod i'r cyngor iechyd cymuned, i feddygon ymgynghorol, i'r staff bydweigiaeth, i'r undebau llafur, i gynrychiolwyr etholedig gogledd Cymru na hyd yn oed i wasanaeth ambiwlans Cymru y mae llawer o'r cynlluniau a'r cynigion hyn yn ddibynnol arnynt. Nid yn unig hynny, ond wrth gwrs, mae'r ddogfen sgleiniog a gynhyrchwyd ganddynt hefyd yn llawn o wallau. A dweud y gwir, mae'n llawn o gamgymeriadau. Felly, mae'n siomedig braidd eu bod wedi cael cyfle i baratoi'r daflen honno ond heb gael cyfle i godi'r ffôn ac ymgysylltu â'r bobl hynny y mae'n ddyletswydd arnynt, a dweud y gwir, i ymgysylltu â hwy yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nid yw'n syndod, felly, fod y BMA wedi pasio pleidlais o ddiffyg hyder ddoe yn eu hisadran ar gyfer gogledd Clwyd a bod pobl wedi nodi'n gwbl briodol fod y cyhoedd yng ngogledd Cymru yn prysur golli hyder yn y bwrdd iechyd.

Mae'r bwrdd, wrth gwrs, wedi dweud eu bod am leihau'r risgiau i bobl, ac mae'n gywir i ddweud hynny. Dylai fod yn un o'u hamcanion. Maent yn awyddus i gael y canlyniadau gorau posibl i famau a'u babanod, eto i gyd, wrth wneud y penderfyniad, ni wnaed unrhyw asesiadau risg llawn mewn cysylltiad â'r penderfyniad roedd gofyn iddynt ei wneud. Yn lle hynny, cafwyd awgrym y dylent bennu'r risgiau ar ôl 10 Chwefror tra oedd y penderfyniad yn cael ei weithredu, hyd nes 6 Ebrill. Nid wyf erioed wedi clywed unrhyw beth mor ynfyd yn fy mywyd. Nid yn unig hynny, nid oeddent yn barod i rannu'r papurau bwrdd a oedd yn sail i'r penderfyniad hyd nes rai munudau cyn i'r bwrdd gyfarfod i drafod y mater mewn gwirionedd. Caiff hyn ei feirniadu'n uniongyrchol, wrth gwrs—y math hwn o ymddygiad—yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2013. Yn union yr un math o ymddygiad. Mae'r patrwm yno, ac yn anffodus, mae wedi cael ei ailadrodd. Rwyf am eu gweld yn gwella eu harferion llywodraethu, a dyna pam rwy'n falch eu bod yn mynd i fod gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr wythnos nesaf, lle y bydd cwestiynau'n cael eu codi yn eu cylch, yn ddiâu.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn honni, wrth gwrs, eu bod wedi wynebu heriau recriwtio. Fel y mae llawer o'r Aelodau eraill wedi dweud, rydym eto i gael copiau o unrhyw wybodaeth o ran yr ymdrechion recriwtio a wnaed. O siarad â chadeirydd y bwrdd iechyd, deallaf fod dau hysbyseb fan lleiaf wedi bod dros y 12 mis diwethaf. Wel, a bod yn onest, nid yw hynny'n ddigon da. Gwn na chafodd yr hysbysebion eu rhoi mewn manau fel y 'British Medical Journal', y lle amlwg i hysbysebu am y bobl roedd y bwrdd iechyd yn ceisio'u recriwtio.

In addition to that, of course, the health board has this arbitrary 25 per cent rule in terms of the number of locum posts that it's prepared to accept within a clinical discipline at any one time, and says that it's a concern that it has popped up to 50 per cent. Yet, there's no academic evidence that I've seen to support the suggestion that a service becomes unsafe if you have more than 25 per cent of your clinicians being locums on a ward. Let's face it, locums are qualified doctors who are there—very often, they are experienced doctors who are semi-retired and choose a locum career as a lifestyle choice. So, frankly, I just do not accept their arguments that they've made sufficient attempts to be able to recruit. We know that the locums at Ysbyty Glan Clwyd have not been approached or offered any kind of extended contracts in order to plug the gaps that there have been in the rotas.

The health board also tell us, of course, that they simply cannot sustain three rotas across north Wales and that they will not be able to do it in the future either, because the recruitment challenges are becoming more severe for those middle-grade doctors. Yet, they tell us that they will be able to restore things in 12 months' time. Well, what's true? If they're going to be able to restore things in 12 months' time, why don't they get on and do it now—the action that they're prepared to take in order that we can plug those gaps on the rota?

We are told that middle-grade doctors are in very short supply, and yet, on the other hand, we're also told that if the changes are implemented, there'll be big middle-grade doctor gaps, even bigger than the gaps that are currently with the consultant teams, in other clinical disciplines, particularly in anaesthetics. So, I think it's very concerning that the health board has brought these proposals forward. I do believe, on the basis of the clinical evidence that I have received, that these decisions will put lives at risk. I think it's an insult to staff, frankly, not to have conversations with them before these very big decisions are made about service configuration, and I'm afraid, Jenny Rathbone, that it's been an insult to staff today for you to compare the situation to the situation in Morecambe Bay. It is nothing like the situation in Morecambe Bay at Ysbyty Glan Clwyd. I want to put on record, actually, that Ysbyty Glan Clwyd has the lowest maternal death rate of all the three hospitals in north Wales, it has the lowest neonatal mortality rate of all the hospitals in north Wales, and it has the lowest brain damage by asphyxiation rate of neonates of all the hospitals in north Wales. If that's not a safe service, I don't know what is.

Yn ogystal â hynny, wrth gwrs, mae gan y bwrdd iechyd y rheol fymrwyl nad yw'n barod i dderbyn mwy na 25 y cant o staff locwm mewn disgyblaeth glinigol ar unrhyw adeg, ac mae'n dweud mai testun pryder oedd gweld hyn yn codi i 50 y cant. Eto i gyd, ni welais dystiolaeth academaidd i gefnogi'r awgrym fod gwasanaeth yn annigol os oes gennyh fwy na 25 y cant o'ch clinigwyr yn staff locwm ar ward. Gadewch i ni wynebu'r peth, mae meddygon locwm yn feddygon cymwys—yn aml iawn, meddygon profiadol ydynt sydd wedi ymddeol yn rhannol ac wedi dewis gyrfa locwm fel ffordd o fyw. Felly, a dweud y gwir, nid wyf yn derbyn eu dadleuon eu bod wedi gwneud digon o ymdrech i allu recriwtio. Fe wyddom nad oedd neb wedi cysylltu â meddygon locwm yn Ysbyty Glan Clwyd na chynnig unrhyw fath o gontract estynedig er mwyn llenwi'r bylchau yn y rotâu.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn dweud wrthym, wrth gwrs, nad oes unrhyw fodd y gallant gynnal tri phatrwm rota ar draws gogledd Cymru ac na fyddant yn gallu gwneud hynny yn y dyfodol chwaith, gan fod yr heriau i recriwtio meddygon canolradd yn mynd yn fwy difrifol. Eto i gyd, maent yn dweud wrthym y byddant yn gallu adfer pethau ymhen 12 mis. Wel, beth sy'n wir? Os ydynt yn mynd i allu adfer pethau ymhen 12 mis, pam nad ydynt yn bwrw ymlaen â gwneud hynny'n awr—y camau y maent yn barod i'w cymryd er mwyn i ni allu llenwi'r bylchau yn y rota?

Dywedir wrthym fod meddygon canolradd yn brin iawn, ac ar y llaw arall, dywedir wrthym os gweithredir y newidiadau, y bydd bylchau mawr yn y ddarpariaeth o feddygon canolradd mewn disgyblaethau clinigol eraill, yn enwedig anaestheteg, bylchau mwy na'r hyn a welir yn y timau ymgynghorol ar hyn o bryd hyd yn oed. Felly, rwy'n credu bod pryder mawr fod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r cynigion. Ar sail y dystiolaeth glinigol a gefais, rwy'n credu y bydd y penderfyniadau hyn yn rhoi bywydau mewn perygl. A dweud y gwir, rwy'n credu ei bod yn sarhad ar y staff na chafwyd trafodaethau gyda hwy cyn gwneud y penderfyniadau mawr ynghylch ail-lunio gwasanaethau, ac yn anffodus, Jenny Rathbone, mae cymharu'r sefyllfa heddiw â'r un yn Morecambe Bay hefyd yn sarhad ar y staff. Nid yw'r sefyllfa yn Ysbyty Glan Clwyd yn debyg i'r un yn Morecambe Bay. Mewn gwirionedd, rwyf am gofnodi mai Ysbyty Glan Clwyd sydd â'r gyfradd isaf o farwolaethau ymhlith mamau o'r tri ysbyty yng ngogledd Cymru, y gyfradd isaf o farwolaethau ymhlith babanod newydd-anedig o bob un o ysbytai gogledd Cymru, a'r gyfradd isaf o achosion o niwed i'r ymennydd drwy asffycsia ymhlith babanod newydd-anedig o bob un o ysbytai gogledd Cymru. Os nad yw hynny'n wasanaeth diogel, nid wyf yn gwybod beth sydd.

17:00

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you accept that it has the highest caesarean rate in Wales? Antoinette made big play of how there was a lot of people with complications who went to Glan Clwyd, but there's a lot of people who go with complications to the Cardiff hospital at the Heath, and they have a much lower caesarean rate.

A ydych yn derbyn bod ganddo'r gyfradd uchaf o driniaethau Cesaraid yng Nghymru? Gwnaeth Antoinette yn fawr o'r ffordd roedd llawer o bobl â chymhlethodau yn mynd i ysbyty Glan Clwyd ond mae llawer o bobl â chymhlethodau yn mynd i ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd ac mae'r gyfradd o driniaethau Cesaraidd lawer yn is yno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:01

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It's very clear that the higher risk births go to Glan Clwyd and, as a result of that, it has a higher caesarean rate than would otherwise be the case.

Mae'n amlwg iawn fod y genedigaethau risg uwch yn mynd i ysbyty Glan Clwyd ac o ganlyniad i hynny, mae'r gyfradd o driniaethau Cesaraidd yn uwch nag y byddai fel arall.

I think it's also important to pay tribute to the staff in that ward, who deliver those services to such a high quality. Those people are being told at the moment—some of them are being told—that their jobs may not be secure in the future. They're being required to work an hour away from where they live, and ferried around in taxis, if necessary, to get them backwards and forwards. One hundred and fifty staff are going to be affected by the changes that have been proposed, and they were issued early on—revoked since—gagging orders not to speak out about their concerns about the proposals. I think that is unacceptable.

Rwy'n credu hefyd ei bod yn bwysig talu teyrnged i staff y ward sy'n darparu gwasanaethau o safon mor uchel. Mae'r bobl hynny'n cael gwybod ar hyn o bryd—mae rhai ohonynt yn cael gwybod—efallai na fydd eu swyddi'n ddiogel yn y dyfodol. Mae gofyn iddynt weithio awr o bellter i ffwrdd o lle y maent yn byw, a chael eu cludo yno ac yn ôl mewn tacsis os oes angen. Mae cant a hanner o staff yn mynd i gael eu heffeithio gan y newidiadau a gynigiwyd ac yn gynnar iawn cawsant orchymyn—sydd wedi ei ddirymu ers hynny—i beidio â siarad yn gyhoeddus am eu pryderon ynghylch y cynigion. Credaf fod hynny'n annerbyniol.

If I can just deal very briefly with the issue of trust, there is a lack of trust in the board's decision-making processes. There is a lack of trust and confidence in the commitment to the delivery of these services back at Glan Clwyd in the future. I take on board the comments that have been made about the delivery of the sub-regional neonatal intensive care centre. I very much want to see it at my hospital in Glan Clwyd, but, unfortunately, we have seen, of course, similar promises broken—even by Governments—in the past. So, we must make sure that these services are retained at the hospital in Bodolwyddan because we have a race against the clock to be able to come up with a suitable alternative. I know the consultants are working hard. They are engaged with the health board in trying to come up with an alternative solution, and I very much hope, Minister, that, when that is presented to the Welsh Government, your deputy chief medical officer and your chief nursing officer will give it just as thorough a thumbs-up as the proposal that they had already previously considered and you independently asked them to reassess. Thank you.

Os caf fi ymdrin yn fyr iawn â mater ymddiriedaeth, ceir diffyg ymddiriedaeth ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r bwrdd. Mae diffyg ymddiriedaeth a hyder yn yr ymrwymiad i ailddarparu'r gwasanaethau hyn yng Nglan Clwyd yn y dyfodol. Rwy'n derbyn y sylwadau a wnaed ynglŷn â darpariaeth y ganolfan is-ranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig. Rwy'n awyddus iawn i'w gweld yn fy ysbyty yng Nglan Clwyd, ond yn anffodus wrth gwrs, gwelom addewidion tebyg yn cael eu torri—hyd yn oed gan Lywodraethau—yn y gorffennol. Felly, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod y gwasanaethau hyn yn cael eu cadw yn yr ysbyty ym Modelwyddan gan ei bod yn ras yn erbyn y cloc i ddod o hyd i ateb arall addas. Gwn fod y meddygon ymgynghorol yn gweithio'n galed. Maent yn ymgysylltu â'r bwrdd iechyd i geisio dod o hyd i ateb arall, ac rwy'n gobeithio'n fawr, Weinidog, pan gaiff yr ateb hwnnw ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, y bydd eich dirprwy brif swyddog meddygol a'ch prif swyddog nyrsio yn rhoi cefnogaeth yr un mor drylwyr iddo â'r cynnig a ystyriwyd ganddynt yn flaenorol ac y gofynnodd iddynt ei ailystyried yn annibynnol. Diolch yn fawr.

17:02

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

5. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Plant, Pobl Ifanc a Thlodi

5. Welsh Liberal Democrats Debate: Children, Young People and Poverty

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw yn enw Elin Jones, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Paul Davies.

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones, and amendments 2, 3 and 4 in the name of Paul Davies.

17:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 5 is the Welsh Liberal Democrats debate on children, young people and poverty. I call on Peter Black to move the motion.

Eitem 5 yw dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar blant, pobl ifanc a thlodi. Galwaf ar Peter Black i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5727 Aled Roberts

Motion NDM5727 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod un ym mhob tri o blant yng Nghymru yn byw o dan y llinell dlodi.
2. Yn nodi bod gan Gymru y lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf yn y DU, sy'n cael effaith arbennig o negyddol ar gymunedau difreintiedig.
3. Yn nodi bod cyfraddau gordewdra ymhlith plant, cyfraddau ysmegu ymhlith menywod ifanc a chyfraddau yfed alcohol ymysg pobl ifanc yn waeth yng Nghymru nag yn Lloegr.
4. Yn nodi bod pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru yn yfed mwy o alcohol bob wythnos nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.
5. Yn croesawu'r cytundeb cyllidebol diweddar rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru a fydd yn cynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion i £1,150 fesul disgybl, yn ymestyn y grant i blant o dan bump oed, ac yn cyflwyno tocynnau rhatach i deithwyr ifanc.
6. Yn credu y dylai pobl gael eu grymuso i fyw'r bywyd y maent am ei fyw ac nad oes lle i laesu dwylo yn y frwydr i sicrhau cydraddoldeb i bawb.
7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
 - a) ddarparu mynediad at y fenter Dechrau'n Deg i bob plentyn yng Nghymru ar sail angen yn hytrach na lleoliad daearyddol;
 - b) gwella'r system o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a sefydlu academi arweinyddiaeth mewn addysg i Gymru;
 - c) diwygio'r fframwaith Estyn i sicrhau bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar addysg a bwyta'n iach ac ymarfer corff mewn ysgolion;
 - d) canolbwyntio mwy o adnoddau ar annog pobl ifanc i roi'r gorau i ysmegu a mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon; ac
 - e) sicrhau bod pob prentis yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf sy'n rhoi cymwysterau cludadwy iddynt.

Cynigiwyd y cynnig.

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes that one in three Welsh children live below the poverty line.
2. Notes that Wales has the lowest education attainment levels in the UK, which has a particularly negative impact on deprived communities.
3. Notes that childhood obesity, female youth smoking rates and youth alcohol consumption rates are worse in Wales than in England.
4. Notes that Young people aged between 11 and 16 in Wales drink more alcohol each week than in any other part of the UK.
5. Welcomes the recent budget deal between the Welsh Liberal Democrats and Welsh Government which will increase the Pupil Deprivation Grant (PDG) to £1,150 per pupil, extend the PDG to under 5s, and introduce a Young Travellers' Youth Concessionary Fare.
6. Believes people should be empowered to lead the life they want to lead and there is no room for complacency in the battle to ensure equality for all.
7. Calls on the Welsh Government to:
 - a) provide access to the Flying Start initiative to all children across Wales on the basis of need rather than geographical location;
 - b) improve the system of continuous professional development for teachers and establish a Welsh Academy of Education Leadership;
 - c) amend the Estyn Framework to ensure that greater focus is given to education on healthy eating and exercise in schools;
 - d) focus more resources on the cessation of youth smoking and tackling illegal tobacco; and
 - e) ensure that all apprentices receive the highest quality of training that provides them with portable qualifications.

Motion moved.

Thank you, Deputy Presiding Officer. There is still too much inequality in Wales today, and further action is needed to address those inequalities. This motion proposes ways of ensuring equal opportunity for children and our young people. Our motion proposes equal access to Flying Start, lifting children out of poverty by providing the best education through improved training for teachers and the establishment of a Welsh academy of education leadership, more education resources to ensure healthy living for our young people, and that all apprentices are guaranteed high-quality training.

I'm proud that it was the Liberal Party that laid down the foundations for a fair society in Wales. It was a liberal, William Beveridge, who wrote the groundbreaking 1942 report on social justice. As we all know, he called for the Government to address the five giant evils of want, disease, ignorance, squalor and unemployment. Further back, it was another liberal, Lloyd George, who presented the 1909 People's Budget to raise money

'to wage implacable warfare against poverty and squalidness.'

Of course, that budget also started the introduction of old-age pensions. Lloyd George also, of course, commissioned Beveridge to write a number of other groundbreaking reports.

Following 16 years of Labour rule in Wales, our poorest communities have been let down again and again. One in three Welsh children live below the poverty line, and Wales has the lowest education attainment levels in the UK, which has a particularly negative impact on deprived communities. It's not just the Liberal Democrats that have given a negative verdict on the last 16 years. The 2014 Sheffield Hallam University report on the state of the coalfields study found that it's clear that, of all the former mining areas in Britain, those in south Wales remain the most socially and economically disadvantaged. The report went on to highlight that 17 per cent of adults of working age are on benefits in the Valleys, higher than any other former mining community, and 20 per cent of working-age adults in the Valleys have no qualifications, compared with a 15 per cent national average. We cannot go on like this. We need radical action to address this inequality head-on. We need positive, proactive policies to resolve the issues. As we know, Wales is a wonderful place and it doesn't need to be this way.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Mae gormod o anghydraddoldeb yng Nghymru heddiw, ac mae angen gweithredu pellach i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hynny. Mae'r cynnig hwn yn argymhell ffyrdd o sicrhau cyfle cyfartal i blant a'n pobl ifanc. Mae ein cynnig yn argymhell mynediad cyfartal at fenter Dechrau'n Deg, gan godi plant allan o dodi drwy ddarparu'r addysg orau drwy well hyfforddiant i athrawon a sefydlu academi arweinyddiaeth mewn addysg i Gymru, mwy o adnoddau addysg i sicrhau bod ein pobl ifanc yn byw'n iach, a gwarantu bod pob prentis yn cael hyfforddiant o safon uchel.

Rwy'n falch mai'r Blaid Ryddfrydol a osododd y sylfeini ar gyfer cymdeithas deg yng Nghymru. Rhyddfrydwr, William Beveridge, a ysgrifennodd yr adroddiad arloesol ar gyfiawnder cymdeithasol yn 1942. Fel rydym i gyd yn gwybod, galwodd ar y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r pum drwg enfawr, sef angen, afiechyd, anwybodaeth, aflendid a diweithdra. Ymhellach yn ôl, rhyddfrydwr arall, Lloyd George, a gyflwynodd Gyllideb y Bobl 1909 i godi arian

'ar gyfer mynd i ryfel yn ddiostur yn erbyn tlodi ac aflendid.'

Wrth gwrs, y gyllideb honno hefyd a ddechreuodd gyflwyno pensiynau i'r henoed. Hefyd wrth gwrs, comisiynwyd Beveridge gan Lloyd George i ysgrifennu nifer o adroddiadau arloesol eraill.

Ar ôl 16 mlynedd o reolaeth Lafur yng Nghymru, mae ein cymunedau tlotaf wedi cael cam dro ar ôl tro. Mae un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw o dan y llinell tlodi, ac yng Nghymru y ceir y lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf yn y DU, sy'n cael effaith arbennig o negyddol ar gymunedau difreintiedig. Nid y Democratiaid Rhyddfrydol yn unig sydd wedi cyflwyno rheithfarn negyddol ar y 16 mlynedd diwethaf. Canfu Adroddiad Prifysgol Sheffield Hallam yn 2014 ar astudiaeth o gyflwr y meysydd glo ei bod hi'n amlwg, o'r holl hen ardaloedd glofaol ym Mhrydain, mai'r rhai yn ne Cymru yw'r rhai mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd o hyd. Aeth yr adroddiad ymlaen i dynnu sylw at y 17 y cant o oedolion o oedran gweithio sydd ar fudd-daliadau yn y Cymoedd, cyfradd uwch nag unrhyw un o'r hen gymunedau glofaol eraill, ac nid oes gan 20 y cant o oedolion o oedran gweithio yn y Cymoedd unrhyw gymwysterau, o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 15 y cant. Ni allwn barhau fel hyn. Mae angen gweithredu radical i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn yn uniongyrchol. Mae arnom angen polisiâu cadarnhaol a rhagweithiol i ddatrys y problemau. Fel y gwyddom, mae Cymru yn lle gwyach ac nid oes angen iddi fod fel hyn.

When the Welsh Liberal Democrats secured the £223 million two-year budget deal last autumn, our goal was to prioritise the futures of our children and young people and help to ensure opportunity for all from cradle to college. I'm proud that funding was secured for an additional pupil premium in Wales, so that children from the poorest backgrounds can achieve their full potential, for 5,000 new apprenticeships to improve the employment prospects of our young people, and, of course, for the youth concessionary fares scheme for 16 to 18-year-olds to enable them to access employment and educational opportunities.

I'm particularly pleased with our work on the pupil premium, which has invested that £282 million in the poorest school pupils in Wales. As the Open University says, education plays a key role in tackling inequality, raising aspirations and improving the economy. In 2014, the chief inspector of schools in Wales, Ann Keane, highlighted that too many pupils at present continue to be disadvantaged by poverty. Schools with high proportions of pupils entitled to free school meals do not currently perform as well as those with pupils from more advantaged backgrounds. This is wrong. We all know our children have the ability to achieve and they should not be hampered by the level of their family's wealth.

The investment in the Liberal Democrat pupil premium policy, to allow distinct initiatives to support disadvantaged learners, is already reaping rewards. In their January 2015 annual report, Ann Keane confirmed that the gap in performance between pupils eligible for free school meals and other pupils is narrowing. The 2014 national primary school test results in England also show how the pupil premium there is helping to close the attainment gap between disadvantaged children and their wealthier counterparts. The results of more than 0.5 million 11-year-olds at key stage 2 show the overall percentage achieving the expected level, that is level 4, in reading, writing and maths, has risen by three percentage points to 79 per cent. Two thirds of pupils on free school meals gained a level 4 in reading, writing and maths this year. This is up four percentage points on 2013 and compares with 83 per cent for non-disadvantaged pupils, reducing the attainment gap to 16 percentage points. However, more needs to be done. That's why the pupil premium will increase to £1,150 per pupil and be extended to under-fives. Schools should also focus the pupil premium specifically to support pupils eligible for free school meals.

Pan sicrhaodd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y fargen gyllidebol ddwy flynedd gwerth £223 miliwn yr hydref diwethaf, ein nod oedd rhoi blaenoriaeth i ddyfodol ein plant a'n pobl ifanc a helpu i sicrhau cyfle i bawb o'r crud i'r coleg. Rwy'n falch fod y cyllid wedi cael ei sicrhau ar gyfer premiwm disgyblion ychwanegol yng Nghymru, er mwyn i blant o'r cefndiroedd tlataf gyflawni eu potensial llawn, ar gyfer 5,000 o brentisiaethau newydd i wella rhagolygon cyflogaeth ein pobl ifanc, ac wrth gwrs, ar gyfer y cynllun tocynnau teithio rhatach i ieuencid rhwng 16 a 18 oed i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd addysgol.

Rwy'n arbennig o falch gyda'n gwaith ar y premiwm disgyblion sydd wedi buddsoddi £282 miliwn yn y disgyblion ysgol tlataf yng Nghymru. Fel y dywed y Brifysgol Agored, mae addysg yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan godi dyheadau a gwella'r economi. Yn 2014, amlygodd y prif arolygydd ysgolion yng Nghymru, Ann Keane, fod gormod o ddisgyblion ar hyn o bryd yn parhau i fod o dan anfantais oherwydd tlodi. Nid yw ysgolion â chyfrannau uchel o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal ar hyn o bryd â'r rhai sydd â disgyblion o gefndiroedd mwy breintiedig. Nid yw hyn yn iawn. Rydym i gyd yn gwybod bod gallu gan ein plant i gyflawni ac ni ddylent gael eu rhwystro gan lefel cyfoeth eu teuluoedd.

Mae'r buddsoddiad ym mholisi premiwm disgyblion y Democratiaid Rhyddfrydol i alluogi cynlluniau pendant i gefnogi dysgwyr dan anfantais eisoes yn dwyn ffrwyth. Yn eu hadroddiad blynyddol ym mis Ionawr 2015, cadarnhaodd Ann Keane fod y bwlch perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn culhau. Mae canlyniadau profion cenedlaethol 2014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Lloegr hefyd yn dangos sut y mae'r premiwm disgyblion yno yn helpu i gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion cyfoethocach. Mae canlyniadau mwy na 0.5 miliwn o blant 11 oed yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos bod y ganran gyffredinol sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg, wedi codi o dri phwynt canran i 79 y cant. Llwyddodd dwy ran o dair o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim i gyrraedd lefel 4 mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg eleni. Mae hyn bedwar pwynt canran yn uwch na 2013 ac yn cymharu â 83 y cant ymhlith disgyblion nad ydynt o dan anfantais, ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad i 16 pwynt canran. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy. Dyna pam y bydd y premiwm disgyblion yn codi i £1,150 y disgybl ac yn cael ei ymestyn i gynnwys plant o dan bump oed. Dylai ysgolion ganolbwyntio hefyd ar y premiwm disgyblion yn benodol i gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

We also need to do more to ensure that every child in need has a fair start in life. Wales has higher levels of child poverty than other nations in the UK. That is a shocking indictment of Government in Wales. The 2014 Social Mobility and Child Poverty Commission's 'State of the Nation' report, chaired by former senior Labour Minister Alan Milburn, warned that nearly half of three-year-olds in Wales in the poorest areas are failing to achieve the expected level of development for their age. Labour's Flying Start early years' programme, aimed to support families with children below four years of age in specified deprived areas, has a lot of merit, and we certainly support that programme. However, it's not appropriate that poor families that do not live in the Flying Start areas are excluded from the scheme. Our concerns have been echoed by the Social Mobility and Child Poverty Commission.

We believe that it is wrong that a family in great need living in a street just outside a Flying Start area, or in rural isolation, cannot access the same enhanced health visiting scheme or parenting support programmes. We do not believe that access to opportunity should depend on postcodes. The Liberal Democrats believe that there should be a more consistent approach and common criteria across Wales to access the scheme. Access to Flying Start should be based on need, rather than on geographical entitlement or position.

This motion proposes ways of addressing inequality faced by children and young people on lower income levels. My colleagues will outline in more detail some of the proposals in it. We believe that people and communities should be empowered to achieve their full potential and I hope that some of the proposals in this motion will go some way to addressing that particular objective. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Hefyd, mae angen inni wneud mwy i sicrhau bod pob plentyn mewn angen yn cael dechrau teg mewn bywyd. Mae gan Gymru lefelau uwch o dlodi plant na gwledydd eraill y DU. Dyna feirniadaeth ysgytiol ar y Llywodraeth yng Nghymru. Roedd adroddiad 'Cyflwr y Genedl' y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn 2014, o dan gadeiryddiaeth y cyn Weinidog Llafur Alan Milburn, yn rhybuddio bod bron i hanner y plant tair oed yng Nghymru yn yr ardaloedd tlotaf yn methu cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad ar gyfer eu hoedran. Mae llawer o rinweddau yn perthyn i raglen blyneddoddedd cynnar Dechrau'n Deg Llafur, sy'n anelu i gefnogi teuluoedd â phlant o dan bedair oed mewn ardaloedd difreintiedig dynodedig, ac rydym yn sicrhau yn cefnogi'r rhaglen honno. Fodd bynnag, nid yw'n briodol fod teuluoedd tlawd nad ydynt yn byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael eu heithrio o'r cynllun. Mae ein pryderon wedi cael eu hadleisio gan y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant.

Rydym yn credu ei bod yn anghywir na all teulu mewn angen mawr sy'n byw ar stryd sy'n ffinio ag ardal Dechrau'n Deg, neu mewn ardal wledig anghysbell, gael mynediad at gynllun gwasanaethau ychwanegol ymwelwyr iechyd neu raglenni cefnogi rhianta. Nid ydym yn credu y dylai mynediad at gyfle ddibynnu ar godau post. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn credu y dylid cael dull mwy cyson a meini prawf cyffredin ledled Cymru ar gyfer cael mynediad at y cynllun. Dylai mynediad at fenter Dechrau'n Deg fod yn seiliedig ar angen, yn hytrach nag ar hawl neu leoliad daearyddol.

Mae'r cynnig hwn yn argymhell ffyrdd o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a wynebir gan blant a phobl ifanc ar lefelau incwm is. Bydd fy nghyd-Aelodau'n amlinellu rhai o'r argymhellion ynddo yn fwy manwl. Credwn y dylai pobl a chymunedau gael eu grymuso i gyflawni eu potensial llawn ac rwy'n gobeithio y bydd rhai o'r argymhellion yn y cynnig hwn yn mynd rywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r amcan penodol hwnnw. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

17:09

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Lindsay Whittle to move amendment 1, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Amendment 1—Elin Jones

Cynnwys pwynt 5 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 5 and renumber accordingly:

Yn nodi'r cynnydd a ragwelir yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi i 3.4 miliwn ar draws y DU erbyn 2020 ac yn nodi hefyd effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y cynnydd mewn lefelau tlodi plant.

Notes the projected rise in the number of children living in poverty to 3.4 million across the UK by 2020 and further notes the impact of UK Government welfare reforms on rising child poverty levels.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

17:09

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'd like to formally move the amendment submitted in the name of Elin Jones and inform you that we will be supporting all of the amendments here today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn gynnig y gwelliant a gyflwynwyd yn enw Elin Jones yn ffurfiol a rhoi gwybod i chi y byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau yma heddiw.

Dirprwy Lywydd, no-one in this Chamber would oppose the principles and purposes of the motion on child poverty, but much of the detail does not directly address the causes of child poverty and how it can be eliminated or at least reduced. We know that the Welsh Government's original target of eliminating child poverty by the year 2020 is now completely unrealistic, and the fault, though, lies not entirely with the Welsh Government, but with the policies from Westminster. If we want to get anywhere near eliminating child poverty in Wales, then we have to stand up against those policies, such as those that attack the poor and the low-waged and those on benefits. It does nothing to help children out of poverty when their parents are in jobs that fail to pay a living wage. A living wage in Wales now would mean a decent pay rise for 250,000 Welsh workers.

We have to face up to the fact that benefit and welfare changes have been nothing short of a disaster for tens of thousands of people in Wales. Take universal credit: It does nothing to help people into work. In fact, it acts as a disincentive to work. The bedroom tax has done nothing more than severely disadvantage many people who are already disadvantaged. Where is the mention of income or welfare changes in today's motion? It's a family's income that has the most bearing on whether or not a child in Wales is growing up in poverty.

There are some heartening signs that the Flying Start programme will be extended to enable many mothers to enter or re-enter employment, but whilst I appreciate that expanding childcare and improving education standards in schools in more deprived areas will have some impact on a child's future, this is a long-term strategy. If we want to start tackling child poverty now, then we first of all need to stop attacking the poor and low-waged and those on benefits. We need to accept that families with children currently living on state benefits are not receiving enough to make ends meet, that even many of those in work are not making anywhere near enough to support their family adequately.

I urge all Westminster parties: you need to stop pandering to the English right-wing press. The fact is that another generation of children growing up in poverty is therefore less likely to be able to get out of it in their later lives too. The best step we can take to avoid this is to stop attacking and victimising those amongst us who are most in need and ensure that families have at least the basic amount to live on, and then we will seriously begin to address the long-entrenched problem of child poverty in our country.

Ddirprwy Lywydd, nid oes neb yn y Siambr hon a fyddai'n gwrthwynebu egwyddorion a dibenion y cynnig ar dlodi plant, ond nid oes llawer o'r manylion yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag achosion tlodi plant a sut y gellir ei ddileu neu o leiaf ei leihau. Rydym yn gwybod bod targed gwreiddiol Llywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn y flwyddyn 2020 bellach yn gwbl afrealistig, ac nid bai Llywodraeth Cymru yw hynny'n gyfan gwbl, fodd bynnag, ond yn hytrach, bai polisïau San Steffan. Os ydym am ddod yn agos at ddileu tlodi plant yng Nghymru, yna mae'n rhaid i ni sefyll yn erbyn y polisïau hynny, megis y rhai sy'n ymosod ar y tlawd a'r rhai ar gyflog isel ac ar fudd-daliadau. Nid yw'n gwneud dim i helpu plant allan o dlodi os yw eu rhieni mewn swyddi sy'n methu talu cyflog byw. Byddai cyflog byw bellach yn golygu codiad cyflog gweddus i 250,000 o weithwyr yng Nghymru.

Mae'n rhaid i ni wynebu'r ffaith fod newidiadau i fudd-daliadau a lles wedi bod yn drychineb i ddegau o filoedd o bobl yng Nghymru. Ystyriwch y credyd cynhwysol: nid yw'n gwneud dim i helpu pobl i gael gwaith. Yn wir, nid yw'n cynnig cymhelliad i weithio. Nid yw'r dreth ystafell wely wedi gwneud dim mwy na chreu anfantais i lawer o bobl sydd eisoes dan anfantais. Lle y mae'r sôn yn y cynnig heddiw am incwm neu newidiadau lles? Incwm teuluoedd sy'n dylanwadu fwyaf ar ba un a yw plentyn yn tyfu i fyny mewn tlodi yng Nghymru ai peidio.

Mae rhai arwyddion calonogol y bydd rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei hymestyn i alluogi llawer o famau i ddechrau neu i aildechrau gwaith, ond er fy mod yn sylweddoli y bydd ehangu gofal plant a gwella safonau addysg mewn ysgolion yn yr ardaloedd mwy difreintiedig yn cael rhywfaint o effaith ar ddyfodol plentyn, mae hon yn strategaeth hirdymor. Os ydym am ddechrau mynd i'r afael â thlodi plant yn awr, yn gyntaf oll mae angen i ni roi'r gorau i ymosod ar y tlawd a phobl ar gyflogau isel ac ar fudd-daliadau. Mae angen i ni dderbyn nad yw teuluoedd â phlant sydd ar hyn o bryd yn byw ar fudd-daliadau'r wladwriaeth yn cael digon i gael dau ben llinyn ynghyd, nad yw llawer o'r bobl sydd mewn gwaith hyd yn oed yn ennill yn agos at ddigon i gynnal eu teuluoedd yn ddigonol.

Rwy'n annog pob un o bleidiau San Steffan: mae angen i chi roi'r gorau i borthi gwasg adain dde Lloegr. Mae'n ffaith fod cenhedlaeth arall o blant sy'n cael eu magu mewn tlodi yn llai tebygol o allu dod allan ohono yn eu bywydau yn nes ymlaen hefyd. Y cam gorau y gallwn ei gyflawni i osgoi hyn yw rhoi'r gorau i erlid ac ymosod ar y rhai yn ein plith sydd fwyaf mewn angen a sicrhau bod teuluoedd yn cael y swm sylfaenol fan lleiaf i fyw arno. Yna byddwn yn dechrau mynd i'r afael o ddifrif â phroblem hirsefydlog tlodi plant yn ein gwlad.

17:12

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Paul Davies to move amendments 2, 3 and 4, tabled in his name.

Gwelliant 2—Paul Davies

Dileu pwynt 5.

Gwelliant 3—Paul Davies

Galwaf ar Paul Davies i gynnig gwelliannau 2, 3 a 4, a gyflwynwyd yn ei enw.

Gwelliant 2—Paul Davies

Dileu Pwynt 5.

Amendment 3—Paul Davies

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn is-bwynt 7b), dileu 'sefydlu academi arweinyddiaeth mewn addysg i Gymru' a rhoi yn ei le 'sichrau ei bod yn symud ymlaen yn effeithlon o'r ddarpariaeth newydd o addysg gychwynnol i athrawon'.

Gwelliant 4—Paul Davies

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

sichrau bod ysgolion yn dangos tystiolaeth eu bod yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion i helpu disgyblion o gartrefi incwm isel.

Cynigiwyd gwelliannau 2, 3 a 4.

In sub-point 7b), delete 'establish a Welsh Academy of Education Leadership' and replace with 'ensure it progresses effectively from new Initial Teacher Education provision'.

Amendment 4—Paul Davies

Add as a new sub-point at the end of motion:

ensure that schools show evidence that they are using the PDG to help pupils from low-income households.

Amendments 2, 3 and 4 moved.

17:12

Paul Davies [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I'm pleased to take part in this debate this afternoon, and I move the amendments tabled in my name.

I believe that it's essential that our children and young people are given the best possible opportunities through the education system in Wales, and that their education and training shapes an important part of their development into mature adults. Sadly, as noted in point 2 of today's motion, Wales has the lowest education attainment levels in the UK, which has a particularly negative impact on deprived communities across the country. Now, the UK Government Social Mobility and Child Poverty Commission, which the Member for South Wales West referred to, stated that too many poor children in Wales are being let down by the existing schools system, and warned that urgent action is needed to address education access gaps between England and Wales.

Now, Members across this Chamber will be aware of the very recent Children, Young People and Education Committee report into educational outcomes for children from low-income households, which reveal the need for greater school transparency on how they use the pupil deprivation grant. For example, in the Welsh Government's year 1 evaluation report of the programme, it's clear that only 60 per cent of children in primary schools and 72 per cent of children in secondary schools who benefitted from the pupil deprivation grant were eligible for free school meals or were looked-after children, showing that there is still a good deal of children across Wales not receiving the support that this grant is targeted at.

Indeed, following the committee's report, I hope that the Minister and his department will ensure that the regional consortia scrutinise schools' use of the pupil deprivation grant and make sure that it is channelled into evidence-based interventions to benefit pupils on free school meals and looked-after children and not to fill holes in schools' budgets.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl y prynhawn yma, ac rwy'n cynnig y gwelliannau a gyflwynwyd yn fy enw.

Credaf ei bod yn hanfodol sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau posibl drwy'r system addysg yng Nghymru, a bod eu haddysg a'u hyfforddiant yn rhan bwysig o'u datblygiad i ddod yn oedolion aeddfed. Yn anffodus, fel y nodwyd ym mhwynt 2 y cynnig heddiw, gan Gymru y mae'r lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf yn y DU, sy'n cael effaith arbennig o negyddol ar gymunedau difreintiedig ar draws y wlad. Nawr, dywedodd Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant Llywodraeth y DU, y cyfeiriodd yr Aelod dros Orllewin De Cymru ato, fod gormod o blant tlawd yng Nghymru yn cael cam gan y system ysgolion sy'n bodoli ar hyn o bryd a rhybuddiodd fod angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â bylchau rhwng Cymru a Lloegr o ran mynediad at addysg.

Nawr, bydd Aelodau ar draws y Siambr hon yn ymwybodol o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ddiweddar iawn ar ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel, sy'n dangos yr angen am fwy o dryloywder ymhlith ysgolion ynghylch y modd y maent yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion. Er enghraifft, yn adroddiad gwerthuso rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn 1, mae'n amlwg mai 60 y cant yn unig o blant ysgolion cynradd a 72 y cant o blant ysgolion uwchradd sy'n elwa o'r grant amddifadedd disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'n blant sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn dangos bod cryn dipyn o blant ledled Cymru o hyd nad ydynt yn cael y cymorth y mae'r grant hwn wedi ei dargedu ar eu cyfer.

Yn wir, yn dilyn adroddiad y pwyllgor, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog a'i adran yn sicrhau bod y consortia rhanbarthol yn craffu ar ddefnydd ysgolion o'r grant amddifadedd disgyblion ac yn sicrhau ei fod yn cael ei sianelu ar gyfer ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er budd disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn hytrach na llenwi tyllau yng nghyllidebau ysgolion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, we on this side of the Chamber agree with the Minister's view of requiring schools to publish pupil deprivation grant usage on their own, or their regional consortium's, website. I hope that the Minister, in responding to this debate today, will update us with the progress of this initiative.

This debate also provides a focus on continuous professional development for teachers, which is highly topical following recent Welsh Government announcements. Members will be aware of the latest announcement, that all teachers in Wales will be given passports to record professional development to help them deliver the new, made-in-Wales curriculum, and while I can confirm that we on this side of the Chamber support any actions to improve the professional development of teachers, we'd like to see this announcement accompanied by moves to cut teacher paperwork and direct more money to the classroom. Quite simply, unless they are backed up by measures to give teachers the time and resources to undertake more training, they will not make a practical difference.

Now, Members are aware that we on this side of the Chamber would directly fund schools, to ensure that more money reaches the front line. I'm sure Members from all parties are frustrated that, annually, a fifth of the Welsh Government's £2.5 billion schools budget never reaches the classroom, and that is certainly not helping to support children from deprived communities. It's also important that new CPD provision builds on what student teachers will have learned from the new initial teacher education provision as proposed by Professor John Furlong. Any new provision must instil in student teachers a different approach that will enable them to teach pupils robustly, especially if the Donaldson review recommendations are adopted. The new curriculum should be sensitive to the ever-changing requirements of pupils to succeed in a complex and globalised economy, so it's important that teachers are constantly developing the skills they learn from the new initial teacher education programme through rigorous continuous professional development.

There is also a call in this motion for the Estyn framework to be amended to ensure that greater focus is given to education on healthy eating and exercise in schools, which I agree with. Members will be aware that there are already explicit requirements to teach students about food and fitness in the national curriculum. However, there are further opportunities that could be provided for students to learn about these topics. Last year, in the summary of responses to the consultation on the action plan for the food and drinks industry, there was widespread opinion that there is an urgent need for food issues to occupy a more prominent place throughout the school curriculum, adding such topics as food growing, cooking and budgeting. I personally believe that more could be done to forge relationships between schools and allotments, where children and young people can take a hands-on approach to learning more about healthy eating.

Nawr, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cytuno â barn y Gweinidog y dylid ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi gwybodaeth am eu defnydd o'r grant amddifadedd disgyblion ar eu gwefan eu hunain neu wefan eu consortiwm rhanbarthol. Gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon heddiw, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar gynnydd y fenter hon.

Mae'r ddadl hon hefyd yn darparu ffocws ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon, sy'n amserol iawn yn dilyn cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r cyhoeddiad diweddaraf, y bydd pob athro yng Nghymru yn cael pasbort ar gyfer cofnodi datblygiad proffesiynol i'w helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a wnaed yng Nghymru, ac er fy mod yn gallu cadarnhau ein bod ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi unrhyw gamau i wella datblygiad proffesiynol athrawon, byddem yn hoffi gweld symudiadau i dorri gwaith papur athrawon yn dod gyda'r cyhoeddiad hwn, a chyfeirio mwy o arian i'r ystafell ddosbarth. Yn syml, oni bai eu bod yn cael eu cefnogi gan fesurau i roi amser ac adnoddau i athrawon allu cael mwy o hyfforddiant, ni fyddant yn gwneud gwahaniaeth ymarferol.

Nawr, mae'r Aelodau yn ymwybodol y byddem ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn ariannu ysgolion yn uniongyrchol er mwyn sicrhau bod mwy o arian yn cyrraedd y rheng flaen. Rwy'n siŵr fod yr Aelodau o bob plaid yn teimlo'n rhwystredig fod un rhan o bump o gyllideb ysgolion flynyddol Llywodraeth Cymru o £2.5 biliwn byth yn cyrraedd yr ystafell ddosbarth, ac yn sicr, nid yw hynny'n helpu i gefnogi plant o gymunedau difreintiedig. Mae hefyd yn bwysig fod y ddarpariaeth Datblygiad Proffesiynol Parhaus newydd yn adeiladu ar yr hyn y bydd athrawon dan hyfforddiant wedi ei ddysgu o'r ddarpariaeth addysg gychwynnol newydd i athrawon fel yr argymhellwyd gan yr Athro John Furlong. Mae'n rhaid i unrhyw ddarpariaeth newydd feithrin ymagwedd wahanol mewn athrawon dan hyfforddiant a fydd yn eu galluogi i addysgu disgyblion yn drwyadl, yn enwedig os yw argymhellion adolygiad Donaldson yn cael eu mabwysiadu. Dylai'r cwricwlwm newydd fod yn sensitif i ofynion cyfnewidiol i ddisgyblion lwyddo mewn economi gymhleth a byd-eang, felly mae'n bwysig fod athrawon yn datblygu'r sgiliau a ddysgant o'r rhaglen addysg gychwynnol newydd i athrawon drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus trylwyr a chyson.

Mae yna alw yn y cynnig hefyd am ddiwygio fframwaith Estyn er mwyn sicrhau bod mwy o ffocws yn cael ei roi i addysg ar fwyta'n iach ac ymarfer corff mewn ysgolion, ac rwy'n cytuno â hynny. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod yna ofynion penodol eisoes i addysgu myfyrwyr am fwyd a ffitrwydd yn y cwricwlwm cenedlaethol. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd pellach y gellid eu darparu er mwyn i fyfyrwyr ddysgu am y pynciau hyn. Y llynedd, yn y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, roedd barn gyffredinol fod angen brys i weld materion bwyd yn cael lle amlycach ar draws y cwricwlwm ysgol, gan ychwanegu pynciau megis tyfu a choginio bwyd a chyllidebu mewn perthynas â bwyd. Yn bersonol, rwy'n credu y gellid gwneud mwy i greu cysylltiadau rhwng ysgolion a rhandiroedd, lle y gall plant a phobl ifanc fynd ati yn ymarferol i ddysgu mwy am fwyta'n iach.

Therefore, in closing, Deputy Presiding Officer, high-quality education services in Wales for children and young people are absolutely pivotal in assisting future generations to fulfil their potential and make positive long-term contributions to society and the economy. Thank you.

Felly, wrth gloi, Ddirprwy Lywydd, mae gwasanaethau addysg o ansawdd uchel yng Nghymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn gwbl ganolog wrth gynorthwyo cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu potensial a gwneud cyfraniadau cadarnhaol i gymdeithas a'r economi yn hirdymor. Diolch yn fawr.

17:18

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think one of the most important ways we can tackle inequality in the long term, and improve outcomes for young people in the long term, is to ensure that those young people are able to access high-quality training and education that will set them on the path to a rewarding lifelong career. You're absolutely right, Lindsay Whittle, that it is a long-term aspiration that we must have. We must lift the aspirations of our young people, but we must also, in the here and now, give them the support that they need to be able to take advantage of those opportunities, and to build a life for themselves that is perhaps better than the life they grew up within in the first place. We all want to see that for our children, don't we? We want to see our children go on and do one better, perhaps, than our generation has.

There are two elements to this, of course, the first of which is obviously that there is the availability of that training opportunity in the first place; but the second, less obvious one, perhaps, is that we do everything we can to remove the practical barriers that could prevent a young person from being able to take advantage of it. Cost is a significant issue that is often raised, and it is a barrier, particularly to young people from more deprived backgrounds. That's why we fought so strongly for the concessionary fares scheme for young travellers as well as for more apprenticeships in Wales in our budget agreement with the Welsh Government last year. It's those things that I'd like to reflect on today.

As we know, young people are disproportionately affected by increases in public transport fares due to their very heavy reliance on public transport to access education, employment, training and, indeed, apprenticeships. Young people are one of the biggest user groups of public transport across Wales. Now, while some local authorities in Wales have taken welcome steps to introduce a bus scheme for young people, there remains a significant variability in these schemes, which does create confusion and difficulty, particularly for those young people who have to cross county boundaries or use multiple service providers in order to access their placement. So, having a national concessionary fares scheme is, I think, of huge benefit. I am very proud that, in March 2014, the Welsh Liberal Democrats launched a report on a national concessionary fares scheme for 16 to 18-year-olds in Wales, following a motion that was passed at our party conference the previous year that had been brought forward by our youth wing, Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru. Their purpose in bringing this forward was to make sure that the voices of young people, and the experiences of young people, had been brought into the policy debate.

Rwy'n credu mai un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwn fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn hirdymor, a gwella canlyniadau ar gyfer pobl ifanc yn hirdymor, yw sicrhau bod y bobl ifanc hynny yn gallu cael mynediad at hyfforddiant ac addysg o safon uchel a fydd yn eu rhoi ar y llwybr i yrfa sy'n rhoi boddhad gydol oes. Lindsay Whittle, rydych yn llygad eich lle fod yn rhaid i ni gael dyhead hirdymor. Rhaid i ni godi dyheadau ein pobl ifanc, ond mae'n rhaid i ni roi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn awr hefyd i allu manteisio ar y cyfleoedd hynny i adeiladu bywyd ar gyfer eu hunain sydd efallai'n well na'r bywyd y maent wedi'i gael yn tyfu i fyny yn y lle cyntaf. Rydym i gyf am weld hynny ar gyfer ein plant, onid ydym? Rydym am weld ein plant yn mynd ymlaen i wneud yn well, o bosibl, na'n cenhedlaeth ni.

Mae dwy elfen i hyn, wrth gwrs, a'r gyntaf ohonynt yn amlwg yw bod y cyfle hyfforddi hwnnw ar gael yn y lle cyntaf; ond yr ail, sy'n llai amlwg efallai, yw ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu i gael gwared ar y rhwystrau ymarferol a allai atal person ifanc rhag manteisio ar y cyfle. Mae cost yn broblem sylweddol y cyfeirir ati'n aml, ac mae'n rhwystr arbennig i bobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig. Dyna pam ein bod wedi ymladd mor gryf dros y cynllun tocynnau teithio rhad ar gyfer teithwyr ifanc yn ogystal â thros gael mwy o brentisiaethau yng Nghymru yn ein cytundeb cyllidebol gyda Llywodraeth Cymru y llynedd. Dyna'r pethau yr hoffwn eu hystyried heddiw.

Fel y gwyddom, mae pobl ifanc yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan gynnydd ym mhrisiau trafnidiaeth gyhoeddus oherwydd eu dibyniaeth drom iawn ar drafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd lleoliadau addysg, cyflogaeth, hyfforddiant, a phrentisiaethau yn wir. Pobl ifanc yw un o grwpiau defnyddwyr mwyaf trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru. Nawr, er bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi rhoi camau ar waith i gyflwyno cynllun bws ar gyfer pobl ifanc, sydd i'w groesawu, mae'n dal i fod cryn amrywiaeth rhwng y cynlluniau hyn, sy'n creu dryswch ac anhawster, yn enwedig i bobl ifanc sy'n gorfod croesi ffiniau sirol neu ddefnyddio sawl darparwr gwasanaeth er mwyn cyrraedd eu lleoliad gwaith. Felly, rwy'n credu bod cael cynllun tocynnau teithio rhatach cenedlaethol o fudd enfawr. Rwy'n falch iawn bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi lansio adroddiad ym mis Mawrth 2014 ar gynllun teithio rhatach cenedlaethol ar gyfer rhai rhwng 16 a 18 oed yng Nghymru, yn dilyn cynnig a basiwyd yng nghynhadledd ein plaid y flwyddyn flaenorol a oedd wedi cael ei gyflwyno gan ein hadain ieuencid, Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru. Eu pwrpas wrth gyflwyno'r cynnig oedd sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth ar y polisi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A pilot scheme will start in September this year, and I really do hope that it will replicate successful trials elsewhere in the UK, because not only have those other schemes shown that they reduce barriers to accessing education and training for young people from less-affluent backgrounds by reducing costs for them, but, interestingly, they supported the viability of marginal bus routes, too, by encouraging greater use of those services. People paying a concessionary fare are, after all, paying a fare that contributes to the revenue take, and, for young people in rural Wales, for whom the availability of the transport in the first place is an issue, it helps to protect those services that are going to make the training and education places accessible to them.

I was also glad that our budget deal with the Welsh Government protected 5,000 apprentice places here in Wales. As we see the potential for new jobs to be created around major developments like the proposed tidal lagoons in Swansea and Cardiff, and skilled jobs created by things like the electrification of the Valleys lines, it's clear that Wales has an ever-present need, in the here and now, for the highest quality of technical education, and I think we would all recognise that a highly skilled economy attracts investment, is more competitive and creates more opportunities for its people in the long term, too. So there is a virtuous circle to be developed here.

Transport and availability are not the only barriers to people taking up apprenticeship opportunities; the lower wages can also be a cause of real hardship. Last summer, I was an apprentice for a day at the British Airways maintenance centre in Rhoose, where they allowed me to service the engine of one of their jets. For those of a nervous disposition, come see me afterwards and I will tell you the registration number of that particular aircraft. [Laughter.] One of the apprentices that I met there told me that he'd applied for his apprenticeship after being made redundant at the start of the economic crisis; he was returning to training, having been working for a number of years. To be able to do it, he'd had to sell his home, sell his car and move in with his girlfriend's parents so that he could cope with the pay cut that was going to take place. His commitment has paid off many times over, I hope—he is now employed and has a fantastic career ahead of him—but it's a huge, huge sacrifice that he had to make to do that, and it is a cause of real hardship for people who find themselves in that kind of position. So, I was delighted by the announcement yesterday that the apprenticeship minimum wage will increase by 20 per cent this October to £3.30. It's a step in the right direction that, I hope, will open up the opportunity for more people to take on apprenticeships and to develop those kinds of skills that we really need.

Bydd cynllun peilot yn dechrau ym mis Medi eleni ac rwy'n obeithiol iawn y bydd yn ailadrodd treialon llwyddiannus mewn mannau eraill yn y DU, oherwydd nid yn unig y mae'r cynlluniau eraill hynny wedi dangos eu bod yn lleihau rhwystrau i fynediad at addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd llai cefnog drwy leihau costau, ond yn ddiddorol, maent wedi cynnal hyfywedd llwybrau bysiau ymylol hefyd drwy annog mwy o ddefnydd ar y gwasanaethau hynny. Wedi'r cyfan, mae pobl sy'n talu pris tocyn rhatach yn talu pris tocyn sy'n cyfrannu at y refeniw, ac ar gyfer pobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru, sy'n wynebu problem yn y lle cyntaf o ran argaeledd trafnidiaeth, mae'n helpu i warchod y gwasanaethau sy'n mynd i wneud y lleoliadau hyfforddiant ac addysg yn hygyrch iddynt.

Roeddwn yn falch hefyd fod ein cytundeb cyllidebol gyda Llywodraeth Cymru wedi gwarchod 5,000 o leoliadau prentisiaeth yma yng Nghymru. Wrth i ni weld y potensial ar gyfer creu swyddi newydd yng nghyswllt datblygiadau mawr fel y morlynnoedd llanw arfaethedig yn Abertawe a Chaerdydd, a chreu swyddi crefftus yn sgil pethau fel trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, mae'n amlwg fod yna angen hollbresennol yng Nghymru ar hyn o bryd am addysg dechnegol o'r safon orau ac rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cydnabod bod economi grefftus iawn yn denu buddsoddiad, yn fwy cystadleuol ac yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer ei phobl yn y tymor hir hefyd. Felly mae yna gyloch buddiol i gael ei ddatblygu yma.

Nid trafnidiaeth ac argaeledd yw'r unig rwystrau i bobl rhag manteisio ar gyfleoedd prentisiaeth; gall y cyflogau isaf hefyd fod yn achos caledi gwirioneddol. Yr haf diwethaf, roeddwn yn brentis am ddiwrnod yng nghanolfan gynnal a chadw British Airways yn y Rhws, lle y caniatawyd i mi drin peiriant un o'u hawyrennau jet. I'r rhai nerfus yn eich plith, dewch i fy ngweld wedyn ac fe ddywedaf wrthyhych beth oedd rhif cofrestru'r awyren benodol. [Chwerthin.] Dywedodd un o'r prentisiaid y cyfarfûm ag ef yno ei fod wedi gwneud cais am ei brentisiaeth ar ôl cael ei ddiswyddoedd ar ddechrau'r argyfwng economaidd; roedd yn dychwelyd i hyfforddiant ar ôl bod yn gweithio ers nifer o flynyddoedd. Er mwyn gallu gwneud hyn, bu'n rhaid iddo werthu ei gartref, gwerthu ei gar a symud i mewn gyda rhieni ei gariad fel y gallai ymdopi â'r toriad cyflog y byddai'n ei wynebu. Mae ei ymroddiad wedi dwyn ffrwyth lawer gwaith drosodd, rwy'n gobeithio—mae bellach yn ennill cyflog ac mae ganddo yrfa wych o'i flaen—ond bu'n rhaid iddo wneud aberth anferth er mwyn gallu gwneud hynny, ac mae'n achos caledi gwirioneddol i bobl mewn sefyllfa o'r fath. Felly, roeddwn wrth fy modd gyda'r cyhoeddiad ddoe y bydd yr isafswm cyflog i brentisiaid yn codi 20 y cant ym mis Hydref i £3.30. Mae'n gam i'r cyfeiriad iawn sy'n agor y ffordd i fwy o bobl fanteisio ar brentisiaethau, gobeithio, a datblygu'r mathau o sgiliau y mae eu gwir angen arnom mewn gwirionedd.

I would like to concentrate on our state schools, in terms of how we can tackle the problem of deprivation and its effect on our educational standards and attainment. Obviously, the vast majority of our children go to our state schools. It's often said that there's a captive audience there that we can engage with, and it is true that we can reach that overwhelming majority of our children through our state schools. So, it's obviously right that we get the offer there—the quality and breadth of experience—as high as possible.

Thankfully, I believe we do have some important work under way in that regard; for example, the physical literacy programme in our schools is, I believe, very important in terms of increasing the quality of our physical education, which I believe is extremely important for health and quality of life, so that children develop their physical abilities and skills to a greater extent, and that stays with them throughout their lives. I'm very keen on that physical literacy programme being built on by a physical literacy framework, as part of the Welsh Government response to the Donaldson review, particularly with regard to health and wellbeing, so that we build on the progress made to date and make sure that physical literacy is as central and fundamental as possible to the school experience. I think that aspects of achieving that incorporate developments around initial teacher training, continuous professional development, schools' self-evaluation and, indeed, inspection. So, I would like to see further progress made in that regard, and also, I think, a greater linking between our schools and outside sports bodies, because if we can get the coaches into our schools to a greater extent and get our children out into the sports clubs and different sporting venues to a greater extent, I think that would certainly add to the experience.

I also believe that community-focused schools have a lot to offer in this regard, in terms of working with communities and families and, again, I think that would be particularly beneficial to the more deprived families. I believe it is patchy across Wales. If we could find some mechanism that would roll out community-focused schools right across Wales in a consistent way, that would be very beneficial, particularly at a time when funding is so scarce and many schools are still closed to their communities at weekends, during the evenings and in school holidays.

Hoffwn ganolbwyntio ar ysgolion y wladwriaeth, o ran sut y gallwn fynd i'r afael â phroblem amddifadedd a'i heffaith ar ein safonau a chyraeddiadau addysgol. Yn amlwg, mae'r mwyafrif helaeth o'n plant yn mynd i ysgolion y wladwriaeth. Dywedir yn aml fod yna gynulleidfa gaeth yno y gallwn ymgysylltu â hi ac mae'n wir ein bod yn gallu cyrraedd y mwyafrif llethol o'n plant drwy ysgolion y wladwriaeth. Felly, mae'n amlwg yn iawn inni sicrhau bod y cynnig yno cystal ag y gall fod o ran ansawdd ac ehangder y profiad.

Diolch byth, rwy'n credu bod gennym waith pwysig ar y gweill yn y cyswllt hwnnw; er enghraifft, yn fy marn i mae'r rhaglen llythrennedd corfforol yn ein hysgolion yn bwysig iawn o ran gwella ansawdd ein haddysg gorfforol. Credaf fod hynny'n hynod o bwysig o ran iechyd ac ansawdd bywyd er mwyn i blant ddatblygu eu galluoedd a'u sgiliau corfforol i raddau mwy, ac mae hynny'n aros gyda hwy drwy gydol eu bywydau. Rwy'n awyddus iawn i adeiladu ar raglen llythrennedd corfforol o'r fath drwy fframwaith llythrennedd corfforol yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Donaldson, yn enwedig o ran iechyd a lles, fel ein bod yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a gwneud yn siŵr bod llythrennedd corfforol mor ganolog a sylfaenol ag y bo modd i'r profiad ysgol. Credaf fod agweddau ar gyflawni hynny'n ymgorffori datblygiadau o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus, hunanwerthuso ysgolion ac arolygu, yn wir. Felly, hoffwn weld rhagor o gynnydd yn cael ei wneud yn hynny o beth, a mwy o gysylltu hefyd, rwy'n credu, rhwng ein hysgolion a chyrrff chwaraeon allanol, oherwydd os gallwn gael yr hyfforddwyr i mewn i'n hysgolion i raddau mwy a chael ein plant allan i'r clybiau chwaraeon a gwahanol leoliadau chwaraeon i raddau mwy, rwy'n meddwl y byddai hynny'n sicr yn ychwanegu at y profiad.

Rwyf hefyd yn credu bod gan ysgolion bro lawer i'w gynnig yn hyn o beth o ran gweithio gyda chymunedau a theuluoedd ac unwaith eto, rwy'n meddwl y byddai hynny'n arbennig o fuddiol i'r teuluoedd mwyaf difreintiedig. Rwy'n credu bod hyn yn anghyson ar draws Cymru. Pe galledd ddod o hyd i system a fyddai'n cynhyrchu ysgolion bro ledled Cymru mewn ffordd gyson, byddai hynny'n fuddiol iawn, yn enwedig ar adeg pan fo cyllid mor brin a llawer o ysgolion yn dal ar gau i'w cymunedau ar benwythnosau, gyda'r nos ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

I think that many of us would be familiar with what's sometimes described as 'the Mum's taxi experience', where some children are fortunate enough to be ferried around to a variety of classes and activities and obviously derive great benefit from that in terms of developing their interests, their abilities and their skills with real breadth and depth. But, again, I think some of the more deprived families, for various reasons, do not give that experience to their children. So, I think, again, it's very important that the schools, as much as they can, fill those gaps. I'm aware of schools that do some really good things in terms of extending the school day, providing that breadth and depth of activities and classes that very much benefit their children, particularly the children from the more deprived backgrounds, because if they go home, then they're not going, then, to get out and about to enjoy those wider experiences. So, for some of them at least it really has to take place within the school setting.

I think another important aspect of the work that's under way that's very, very promising is arts in education and Dai Smith's report. Again, it makes those links between the outside bodies and the schools. Again it's a two-way process; it's about bringing greater expertise and experience to the offer. I think all of the things that apply around physical literacy also apply as far as arts in education is concerned.

17:27 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I invite you, therefore, to a performance in the Assembly by Codi'r To, which is a project that's operating in two Communities First areas in my constituency, to see the effect of music in terms of raising young people's confidence?

Credaf y byddai llawer ohonom yn gyfarwydd â'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio weithiau fel 'profiad taci Mam', lle y mae rhai plant yn ddigon ffodus i gael eu cludo i amrywiaeth o ddsbarthiadau a gweithgareddau ac yn amlwg yn cael budd mawr o hynny o ran datblygu ehangder a dyfnder eu diddordebau, eu galluedd a'u sgiliau. Ond unwaith eto, rwy'n meddwl nad yw rhai o'r teuluoedd mwyaf difreintiedig, am wahanol resymau, yn rhoi profiad o'r fath i'w plant. Felly, rwy'n meddwl, unwaith eto, ei bod yn bwysig iawn i'r ysgolion lenwi'r bylchau hynny cystal ag y gallant. Rwy'n ymwybodol o ysgolion sy'n gwneud rhai pethau da iawn o ran ymestyn y diwrnod ysgol, ac yn darparu ehangder a dyfnder o ran y gweithgareddau a'r dosbarthiadau sydd o fudd mawr iawn i'w plant yn enwedig plant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig, oherwydd os ânt adref, nid ydynt yn mynd i fynd allan wedyn i fwynhau'r profiadau ehangach hynny. Felly, i rai ohonynt o leiaf, mae'n rhaid iddo ddigwydd yn yr ysgol.

Rwy'n credu mai agwedd bwysig arall addawol tu hwnt ar y gwaith sy'n mynd rhagddo yw celfyddydau mewn addysg ac adroddiad Dai Smith. Unwaith eto, mae'n creu cysylltiadau rhwng cyrff allanol ac ysgolion. Unwaith eto mae'n broses ddwy ffordd; mae'n ymwneud â dod â mwy o arbenigedd a phrofiad i'r cynnig. Rwy'n credu bod popeth sy'n berthnasol o ran llythrennedd corfforol hefyd yn berthnasol o ran y celfyddydau mewn addysg.

A gaf fi eich gwahodd, felly, i berfformiad yn y Cynulliad gan Codi'r To, sef prosiect sy'n gweithredu mewn dwy ardal Cymunedau yn Gyntaf yn fy etholaeth, i weld effaith cerddoriaeth yn meithrin hyder pobl ifanc?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:28 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd be very pleased to go along to that event. I think there are many examples across Wales of good practice in that regard, but I'd be very pleased to take the Member up on that kind offer.

Byddwn yn falch iawn o fynd i'r digwyddiad. Rwy'n credu bod llawer o enghreifftiau ledled Cymru o arfer da yn hynny o beth, ond byddwn yn falch iawn o dderbyn gwahoddiad caredig yr Aelod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

So I think, in conclusion, there is some really good work under way. As I said, I particularly wanted to highlight physical literacy and arts in education. We have made progress. We've got some important reports in place, and I hope very much that Welsh Government will continue to drive progress.

Felly, i gloi, rwy'n credu bod rhywfaint o waith da iawn ar y gweill. Fel y dywedais, rwy'n arbennig o awyddus i dynnu sylw at lythrennedd corfforol a'r celfyddydau mewn addysg. Rydym wedi gwneud cynnydd. Mae gennym rai adroddiadau pwysig yn eu lle, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ysgogi cynnydd.

17:28 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n siŵr na fyddai'r un ohonom ni yma yn dweud nad yw tlodi plant yn sarhad ar ein cenedl ni yma yng Nghymru. Rwy'n cydnabod bod y Gweinidog addysg wedi dweud ei fod o'n awyddus iawn i dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac ardaloedd difreintiedig a chyrhaeddiad addysg. Ond, er hynny, wrth gwrs, mae yna ddigon o dystiolaeth, ac roeddwn yn falch iawn clywed Peter Black yn sôn am gynlluniau Dechrau'n Deg, achos yr hyn sy'n eich synnu chi ydy bod 50 y cant o'r plant, erbyn iddyn nhw gyrraedd y dosbarth meithrin yn yr ysgol, yn barod mewn sefyllfa lle nad yw eu gobeithion nhw ddim cystal â phlant o ardaloedd mwy breintiedig. Felly, rwy'n meddwl bod gofyn arnom ni fel Cynulliad i ailedrych ar beth yn union rydym yn ei wneud.

I am sure that everyone here would agree that child poverty is an affront to our nation here in Wales. I acknowledge that the education Minister has said that he wants to break the link between deprivation and deprived areas and educational attainment. However, of course, there is plenty of evidence, and I was very pleased to hear Peter Black talk about Flying Start schemes, because what is surprising is that 50 per cent of the children, by the time they get to nursery classes in schools, are already in a situation where their hopes are not as good as those of children from more affluent areas. So, I think that we as an Assembly should look again at what exactly we are doing.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n rhaid i mi ddweud bod fy mhrofiad i fel arweinydd cyngor yn dweud nad yw'r gyfundrefn y penderfynodd y Llywodraeth Lafur arni, lle roeddent yn nodi ardaloedd o ran 'post code', yn gweithio yn ddigon effeithiol, yn fy marn i, achos mae yna ardaloedd bach sy'n ddifreintiedig yn cael eu colli o dan y gyfundrefn yna.

Rwyf yn meddwl hefyd bod rhan o'r problemau—. Rwy'n cydnabod beth ddywedodd John Griffiths ynglŷn â rhai o'r cynlluniau sydd ar waith yn ein hysgolion ni, ond hefyd mae'n rhaid i ni ofyn a ydy'n cyfundrefn addysg ni'n dal i fod â digon o uchelgais ynddi ar gyfer y plant mwyaf difreintiedig yma. Mi roedd Andreas Schleicher, pan aethom i'r OECD ym Mharis, yn gwestiynu faint o uchelgais oedd yna o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Ac roedd o'n dweud:

'The expectations the Welsh system has for its children are much weaker than in high-performing education systems. There's been a fair display of complacency; in many countries we wouldn't have the tolerance for low performance that we've seen in Wales. There's a lot of under-performing students and schools which you cannot just explain by Wales being a poorer part of the UK'.

Felly, mae'n rhaid i ni gwestiynu bob tro beth yn union ydy'n huchelgais ni fel Aelodau Cynulliad ac fel gwlad.

Ac rwy'n credu bod Paul Davies wedi gwneud pwynt dilys iawn, achos mae yna dystiolaeth, hyd yn oed ar ôl i'r Gweinidog ofyn am ganllawiau newydd a mynnu bod ysgolion yn cyhoeddi manylion am sut maen nhw'n gwario y grant amddifadedd, fod rhai ysgolion yn dal i wrthod gwneud hynny, er nad oes gan rai, wrth gwrs, wefannau eu hunain er mwyn cyhoeddi y wybodaeth. Mi roeddwn i'n siomedig, hyd yn oed ar ôl i ni gael model cenedlaethol o ran consortia, nad yw rai consortia yn amlwg ddim yn casglu'r wybodaeth o hyd ynglŷn â'r ffordd roedd y grant amddifadedd yna yn cael ei wario.

Ond, rwy'n meddwl, wrth i ni gysidro fel aelodau o'r pwyllgor plant, mae yna nifer o faterion wedi codi yn ystod yr wythnosau olaf yma ynglŷn â sut ydym ni am fynd i'r afael. Mae yna dystiolaeth—rydym yn cael ymchwiliad ar hyn o bryd i fewn i athrawon cyflenwi—a beth sy'n ddiddorol ydy fod yna lawer iawn mwy o ddefnydd o athrawon cyflenwi yn cael ei wneud mewn ardaloedd difreintiedig, lle mae yna lawer iawn mwy o blant tlawd yn yr ysgolion, nag sydd mewn ardaloedd dosbarth canol hwyrach. Ac eto, os ydym yn cysylltu hwnnw efo rhai o'r dadleuon y prynhawn yma ynglŷn â datblygu proffesiynol, mae'n amlwg bod yr athrawon cyflenwi yna ddim yn rhan o'r gyfundrefn o ran datblygiad proffesiynol, ac mae hynny yn codi cwestiynau ynglŷn â pha mor gyfoes yw'r addysg y maen nhw'n ei chyflwyno i'r plant hynny.

I must say that my experience as a council leader tells me that the system that the Labour Government introduced, of identifying areas according to their post code, is not effective enough, in my opinion, because there are some small areas of deprivation that are lost as a result.

I also think that part of the problems—. I acknowledge what John Griffiths was saying about some of the schools that are being implemented in our schools, but we must also ask whether our education system has sufficient ambition for these deprived children. Andreas Schleicher, when we visited the OECD in Paris, questioned how much ambition existed within the education system in Wales, and said:

'Roedd disgwyliadau'r system yng Nghymru ar gyfer ei phlant yn llawer gwannach na disgwyliadau systemau addysg sy'n perfformio'n dda. Cafwyd cryn dipyn o laesu dwylo; mewn llawer o wledydd ni fyddem wedi goddef y tangyflawniad a welsom yng Nghymru. Mae llawer o fyfyrwyr ac ysgolion yn tangyflawni i raddau na allwch ei egluro drwy ddweud bod Cymru yn rhan dlotach o'r DU'.

Therefore, we must continue to question what exactly our ambition is as Assembly Members and as a country.

And I believe that Paul Davies made a very valid point, because there is evidence, even after the Minister requested new guidelines and insisted that schools publish details of how they spend the pupil deprivation grant, that some schools still refuse to do so, although some don't have their own websites to be able to publish that data. I was disappointed, even after we secured a national model for consortia, that some consortia still don't collate the data on how the deprivation grant is spent.

However, during our deliberations as members of the children committee, a number of issues have arisen over the past few weeks about how we are going to address these matters. There is evidence—we are conducting an inquiry at present into supply teachers—and what is interesting is that much more use is made of supply teachers in deprived areas, where there are very many more poor children in the schools, than in the middle-class areas. And yet, if we link that to some of this afternoon's arguments regarding professional development, it is obvious that those supply teachers aren't part of the system as regards professional development, and that raises questions about how up to date the education that they provide to those children actually is.

Felly, rydym ni yn ymwybodol o'r camau sydd yn cael eu gwneud. Rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth iddo, hwyrach, roi mwy o gig ar y cynlluniau yma o ran hyfforddi athrawon ac o ran datblygiad proffesiynol, yn edrych ar y dystiolaeth sydd yna bod yna, hwyrach—. Roedd Paul Davies yn sôn am y ffaith bod mwy o'r arian rŵan yn cael ei drosglwyddo i ysgolion. Un o'r problemau efo gwneud hynny, wrth gwrs, ydy bod y gyfundrefn yn cael ei chwalu hefyd, a bod rhai o'r strwythurau oedd mewn lle i wella datblygiad proffesiynol, ac ati, rŵan yn cael eu rhoi lawr i lefel ysgolion, lle mae pwysau ariannol ar ysgolion o ran beth maen nhw'n ei wneud ynglŷn â datblygu proffesiynol, yn hytrach nag edrych ar ansawdd y dysgu. Felly, rydym ni'n awyddus iawn i weld gwelliannau yn y gyfundrefn addysg, ac rydym yn awyddus iawn i'r Gweinidog fanylu ar sut mae o'n mynd i'r afael â hynny wrth i'r cynlluniau newydd yma ddod i rym.

So, we are aware of the steps being taken, We hope that the Minister, as he perhaps puts more meat on the bones from the point of view of teacher training and professional development, looks at the evidence and possibly—. Paul Davies mentioned the fact that more funding is now transferred to schools. One of the problems in doing that, of course, is that the system is also fragmented, and some of the structures that existed in order to improve professional development, and so on, are now delegated to school level, where there is financial pressure on schools in terms of what they do as regards professional development, as opposed to looking at the quality of the teaching. So, we are very eager to see improvements in the education system, and very eager to hear the detail of how the Minister will address this as these new schemes come into force.

17:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Julie Morgan.

Julie Morgan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:33 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for calling me to speak in this very important debate. I'm very glad the Liberal Democrats have brought this debate forward, and I do appreciate what they say about the pupil premium and the concessionary fares proposed, but I do think we have to put this in context and to look at what the Tory-Liberal Democrat coalition has done to the lives of children in Wales.

Ddirprwy Lywydd, diolch yn fawr iawn am alw arnaf i siarad yn y ddadl bwysig hon. Rwy'n falch iawn fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyflwyno'r ddadl hon ac rwy'n gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei ddweud am y premiwm disgyblion a'r tocynnau teithio rhatach arfaethedig, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni roi hyn mewn cyd-destun ac edrych ar yr hyn y mae'r glymblaid rhwng y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ei wneud i fywydau plant yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It is generally accepted that the benefit cuts have hit those in need the hardest, especially women and children. They have disproportionately affected poorer households with children and others in need. If you just look at what has been cut, the Tory and Liberal Democrat coalition—

Derbynir yn gyffredinol fod y toriadau yn y budd-daliadau wedi taro rhai mewn angen yn galetach, yn enwedig menywod a phlant. Maent wedi effeithio'n anghymesur ar aelwydydd tlotach gyda phlant a phobl eraill mewn angen. Nid oes ond angen i chi edrych ar yr hyn sydd wedi'i dorri, mae clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Toriaid—

17:34 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention, please?

A wnewch chi dderbyn ymyriad, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:34 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Not at the moment, no. They have cut child trust funds, have cut child benefit, working tax credit, child tax credit, income support, introduced a benefit cap, and these are all disproportionately affecting the poorest in society.

Na wnaif, ar hyn o bryd. Maent wedi torri cronfeydd ymddiriedolaeth plant, wedi torri budd-dal plant, credyd treth gwaith, credyd treth plant, cymhorthdal incwm, wedi cyflwyno cap ar fudd-daliadau, ac mae'r rhain i gyd yn effeithio'n anghymesur ar y tlotaf yn y gymdeithas.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Liberal Democrat coalition say they care about children in poverty, but you've just got to look at their actions to see what has happened. To me, one of the worst things to have happened at all was when the coalition Government cut the health in pregnancy grant, which addressed the elevated risk of birth defects in babies born to mothers who were malnourished during pregnancy. What could have been the logic in cutting a grant like that? We know that the changes made to the welfare system in the UK will reduce total benefit and tax credit entitlement in Wales by approximately £590 million. It's estimated that Welsh people will be worse off by about £11 a week, and £11 a week is a lot of money for people who are on the poverty line—it's the difference between having food in the cupboard or not, and there have been too many incidents where parents go hungry so that their children can be fed, or where the children themselves are hungry.

I wanted to particularly draw attention to the situation of Gypsy and Traveller children, particularly in relation to education, because a lot of the debate is based around education. Forty five per cent of Gypsy or Irish Traveller households who have dependent children are more likely to live in difficult circumstances and are more likely to have no qualifications. One of the issues that I have raised several times in the Chamber, and I have raised it with the education Minister, is the ending of the ring-fencing of the Gypsy and Traveller education grant. Concern has been expressed to me throughout Wales about what is going to be the consequence of this for the Gypsy education service, because, already, we've heard of preliminary notices being given out to people in the Traveller education service.

One of the things I wanted to say, in terms of what has been achieved in Wales, is that we have made great progress with the education of Gypsy and Traveller children. The Traveller education service has done a huge job here, and a lot of that work is being done in the homes and in the families—on the sites—in order to enable and encourage the children to go to school. But, this has depended on having this ring-fenced grant, and the signs are not very good at the moment that that grant—the money—will be kept available when it is amalgamated in the other grant. So, I don't know if the Minister is able to give me any more encouraging news on that, that, in fact, the Traveller education service will continue as it is. Because, in England, the Traveller education service was decimated—I think it is agreed, you know, that most of the Gypsy and Traveller children go to primary school, a lot of them are now going to secondary school, and there is a huge amount of work to do, but we have made such progress that I'm very, very concerned that this will stop if the local authorities, without having the grant ring-fenced, do not continue to fund the Traveller education service, and to fund the Gypsies and Travellers, who I think are some of the most deprived children in Wales today. I know our aim is to ensure that every child in Wales fulfils its potential, and I think that the Gypsy and Traveller children must be included in that. Thank you.

Mae clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol yn dweud eu bod yn malio am blant mewn tlodi, ond nid oes ond angen i chi edrych ar eu gweithredoedd i weld beth sydd wedi digwydd. I mi, un o'r pethau gwaethaf oll a ddigwyddodd oedd pan dorrodd y Llywodraeth glymblaid y grant iechyd yn ystod beichiogrwydd a oedd yn mynd i'r afael â'r risg uwch o namau geni mewn babanod sy'n cael eu geni i famau sy'n dioddef o ddiffyg maeth yn ystod beichiogrwydd. Pa fath o resymeg sy'n sail i dorri grant o'r fath? Rydym yn gwybod y bydd y newidiadau a wnaed i'r system les yn y DU yn torri tua £590 miliwn oddi ar gyfanswm y budd-daliadau a hawliau creadyd treth yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd pobl Cymru tua £11 yr wythnos ar eu colled, ac mae £11 yr wythnos yn llawer o arian i bobl sydd ar y llinell dlodi—y gwahaniaeth rhwng cael bwyd yn y cwpwrdd neu beidio, ac mae gormod o achosion wedi bod o rieni yn mynd heb fwyd er mwyn i'w plant gael eu bwydo, neu lle y mae'r plant eu hunain yn llwglyd.

Roeddwn am dynnu sylw arbennig at sefyllfa plant Sipsiwn a Theithwyr, yn enwedig mewn perthynas ag addysg, gan fod llawer o'r drafodaeth yn seiliedig ar addysg. Mae 45 y cant o aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig sydd â phlant dibynnol yn fwy tebygol o fyw mewn amgylchiadau anodd ac yn fwy tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau. Un o'r problemau rwyf wedi ei grybwyll sawl gwaith yn y Siambur, ac rwyf wedi ei grybwyll wrth y Gweinidog addysg, yw'r penderfyniad i roi diwedd ar neilltuo arian ar gyfer y grant addysg i Sipsiwn a Theithwyr. Mynegwyd pryder drwy Gymru ynglŷn â beth fydd canlyniad hyn o ran y gwasanaeth addysg Sipsiwn gan ein bod eisoes wedi clywed am hysbysiadau rhagarweiniol yn cael eu rhoi i bobl yn y gwasanaeth addysg i Deithwyr.

Un o'r pethau roeddwn am ei ddweud, o ran yr hyn a gyflawnwyd yng Nghymru, yw ein bod wedi gwneud cynnydd mawr gydag addysg plant Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r gwasanaeth addysg i Deithwyr wedi gwneud gwaith aruthrol yma, ac mae llawer o'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn y cartrefi a gyda theuluoedd—ar y safleoedd—er mwyn galluogi ac annog y plant i fynd i'r ysgol. Ond mae hyn wedi dibynnu ar gael y grant wedi'i neilltuo, ac nid yw'r arwyddion yn dda iawn ar hyn o bryd y caiff y grant—yr arian—ei gadw ar gael pan gaiff ei gyfuno yn y grant arall. Felly, nid wyf yn gwybod a all y Gweinidog roi unrhyw newyddion mwy calonogol ar hynny, y bydd y gwasanaeth addysg i Deithwyr mewn gwirionedd yn parhau fel y mae. Oherwydd, yn Lloegr, cafodd y gwasanaeth addysg i Deithwyr ei anrheithio. Rwy'n credu, wyddoch chi, fod cytundeb y bydd y rhan fwyaf o blant Sipsiwn a Theithwyr yn mynd i'r ysgol gynradd. Mae llawer ohonynt yn awr yn mynd i ysgolion uwchradd ac mae gwaith enfawr i'w wneud, ond rydym wedi gwneud cymaint o gynnydd fel fy mod yn bryderus iawn y bydd yn dod i ben os nad yw'r awdurdodau lleol, heb i'r grant gael ei neilltuo, yn parhau i ariannu'r gwasanaeth addysg i Deithwyr, ac i ariannu Sipsiwn a Theithwyr, y credaf eu bod ymhlith y plant mwyaf difreintiedig yng Nghymru heddiw. Rwy'n gwybod mai ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cyrraedd ei botensial, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i blant Sipsiwn a Theithwyr gael eu cynnwys yn hynny. Diolch yn fawr.

17:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Education and Skills, Huw Lewis.

Galwaf ar y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 17:38 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills
Deputy Presiding Officer, can I begin my remarks today by welcoming the opportunity to contribute to today's opposition debate. You know, I thought it was brave of the Liberal Democrats to begin a debate like this by pointing out in their motion that one in three children in Wales now live below the poverty line. The true irony of that will not be lost on anyone in this Chamber, given that it has been the policies of their party in Government at Westminster, hand in glove with the Tories, that has driven us into that situation. Prior to the election of this coalition Government, the numbers of children in poverty were falling—they had gone down from about one in three to one in four, and they were continuing to fall; the numbers were going in the right direction. Ever since this Government has come to office, they started rising again, and now we are pretty much back to where we started before all the good work that the previous Labour Governments had done between 1979 and the last election. The numbers are there, the numbers are undeniable.
- Ddirprwy Lywydd, a gaf fi ddechrau fy sylwadau heddiw drwy groesawu'r cyfle i gyfrannu at ddadl yr wrthblaid heddiw. Wyddoch chi, rwy'n meddwl bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn ddewr i ddechrau dadl fel hon drwy dynnu sylw yn eu cynnig at y ffaith fod un o bob tri phlentyn yng Nghymru bellach yn byw o dan y llinell dlodi. Ni fydd gwir eironi hynny yn cael ei golli ar neb yn y Siambr hon, o gofio mai polisiau eu plaid yn y Llywodraeth yn San Steffan, law yn llaw â'r Toriaid, sydd wedi peri i ni fod yn y sefyllfa hon. Cyn ethol y Llywodraeth glymblaid, roedd nifer y plant mewn tlodi yn gostwng—roedd y nifer wedi mynd i lawr o tua un o bob tri i un o bob pedwar ac roedd y niferoedd yn parhau i ostwng; roedd y niferoedd yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Byth ers i'r Llywodraeth hon ddod i rym, fe ddechreuon nhw godi eto, ac yn awr rydym fwy neu lai yn ôl i lle y dechreuom cyn i'r holl waith da a wnaeth Llywodraethau Llafur blaenorol rhwng 1979 a'r etholiad diwethaf. Mae'r ffigurau yno, ni allwch ddadlau â'r ffigurau.
- 17:39 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention, please? A wnewch chi dderbyn ymyriad, os gwelwch yn dda?
- 17:39 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
In a second. The numbers are there, the numbers are undeniable, and that is the track record of the Conservative Party and the Liberal Democrats working hand in glove. I say to Peter Black: Clegg is no Beveridge, and he is certainly no Lloyd George, and the people of Wales will offer their judgment very soon. I'll take an intervention. Mewn eiliad. Mae'r ffigurau yno, ni allwch ddadlau â'r ffigurau, a dyna hanes y Blaid Geidwadol a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gweithio gyda'i gilydd. Dywedaf wrth Peter Black: nid Beveridge mo Clegg, ac yn bendant, nid Lloyd George mohono, a bydd pobl Cymru yn datgan eu barn yn fuan iawn. Fe gymeraf ymyriad.
- 17:40 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
When one is sat here, you have to sort of imagine that this is a UK Government problem, when in fact it isn't. Is it not the case that you actually have the levers, the power, and actually the resources from the UK Government to actually deal with the poverty agenda here? Why have you failed? Pan fydd rhywun yn eistedd yma, rhaid i chi ryw fath o ddychmygu mai problem Llywodraeth y DU yw hon, pan nad yw hynny'n wir mewn gwirionedd. Onid yw'n wir mai gennych chi y mae'r ysgogiadau, y pŵer, a'r adnoddau mewn gwirionedd oddi wrth Lywodraeth y DU i ymdrin ag agenda tlodi yn y fan hon? Pam rydych chi wedi methu?
- 17:40 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
You know, I really don't understand whether the Welsh Conservatives deliberately don't get it or whether they have some kind of mental relapse that enables them to skip over the logic of the situation that we are in. These are the guys that have been in charge of the tax system, the benefits system and the macro-economy since they were elected in this coalition form, and we saw the figures change markedly—go into reverse—as soon as these people took residence in No. 10 and No. 11 Downing Street. You might fool yourselves but you're not going to fool the people of Wales when they come to make their judgment in May and indeed in May the following year— Wyddoch chi, nid wyf yn deall a yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn fwriadol yn methu deall neu a ydynt yn dioddef o rywfath o anallu meddyliol sy'n eu galluogi i osgoi rhesymeg y sefyllfa rydym ynddi. Dyma'r bobl sydd wedi bod yn gyfrifol am y system dreth, y system fudd-daliadau a'r macroeconomy ers iddynt gael eu hethol ar ffurf y glymblaid hon, a gwelsom y ffigurau yn newid yn sylweddol—yn mynd i'r cyfeiriad arall—cyn gynted ag y daeth y bobl hyn i Rif 10 a Rhif 11 Stryd Downing. Gallwch dwyllo eich hunain ond nid ydych yn mynd i dwyllo pobl Cymru pan ddaw'n bryd iddynt ddatgan eu barn ym mis Mai ac yn wir, ym mis Mai y flwyddyn ganlynol—
- 17:41 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, will you take another intervention? Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad arall?

17:41	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>The punitive welfare reform that we have seen, the regressive ideologically driven austerity and punishing policies, like the bedroom tax, that vindictive ideology aimed at the poor, ensure that the poor bear the burden of the recession and the rich get richer. They've done untold damage to the lives of young people in Wales, and I make these points, Deputy Presiding Officer, because this is the context in which the Welsh Government has to struggle and has to operate. We are picking up the bill for the coalition Government's reckless disregard for social justice.</p> <p>My colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty is leading this work, and she will shortly publish a revised child poverty strategy, focusing on reducing worklessness, increasing skills and reducing inequalities. As Minister of education, I am assisting in this work, and the tackling poverty action plan has clear targets, including improving educational attainment amongst pupils receiving free school meals. And we are already making important progress in this regard. We have already—</p>	<p>Mae'r diwygio lles cosbol rydym wedi'i weld, y caledi dinistriol wedi'i sbarduno gan ideoleg a'r polisïau llym, fel y dreth ystafell wely, yr ideoleg ddialgar honno a anelir at y tlawd, yn sicrhau mai'r tlawd sy'n ysgwyddo baich y dirwasgiad wrth i'r cyfoethog dyfu'n gyfoethocach. Maent wedi gwneud difrod ofnadwy i fywydau pobl ifanc yng Nghymru ac rwy'n gwneud y pwyntiau hyn, Ddirprwy Lywydd, am mai dyma'r cyd-destun y mae Llywodraeth Cymru yn gorfod brwydro a gweithredu ynddo. Ni sy'n talu'r bil am ddiffyg ystyriaeth ddi-hid y Llywodraeth glymblaid o gyfiawnder cymdeithasol.</p> <p>Mae fy nghyd-Aelod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn arwain y gwaith hwn a bydd yn cyhoeddi strategaeth tlodi plant ddiwygiedig cyn bo hir, i ganolbwyntio ar leihau diweithdra, datblygu sgiliau cynyddol a lleihau anghydraddoldebau. Fel Gweinidog addysg, rwy'n cynorthwyo gyda'r gwaith ac mae targedau eglur yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, gan gynnwys gwella cyrhaeddiad addysgol ymhlith disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Ac rydym eisoes yn gwneud cynnydd pwysig yn hyn o beth. Rydym eisoes wedi—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:42	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Will you take an intervention?</p>	<p>A wnewch chi dderbyn ymyriad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:42	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>In a second. We have already broken through our targets to improve the educational attainment at foundation phase, and I'm currently considering a new even more ambitious target as a result. I'll take the intervention.</p>	<p>Mewn eiliad. Rydym eisoes wedi rhagori ar ein targedau i wella cyrhaeddiad addysgol yn y cyfnod sylfaen, ac ar hyn o bryd rwy'n ystyried targed newydd hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol o ganlyniad. Fe gymeraf yr ymyriad.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:42	<p>Mark Isherwood Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. Why did child poverty in Wales start rising not after 2010, but after 2004? Why has Wales got higher child poverty levels than every English region except London?</p>	<p>Diolch yn fawr. Pam y dechreuodd tlodi plant yng Nghymru godi, nid ar ôl 2010, ond ar ôl 2004? Pam y mae gan Gymru lefelau tlodi plant uwch na phob rhanbarth yn Lloegr ac eithrio Llundain?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:43	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, look, I've already responded to these points, Deputy Presiding Officer. It is very clear to anyone who represents—most particularly those people who represent the more deprived communities in Wales—that this coalition Government has inflicted—[Interruption.]</p>	<p>Wel, edrychwch, rwyf eisoes wedi ymateb i'r pwyntiau hyn, Ddirprwy Lywydd. Mae'n glir iawn i unrhyw un sy'n cynrychioli—yn fwyaf arbennig y bobl hynny sy'n cynrychioli'r cymunedau mwy difreintiedig yng Nghymru—fod y Llywodraeth glymblaid wedi peri—[Torri ar draws.]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:43	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Order. Can we just have one Minister speak at a time? I don't think he needs help from his colleagues and it's very disruptive. Huw Lewis.</p>	<p>Trefn. A gawn ni un Gweinidog i siarad ar y tro? Nid wyf yn credu ei fod angen help gan ei gyd-Aelodau ac mae'n aflonyddgar iawn. Huw Lewis.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:43	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>That's the first time I've been heckled by my ministerial colleagues.</p>	<p>Dyna'r tro cyntaf i mi gael fy heddo gan fy nghyd-Aelodau gweinidogol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:43	<p>Leighton Andrews Bywgraffiad Biography</p> <p>Oh no it isn't. [Laughter.]</p>	<p>O, nage ddim. [Chwerthin.]</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

17:43 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That was far too quick.

The figures are there. The figures are independently verifiable that the direct results, particularly of the welfare policies of this coalition Government, have landed disproportionately upon the shoulders of the poorest families in the UK, Wales included. But, in Wales—

Roedd hynny'n llawer rhy gyflym.

Mae'r ffigurau yno. Mae modd gwirio'r ffigurau hyn yn annibynnol ac mae canlyniadau uniongyrchol polisïau lles y Llywodraeth glymblaid yn benodol wedi glanio i raddau anghymesur ar ysgwyddau'r teuluoedd tlotaf yn y DU, yn cynnwys Cymru. Ond yng Nghymru—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:44 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Minister take an intervention?

A wnaiff y Gweinidog dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:44 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Not just now. But, in Wales, the latest figures show that the performance of free-school-meal pupils has improved at all levels, and we have reduced the gap in attainment between these pupils and their counterparts at the foundation phase, at key stage 2 and at key stage 3. Very soon, we will see some of the fruits of the work of the pupil deprivation grant and of Schools Challenge Cymru—those two programmes in particular. I am being informed that some of the schools involved will show remarkable uplifts in terms of the attainment of the least well off young people in their care. Whilst I welcome that progress, we, of course, have very much more work to do. Our national literacy and numeracy framework is designed to help teachers embed literacy and numeracy into all subjects for learners aged five to 14. Our Schools Challenge Cymru programme is seeing 40 of our most challenged schools being supported by up to £20 million of additional funding, and the pupil development grant is being raised to over £1,100. Evidence from the first year evaluation of the PDG and Estyn suggests that schools are using the PDG effectively on the kinds of evidence-based initiatives advocated by the Welsh Government.

In terms of the call to introduce a young travellers' youth concessionary fare, we need to acknowledge that this Government has already announced a discounted travel scheme for 16 and 17-year-olds travelling to and from work and training. So, it would benefit us all if the opposition were to realise that was the case.

In terms of Flying Start, we've committed for 36,000 children to benefit by the end of this current Assembly term, and at the end of last December, just over 32,500 children had benefitted from Flying Start. I'm glad the Welsh Liberal Democrats support Flying Start. After all, it's been doubled in size, whilst Sure Start in England has atrophied under the Tory-Liberal Democrat Government—on their watch. Although this programme is targeted geographically, targeted areas are, of course, those that are most in need. It's targeted using income benefit data provided from the Department for Work and Pensions and HM Revenue and Customs.

Ddim ar hyn o bryd. Ond yng Nghymru, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi gwella ar bob lefel, ac rydym wedi lleihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y disgyblion hyn a'u cyfoedion yn y cyfnod sylfaen, yng nghyfnod allweddol 2 ac yng nghyfnod allweddol 3. Yn fuan iawn, byddwn yn gweld peth o waith y grant amddifadedd disgyblion a Her Ysgolion Cymru yn dwyn ffrwyth—y ddwy raglen honno'n benodol. Rwy'n deall y bydd rhai o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn dangos cynnydd rhyfeddol yng nghyrhaeddiad y bobl ifanc lleiaf cefnog yn eu gofal. Er fy mod yn croesawu cynnydd o'r fath, mae gennym lawer iawn mwy o waith i'w wneud, wrth gwrs. Lluniwyd ein fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol i helpu athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc ar gyfer dysgwyr pump i 14 oed. Mae ein rhaglen Her Ysgolion Cymru yn cefnogi 40 o'n hysgolion mwyaf heriol gyda hyd at £20 miliwn o arian ychwanegol, ac mae'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei godi i dros £1,100. Mae tystiolaeth o werthusiad blwyddyn gyntaf y Grant Amddifadedd Disgyblion ac Estyn yn awgrymu bod ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn effeithiol ar y mathau o fentrau seiliedig ar dystiolaeth a argymhellir gan Lywodraeth Cymru.

O ran yr alwad i gyflwyno tocynnau rhatach i deithwyr ifanc, mae angen i ni gydnabod bod y Llywodraeth hon eisoes wedi cyhoeddi cynllun gostyngiadau teithio ar gyfer rhai 16 a 17 oed sy'n teithio i ac o'r gwaith a hyfforddiant. Felly, byddai o fudd i ni i gyd pe bai'r gwrthbleidiau yn sylweddoli bod hynny'n digwydd.

O ran Dechrau'n Deg, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod 36,000 o blant yn elwa erbyn diwedd tymor cyfredol y Cynulliad, ac ar ddiwedd mis Rhagfyr diwethaf, roedd ychydig dros 32,500 o blant wedi elwa o fenter Dechrau'n Deg. Rwy'n falch fod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi Dechrau'n Deg. Wedi'r cyfan, mae wedi dyblu o ran maint, tra bo Sure Start yn Lloegr wedi crebachu o dan Lywodraeth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid—o dan eu goruchwyliaeth hwy. Er bod y rhaglen hon yn cael ei thargedu'n ddaearyddol, yr ardaloedd sydd wedi'u targedu, wrth gwrs, yw'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Cânt eu targedu drwy ddefnyddio data am incwm budd-daliadau a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:46 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Minister give way?

A wnaiff y Gweinidog ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:46	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	In a second.	Mewn eiliad.	Senedd.tv Fideo Video
17:46	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	There's no time, now.	Nid oes amser yn awr.	Senedd.tv Fideo Video
17:46	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	<p>The geographical rather than means-tested nature of Flying Start ensures a good rate of take-up by those who can most benefit from the programme. A wholly means-tested programme on an all-Wales basis would first of all deter many families from taking up such opportunities and would also, of course, be immeasurably more expensive to administer. At the same time, we recognise that there are families and children living outside Flying Start areas who would also benefit, and so we have developed the outreach element of the programme. It should be noted that other programmes, notably Families First, operate across all 22 local authorities.</p> <p>Now, just on Monday, I published a written statement setting out my vision for the new deal for the professional development of the teaching workforce. Leadership development is a fundamental part of that, and I will be looking at structures that will facilitate the delivery of the new deal. The establishment of a Welsh academy of education leadership—or under some other name, perhaps—would need to be considered in that wider context.</p>	<p>Mae natur ddaearyddol yn hytrach na phrawf modd Dechrau'n Deg yn sicrhau cyfradd dda o ddefnydd gan y rhai sy'n gallu elwa fwyaf o'r rhaglen. Byddai rhaglen sy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar brawf modd ar sail Cymru gyfan yn gyntaf oll yn atal llawer o deuluoedd rhag manteisio ar gyfleoedd o'r fath a byddai hefyd, wrth gwrs, yn llawer iawn drutach i'w gweinyddu. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod bod yna deuluoedd a phlant sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg a fyddai hefyd yn elwa, ac felly rydym wedi datblygu elfen allgymorth y rhaglen. Dylid nodi bod rhaglenni eraill, yn enwedig Teuluoedd yn Gyntaf, yn gweithredu ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol.</p> <p>Nawr, ddydd Llun diwethaf yn unig, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yn nodi fy ngweledigaeth am fargen newydd ar gyfer datblygiad proffesiynol y gweithlu addysgu. Mae datblygu arweinyddiaeth yn rhan sylfaenol o hynny, a byddaf yn edrych ar strwythurau a fydd yn hwyluso'r broses o gyflwyno'r fargen newydd. Byddai angen ystyried sefydlu academi Gymreig ar gyfer arweinyddiaeth mewn addysg—neu o dan enw arall, efallai—mewn cyd-destun ehangach o'r fath.</p>	Senedd.tv Fideo Video
17:47	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Draw to a conclusion, now, please.	Dewch i ben yn awr os gwelwch yn dda.	Senedd.tv Fideo Video
17:47	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	Coming to a conclusion, DPO.	Yn dod i ben, Ddirprwy Lywydd.	Senedd.tv Fideo Video
		<p>Under the Estyn inspection framework, inspectors already evaluate whether a school has appropriate policies in terms of the health of children, including healthy eating and exercise.</p> <p>I was going on to mention some of the figures around apprenticeships, DPO, but I think time is pressing. I think I have summarised a success story for Wales in very difficult circumstances. I'd conclude by saying that the aiding and abetting of the Tory party and the betrayal of young people that the Welsh Liberal Democrats have evidenced over the last few years, not just in terms of student support, but also the reprehensible destruction of the child trust fund—an act of unforgiveable spite, in my view—will finish them for a generation, in terms of the view of young people and parents across this country.</p>	<p>O dan fframwaith arolygu Estyn, mae arolygwyr eisoes yn gwerthuso a oes gan ysgol bolisiau priodol o ran iechyd plant, yn cynnwys bwyta'n iach ac ymarfer corff.</p> <p>Roeddwn yn mynd i sôn am rai o'r ffigurau mewn perthynas â phrentisiaethau, Ddirprwy Lywydd, ond rwy'n meddwl bod amser yn brin. Rwy'n credu fy mod wedi crynhoi hanes llwyddiant Cymru o dan amgylchiadau anodd iawn. Hoffwn gloi drwy ddweud y bydd y cymorth a'r anogaeth y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ei roi i'r blaid Doriaidd, a'r modd y maent wedi bradychu pobl ifanc dros y blynyddoedd diwethaf, nid yn unig o ran cymorth i fyfyrwyr, ond dinistr gresynus y gronfa ymddiriedolaeth plant yn ogystal—gweithred o falais anfaddeuol yn fy marn i—yn ddigon amdanynt am ghenhedlaeth, o ran barn pobl ifanc a rhieni ar draws y wlad.</p>	
17:48	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I will extend you the courtesy of equivalent extra time should you require it. I call on Kirsty Williams to reply to the debate.	Rwyf am gynnig yr un faint o amser ychwanegol i chi os bydd ei angen arnoch. Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.	Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Could I thank colleagues for their contribution to the debate this afternoon? We will be supporting the Conservative Party amendment and opposing the others.

Deputy Presiding Officer, I'm really glad that, in what have been extraordinarily challenging economic times, as a party, we have been able to prioritise the education of our poorest children. It's no coincidence, I think, that the Welsh word for 'school' and 'ladder' is 'ysgol'. Traditionally, as a nation, we have always seen the power of education to lift people: to raise them up out of difficult circumstances and to give them hope for a better future.

You know, I have listened to the Minister talk about the Liberal Democrats working hand in glove with the Tories, but let's be clear, Minister: it is by your party working hand in glove with the Liberal Democrats here that made that pupil deprivation grant or pupil premium possible. I saw no sign—no sign—of your Government prioritising education spending on our poorest children until those budget negotiations. If you were truly committed to it, you would be able to state now that, regardless of any future Liberal Democrat support for budgets in this place, you would continue with that funding, and you would continue to add to the value of that funding so our poorest children can get the very best start in life.

Lindsay, can I thank you for your heartfelt contribution, as always? You're right: actually, money in the pockets of parents is the best way in which we can address the circumstances of our children. Like you, I hope that we can move to a society where everybody is paid a living wage. But you know, from some of your own council colleagues, who employ a lot of people in Wales, how difficult sometimes that can be to achieve. What we have done as a party is ensure that those people on the lowest incomes can keep more of the money they earn by cutting their taxes. And 1.2 million Welsh people who are paying income tax on low earnings at the beginning of the Westminster Parliament are not paying it today because of changes to the tax system, and those numbers will continue to increase as the tax threshold rises and rises.

Paul Davies, thank you very much for your support for the emphasis on needing to ensure that our children are educated with regard to food and fitness. It's not only by investing in the pupil premium that we can get the educational attainment right, but we also have to acknowledge that, if we take a map of our poorest communities and overlay it with a map of our most unhealthy communities, with high levels of obesity, smoking and low levels of physical activity, those maps would be exactly the same. So, we need to ensure that our children have those skills, not just academically in the ability to read and write, but also to be able to look after themselves and make great choices. I thank you for your support for that. We will support your amendment. There's nobody in this Chamber more committed to ensuring that the pupil deprivation grant works than us here. We want that money to be spent on the children it is intended for, and therefore we will support the amendment.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i gyd-Aelodau am eu cyfraniad at y ddaid y prynhawn yma? Fe fyddwn yn cefnogi gwelliant y Blaid Geidwadol ac yn gwrthwynebu'r gweddill.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n falch dros ben yn yr hyn sydd wedi bod yn gyfnod economaidd hynod o heriol ein bod ni fel plaid wedi gallu blaenoriaethu addysg ein plant tlotaf. Nid wyf yn credu mai cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith mai'r gair Cymraeg am 'school' a 'ladder' yw 'ysgol'. Yn draddodiadol, fel cenedl, rydym bob amser wedi gweld grym addysg i godi pobl: eu codi allan o amgylchiadau anodd a rhoi gobaith iddynt am ddyfodol gwell.

Wyddoch chi, rwyf wedi gwrandao ar y Gweinidog yn siarad am y Democratiaid Rhyddfrydol yn gweithio law yn llaw â'r Torïaid, ond gadewch i ni fod yn glir, Weinidog: y ffaith fod eich plaid chi wedi gweithio law yn llaw â'r Democratiaid Rhyddfrydol yma a wnaeth y grant amddifadedd disgyblion a'r premiwm disgyblion yn bosibl. Ni welais unrhyw arwydd—unrhyw arwydd—fod eich Llywodraeth yn blaenoriaethu gwariant ar addysg ar ein plant tlotaf hyd nes y trafodaethau cyllidebol hynny. Pe baech yn ymroddedig iddo mewn gwirionedd, fe fydddech yn gallu datgan yn awr, heb ystyried unrhyw gefnogaeth gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn y dyfodol i gyllidebau yn y lle hwn, y bydddech yn parhau â'r cyllid hwnnw ac y bydddech yn parhau i ychwanegu at werth y cyllid er mwyn i'n plant tlotaf gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Lindsay, a gaf fi ddiolch i chi am eich cyfraniad o'r galon, fel bob amser? Rydych chi'n iawn: arian ym mhocedi rhieni yw'r ffordd orau mewn gwirionedd o fynd i'r afael ag amgylchiadau ein plant. Fel chithau, rwy'n gobeithio y gallwn symud at gymdeithas lle y caiff pawb gyflog byw. Ond fe wyddoch, gan rai o'ch cydweithwyr eich hun ar y cynghorau sy'n cyflogi llawer o bobl yng Nghymru, pa mor anodd weithiau y gall hynny fod i'w gyflawni. Yr hyn rydym wedi'i wneud fel plaid yw sicrhau y gall y bobl ar yr incwm isaf gadw mwy o'r arian a enilliant drwy leihau eu trethi. Ac nid yw 1.2 miliwn o'r bobl yng Nghymru a oedd yn talu treth incwm ar enillion isel ar ddechrau Senedd San Steffan yn ei dalu heddiw oherwydd newidiadau i'r system dreth, a bydd y niferoedd hynny'n parhau i gynyddu wrth i'r trothwy treth godi a chodi.

Paul Davies, diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth i'r pwyslais ar yr angen i sicrhau bod ein plant yn cael eu haddysgu mewn perthynas â bwyd a ffirwydd. Nid drwy fuddsoddi'n unig yn y premiwm disgyblion y gallwn gael cyrhaeddiad addysgol yn iawn, ond rhaid inni hefyd gydnabod os gosodwn fap o'n cymunedau tlotaf ar fap o'n cymunedau mwyaf afiach, gyda lefelau uchel o ordewdra ac ysmegu a lefelau isel o weithgarwch corfforol, byddai'r mapiau hynny'n union yr un fath. Felly, mae angen i ni sicrhau bod ein plant yn cael sgiliau, nid yn unig yn academaidd o ran y gallu i ddarllen ac ysgrifennu, ond hefyd i allu gofalu amdanynt eu hunain a gwneud dewisiadau gwych. Diolch i chi am eich cefnogaeth i hynny. Byddwn yn cefnogi eich gwelliant. Nid oes neb yn y Siambur hon yn fwy ymrwymedig i sicrhau bod y grant amddifadedd disgyblion yn gweithio na ninnau. Rydym am i'r arian gael ei wario ar y plant y'i bwriadwyd ar eu cyfer ac felly byddwn yn cefnogi'r gwelliant.

Eluned talked about the importance of skills at a later date to ensure that apprenticeships are available, and seeing apprenticeships as a tool to build upon education up to the age of 16 to give people the skills to access jobs. We know that, sometimes in politics, it can be difficult to take long-term decisions. We have to justify our existence. We want results tomorrow, but investing in the education of our poorest children in apprenticeships sets this country up for a better future in the longer term.

John Griffiths, I'm well aware of the concept of mum's taxis although, in my family, I have to admit, it's mamgu's taxi, but you're right: people with resources have the opportunity to provide those extra-curricular activities for their children. We have to find innovative ways of working with organisations to make those activities available for all our children. I think that there are lots of organisations out there that are committed to that and that try and keep the cost of membership and the cost of activities within their groups as low as possible. The Girl Guides, for instance, strive really hard to make sure that membership fees are low and that the activities that they're involved in are affordable. There are some very interesting examples in Western Australia about how the Government has worked with volunteer and independent sports clubs to make those activities more accessible to children. In my own constituency, for instance, we have the Mozart music fund, which raises money to ensure that, for those children who would benefit from music lessons but perhaps can't afford them—if they're really good or maybe not so good—there is a fund available to subsidise the ability to pay for lessons and to participate. So, there are lots of organisations. We need to get Government joined up with those organisations to exploit the opportunities that there are out there, because there are individuals in the third sector who are committed to this agenda, and we need to get the statutory sector to work with them to make the most of those opportunities.

As Liberal Democrats, we're committed to the principle of Flying Start. The evaluation report showed that, in some areas, there is excellent practice and it makes a palpable difference to the life chances of our youngest citizens and their parents. But the reality is, you can live in the same town and be in exactly the same circumstances as other people in that town, and you can have access and somebody else can't. We've got to find a smarter way of making sure that that money reaches the people who need it most. That should be left to the professional judgment of social workers, health visitors—the people who know families best—and not somebody sitting behind a desk in Cardiff who draws an artificial line on a map around a postcode.

With regard to Julie Morgan, I guess, Julie, what arises out of your contribution is: well, I look forward, then, to Ed Miliband and Ed Balls announcing the reintroduction of child benefit for those who pay the highest levels of tax, because I'm sure that would really make a difference to child poverty levels in Wales. Let's be clear. Whilst the Minister climbs down off his high horse, let's be absolutely clear what Ed Miliband has said. I quote

'You and I know we won't have the money.'

Soniodd Eluned am bwysigrwydd sgiliau yn ddiweddarach i sicrhau bod prentisiaethau ar gael, a gweld prentisiaethau fel arf i adeiladu ar addysg hyd at 16 oed er mwyn rhoi'r sgiliau i bobl gael swyddi. Weithiau mewn gwleidyddiaeth, gwyddom y gall fod yn anodd gwneud penderfyniadau hirdymor. Rhaid i ni gyfiawnhau ein bodolaeth. Rydym eisiau canlyniadau yfory ond mae buddsoddi yn addysg ein plant tlotaf mewn prentisiaethau yn gosod y wlad hon ar y trywydd i ddyfodol gwell yn y tymor hwy.

John Griffiths, rwy'n ymwybodol iawn o'r cysyniad o dacsis mam er mai taci Mam-gu yw hi yn fy nheulu i, rhaid i mi gyfaddef, ond rydych chi'n iawn: mae pobl sydd â'r adnoddau yn cael cyfle i ddarparu gweithgareddau allgyrsiol i'w plant. Rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd arloesol o weithio gyda sefydliadau i sicrhau bod y gweithgareddau hynny ar gael i'n holl blant. Rwy'n credu bod llawer o sefydliadau wedi ymrwymo i hynny ac yn ceisio cadw costau aelodaeth a chost gweithgareddau yn eu grwpiau mor isel â phosibl. Mae'r Geidiaid, er enghraifft, yn ymdrechu'n galed iawn i sicrhau bod tâl aelodaeth yn isel a bod y gweithgareddau y maent yn eu darparu yn fforddiadwy. Ceir rhai enghreifftiau diddorol iawn yng Ngorllewin Awstralia o sut y mae'r Llywodraeth wedi gweithio gyda chlybiau gwirfoddolwyr a chlybiau chwaraeon annibynnol i wneud y gweithgareddau'n fwy hygyrch i blant. Yn fy etholaeth fy hun, er enghraifft, mae gennym gronfa cerddoriaeth Mozart sy'n codi arian i sicrhau bod cronfa ar gael i blant a fyddai'n elwa o wersi cerddoriaeth ond nad ydynt efallai'n gallu eu fforddio—o ydynt yn dda iawn neu efallai heb fod cystal—i sybideiddio'r gallu i dalu am wersi a chymryd rhan. Felly, mae yna lawer o sefydliadau. Mae angen i ni sicrhau bod y Llywodraeth yn ymuno â'r sefydliadau hyn i wneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael, gan fod unigolion yn y trydydd sector wedi ymrwymo i'r agenda hon ac mae angen inni gael y sector statudol i weithio gyda hwy i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r fath.

Fel Democratiaid Rhyddfrydol, rydym yn ymrwymedig i egwyddor Dechrau'n Deg. Dangosodd yr adroddiad gwerthuso arfer rhagorol mewn rhai ardaloedd ac mae'n gwneud gwahaniaeth amlwg i gyfleoedd bywyd ein dinasyddion ieuengaf a'u rhieni. Ond y gwir amdani yw y gallwch fod yn byw yn yr un dref ac yn yr un amgylchiadau'n union â phobl eraill yn y dref honno a chael eich derbyn i'r rhaglen, er y bydd eraill yn cael eu gwrthod. Rhaid i ni ddod o hyd i ffordd gallach o wneud yn siŵr bod yr arian yn cyrraedd y bobl sydd ei angen fwyaf. Dylid gadael hynny i farn broffesiynol gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd—y bobl sy'n adnabod teuluoedd orau—nid rhywun wrth ddesg yng Nghaerdydd sy'n tynnu llinell artiffisial ar fap o amgylch cod post.

O ran Julie Morgan, rwy'n dyfalu, Julie, mai'r hyn sy'n codi o'ch cyfraniad yw hyn: wel, edrychaf ymlaen felly at weld Ed Miliband ac Ed Balls yn cyhoeddi eu bod yn ailgyflwyno budd-dal plant i'r rhai sy'n talu'r lefelau uchaf o dreth, oherwydd rwy'n siŵr y byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i lefelau tlodi plant yng Nghymru. Gadewch i ni fod yn glir. Wrth i'r Gweinidog ddringo i lawr oddi ar gefn ei geffyl, gadewch i ni fod yn gwbl glir ynglŷn â'r hyn yn mae Ed Miliband wedi ei ddweud.

'Rydych chi a finnu'n gwybod na fydd gennym yr arian.'

'For all of the cuts, all of the pain under this government, Britain still has a deficit to deal with and a debt to pay down.'

'That's why our programme starts with a binding commitment to balancing the books in the next government.'

Any borrowing you're planning to do isn't borrowing to pay for welfare or isn't borrowing to pay for services, so just be very clear about what your colleagues in Westminster have planned. Just be very clear what they've got planned. Here, what we have been able to do together is actually try to create opportunities via the pupil deprivation grant and via the concessionary fares scheme—and don't lecture me about reading the motion. Read the motion yourself. It's quite clear. We 'note' the fact that the concessionary fares scheme is to go ahead. It's to go ahead because we fought for it and we negotiated for it—yet another thing that your Government would not have done. So, I'm quite clear what the motion says. Read it yourself.

By working together and pooling good ideas, we can make a real difference to what happens to our young people in Wales. There is lots of money that this Government has spent in our poorest communities with our poorest families, but if that money was being spent successfully, why are those communities still poor? What is happening to ensure that the resources that we're spending are making a real difference? Those people whom I meet in those communities, what they want is the opportunity to have a decent education for their children, and they want the opportunity to work. They don't want smart alec words from Ministers like you.

'Er yr holl doriadau, yr holl boen o dan y llywodraeth hon, mae gan Brydain ddiffygi ymdopi ag ef o hyd a dyled i'w lleihau.'

'Dyna pam y mae ein rhaglen yn dechrau gydag ymrwymiad i gydbwysu'r llyfrau yn y llywodraeth nesaf.'

Nid yw unrhyw fenthycia rydych yn bwriadu ei wneud yn fenthycia i dalu am les na'n fenthycia i dalu am wasanaethau, felly byddwch yn glir iawn ynghylch yr hyn y mae eich cydweithwyr yn San Steffan wedi ei gynllunio. Yma, yr hyn rydym wedi gallu ei wneud gyda'n gilydd mewn gwirionedd yw ceisio creu cyfleoedd drwy'r grant amddifadedd disgyblion a thrwy'r cynllun tocynnau teithio rhatach—a pheidiwch â phregethu wrthyf ynghylch darllen y cynnig. Darllenwch y cynnig eich hun. Mae'n eithaf dir. Rydym yn 'nodi' y ffaith fod y cynllun tocynnau teithio rhatach yn mynd yn ei flaen. Mae'n mynd yn ei flaen am ein bod wedi ymladd drosto ac wedi negodi i'w gael—rhywbeth arall na fyddai eich Llywodraeth wedi'i wneud. Felly, rwy'n eithaf dir ynglŷn â'r hyn y mae'r cynnig yn ei ddweud. Darllenwch ef eich hun.

Trwy gydweithio a chyfuno syniadau da, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i'r hyn sy'n digwydd i'n pobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth hon wedi gwario llawer o arian yn ein cymunedau tlotaf gyda'n teuluoedd tlotaf, ond os yw'r arian yn cael ei wario'n llwyddiannus, pam y mae'r cymunedau hynny'n dal i fod yn dlawd? Beth sy'n digwydd i sicrhau bod yr adnoddau rydym yn eu gwario yn gwneud gwahaniaeth go iawn? Yr hyn y mae'r bobl rwy'n eu cyfarfod yn y cymunedau ei eisiau yw'r cyfle i gael addysg weddus i'w plant, ac maent am gael y cyfle i weithio. Nid ydynt eisiau clywed geiriau slic gan Weinidogion fel chi.

17:57

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting on this item until voting time. Voting time now follows.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Mae amser pleidleisio yn awr yn dilyn.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

17:57

6. Cyfnod Pleidleisio

6. Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote first on the debate by individual Members under Standing Order 11.21. I call for a vote on the motion tabled in the names of Mick Antoniw, Jocelyn Davies, Aled Roberts and Nick Ramsay. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 36, there were no votes against, and there were 14 abstentions. Therefore, the motion is agreed.

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes. Felly, byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar y ddadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enwau Mick Antoniw, Jocelyn Davies, Aled Roberts a Nick Ramsay. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 36 o blaid, nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn, ac roedd 14 yn ymatal. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 36, Yn erbyn 0, Ymatal 14.

Motion agreed: For 36, Against 0, Abstain 14.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5712](#)

[Result of the vote on motion NDM5712](#)

- 17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We'll now vote on the Welsh Conservatives' debate. I call for a vote on the motion tabled in the names of Darren Millar, Llyr Gruffydd and Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendment tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 25, there were no votes against, and there were 25 abstentions. Therefore, the motion is agreed.
- Byddwn yn awr yn pleidleisio ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Darren Millar, Llyr Gruffydd ac Aled Roberts. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 25 o blaid, nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn, ac roedd 25 yn ymatal. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.
- Derbyniwyd y cynnig: O blaid 25, Yn erbyn 0, Ymatal 25.* *Motion agreed: For 25, Against 0, Abstain 25.*
- [Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5728](#) [Result of the vote on motion NDM5728](#)
- 17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We'll now vote on the Welsh Liberal Democrats' debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Aled Roberts. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour four. There voted against 46. Therefore, the motion without amendment is not agreed, and we will now vote on the amendments.
- Byddwn yn awr yn pleidleisio ar ddadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 4 o blaid. Pleidleisiodd 46 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio wedi ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.
- Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 4, Yn erbyn 46, Ymatal 0.* *Motion not agreed: For 4, Against 46, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5727](#) [Result of the vote on motion NDM5727](#)
- 17:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. There voted against 16. Therefore, amendment 1 is agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 16 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.
- Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 16, Ymatal 0.* *Amendment agreed: For 34, Against 16, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5727](#) [Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5727](#)
- 17:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 21. There voted against 29. Therefore, amendment 2 is not agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 21 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi'i dderbyn.
- Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 21, Yn erbyn 29, Ymatal 0.* *Amendment not agreed: For 21, Against 29, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5727](#) [Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5727](#)
- 18:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 43; there were four votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.
- Galwaf am bleidlais ar welliant 3 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 43 o blaid; roedd 4 o bleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 3 wedi ei dderbyn.
- Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 43, Yn erbyn 4, Ymatal 0.* *Amendment agreed: For 43, Against 4, Abstain 0.*

18:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49; no votes against; there was one abstention. Therefore, amendment 4 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid; ni phleidleisiodd neb yn erbyn; roedd 1 yn ymatal. Felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 49, Yn erbyn 0, Ymatal 1.

Amendment agreed: For 49, Against 0, Abstain 1.

18:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5727 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5727 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod un ym mhob tri o blant yng Nghymru yn byw o dan y llinell dlodi.

1. Notes that one in three Welsh children live below the poverty line.

2. Yn nodi bod gan Gymru y lefelau cyrhaeddiad addysgol isaf yn y DU, sy'n cael effaith arbennig o negyddol ar gymunedau difreintiedig.

2. Notes that Wales has the lowest education attainment levels in the UK, which has a particularly negative impact on deprived communities.

3. Yn nodi bod cyfraddau gordewdra ymhlith plant, cyfraddau ysmegu ymhlith menywod ifanc a chyfraddau yfed alcohol ymysg pobl ifanc yn waeth yng Nghymru nag yn Lloegr.

3. Notes that childhood obesity, female youth smoking rates and youth alcohol consumption rates are worse in Wales than in England.

4. Yn nodi bod pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru yn yfed mwy o alcohol bob wythnos nag mewn unrhyw ran arall o'r DU.

4. Notes that Young people aged between 11 and 16 in Wales drink more alcohol each week than in any other part of the UK.

5. Yn nodi'r cynnydd a ragwelir yn nifer y plant sy'n byw mewn tldi i 3.4 miliwn ar draws y DU erbyn 2020 ac yn nodi hefyd effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar y cynnydd mewn lefelau tldi plant.

5. Notes the projected rise in the number of children living in poverty to 3.4 million across the UK by 2020 and further notes the impact of UK Government welfare reforms on rising child poverty levels.

6. Yn croesawu'r cytundeb cyllidebol diweddar rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywodraeth Cymru a fydd yn cynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion i £1,150 fesul disgybl, yn ymestyn y grant i blant o dan bump oed, ac yn cyflwyno tocynnau rhatach i deithwyr ifanc.

6. Welcomes the recent budget deal between the Welsh Liberal Democrats and Welsh Government which will increase the Pupil Deprivation Grant (PDG) to £1,150 per pupil, extend the PDG to under 5s, and introduce a Young Travellers' Youth Concessionary Fare.

7. Yn credu y dylai pobl gael eu grymuso i fyw'r bywyd y maent am ei fyw ac nad oes lle i laesu dwylo yn y frwydr i sicrhau cydraddoldeb i bawb.

7. Believes people should be empowered to lead the life they want to lead and there is no room for complacency in the battle to ensure equality for all.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

8. Calls on the Welsh Government to:

a) ddarparu mynediad at y fenter Dechrau'n Deg i bob plentyn yng Nghymru ar sail angen yn hytrach na lleoliad daearyddol;

a) provide access to the Flying Start initiative to all children across Wales on the basis of need rather than geographical location;

b) gwella'r system o ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a sicrhau ei bod yn symud ymlaen yn effeithlon o'r ddarpariaeth newydd o addysg gychwynnol i athrawon;

c) diwygio'r fframwaith Estyn i sicrhau bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar addysg a bwyta'n iach ac ymarfer corff mewn ysgolion;

d) canolbwyntio mwy o adnoddau ar annog pobl ifanc i roi'r gorau i ysmegu a mynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon;

e) sicrhau bod pob prentis yn cael hyfforddiant o'r safon uchaf sy'n rhoi cymwysterau cludadwy iddynt; ac

f) sicrhau bod ysgolion yn dangos tystiolaeth eu bod yn defnyddio'r grant amddifadedd disgyblion i helpu disgyblion o gartrefi incwm isel.

b) improve the system of continuous professional development for teachers and ensure it progresses effectively from new Initial Teacher Education provision;

c) amend the Estyn Framework to ensure that greater focus is given to education on healthy eating and exercise in schools;

d) focus more resources on the cessation of youth smoking and tackling illegal tobacco;

e) ensure that all apprentices receive the highest quality of training that provides them with portable qualifications; and

f) ensure that schools show evidence that they are using the PDG to help pupils from low-income households.

18:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Open the vote. Close the vote. There were no votes in favour; there were 42 votes against; there were eight abstentions. Therefore, the motion as amended is not agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Ni phleidleisiodd neb o blaid; pleidleisiodd 42 yn erbyn; roedd 8 yn ymatal. Felly, nid yw'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei dderbyn.

Gwrthodwyd cynnig NDM5727 fel y'i diwygiwyd: O blaid 0, Yn erbyn 42, Ymatal 8.

Motion NDM5727 as amended not agreed: For 0, Against 42, Abstain 8.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5727 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5727 as amended](#)

18:01

7. Dadl Fer: Darparu Difidend Datganoli ar gyfer Cymru Gyfan

7. Short Debate: Delivering a Devolution Dividend for the Whole of Wales

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 7 is the short debate, which has been postponed.

Eitem 7 yw'r ddadl fer, sydd wedi cael ei gohirio.

That brings today's proceedings to a close.

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:01.

The meeting ended at 18:01.